TAITH Y PERERIN:

NEU

SIWRNEU DYN

O'R BYD HWN

I'R BYD A DDAW

Dan Gyffelybiaeth

BREUDDWYD.

Yn yr Hwn a Dangoſir,

Yn gyntaf, y Môdd o'i gychwŷnſa ef.
Yn ail, ei Siwrneu ddyrŷs.
Yn drydydd, ei ddyfodiad or diwedd i'r wlâd ddymunol, Teŷrnas Nêf.

O wneuthuriad **John Bunyan**, yn Saeſnaeg.

Y Llyfr hwn a Argraphwŷd yn Saſnaeg bymtheg o weithiau, Ac unwaith or blaen yn gymraeg o gyfieuthad cymmŷſg duwŷlo.

Hwn ŷw'r ail Argraphiad yn gymraeg, a'r cyntaf o gyfieuthad, *Thomas Jones*.

Argraphwŷd yn y *Mwŷthig*, gan *Thomas Jones*
MDCLXXXXIX.

y milas [illegible] [illegible] [illegible]
[illegible] [illegible] [illegible]
y bwydydd rhain ar gwincedd da
Cedd Eli a gedia Jr galon

Cadwaladr. David ai Cant, 1740

a ddyd yn hargliwydd hylwydd hu
o lein [illegible] Ddiiw Jesu yw weision
Dyma ddiwedd pemill

Cadr; David

SION PRYS

TAITH Y PERERIN:

NEU

SIWRNEU DYN

FOR BYD HWN

I'R BYD A DDAW.

Dan gyffelybiaeth

BREUDDWYD.

AM fi yn Tramwŷ drwŷ anialwch y Bŷd hwn, daethŷm i rŷw fan lle'r oedd ogof, a gorweddais i lawr yno i gyſgu; A phan gyſgais Breuddwŷdiais freuddwŷd; yn Fy'mreuddwŷd gwelwn ddŷn llwm i ddillad yn ſefŷll ar fy nghyfer a'i wŷneb oddiwrth ei gartref, a llyfr yn ei law, a bauch mawr ar ei gefn; Edrychais a gwelais ef yn egor y Llyfr, ac yn darllain ynddo; A phan ddarllennodd ef, wŷlodd a chrynnodd rhag ofon. Ac am nad alleu ymattal ymhellach, efe a wa[illegible] odd yn uchel, ac a ddywedodd, pa beth a w[illegible]

[illegible] y cyſlwr hwnnw efe a ddychwe[illegible] ac a ymattalodd hwŷaf ag a gallodd, fel n[illegible] alleu ei wraig a'i blant mo'i gyſtudd, ond n[illegible] ef mo'r tewi yn hir; o herwŷdd fôd ei dry[illegible] chwantgu ynddo, ac o'r diwedd mynego[illegible]

 ſeddwi

feddwl a'i helbul wrth ei wraig a'i blant, ac fel hŷn a dechreuodd ddywedŷd wrthŷnt.

Fy anwŷl wraig a'm plant; Myfi eich anwŷl Dâd a amdwŷwŷd, o herwŷdd y bauch mawr ſŷdd arnaf agos a'm llethu; Ac heblaw hynnŷ mynegwŷd i mi yn hyſpŷs alloſgir ein Dinas hon a thân or Nefoedd; Ac yn y diniſtr dychrynllŷd hwnnw, myfi fy hun, a'm gwraig anwŷl, a chwitheu fy 'mhlant bychain, a ddifethir mewn môdd creulon, o ddigerth i ni gael (amgen nag a welai etto) rhŷw ffordd i ddiengŷd fel i'n gwaredir.

Ar hŷn, ei dylwŷth, a'i Geraint ef a ſynnaſant yn fawr, heb gredu er hynnŷ fod y pethau a lefarodd ef wrthŷnt yn wîr. Oblegit eu bôd hwŷ'n cybled, ei fôd ef gwedi gwallgofi; Ac am ei bôd hi yn hwŷrhau, a nhwŷthau yn gobeithio a ſefydlai cwſc ei ymmennŷdd ef, hwŷ a'i rhoddaſant ef yn ei welŷ ar frŷs: Ond yr oedd y nôs mor flin iddo ef a'r dŷdd; Ac am hynnŷ, yn lle cyſgu, fe a'i treuliodd hi mewn ocheneidiau a dagrau: A thranoeth pan a mynnent wŷbod pa fôdd yr oedd ef? Fe a'u hattebodd hwŷnt, ei fôd ef yn waeth o lawer nag o'r blaen; Ac fe a ddechreuodd ymddiddan a hwŷnt drachefn; Ond hwŷ a galedaſant eu calonnau yn erbŷn ei gynghorion ef, ac a geiſiaſant ſwrw ymmaith ei anhwŷl ef, trwŷ fôd yn afrowŷog ac yn ffyrnig tuag atto. Weithieu hwŷ a'i gwatworent ef, weithie hwŷ a ymryſonnent ag ef, ac weithie hwŷ a'i llwŷr ddibriſient ef: Ac am hynnŷ fe a ddechreuodd ymneillduo oddiwrthŷnt, ac a aeth iw ſtafell i weddio troſtŷnt, ac i doſturio wrthŷnt, ac i ymoſidio hefŷd am ei dgueni ei hun. Ac ar rŷw amſerau fe a rodiai ar ei ben ei hun yn y meuſŷdd, weithiau yn darllain, ac weithiau yn gweddio; Ac fel hŷn a treuliodd ef ei amſer tros rai dyddieu.

A

A phan oedd ef rŷw amſer yn rhodio yn y meuſŷdd, mi a'i gwelwn ef (yn ol ei arfer) yn darllen yn ei lyfr, yn gyſtuddiedig iawn ei yſprŷd, ac wrth ddarllain ſe a dorrodd allan megis o'r blaen, gan ddolefain, *Pa beth a wnaſi ſel a byddwŷf gadwedig?* Actau. 16. 30.

Mi ai gwelais ef hefŷd yn edrŷch ymma ac accw, fel pe buaſai yn ei frŷd ef ffoi ymmaith; Etto ſe a ſafodd yn ddiyſcog; Oblgit (fel a tybygwn i) nas gwŷddai ſe pa ffordd i fyned.

Yno mi a welwn ŵr (a'i enw *Eſangylwr*) yn neſu atto ef, ac yn goſŷn iddo, pa ham yr wŷt ti'n llefain? Yntef a'i hattebodd ef, Sŷr, 'rwi'n deall wrth y Llyfr ſŷdd yn fy llaw, fy môd i gwedi'm bwriadu i farwolaeth, ac ar ôl hynny i ddyfod ir Farn, ac nid wŷfi'n ewŷllyſgar i farw, nac yn abl i ymddangos yn y Farn: (*Hebreaid.* 9. 27. *Job.* 36. 20. *Ezeciel.* 22. 14.)

Yna ebŷr yr *Eſangylwr*, pa ham yr wŷt ti'n anewŷllyſgar i farw, gan ſod y bywŷd hwn mor llawn o helbul, (*Job.* 14. 1.) A'r Gŵr a'i hattebodd ef, am fy môd yn ofni, y gweſgir fi i lawr (gan y Bauch ſŷdd ar fy nghefn) yn îs na'r Bedd, ac a bŷdd i mi ſyrthio i uffern. (*Eſay.* 30. 33.) Ac Syr, os nid wŷfi gymmwŷs i fyned ir Bedd, llai o lawer yr wŷ'n barod i fyned ir Farn, ac oddi yno i lê y coſpedigaeth. A'r meddyllau ynghŷlch y pethau hŷn ſŷ'n peri i mi wŷlo.

Yna ebŷr yr *Eſangylwr*, ôs ydwŷt ti yn y cyflwr hwnnw, pa ham yr wŷt yn ſefŷll yn llonŷdd? Yntef a attebodd am na wn i i ba lê i fyned: yna ſe roes iddo rôl o Femrwn, ac yr oedd yn yſcrifennedig ynthi, ffowch rhag y digofaint a ſŷdd. (*Matthew.* 3. 7.)

Fe ddarllenodd y Gŵr y geiriau, a chan edrŷch ar yr *Eſangylwr* yn grâff, ſe a ofynnodd iddo, i

ba lé a ffôaf? Yna ebŷr yr *Eſangylwr*, (gan ddangos a'i fŷs tros Faes mawr) A weli di y porth bychan accw? Na welaf ebŷr y Gŵr. Yna ebŷr y llall, a weli di y Goleini diſclair accw? Yntef a'i hattebodd ef, mi dybygwn fy môd yn ei weled ef, Yna ebŷr yr *Eſangylwr* wrtho, cadw dy olwg yn waſtol ar y goleini accw, a dôs yn union tuag atto; Ac fellu a cei di weled y porth; A phan gurech wrtho fe ddangoſir i ti beth ſŷdd raid i ti ei wneuthur. (*Matthew.* 7. 14. *Pſalm.* 119. 105. *Joan.* 9. 39. 2 *Peter.* 1. 19.)

Yna mi a welwn y Gŵr yn dechreu rhedeg; Ac nid aethai fe'n-nhepell oddiwrth ei Dŷ ei hun, ond wele roedd ei wraig a'i blant (wrth ganfod hynnŷ) yn gweiddi ar ei ôl ef, gan alw arno i ddychwelŷd: Ond efe a oſododd ei fyſedd yn ei gluſtiau, ac a redodd ymlaen, gan grôch-waeddi, *Bywŷd, Bywŷd, Bywŷd Tragywŷddol*: Ac nid edrychodd ef yn ei ôl, ond fe ffôdd tua chanol y Gwaſtededd. (*Luc.* 14. 26. *Geneſis.* 19. 17.)

Y Cymydogion hefŷd a ddaethant allan iw weled ef yn pryſuro ymaith, ac fel yr oedd e'n bryſio, rhai a'i gwatwarent, eraill a'i bygwthient, a rhai a waeddent ar ei ôl ef, gan alw arno i ddychwelŷd adref: Ac ymhlith y rheini yr oedd Dau, a fwriadaſant trwŷ daerni ei berſwaedio ef i ddychwelŷd yn ôl; Enw un oedd *Cyndŷn*, ac Enw'r llall oedd *Meddal*. Ac erbŷn hŷn yr oedd y Gŵr wedi myned yn o-bell oddiwrthŷnt; Er hynnŷ yn ôl eu pwrpas, hwŷ a'i canlŷnaſant ef; Ac ofewn ychydig o amſer a'i goddiweddaſant ef. Yna ebŷr y Gŵr Fy nghymydogion, pa ham yr ydŷch chwi yn dyfod ar fy ôl i? Hwŷthau a'i hattebaſant ef, Ich cynghori chwi i ddyfod adref gŷda ni, nid allaſi (ebŷr yntef) wneuthur fellu, mewn môdd ŷn y Bŷd. Yr ydŷch chwi'n trigo (ebŷr ef) yn *Ninas*

Diſtrŷw

Diſtrŷw, (y llê heſŷd i'm ganwŷd inne) y rwi'n gwŷbod fôd y peth yn wîr; Ac os marw a wnewch chwi yno, chwi a ſuddwch yn îs na'r Bêdd, i lê ſŷ'n lloſci a thân a brwmſtan, (*Datcuddiad*, 21. 8.) Byddwch fodlon gan hynnŷ (fy'nghymydogion) a dowch ymlaen gŷda mi.

Bêth ebŷr *Cyndŷn*, a gadael ein cyfeillion, a'n meddiannau o'n hôl !

CRISTION Ie ebŷr Criſtion (canŷs fellu a gelwid ef) oblegit nid ŷw 'r cwbl, ar a adawoch chwi yn ôl yn deilwng iw cyſtadlu ag ychydig o'r pethau yr wŷfi yn ymegnio i fôd yn gyfrannog o honŷnt, (2 *Corinthiaid*, 4. 18.) Ac os dowch chwi gŷda mi i ben y ſiwrnai, chwi a gewch fwŷnhau yr unrhŷw bethau daïonus ag y fwŷnhâf finne, canŷs i mae digon a gweddill Iw gael, yn y llê yr wŷfi yn teithio tuag atto. (*Luc.* 15. 17.) Dowch a phrifiwch fy'ngeiriau.

Cyndŷn. Pa bethau yr ydŷch yn eu ceiſio a alloch eu meddiannu hwŷnt gan eich bôd yn ymadael a'r hôll Fŷd ?

CRISTION. Yr wŷfi'n ceiſio Etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a di.ddiflannedig; Yr hon ſŷ'nghadw yn y Nefoedd, ac yn ddiſiomgar yno, Iw rhoddi ar yr amſer nodedig ir ſawl a'i dyfal geiſiant hi. (1 *Petr.* 1. 4. *Hebreaid.* 11. 16.)

Cyndŷn. ffw, ebŷr *cyndŷn*, ymmaith a'ch llyfr, Attebwch i mi, a drowch chwi'n ôl gŷda ni a'i nis gwnewch ?

CRISTION. Na wnaf; (ebŷr Criſtion) canŷs mi a oſodais fy llaw ar yr Aradr. (*Luc* 9. 62.)

Cyndŷn. Dowch gan hynnŷ (ebŷr *cyndŷn*) fy'nghymydog *Meddal*, a dychwelwn adref hebddo: I mae brawdoliaeth o ddynnion penweinied, y rhain (pan dderbyniant rŷw opiniwn iw pennau) ydŷnt ddoethach yn eu Golwg eu hun na Seith

wŷr yn adrodd rheſwm.

Meddal. Peidiwch ag ymremial ebŷr *Meddal*, os gwîr a ddywaid ein cymmydog Criſtion, i mae'r pethau a mae efe yn eu ceiſio yn well na'r cwbl o'n meddiannau ni; Mi glown ar fy nghalon fyned gydag ef.

Cyndŷn. Pa Beth? mwŷ o ffylied fŷth? cymmer dy reoli gannifi, a thyred yn ôl; Pwŷ a wŷr, i ba lê i'th dywŷſir gan y fâth ddŷn pen yſgafn a hwn? dychwel dychwel, a bŷdd gall.

CRISTION. Nage ebŷr Criſtion, Rithr tyred ti *Cyndŷn* gyda'th gymydog *Meddal*, canŷs yn y llê yr wŷfi yn ymgeiſio myned iddo i mae'r cyfrŷw bethau iw cael ag a ſoniais i am danŷnt, ac amrŷw o bethau gogoneddus heblaw hynnŷ. Oni chloeliwch chwi fi, darllennwch ymma, yn y llyfr hwn ynghŷſch y pethau hŷnnŷ; Ac am wirionedd yr hŷn a fynegir yntho, wele y mae'r cwbl gwedi eu ſiccrhau a gwaed yr hwn a'i gwnaeth ef. (*Hebreaid* 9. 17, 18, 19, 20.)

Meddal. Wele Fy nghymydog *Cyndŷn* (ebŷr *Meddal*) 'rwi 'n dechreu ymroi yn fy meddwl i ymdeithio gyda'r Gŵr dâ ymma, a bwrw fy mlot. tiau i mewn gydag ef: Ond Fy 'nghyfaill anwŷl a wŷddoch chwi'r ffordd ir llê dymunol hwn?

CRISTION. Gŵr a'i enw *Efangylwr* a'm cyfarwŷddodd i, i dynnu tua phorth bychan ſŷdd o'n blaen, llê a danghoſir i ni y ffordd.

Meddal. Dowch gan hynnŷ Gymydog dâ, gadewch i ni gychwŷn: Yna hwŷ a æthant ill dau gydai gilŷdd.

Cyndŷn. Minne a ddychwelaf adref ebŷr *Cyndŷn*, ac ni byddafi Gydymaith ir cyfrŷw ddynnion gwallgofus ag a hudwŷd oddiar yr union ffordd.

A'r ôl i *Gyndŷn* ddychwelŷd, Mi a welwn Criſtion, a *Meddal*, yn myned ymlaen tan ſiarad

a'i

a'i gilŷdd [illegible] y gwaſtadedd, ac fel hŷn a dechruaſant eu hymddiddanion.

CRISTION. Fy nghymydog *Meddal* ebŷr Crlſtion, pa fôdd yr ŷch chwi? Mae'n ddâ gennif eich bod chwi wedi'ch perſwaedio i fyned gyda ni; Pa teimlaſeu Cyndŷn yntho ei hun, nerthoedd a dychrŷniadau y pethau ſŷdd etto yn anweledig megis a teimlais i hwŷnt, ni throeſai fe mo'i gefn arnom mor yſgafn.

Meddal. Fy nghymydog Criſtion, gan nad oes ymma nêb onid nyni'n dau, mynegwch i mi yr awron ymhellach pa rŷw bethau ſŷdd iw cael, yn y llê yr ydŷm ni yn myned tuag atto, a pha fôdd a mwŷnheir hwŷnt.

CRISTION. Gwell a gallaf eu Deall hwŷ yn fy meddwl na'u hadrodd hwŷnt a'm tafod: Etto gan eich bôd yn chwennychu eu cawŷbod, mi a ddarllennaf i chwi am danŷnt yn fy llyfr.

Meddal. A ydŷch chwi'n tybied fôd geiriau'ch llyfr chwi yn wîr.

CRISTION. Ydwŷf yn ſiccir, canŷs y digelwŷddog ŷw ei Awdr ef. (*Titus.* 1. 2. 2 *Timotheus.* 3. 16. 2 *Petr.* 1. 19, 20, 21.)

Meddal. Ond pa bethau ſŷdd iw cael gan ddelom i ben ein ſiwrnai.

CRISTION. Y mae Teŷrnas annherfynol i ni i breſſwŷlio ynthi, a bywŷd Tragywŷddol iw roddi i ni, fel a gallom drigo yn y Deŷrnas honno fŷth. (*Matthew.* 25. 34. *Joan.* 10. 27, 28, 29.) Y mae Coronau o Ogoniant iw cael yno hefŷd, a Gwiſgoedd a bair i ni ddiſcleirio fel yr Haul yn ffurfafen y Nefoedd, (2 *Timotheus.* 4. 8. *Datcuddiad.* 7. 9. *Matthew.* 13. 43.) Heblaw hŷn, ni bŷdd yno na newŷn, na ſyched, na marwolaeth, na gwŷlofain, na thriſtwch, na phoen, oblegit fe ſŷch Arglwŷdd y llê bôb Deigrŷn oddiwrth ein llygaid.

(

(*Datcuddiad.* 2 [illegible] & 7. 16.)

Meddal. A [illegible] Cyfeillion a gawn ni yno.

CRISTION. [illegible]awn fôd gyda *Seraphiaid* a *Cherubiaid*, ſef, Creaduriaid a bair i'n llygaid fritho wrth edrŷch arnŷnt, (*Eſaiah.* 6. 2.) Yno hefŷd y cyfarfyddwn a miloedd, a deng miloedd o rai, a aethant o'n blaen ni ir llê hwnnw; Nid oes yr un o honŷnt yn gwneuthur niweid iw gilŷdd, ond i maent yn bŷw yn gariadus ac yn ſanctaidd, bôb un yn rhodio yngwŷdd Duw, ac yn aros yn gymmeradwŷ yn ei wŷdd ef dros fŷth, (*Datcuddiad.* 5. 9, 10, 11. &. 4. 5. 1 *Theſſaloniaid.* 4. 16, 17.) Yno a cawn ni weled yr *Henuriaid* a'u Coronau aur ar eu pennau, (*Datcuddiad.* 4. 4.) Yno a cawn ni weled y *Gwŷryfon* ſanctaidd a'u Telynnau aur, (*Datcuddiad.* 14. 4.) Yno a cawn ni weled y rhai a ddryllwŷd gan y Bŷd yn ddarnau, a loſcwŷd yn y Tân, a fwŷttafwŷd gan fwŷſtfilod, ac a foddwŷd yn y Moroedd (am ei cariad at Arglwŷdd y llê) ôll yn holl-iach, gwedi eu dilladu ag Anfarwoldeb megis a Gwiſc, (*Joan.* 12. 25. *Datcuddiad.* 7. 14, 15. 2 *Corinthiaid.* 5. 1, 2, 3, 4, 5.)

Meddal. Y mae'r pethau hŷn yn ddigon, i ddwŷn calonnau Dynnion ar eu hôl: Ond pa fôdd Attolwg y down ni i fôd yn Gyfrannogion o honŷnt?

CRISTION. Llywŷdd y wlâd a yſcrifennodd yn y llyfr hwn, os byddwn ni yn wir ewŷllyſgar iw derbŷn hwŷnt, ele a'u rhŷdd hwŷnt i ni yn rhôdd ac yn rhâd. (*Eſaiah.* 55. 1. *Datcuddiad.* 22. 17.)

Meddal. Fy nghydymmaith anwŷl, mae'n hôff gennif glywed y pethau hŷn: Awn rhagom, a cherddwn yn gŷnt.

CRISTION. Y mae'r Baich ſŷdd ar fy nghefn yn fy rhwŷſtro i fyned cŷn gynted ag a dymmunwn.

Yr

Yr awron Mi a welwn, gwedi iddynt orphen eu hymddiddanion, nefau o honynt hwŷ at Gors ſiglennog, yr hon oedd ynghanol y Gwaſtadedd; A thrwŷ fôd yn wallus, hwŷ a ſyrthiaſant ill dau yn ddiſymmwth ir Gors (a'i Henw hi oedd *Cors Anobaith*) ac yno a buant hwŷ tros ennŷd yn ymdrybaeddu, gwedi eu diwŷno'n erchŷll gan y Dom; Ac ſe ddechreuodd Criſtion ſuddo yn y ſiglen, o achos y Baich oedd ar ei gefn ef.

Meddal. Ho! Ebŷr *Meddal*, ſy nghymydog Criſtion, ymmha lê yr wŷti yr awron.

CRISTION. Mewn gwirionedd ebŷr Criſtion, nis gwn i ymmha lê.

Meddal. Yna a cyffrodd *Meddal*, ac ſe a lefarodd yn ddigllon wrth ei Gydymmaith, gan ddywedŷd; A'l dymma'r Dedwŷddwch a grybwŷllaſoch chwi am danno yr hôll amſer hŷn? Os cawſom y fâth aſlwŷdd yn nechreuad ein Taith, pa beth a allwn ni ddiſgwŷl am dano rhwng hŷn a phen ein ſiwrnau? Os gallafi ond diangc o'r llê hwn yn fŷw, chwi a gewch o'm rhan i, feddiannu'r wlad ddâ eich hunan. Ac wedi ymdreinglo yn Egniol unwaith neu ddwŷ ſe ddaeth allan o'r ſiglen, ar yr yſtlŷs hwnnw o'r gors oedd yn neſſaf iw Dŷ ei hun: Ac fellŷ efe a aeth ymmaith, ac ni welodd Criſtion mono mwŷ.

Ac fel hŷn y gadawŷd Criſtion i ymdroi yn y pydew Anobaith ar ei ben ei hun: Fellu dan ymwthio fe a ymegniodd i ymluſco tua'r ochr hwnnw o'r Gors oedd bellaf oddiwrth ei Dŷ ei hun, a neſſaf i'r Porth cyfing: Ond gwedi gwneuthur fellu, nid alli fe ddyfod allan o'r Gors o achos y Baich oedd ar ei gefn.

Yna mi a welais ŵr yn dyfod atto, a Elwid Cynorthwywr, ac yn gofŷn iddo, pa beth yr oedd ef yn ei wneuthur yno?

CRISTION. Syr, ebŷr Criſtion, Gŵr a elwir *Eſangylwr* a archodd i mi fyned y ffordd ymma, ac fe a'm cyfarwŷddodd i hefŷd ir Porth bychan accw, fel a gallwn ffoi rhag y Digofaint a fŷdd, ac fel yr oeddwn i yn myned tuag yno, mi a ſyrthiais i mewn ymma.

Cynorthwywr. Ond pa ham nad edrŷchaſech chwi ar y llwŷbrau yn fanylach.

CRISTION. Dychrŷn a barodd i mi ffoi y ffordd neſſaf, ac fellŷ mi a ſyrthiais ymma.

Cynorthwywr. Moes i mi dy law ebŷr **Cynorthwywr**, a Chriſtion a roes iddo ef ei law: Ac efe a'i tynnodd ef ir lan, ac a'i goſodod ef ar Dîr caled, ac a barodd iddo gerdded ei ffordd ymlaen. (*Pſalm.* 40. 2.)

Gwedi hynnŷ mi neſſais at yr hwn a'i tynnaſai ef o'r Gors, ac a ofynnais iddo, Syr, gan fôd y ffordd yn ledio o Dolinas Diſtrŷw ir Porth accw trwŷ 'r llê ymma, pa ham na wellawŷd y man hwn, fel a gallai ymdeithwŷr tylodion ſiwrneio tuag yno yn ddioſalach? Yntef a'm hattebodd, y mae'r Gors front hon fellu nes a gallir ei gwellhau hi: Canŷs ir Gwaelod hwn, y mae'r hôll fudreddi fŷdd yn canlŷn ettogrwŷdd am bechod, yn rhedeg i wared yn Waſtadol; Ac am hynnŷ gelwir hi y Gors o Anobaith: Oblegit, er cynted ac y deffroir pechadur i weled ei gyflwr colledig, i mae llawer o Ddychrŷniadau ac Amheuon, a meddyliau anghyffurus yn cyfodi yn fynŷch yn ei Enaid ef; A'r rhain ôll ſŷ'n ymgaſglu ynghŷd, ac yn ymſefydlu yn y man hwn: A dyma i chwi'r rheſwm, pa ham y mae'r Llê ymma cynddrwg.

Nid ewŷllŷs y Brenin ŷw, fôd y ffordd hon cynddrwg ac y mae hi, (*Eſaŷ.* 35. 3, 4.) Ei Weithwŷr ef hefŷd (trwŷ gyfarwŷddiad y rhai oedd gan ei Fawrhydi ef yn Olygwŷr ar y brif-ffordd) a fuant

fuant er.ys dau-cant.ar.bymtheg o flynyddoedd yn gweithio ymma, i edrŷch a ellid gwellhau y clwtt Tîr hwn: Ie, ac myfi a wn(ebŷr efe) lyngcu ymma o'r lleiaf, fwŷ o lawer nag ugain mîl o Fennau, gwedi eu llwŷtho yn llawn ag hyfforddiadau iach us, a ddygwŷd ymma o amſer i amſer, o bôb man yn Nheŷrnaſoedd yBrenin, i brofi a ellid gwellhau 'r ffordd hon: A'r rhai a wŷddent beth oedd ei deunŷdd, a ddywedent, mae'r pethau goreu oeddŷnt, a'r a ellid eu cael, i wneuthur y Tîr hwn yn ſŷch ac yn galed. Eithr Cors Anobaith ydwŷ hi fŷth, ac fellu y bŷdd hi er gwneuthur o honŷnt eu goreu iw gwellau hi.

Gwir ŷw, fôd trwŷ gyfarwŷddiad Rhoddwr y gyfraith, rŷw Sarn fawr a chadarn wedi eu goſod rhŷd canol y Gors, fel y galleu pôbl trwŷ gammu fyned troſti; Ond pan fo'r llê ymma yn chwdu i fynu lawer o'j fudreddi (megis y mae'n gwneuthur ar newid y tywŷdd) yna braidd y gwelir y meini: Ac os canffyddir hwŷ, y mae Dynnion o herwŷdd gwendid eu pennau yn troi oddiarnŷnt, ac yno gwedi fyrthio ir Gors a diwŷnir hwŷnt yn rhyfeddol er bôd y cerrig yno fŷth: Ond y mae'r ffordd yn ddâ gwedi myned i mewn unwaith ir porth.

Yna mi a Welwn, fôd *Meddal* Erbŷn hŷn, gwedi dyfod yn ôl iw Dŷ ei hund A'i gymmydogion a ddaethant i ymweled ag ef: A rhai o honŷnt a'i galwaſant ef yn ŵr call am iddo ddychwelŷd adref; A rhai a'i galwaſant ef yn ffôl am ei fwrw ei hunan i berŷgl gyda Chriſtion, Ac Eraill a'i gwatwaraſant ef am ei fôd ef cŷn Winned ei galon, gan ddywedŷd Wrtho yn ddiau gwedi dechreu meiddio, ni ddylaſech chwi fôd mor ofnus a rhuſo am ychydig o anhawſder yn y ffordd. ac fellu dan oſtwng ei Wart fel crwŷdrŷn fe a Eiſteddodd *Meddal* i lawr yn ei plith hwŷnt.

Ond

Ond o'r diwedd, efe a ymhyfodd, ac a ddechreuodd gyda ei gymmydogion ddywedŷd yn ddrŵg am Griſtion (druan Gŵr) ac o'r tu cefn iddo, hwŷ a gŷd chwarddaſant am ei ben ef. A digon bellach am *Feddal*.

Yr awron, fel yr oedd Criſtion yn myned ymlaen, heb nêb gydag ef, efe a ganffŷddai ŵr o hirbell yn croeſi'r maes: A digwŷddodd iddŷnt gyfarfod ynghŷd yn y man hwnnw, lle'r oedd y naill yn croeſi ffordd y llall. Enw y Gŵr bonheddig a gyfarfu ag ef oedd *Meiſtr* Bydol Ddoethŷn, a thrigo yr oedd ef yn *Ninas Doethineb cnawdol* (Trêf fawr iawn) ac yn agos hefŷd ir llê a daethaſai Criſtion allan o honi. A'r Gŵr hwn a glywſai rŷw ſôn am dano, canŷs mynediad Criſtion allan o Ddinas Diſtrŷw a danneſid ar Lêd yn fawr, nid yn unig yn y Drêf lle yr oedd ef yn aros ynthi, ond hefŷd mewn amrŷw o Drefŷdd eraill oddiamgylch. Meiſtr Bydol Doethŷn, gan hynnŷ wrth ddal ſulw ar ei gerddediad cyflym ef, ac ar ei ocheneidiau, a'i ruddfannau ef, A'r cyffelŷb Argoelion eraill, a frith-dyblodd, mai hwn oedd Criſtion, ac efe a ddechreuodd ſiarad ag ef fel hŷn.

Bydol. Ddoethŷn. Fellu yr awron y Gŵr-dâ, I ba lê yr ydŷch chwi yn myned yn llwŷthog fel hŷn?

CRISTION. Rwi gwedi'm llwŷtho yn ddiau, cŷn doſted (im tŷb i) ac a llwŷthwŷd un creadur truan erioed: Ac yr wŷfi'n myned tua'r Porth bychân accw, ſŷ gyferbŷn a mi; Canŷs fe a ddywedwŷd wrthŷf, a cawn i gyfarwŷddiad yno pa fôdd i gael fy nilwŷtho o'm Baich pwŷsfawr.

Bydol. Ddoethŷn. A oes i ti wraig a phlant?

CRISTION. Oes, Ond yr wŷfi gwedi'm llwŷtho fellu a'r Baich ymma, fel nas gallaf ymhyfrydu ynthŷnt hwŷ megis gŷnt; Ie mi dybygwn

fy

fy môd fel pedfawn hebddŷnt. (1 *Corinthiaid* 7. 29.)

Bydol-Ddothŷn. A gymeri di gyngor gennifi, os rhoddaf ef i ti?

CRISTION. Gwnaf, os dâ ŷw dy gynghor, canŷs digon rhaid i mi wrtho.

Bydol-Ddoethŷn. Mi a fynnwn i ti gan hynnŷ, ymegnio i gael rhyddhad oddiwrth dy lwŷth gyntag allech; Oblegit ni byddi di bŷth yn Eſmwŷth yn dy feddwl, ac nid elli di Fwŷnhau lleſhâd oddiwrth y Bendithion a roes Duw i ti nes a gwnelŷch di fellu.

CRISTION. Dyna'r peth yr wŷfi'n ymorcheſtu am dano, ſêf, i gael fy nilwŷtho o'm Baich pwŷsfawr: Nis gallafi ei fwrw ef i lawr fy hunan: Ac nid oes nêb yn ein gwlâd a ddichon ei dynnu ef oddiar fy yſgwŷddau; Ac am hynnŷ yr wi'n têithio ar y ffordd hon fel y gallwŷf gael gwared o hono.

Bydol-Ddoethŷn. Pwŷ a barodd i ti fyned rhŷd y ffordd ymma, i gael ymadel a'th Faich?

CRISTION. Gŵr o wêdd parchedig ac an rhydeddus (yn fy ngolwg i) a'i Enw ef am yr wŷf yn ei gofio ŷw *Efangylwr.*

Bydol-Ddoethŷn. Ynghrog a bytho am ei gyngor, nid oes yn yr hôll Fŷd un ffordd yn fwŷ peryglus a blin na'r hon a cyfarwŷddodd ef dydi i ymdeithio ynthi; Ac di a gei briſio hynnŷ os dilyni di ei gyngor ef. Mi a welaf wrth Dom y Gors o Anobaith (ſŷdd yn glynu wrth dy ddillad) gael o honot ti beth trwbl euſus; Fithr nid ŷw r Gors honno ond dechreuad y gofudiau ſŷ'n canlŷn y fawl ſŷ'n ſiwrneio yn ŷ ffordd ymma. Gwrando arnafi, yr wi'n hŷn nâ thydi, mae'n debŷg a cyfarfyddi di ar y ffordd yr wŷt ti'n ymdeithio ynthi, a Lludded, Blinder, newŷn, peryglau, noethni, Cleddŷf, Llewod, Dreigiau, a Thywŷllwch, ac I

tôd

fôd yn fŷrr, a Marwolaeth, a chyſtuddiau anneirif eraill, y rhai nis gellir eu hadrodd. (*Actau.* 14. 22.) Y mae'n ddiame fôd hŷn ôll yn wîr; Canŷs fe ſiccrhawŷd y cwbl gan lawer o dyſtion: A pha ham a difethai Ddŷn ei hunan mor ddiofal trwŷ goeilio dŷn dieithr.

CRISTION. Syr, y mae'r Baich hwn ſŷdd ar fy nghefn, yn fwŷ brawychus i mi na'r cwbl ôll a grybwŷllaſoch chwi am danŷnt; Ie mi a dybygwn nas gwnawn i gyfrif yn y Bŷd o ddim a ddigwŷddai i mi yn y ffordd pa gallwn i gael ond fy nilwŷtho o'm Baich.

Bydol-Ddoethŷn. Pa fôdd y gwŷbuoſti ar y cyntaf dy fôd ti yn llwŷthog?

CRISTION. Wrth ddarllain y Llyfr ymma ſŷdd yn fy llaw.

Bydol-Ddoethŷn. Fellu yr oeddwn i yn tybied. Ac fe a ddigwŷddodd i ti wallgofi, megis ac y digwŷddodd i hobl anneallus eraill; Y rhai trwŷ ymhel a phethau ymmhell uwchlaw eu dealltwriaeth a gollaſant eu côf yn ddiſymmwth: Ac i mae'r cynddeiriogrwŷdd hwn, nid yn unig yn eu goſod hwŷnt mewn grâdd is nâ Dynnion (megis im tŷb i yr wŷt ti gwedi'th oſod gantho) y mae ef heſŷd yn eu gyrru hwŷnt ymlaen i feiddio ar bethau creulon, mewn amcan i feddiannu nis gwŷddant pa beth.

CRISTION. Myfi a wn beth ydŷw fy nymuniad i: Sêf cael fy Eſmwŷthau o'm Baich trwm.

Bydol Ddoethŷn. Pa ham yr wŷt ti yn ymorol am eſmwŷthâd yn y ffordd hon, gan fôd cymmaint o ei bŷdrwŷdd ynthi? Yn enwedig pan allwn ni (pettai gennit Ammynedd i wrando arnaf) dy gyfarwŷddo di i gael y peth yr wŷt yn ei chwennychu, heb y perygion a orfŷdd arnat ti dy daflu dy hunan iddŷnt yn y ffordd hon; Ie i mae'r cyn-

Cynnorthwŷad yn agos. Gwŷbŷdd hŷn ymmhellach, a cei di yn lle'r peryglon ymma lawer o Ddiogelwch a Charedigrwŷdd, a Bodlonrwŷdd os dilyni di fy nghyngor i.

CRISTION. Attolwg Syr Datcuddiwch i mi y dirgelwch hwnnw.

Bydol-Doethŷn. Wele i mae yn y pentref accw, a Elwir *Marwolder*, ŵr Bonheddig yn trigo a elwir *Deddfoldeb*; Yr hwn ſŷdd ŵr Deallus iawn, a Gair dâ iddo, ac efe a feidr ddilwŷtho pobl or fâth lwŷthau ac ŷw dy lwŷth di: Ie myfi a wn iddo wneuthur llawer o ddaioni yn yr achos ymma euſus: Ac heb law hŷn efe a feidr iachau y ſawl ſŷ'n agos a gwallgofi oblegid eu llwŷthau; Arto ef meddafi a gelli di ſyned, a chael help mewn ychydig o amſer; Nid ŷw ei Dŷ êf mor filltir oddiyma; Ac oni bŷdd ef ei hunan gartref, i mae gantho Fâb ieſangc glân, yr hwn a elwir *Gweddoldeb*, ac o ddywedŷd wrthŷt ti'r gwîr, fe a ddichon dy gynnorthwyo di cyſtal ar hên ŵr Bonheddig ei hunan; Yno meddafi a gelli di gael dy eſmwŷthau o'th Fauch; Ac onid wŷt ti'n bwriadu dychwelŷd yn ôl ith hên Drigfa (Ac yn ddiau nis mynnwn i ti wneuthur fellu) yna di a elli ddanfon am dy wraig a'th blant i ddyfod i fŷw gyda thi yn y pentref ymma; Llê a mae yr awron Dai heb Drigolion ynthŷnt; A thî a elli gael un o'r rheini am ychydig o Ardreth; I mae yno hefŷd ymborth dâ a newid fawr arno; Ac i wneuthur dy fowŷd yn ddedwŷddach di a ellî dy ſiccrhau dy hunan, a byddi di bŷwyno ymmhlith cymmŷdogion goneſt, mewn cymmeriad o'r goreu.

A hŷn yr oedd Criſtion yn Ammeu, ac efe a ymreſymmodd yntho ei hunan fel hŷn, os gwir a mae'r Gŵr Bonheddig hwn yn i ddywedŷd,

gwell i mi gymmerŷd ei gyngor ef? A chyda hynnŷ Ebŷr ef wrth Bydol Ddoethŷn, Syr dangoſwch i mi y ffordd i Dŷ y Gŵr goneſt hwn.

Bydol-Ddoethŷn. A Weli di y Brŷn uchel accw?

CRISTION. Gwelaf yn eglur ddigon.

Bydol-Ddoethŷn. Rhaid i ti fyned Wrth yſtlus y Brŷn accw; A'r Tŷ cyntaf yr elŷch atto ŷw ei Dŷ ef.

Fellu fe drodd Criſtion allan o'i ffordd, i fyned i Dŷ Meiſtr *Deddfoldeb*, i geiſio cymmorth: Ond gwedi neſſu at y Brŷn, wrth ei weled ef mor uchel, a bôd yr ochr neſſaf ir ffordd yn crogi allan yn geulan, efe a ofnodd fyned ymhellach, rhag ir Mynŷdd ſyrthio ar ei ben ef: Ac am hynnŷ fe a ſafodd yno yn llonŷdd, heb wŷbod pa beth a wnai. Yr oedd ei Fauch hefŷd (yn ei dŷb ef) yn drymmach yr awron nâ chŷnt, tra yr oedd ef yn ei ffordd. Daeth hefŷd fflammau o Dân allan o'r Mynŷdd, y rhai a wnaethant i Griſtion ofni a llofcid ef. (*Exodus* 19. 16, 18. *Hebrezid* 12. 21.) Ymma gan hynnŷ a chwŷffodd, ac a crynodd ef gan ofon. Ac yr awron roedd yn ddrŵg gantho, am iddo dderbŷn cyngor Meiſtr Bydol-Ddoethŷn. A chyda hynnŷ, fe a ganfu *Efangylwr* yn dyfod iw gyfarfod ef; Ac wrth ei Weled ef, fe ddechreuodd Wrido gan gywilŷdd. *Efangylwr* gan hynnŷ a ddaeth atto. ac a edrychodd arno ag Wŷneb-prŷd gerwin ac erchŷll, ac a ymreſymmodd a Chriſtion fel hŷn.

Efangylwr. Criſtion ebŷr ef, pa beth a wnei di ymma? Ond ni Wŷddau Criſtion pa beth a attebai iddo; Ac am hynnŷ efe a ſafodd dros ennŷd fechan yn fŵd gar ei fron ef. Yna a dywedodd *Efangylwr* ymhellach wrtho, onid tydi ŷw'r Dŷn a glywais i yn llefain yn gwŷnfamus o'r tu allan

i

i furiau Dinas Distrŷw.

CRISTION. Iê Barchedig Syr, Myfi ydŷw'r Dŷn hwnnw.

Efangylwr. Oni chyfarwŷddais i dydi ii ffordd sŷ'n arwain tua'r porth bychan?

CRISTION. Do Barchedig Syr ebŷr Cristion.

Efangylwr. Pa fôdd gar hynnŷ a cyfeiliornaist mor fŷan; Canŷs yr wŷt yr awron allan o'r ffordd?

CRISTION. Er cynted ac i daethŷm allan o Gors Anobaith, mi a gyfarfyddais a Gŵr Bonheddig, yr hwn a'm perswaediodd i, fôd un yn tario yn y pentret o'm blaen, a allai fy nadlwŷtho i o'm Bauch.

Efangylwr. Pa fâth ŵr ydoedd efe?

CRISTION. Yr oedd gwêdd Gŵr bonheddig ganddo, ac fe a siaradodd lawer a mi; ac o'r diwedd, gwnaeth i mi fôd yn fodlon i ddilŷn ei Gyngor ef; Ac fellu mi a ddaethum ymma: Ond pan welais uchder y Mynŷdd hwn, a'r modd y mae 'n crogi uwch-ben y ffordd. mi a ymatte-iais yn ddisymmwth oddiwrth fyned yn nessach atto, rhag iddo syrthio ar fy mhen.

Efangylwr. Pa beth a ddywedodd y Gŵr bonheddig hwnnw wrthŷch chwi?

CRISTION. Fe a ofynnodd i mi i ba le yr oeddwn yn myned, ac fe a m holodd i a oedd Teulu gennif? Ac mi a fynegais iddo fy môd i yr myned tua Mynŷdd *Seion*, a bôd ganni Deulu: Ond ebŷr fi, yr wŷfi mor llwŷthog gan y Bauch sŷdd ar fy nghefn fel nas galla ymhyfrydu ynthŷnt megis gŷnt.

Efangylwr. A pha beth a ddywedodd yntef ynghŷlch hynnŷ?

CRISTION. Fe am cynghorodd i geisio ymddilwŷtho yn fŷan; A' minneu a'i hattebais ef mai hynnŷ oedd dymuniad fy nghalon i:

Ac am hynny ebŷr fi, yr wi'n myned tua 'r porth [illegible], i gael gwŷbod pa lê a cafi ymwared. Yntef a ddywedodd wrthŷf a dangosai ef i mi well a nesach ffordd, ac a llai o beryglon ynddi, nag sŷdd yn y ffordd a gosodasoch chwi fi arni: Ar ffordd hon ebŷr ef a'ch dŵg chwi yn union i Dŷ Gŵr bonheddig a feidr ddilwŷtho pobl o'r fath lwŷthau a hwn, Fellu mi a'i coeliais ef, ac a drois ir ffordd hon, oddiar y ffordd yr oeddwn i arni trwŷ 'ch cyfarwŷddiad chwi, i edrŷch (yn rhŷw fodd) a gawn i esmwŷthdra oddiwrth fy mauch. Pan ddaethŷm ir llê hwn, a gweled y pethau sŷdd ymma, mi a ymatteliais oddiwrth fyned ymhellach, rhag ofn perŷgl: Ac yr awron nis gwn i pa beth a wnaf.

Efangylwr. Yna ebŷr Efangylwr, Sâf yn llonŷdd ychydig, a mi a yspysaf i ti eiriau Duw; Ac fellu fe a safodd gar ei fron ef yn ddychrŷnnedig. A Dywedodd Efangylwr wrtho fel hŷn. Edrychwch na wrthodoch yr hwn sŷdd yn llefaru. oblegid oni-ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaiar, mwŷ o lawer nis diangwn ni, y rhai ydŷm yn troi ymmaith oddiwrth yr hwn sŷdd yn llefaru o'r Nêf. (*Hebreaid* 12. 25.) A'r cyfiawn a fŷdd bŷw trwŷ ffŷdd; Eithr o tŷnn nêb yn ôl, nid ŷw fy enaid yn ymfodloni ynddo, (*Hebreaid* 10. 38.) Ac fe a gymhwŷsodd yr ysgrythyrau ymma at Griſtion fel hŷn; Dydi ydŷw'r Dŷn sŷdd yn rhedeg ir trueni hwn; Di a ddechreuaiſt ddiſtyru cyngor y Goruchaf, trwŷ droi oddiar ffordd tangneddŷf, ie o fewn ychydig i berŷgl damnedigaeth.

A'r hŷn fe a syrthiodd Criſtion i lawr wrth ei draed ef agos yn farw, gan lefain, Gwae fi! Canŷs darfu am danaf. Ac wrth weled hynny, fe ymaelodd Efengylwr yn ei law ddehau ef, gan ddywedŷd, Pôb pechod a Chabledd a Faddeuir

i Ddynnion, onid y cabledd yn erbŷn yr yſprŷd Glân, (*Matthew* 12. 31.) Na fŷdd Anghredadŷn ond Credadŷn: Yna yr ymadfŷwiodd Criſtion ych. ydig drachefen, ac a ſafodd yn ddychrŷnedig megis ar y cyntaf o flaen Efangylwr.

A chan fyned rhagddo, fe lefarodd *Efangylwr* wrth Griſtion, fel hŷn, Craffa yn well ar y pethau a adroddaf wrthŷt, ac myfi a ddangoſaf i ti yr awron pwŷ ydoedd yr hwn ath dwŷllodd di, a phwŷ hefŷd ydŷw yntef yr hwn ith ddanfonodd di atto.

Y Gŵr a gyfarfu a thi ŷw Bydol-Ddoethŷn, A dâ iawn a gelwir ef fellu, oblegit Yn gyntaf nid ŷw ef yn clywed blâs yn y Byd ar un mâth o athrawiaeth, ond yn unig ar athrawiaeth tuagat y Bŷd hwn; Ac am hynnŷ i mae fe'n cyrchu yn ddibaid i gynnulleidfa'r moeſgar, yn *Nhrêf Moeſgarwch.* (1 *Joan* 4. 5.) Ac yn ail, oblegit ei fôd ef yn caru yr athrawiaeth honno yn oreu, am ei bôd hi yn ei gadw ef yn well na dim arall rhag erlidiad, (*Galatiaid* 6. 12.) Ac o herwŷdd ei fôd ef o'r dymer gnawdol ymma, i mae fe'n ymdrechu i droi pobl oddiar fy ffŷrdd i er uniawned ydŷnt. I mae tri pheth ynghyngor y Gŵr hwn, ac a ddylit ti eu llwŷr ffieiddio.

Yn gyntaf, Ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd.

Yn ail, Ei ymdrechiad ef i wneuthur y groes yn gâs yn dy olwg di.

Yn drydŷdd, Ei waith ef yn goſod dy Draed di ar y ffordd ſŷdd yn Arwain i weinidogaeth Angeu.

Yn gyntaf, Rhaid i ti ffieiddio ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd; Ie a'th waith ditheu yn cytuno ag ef yn hynnŷ: Oblegit trwŷ wrando Cyngor Bydol-Ddoetnŷn, di a ddiſtyraiſt Gyngor

Ac am hynnŷ ebŷr fi, yr wi'n myned tua 'r porth [illegible], i gael gwŷbod pa lê a cafi ymwared. Yntef a ddywedodd wrthŷf a dangosai ef i mi well a nesach ffordd, ac a llai o beryglon ynddi, nag ŷdd yn y ffordd a gosodasoch chwi fi arni: Ar ffordd hon ebŷr ef a'ch dŵg chwi yn union i Dŷ Gŵr bonheddig a feidr ddilwŷtho pobl o'r fath lwŷthau a hwn, Fellu mi a'i coeliais ef, ac a drois ir ffordd hon, oddiar y ffordd yr oeddwn i arni trwŷ 'ch cyfarwŷddiad chwi, i edrŷch (yn rhŷw fodd) a gawn i esmwŷthdra oddiwrth fy mauch. Pan ddaethŷm ir llê hwn, a gweled y pethau ŷdd ymma, mi a ymatteliais oddiwrth fyned ymhellach, rhag ofn perŷgl: Ac yr awron nis gwn i pa beth a wnaf.

Efangylwr. Yna ebŷr Efangylwr, Sáf yn llonŷdd ychydig, a mi a yspysaf i ti eiriau Duw; Ac fellu fe a safodd gar ei fron ef yn ddychrŷnnedig. A Dywedodd Efangylwr wrtho fel hŷn. Edrychwch na wrthodoch yr hwn ŷdd yn llefaru. oblegid oni-ddiangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaiar, mwŷ o lawer nis diangwn ni, y rhai ydŷm yn troi ymmaith oddiwrth yr hwn ŷdd yn llefaru o'r Néf. (*Hebreaid* 12. 25.) A'r cyfiawn a fŷdd bŷw trwŷ ffŷdd; Eithr o tŷnn néb yn ôl, nid ŷw fy enaid yn ymfodloni ynddo, (*Hebreaid* 10. 38.) Ac fe a gymhwŷsodd yr ysgrythyrau ymma at Griſtion fel hŷn; Dydi ydŷw'r Dŷn ŷdd yn rhedeg ir trueni hwn; Di a ddechreuaiſt ddiſtyru cyngor y Goruchaf, trwŷ droi oddiar ffordd tangneddŷf, ie o fewn ychydig i berŷgl damnedigaeth.

A'r hŷn fe a ſyrthiodd Criſtion i lawr wrth ei draed ef agos yn farw, gan lefain, Gwae fi! Canŷs darfu am danaf. Ac wrth weled hynnŷ, fe ymaelodd Efengylwr yn ei law ddehau ef, gan ddywedŷd, Pób pechod a Chabledd a Faddeuir

i Ddynnion, onid y cabledd yn erbŷn yr yſprŷd Glân, (*Matthew* 12. 31.) Na fŷdd Anghredadŷn ond Credadŷn: Yna yr ymadfŷwiodd Criſtion ych. ydig drachefen, ac a ſafodd yn ddychrŷnedig megis ar y cyntaf o flaen Efangylwr.

A chan fyned rhagddo, ſe leſarodd *Efangylwr* wrth Griſtion, fel hŷn, Craffa yn weil ar y pethau a adroddaf wrthŷt, ac myfi a ddangoſaf i ti yr awron pwŷ ydoedd yr hwn ath dwŷllodd di, a phwŷ hefŷd ydŷw yntef yr hwn ith ddanfonodd di atto.

Y Gŵr a gyfarfu a thi ŷw Bydol-Ddoethŷn, A dâ iawn a gelwir ef fellu, oblegit Yn gyntaf nid ŷw ef yn clywed bâs yn y Byd ar un mâth o athrawiaeth, ond yn unig ar athrawiaeth tuagat y Bŷd hwn; Ac am hynnŷ i mae fe'n cyrchu yn ddibaid i gynnulleidfa'r moeſgar, yn *Nhrêf Moeſgarwch.* (1 *Joan* 4. 5.) Ac yn ail, oblegit ei fôd ef yn caru yr athrawiaeth honno yn oreu, am ei bôd hi yn ei gadw ef yn well na dim arall rhag erlidiad, (*Galatiaid* 6. 12.) Ac o herwŷdd ei fôd ef o'r dymer gnawdol ymma, i mae fe'n ymdrechu i droi pobl oddiar fy ffŷrdd i er uniawned ydŷnt. I mae tri pheth ynghyngor y Gŵr hwn, ac a ddylit ti eu llwŷr ffieiddio.

Yn gyntaf, Ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd.

Yn ail, Ei ymdrechiad ef i wneuthur y groes yn gâs yn dy olwg di.

Yn drydŷdd, Ei waith ef yn goſod dy Draed di ar y ffordd ſŷdd yn Arwain i weinidogaeth Angeu.

Yn gyntaf, Rhaid i ti ffieiddio ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd; Ie a'th waith ditheu yn cytuno ag ef yn hynnŷ: Oblegit trwŷ wrando Cyngor Bydol-Ddoethŷn, di a ddiſtyraiſt Gyngor

Diw. Ymdrechwch mêdd yr Arglwŷdd, am fyned i mewn trwŷ'r porth cyfŷng, Sêf y porth tua 'r hwn a cyfarwŷddais i dydi ar y cyntaf; Oblegit cyfŷng ŷw'r porth ſŷdd yn arwain ir Bywŷd, ac ychydig ŷw y rhai ſŷdd yn ei chael hi. (*Luc* 13. 24. *Matthew* 7. 14.) Ac yr awron ſe ddarfu ir Dŷn drŵg hwn dy droi di oddiwrth y porth bychan ymma ac oddiar y ffordd ſŷdd yn arwain tuag atto, gan dy ddwŷn di ofewn ychydig i Ddiſtrŷw. Caiha gan hynnŷ ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd, a ffieiddia dy hunan am wrando arno ef.

Yn Ail, Rhaid i ti ffieiddio ei Ddiwŷdrwŷdd ef i wneuthur y Groes yn Ddiyſtŷr yn dy olwg di; Canŷs di addyliit farnu fôl Dirmŷg er mwŷn Criſt yn fwŷ golud nâ thryſſorau'r Aipht. (*Hebreaid* 11. 25, 26.) Heblaw hŷn, Brenin y Gogoniant a fynegodd i ti a caiff yr hwn ſŷ'n ewŷllyſio cadw ei einios ei cholli hi; Ac mêdd efe, os daw nêb attafi, ac ni chaſâo ei Dâd, a'i Fam, a i Wraig, a'i Blant, a'i Frodŷr, a'i Chwiorŷdd, ie a'i Einioes ei hun hefŷd, ni all ef fôd yn Ddyſcŷbl i mi. (*Marc* 8. 34, 35. *Luc* 14. 26.) Ac am hynnŷ meddafi, rhaid i ti ddiflaſu ar yr Athrawiaeth honno a dderbyniaiſt oddiwrth Bydol Ddoethŷn, yr hwn a'th berſwaedlodd a bydde y peth hynnŷ yn Farwolaeth i ti, heb yr hŷn (mêdd y Gwirionedd ei hun) nid elli di gael bywŷd tragywŷddol.

Yn Drydŷdd, Rhaid i ti gaſhau ei waith ef yn goſod dy draed ti ar y ffordd ſŷdd yn arwain i weinidogaeth Angeu. Ac ynghŷlch hynnŷ, Rhaid i ti yſtyried at bwŷ yr anfonodd ef dydi, ac hefŷd mor anabl oedd y Gŵr hwnnw i'th waredu di oddiwrth dy Fauch.

Y Gŵr a elwir *Deddfoldeb*, (yr hwn i'th anfonwŷd atto, i geiſio Eſmwŷthâd) ŷw mâb y waſ-

wasanaeth ferch, yr hon sŷdd yr awron tan gaethiwed, (hi a'i phlant) ac mewn dirgelwch: hi ydŷw y Mynŷdd *Seinai* ymma, yr hwn a ofnaist dd rhag iddo syrthio ar dy Ben. (*Galatiaid* 4. 21 &c.) Yr awron os ydŷw hi a'i phlant yn gaethion, pa fódd a gelli di ddilgwŷl am gael dy wneuthur yn ŵr rhŷdd ganthŷnt hwŷ? Ac am hynny ni ddichon y *Deddfoldeb* hwn dy ryddhau di oddiwrth dy Fauch. Nis gwaredodd ef nêb Erioed etto, Ac nid oes tebŷg oliaeth a gwareda ef un Dŷn byth rhagllaw, oddiwrth Fauch ei Bechodau. Ni chyfiawnheir nêb trwŷ weithredoedd y ddeddf, canys ni ddichon pobl trwŷddŷnt hwŷ gael eu rhyddhau oddiwrth eu beichiau, (*Rhufeiniaid* 3. 20. *Actau* 13. 38, 39.) Ac am hynny, nid ŷw meistr Bydol Ddoethŷn ond Estron, a meistr *Deddfoldeb* ond Twyllwr, ac nid ŷw ei Fâb *Gweddoldeb* ond Rhagrithiwr (er tecced ei olwg a'i ymddygiad oddiallan) ac nis gallant hwŷ mo'th helpu di. Coelia fi, nid oes dim yn hôll drwst a dwndwr y Dynnion angall hŷn, ond amcan i'th siommi di o'th iechydwriaeth, trwŷ dy droi di oddiar y ffordd a gosodais i di arni. Ac wedi hynny fe groch-waeddodd *Efangylwr* am gadarnhâd o'r Nefoedd ynghŷlch y pethau a llefarasai ef am danŷnt: Ac yn y man daeth geiriau a thân allan o'r Mynŷdd, (tan yr hwn yr arhosodd Cristion druan Gŵr) y rhain a wnaethant i wallt ei ben ef sefyll i fynu. Y Geiriau oedd y rhain, Cynifer ac sŷ o weithredoedd y Ddeddf tan felldith y maent: Canys yscrifenwŷd, melldigedig ŷw pôb un nid ŷw yn aros yn yr hôll bethau a yscrifennir yn llyfr y Ddeddf, iw gwneuthur hwŷnt. (*Galatiaid* 3. 10.

Yr awron nid oedd Cristion yn Edrŷch am ddim ond marwolaeth; Ac fe a ddechreuodd waeddi yn alarus, gan felldithio yr amser yn yr hwn

a cyfarfu ef a meiſtr Bydol Ddoethŷn; Gan ei alw ei hunan fil o weithiau yn ffôl, am iddo wrando ar ei gyngor ef: A chywilyddio yn ddirfawr a wnaeth ef hefŷd, wrth feddwl i reſymmau cnawdol y Gŵr bonheddig ymma i orchfygu ef yn y fâth fôdd, fel a parent iddo droi oddiar y ffordd unïawn; Ac ar ôl hynnŷ fe a neſodd drachefn at Efangylwr, gan lefaru wrtho fel hŷn.

CRISTION. Syr Beth a dybygwch chwi? A oes obaith? A allafi ddychwelŷd etto, a myned i fynu at y porth bychan? Oni wrthodir fi am fy nhroſedd, ac oni yrrir fi yn ôl oddiyno drwŷ gywilŷdd? Mae yn ddrŵg gannif i mi wrando ar gyngor y Gŵr hwn; Ond a ellir maddeu fy mhechodau i etto?

Efangylwr. Yna dywedodd Efangylwr wrtho, i mae dy droſeddiad di yn fawr iawn; Canŷs di a wnaethoſt ddau ddrŵg; Di a adewaiſt y ffordd ddâ, ac a aethoſt i dramwŷ rhŷd llwŷbrau gwahardd: ddedig: Er hynnŷ di a gei dy dderbŷn gan y Gŵr ſŷdd wrth y porth; Oblegit mae ef yn ewŷllyſſio yn ddâ i ddynnion: Yn enwedig ebŷr ef gwilia rhag troi oddiar y ffordd drachefn, rhag dy nagcau o'r ffordd pan gynneuo ei lid ef ond ychydig. (*Pſalm* 2. 12.)

Yna yr ymrôdd Criſtion i ddychwelŷd; Ar Efangylwr (wedi iddo ei guſanu ef) a wênôdd arno, ac a ddywedodd Duw yn rhwŷdd wrtho. Fellu efe a aeth ymlaen ar frŷs, heb yngenŷd gair wrth un-dŷn ar y ffordd: Ac os gofynnai nêb ddim iddo, ni chaent atteb yn y bŷd oddiwrtho. Yr oedd e'n cerdded megis un yn troedio o hŷd ar Dir gwaharddedig; Ac ni allai ef ei dybied ei hun yn Ddiogel mewn un môdd, hŷd oni ddaeth ef drachefn ir ffordd a adawſai ef trwŷ gyngor Meiſtr Bydol Ddoethŷn; Ac fellu mewn

ennŷd

ennŷd o amſer, ſe a ddaeth o'r diwedd hŷd at y porth, lle'r yſcrifenwŷd y geiriau hŷn uwch ei ben Curwch ac fe agorir i chwi, (*Matthew* 7. 7, 8.) A chwedi curo mwŷ nag unwaith neu ddwŷ, fe a ddywedodd,

Dymmunwn egor y drŵs pur,
I mi bechadur truan.
Sŷ'n dwŷn gofud mawr, a phwŷs,
Nes cael Paradwŷs Wiwlan.

Os Egorŷd i mi a wneir,
I rwŷfi a'r fedeir canu,
Clod, Gogoniant, a mawl bŷth,
I ti'r Gwehelŷth Ieſu.

Ymmhen ennŷd, Daeth ir porth ŵr pwŷllog ſobr, a elwid *Ewŷllyſſwr dâ*, ac efe a ofynnodd, pwŷ ſŷdd yna? Ac o ba lê yr oedd ef yn dyfod? A pha beth a fynnai ef?

CRISTION. I mae ymma Bechadur truan, trwm lwŷthog; A dyfod yr wŷfi o Ddinas Diſtrŷw, ond yr wŷf yn myned i fynŷdd *Seion*, fel i'm gwaredir rhag y Digofaint a fŷdd. Am hynnŷ Syr yn gymmaint a chlywed o honof mae trwŷ'r porth hwn ŷw'r ffordd tuag yno, myfi a fynnwn wŷbod a ydŷchi'n ewŷllyſgar im gollwng i mewn?

Ewŷllyſſwr-Dâ. 'Rwi'n ewŷllyſgar ebŷr Ewŷllyſſiwr-Dâ, o'm hôll galon, ac ar hynnŷ fe a agorodd y porth.

A phan oedd Criſtion yn myned i mewn, Ewŷllyſſiwr-Dâ a'i cippiodd ef atto.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion, beth ŷw hŷn?

Ewŷllyſſiwr-Dâ. O fewn ychydig at y porth ymma ebŷr Ewŷllyſſiwr-Dâ, yr adeiladwŷd Caſtell cadarn, a *Belzebub* ſŷdd *Gapten* arno: Ac oddiyno,

I mae eſe a'i ſilwŷr yn ſeuthu ſaethau at y rhai ſŷ'n dyfod i fynu at y porth hwn, mewn bwriad iw lládd hwŷnt cŷn yr elont i mewn.

CRISTION. Weithian ebŷr Criſtion, i rwi'n ymlawenhau, ac etto yn dychrynu.

Ac wedi dyfod i mewn, gofynnodd y *Pothor* iddo Pwŷ oedd yr hwn a'i cyfarwŷddodd ef tuag yno?

CRISTION Efangylwr a harodd i mi ddyfod ymma a churo (fel a gwnaethum) ac fe a ddywedodd wrthŷf a cawn i wŷbod gennŷch chwi Syr, pa beth ſŷdd raid i mi eu gwneuthur.

Ewŷllyſſwr-Dâ. I mae drŵs egored wedi oſod o'th flaen di, ac ni ddichon néb ei gau ef.

CRISTION. Yr awron yr wŷfi'n dechreu medi ffrwŷth fy mhervglon.

Ewŷllyſſwr-Dâ. Ond pa fôdd a daethoſt di heb néb gyda thi?

CRISTION. Am nad oedd néb o'm cymmydogion yn gweled eu perŷgl, fel yr oeddwn i yn gweled fy mherŷgl fy hun.

Ewŷllyſſwr-Dâ. A oedd eich taith chwi yn hyſpŷs i néb o honŷnt?

CRISTION. Oedd, canŷs fy ngwraig a'm plant a'm gwelſant i yn cychwŷn, ac a alwaſant ar ty ôl, i geiſio gannif ddychwelŷd: Rhai heſŷd o'm cymmydogion a alwaſant arnaf i ddychwelŷd. Ond myfi a oſodais fy myſſedd yn fy nghluſtiau, ac a ddilynais fy ffordd.

Ewŷllyſſwr-Dâ. A ganlynodd néb o honŷnt chwychwi, i'ch perſwaedio i ddychwelŷd adref?

CRISTION. Do, *Cyndŷn* a *Meddal* a'm canlŷnaſant, ond pan welſant na thycciai mo'u cyngor hwŷnt, dychwelodd Cyndŷn dan laſhenwi, ond Meddal a ddaeth gyda mi, nes i ni ddyfod bŷd at Gors Anobaith, ac ni a gwŷmpaſom ynddi

yn

yn ddiſymwth: Ac ar hynnŷ, fy nghymmydog *Meddal* a ddigalonnodd, ac mis mynnai ſe fentro ymmhellach. Ac yna wedi codi o'r Gors, ar yr ochr neſaf at ei Dŷ ei hun, ſe a ddywedodd wrthŷf, a gallwn ni erddo ef feddiannu y wlâd dêg ſy hunan. Fellu ſe a aeth iw ffordd ei hun, a minneu a ddaethum rhŷd fy ffordd inneu, ac yno aeth ef ar ôl *Cyndŷn*, a minneu ir porth ymma.

Ewŷllyſſiwr-Dâ. Yna ebŷr Ewŷllyſſiwr dâ, ocho druan Gŵr! Ydŷw y Gogoniant Neſol mor wael yn ei olwg ef, ſel nad ŷw ef yn cyfrif a tâl y gogoniant hwnnw mor ymgais am dano, oblegit bôd ychydig o rwŷſtrau yn y ffordd tuag atto?

CRISTION. Myfi a ddywedais ebŷr Criſtion y gwîr am *Feddal*, a phe dywedwn i y cwbl o'r gwirionedd am danaf ſy hun, ſe gaid gweled, nad wŷfi well nag ynteu. Gwîr ŷw ſe a ddychwelodd iw Dŷ ei hun, a minneu heſŷd a drois i'r ffordd ſŷ'n arwain i Farwolaeth, wedi ſy ngwahadd i hynnŷ, trwŷ gyngor cnawdol Meiſtr Bydol-Ddoethŷn.

Ewŷllyſſiwr-Dŵ. Ho! a gyfarfu ef a chwi? Pa beth i Efe a fynnai i chwi fyned at Meiſtr *Deddfoldeb* i geiſio eſmwŷthdra. Twŷllwŷr ydŷnt hwŷ ill dau. A ddilŷnaſoch chwi ei gyngor ef?

CRISTION. Do, cŷn belled ac a meiddiwn: Mi a aethŷm i ymoſŷn am Meiſtr *Deddfoldeb*, hŷd oni thybiais a ſyrthiai'r Mynŷdd (oedd wrth ei Dŷ ef) ar fy mhen i: ac am hynnŷ ſe orfu i mi ymattal rhag myned y nhellach.

Ewŷllyſſiwr-Dâ. Fe ſu'r Mynŷdd hwnnw yn ddiniſtr i lawer, ac a fŷdd fellu etto i laweroedd. Dâ ydŷw i chwi ddiangc, ac nas malwŷd chwi yn chwilfrŷw gantho.

CRISTION. Yn ddiameu, ni wn i beth a ddigwŷddaſai i mi yno, oni bae i *Eſangylwr* ar awr ddâ gyfarfod a mi dracheſn, ſel yr oeddwn

yn

yn athriſt iawn yn dwŷs fyfyrio, beth a ddae o honof. Ond trugaredd Duw oedd ei ail ddyfodiad ef attafi; Oni bae hynnŷ ni ddaethwn ni bŷth ymma. Ond yr awron yr wŷf wedi dyfod, y fâth un ac ydwŷf, ſêf, Dŷn yn haeddu cael fy niſtrowio, gan y mynŷdd hwnnw, ac ni haeddwn i ſefŷll ymma fel hŷn, i ymddiddan a'm Harglwŷdd; O pa ffafor ŷw hŷn, fy môd er hynnŷ yn cael fynerbŷn i mewn ir llê hwn.

Ewŷllyſſiwr-Dâ. Nid ŷm ni yn edliw dim i nêb, er cymmaint a wnaethant hwŷ cŷn dyfod ymma; Ac nis bwrir monŷnt hwŷ allan er dim. (*Foan 6.* 37.) Ac am hynnŷ Griſtion anwŷl, Tyred gyda mi ychydig ymhellach, a mi a ddyſcaf i ti y ffordd, ſŷdd raid i ti fyned rhŷd-ddi; Edrŷch o'th flaen, a weli di y ffordd gûl accw? Dyna'r ffordd a dylit fynd rhŷd ddi; Fe a'i gwnaed hi gan y *Padriarchiaid*, Sêf yr uchel Dâdau, megis *Abraham*, *Iſaac*, &c. ar Prophwŷdi, Criſt a'i Apoſtolion, ac i mae hi cŷn unlawned ag a gallai Rheol ei gwneuthur hi. Dymma'r ffordd ſŷdd raid i ti ſiwrneio arni.

CRISTION. Ond ebŷr Criſtion, a oes yno draws ffŷrdd, trwŷ y rhai a geill Dŷn dieithr golli ei ffordd?

Ewŷllyſiwr-Dâ. Oes, i mae amrŷw o ffŷrdd yn dyfod ith ffordd di; Ond i maent hwŷ ôll yn geimion ac yn llydain: Ac wrth hŷn a gelli ddynabod yr iawn ffordd oddiwrth y croes ffŷrdd; I mae hi yn unig yn union ac yn gûl, a'r lleill yn geimion ac yn llydain. (*Matthew* 7. 13, 14.)

Yna mi a glywn Griſtion yn gofŷn i Ewŷllyſiwr-Dâ, a allai ef ei ddadlwŷtho o'r llwŷth oedd ar ei gefn; Canŷs hŷd yn hŷn ni chawſai ef wared o hono, ac nis gallai ef mewn môdd yn y Bŷd fwrw ei fauch i lawr heb help.

Yna Ewŷllyſſiwr Dâ a'i hattebodd ef gan ddywedŷd

wedŷd, ymfodlona i aros dan dy fauch, hŷd oni ddelŷch di ir llê o eſmwŷthâd, canŷs fe a gwŷmp oddiar dy geſn di yno o hono ei hun.

Yna dechreuodd Criſtion wregyſu ei lwŷnau, ac ymbarodtoi iw daith: A dywedodd Ewŷllyſſiwr Dâ wrtho, a dae ef at Dŷ y **Deonglwr**, (pan elai ef ychydig bach ymlaen oddiwrth y porth) Ac fe a barodd iddo guro wrth ei ddrŵs ef; A dywedodd wrtho, a dangoſai y Deonglwr iddo bethau rhagorol. A chwedi hynnŷ fe gymmerodd Criſtion ei gennad oddiwrth Ewŷllyſſiwr Dâ, ac yntef hefŷd a ddywedodd wrth Griſtion, bŷd dâ yr elŷch di.

Yna fe aeth Criſtion rhagddo, hŷd oni ddaeth ef at Dŷ y Deonglwr, lle a curodd ef lawer gwaith: O'r diwedd daeth un ir drws ac a ofynnodd, pwŷ oedd yno.

CRISTION. Syr ebŷr Criſtion, ymdeithŷdd ydwŷf: Ac fe a orchymynwŷd i mi gan un ſŷdd yn gydnabyddus a Gŵr dâ y Tŷ hwn alw ymma er lleſhâd i mi; Ac am hynnŷ myfi a ewŷllyſſiwn ymddiddan ag ef: Fellu fe a alwodd ŵr y Tŷ, ac yn y man fe a ddaeth at Griſtion, ac a ofynnodd iddo pa beth yr ydŷch yn ei geiſio ymma?

CRISTION. Syr ebŷr Criſtion, Dŷn wŷfi a ddaeth allan o D*dinas Diſtŷw*, ac yr wi'n myned tua Mynŷdd *Seion*; Ar Gŵr ſŷ'n ſefŷll wrth y porth ymhen y ffordd hon, a ddywedodd wrthŷf os galwn i ymma, a dangoſech chwi i mi bethau Godidog, y fâth ag a'm cynnorthwŷent yn fy Nhaith.

Deonglwr Yna ebŷr Deonglwr, Tyred i mewn; Ac mi a ddangoſaf yr hŷn a fŷdd buddiol i ti. A chwedi erchi iw wâs oleu canwŷll, fe a barodd i Griſtion i ddilŷn ef; Fellu ef a'i canlynodd i ſtafell ddirgel: Ac yn ôl gorchymŷn

ei Feiſtr, ſe agorodd y gwâs rŷw ddrŵs, ac yna ſe welai Griſtion lûn Gŵr ſobr iawn, wedi ei oſod i fynu wrth y pared, ac fel hŷn yr oedd ei wêdd ef. Yr oedd ei lygaid ef gwedi eu derchafu tua'r Nefoedd, yr oedd y llyfr goreu yn ei law ef, a chyfraith gwirionedd yn yſcrifenedig ar ei wefuſau ef, a'r Bŷd o'r tu cefn iddo; Yr oedd efe yn ſefŷll, fel ped faſai ſe yn dadleuo a Dŷnnion, ac yr oedd Coron o aur ynghrog uwch ei ben ef.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion, Beth ŷw yſtyr y peth hŷn?

Deonglwr. I mae'r Gŵr a ddodir allan trwŷ 'r llûn hwn, yn un o fil: Fe a ddichon genhedlu plant, ac eigor arnŷnt, a'u magu hefŷd pan enir hwŷnt. (*1 Corinthiaid* 4. 15. *Galatiaid* 4. 19. *1 Petr* 2. 2.) Ar llê a gwelaiſt di ef a'i lygaid gwedi eu derchafu tua'r Nêf, a'r llyfr goreu yn ei law, a chyfraith gwirionedd yn yſcrifenedig ar ei wefuſau; I mae hynnŷ yn dangos i ti, mai ei waith ef ydŷw gwŷbod a datcuddio pethau trwŷll i Bechaduriaid, Fel a gwelaiſt di ef yn ſefŷll, fel ped faſai yn dadleuo a Dynnion: A llê a gwelaiſt y Bŷd fel peth wedi ei daflu o'r tu cefn iddo, a bôd Coron yn crogi uwch ei ben ef; Y mae hynnŷ yn dangos i ti, fôd ei ddibriſiad, a'i ddirmŷg ef o'r pethau preſenol, o gariad i waſanaeth ei Feiſtr, yn ei ſiccerhau ef, a caiff ef ogoniant tragywŷddol yn iawn yn y Bŷd a ddaw. (*Petr* 5. 4.) Yr awron ebŷr Deonglwr, myfi a ddangoſais i ti y llûn hwn yn gyntaf; O herwŷdd y Gŵr a oſodir allan trwŷ'r golwg hwn, ydŷw yr unig Ddŷn a awdurdodwŷd gan Arglwŷd y llê yr wŷt ti yn myned tuag atto, ith arwain di trwŷ bôb man dyrŷs a gyfarfyddi di yn dy ſiwrnai: Ac am hynnŷ craffa yn ddŵys ar yr hŷn a ddangoſais i ti, a chofia yn fanwl y pethau a welaiſt, rhag i ti gyfarfod yn

dy

dy daith, a rhai a gymmero arnŷnt dy arwain dî yn yr iawn ffordd, er bôd eu ffordd hwŷ yn tywŷſo i farwolaeth.

Yna efe a ymaelodd yn ei law ef, ac a'i harweliodd ef, i yſtafell helaeth iawn, yr hon oedd yn llawn o lŵch, am nad yſcŷbeſid hi erioed; A chwedi edrŷch arni ennŷd fechan, ſe alwodd y Deonglwr am ŵr iw hyſgŷbo hi: A phan ddechreuodd ef yſgŷbo, ſe gododd cymmaint o lŵch o amgŷlch, ac a bu Criſtion agos a thagu gantho. Yna ebŷr Deonglwr wrth langces oedd yn ſefŷll gar llaw, *Dŵg ymma ddŵr*, a thaenella ef rhŷd yr yſtafell; A phan wnaeth hi hynnŷ, ſe yſgŷbwŷd ac a lanhawŷd y llê yn hyfrŷd.

CRISTION. Bêth ŷw meddwl hŷn ebŷr Criſtion?

Deonglwr. A attebodd, yr yſtafell hon ŷw calon dŷn, heb ei glânhau erioed gan râs hyfrŷd yr Efengŷl; Y llŵch ŷw ei bechod gwreiddiol ef, a'i lygredigaethau oddi-fewn, y rhain a halogaſant yr hôll Ddŷn: A'r hwn a ddechreuodd yſgŷbo ar y cyntaf ŷw'r Gyfraith: Ond yr hon a ddygodd ddŵr, ac a'i Taenellodd ef rhŷd yr Yſtafell ŷw'r *Efengŷl*: Yr awrhon llê gwelaiſt y llŵch yn hedeg fellu o bôb-parth yn y mannau ac a dechreuodd y cyntaf yſgŷbo (fel nad allai ef lanhau yr yſtafell, ond ei fôd ef ymron dy dagu dî) Sŷ'n dangos i ti, fôd y gyfraith, trwŷ ei gweithredîad, yn llê puro'r Galon (oddiwrth bechod) yn rhoddi achlyſur neu achos iddi i ymadfŷwio, i gaſglu grŷm, ac i gynyddu yn yr Enaid, ie, y prŷd hynnŷ pan ſo hi yn datguddio ac yn gwâhardd pechod, canŷs nîd ydŷw hi yn rhoddi gallu iw oſtwng ef. (*Rhuſeiniaid* 7. 8, 12. &c. 1 *Corinthiaid* 15. 56. *Rhuſeiniaid* 5. 20.)

A Thrachefn, megis ac a gwelaiſt langces yn taen

taenellu Dŵr rhŷd yſtafell, trwŷ yr hŷn a glánhawŷd hi yn hyfrŷd; I mae hynnŷ yn dangos i ti mai pan ddelo'r Efengŷl ir galon yn ei gwreiddiad hyfrŷd a rhagorol, yna meddafi, megis ac a gwelaiſt y llangces yn goſtwng y dŵſt, trwŷ daenelliad y Dŵfr rhŷd y llawr; Fellu hefŷd a gorchfygir, ac a daroſtyngir pechod, ac a ganheir yr enaid trwŷ ffŷdd yn yr Efengŷl, ac fel hŷn fe a wneir y Galon yn gymmwŷs i Frenin y Gogoniant i breſwŷlio ynthi. (*Joan* 15. 3. *Epheſiaid* 5. 26. *Actau* 15. 9.)

Yna mi a welais y Deonglwr yn dwŷn Criſtion erbŷn ei law i yſtafell fechan, lle yr oedd dau o blant bychain, yn Eiſtedd bôb un yn ei gadair, Enw yr hynaf oedd *Amhwŷllog*, Ac Enw'r llall oedd **Ammpnedd**. Mi a dybygwn fôd *Amhwŷllog* yn llawn o anfodlonrhwŷdd, ond yr oedd **Ammpnedd** yn llonŷdd iawn. Yna a gofynnodd Criſtion Pa ham yr oedd *Amhwŷllog* mor anfodlon? A'r Deonglwr a'i hattebodd ef a mynnai eu' Llywodraethwr hwŷ iddŷnt aros am ei bethau goreu ef, hŷd ddechreuad y flwŷddŷn neſſaf; Ond fe fŷn *Amhwŷllog* gael y cwbl yr awron, Ond i mae **Ammpnedd** yn fodlon i ddiſgwŷl hŷd yr amſer hwnnw.

Yna mi a welwn un yn dyfod at *Amhwŷllog*, ac yn dwŷn iddo dryſſor mewn cŵd, ac yn bwrw ei gŵd i lawr wrth ei draed ef: Yntef a'i cododd ef i fynu, ac a Lawenodd: Ac Heblaw hynnŷ fe a chwarddodd yn watwarus am ben **Ammpnedd**: Ond ar ôl gronŷn o amſer, mi a welwn ei fôd ef gwedi afradloni 'r cwbl, ac nad oedd gantho ddim wedi ei adel ond brattiau.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrth y Deonglwr, deonglwch i mi y matter ymma yn eglurach.

Deong

Deonglwr. Arwŷddion ŷw y ddau lange hŷn ebŷr y Deonglwr; *Amhwŷllog* ſŷ'n arwŷddo Dynnion y Bŷd hwn, ac **Ammŷneddd** ſŷ'n arwŷddo Dynnion y Bŷd a ddaw; Ac megis a gweli dſ ymma, ſe fŷnn *Amhwŷllog* gael y cwbl y flwŷddŷn hon, hynnŷ ŷw yn y Bŷd preſenol: Fellu i mae awŷdd Gwŷr y Bŷd hwn i gael ei hôll bethau dâ yr awron; Nis gallant hwŷ aros yn Eſmwŷth hŷd y flwŷddŷn neſſaf (hynnŷ ŷw hŷd y Bŷd a ddaŵ) am eu cyfran o bethau daionus; I mae'r Ddihareb honno (Gwell Aderŷn mewn llaŵ na Dau yn y coed) a mwŷ o bwŷs ynthi gyda hwŷnt, na r hôll dyſtiolaethau Duwiol ynghŷlch Daioni y Bŷd a tŷdd: Ac megis ag a gwelaiſt *Amhwŷllog* yn gwario'r cwbl ymaith yn fŷan, ac nad oedd dim o fewn ychydig o amſer wedi adel ganddo ond brattiau, fellu a bŷdd hi gyda phawb o'r fâth Ddynnion yn niwedd y Bŷd hwn.

CRISTION. Rwi'n Deall yr awron (Ebŷr Criſtion) mai **Ammŷneddd** ſŷdd ddoethaf; Yn Gyntaf o herwŷdd ei fôd ef yn fodlon i aros am y pethau goreu; Yn Ail oblegit a caiff ef fwŷnhau ei gyfran gogoneddus pan na bô dim gan y llall ond brattiau.

Deonglwr. Nage, chwi a ellwch anghwanegu rheſwm arall, ſêf o herwŷdd bôd Gogoniant y Bŷd a ddaŵ yn parhau dros fŷth; Ond i mae pethau'r Bŷd hwn yn myned ymaith yn ddiſymmwth. (*Diharebion* 23. 5.) Ac am hynnŷ nid oedd i *Amhwŷllog* gymmaint o achos i chwerthin am ben **Ammŷneddd**, ag oedd i **Ammŷneddd** i chwerthin am ben *Amhwŷllog*, er i *Amhwŷllog* gael ei bethau dâ yn gyntaf, ac na chafodd **Ammŷneddd** monŷnt ond yn ddiweddaf; Canŷs rhaid i *Amhwŷllog* roddi llê i Ddiweddaf, oblegid rhaid i Ddiweddaf gael yr amſer a ddaŵ: Ond nid ŷw diweddaf yn rhoddi

i ddim arall, canŷs nid oes peth arall i ddyfod yn ei lê ef; Rhaid gan hynnŷ, ir hwn a gaiff ei ran yn gyntaf, gael amſer hefŷd iw dreulio; Ond rhaid ir hwn a gaiff ei gyfran yn ddiweddaf ei chael hi dros fŷth; Ac am hynnŷ a dywedir am *Dleifes*, di a dderbyniaiſt dy Wŷnfŷd yn dy fywŷd, ac fellu *Lazarus* ei Adfŷd, Ac yr awron a diddenir ef, ac a poenir ditheu. (*Luc* 16. 25.)

CRISTION. Mi a welaf yr awron ebŷr Criſtion, mai gwell ŷw diſgwŷl am y pethau ſŷdd i ddyfod, na thrachwantu y pethau preſenol.

Deonglwr. Chwi a ddywedaſoch y gwir, canŷs y pethau a welir ſŷ tros amſer, ond y pethau ni welir ſŷ Dragywŷddol, (2 *Corinthiaid* 4. 18.) Ond er bôd y matter fellu, etto gan fôd y pethau preſenol a'n Blŷs cnawdol ni yn Gymmydogion agos iw gilŷdd; A thracheſn oblegit bôd y pethau i ddyfod, a'n Synhwŷrau cnawdol ni yn Ddieithraid iw gilŷdd, hynnŷ ŷw y rheſwm pa ham a mae y cyntaf o'r rhain yn dyfod mor fŷan i ymgyfeillachu a'u gilŷdd yn garedig, a bôd yr ail yn aros cŷn belled y naill oddiwrth y llall.

Yna mi a welais y Deonglwr yn ymaelŷd yn llaw Criſtion, ac yn ei ledio ef i fan lle yr oedd Tân wedi gynneu wrth fagwŷr, ac un yn ſefŷll wrtho yn bwrw llawer o ddŵr arno yn waſtadol iw ddiffodd ef, etto yr oedd y tân yn fflammio yn uwch ac yn boethach.

CRISTION. Bêth ſŷdd i ni iw ddeall wrth hŷn ebŷr Criſtion.

A'r Deonglwr a attebodd, y Tân hwn ŷw Grâs Duw wedi ei weithio yn y galon, a'r hwn ſŷ'n bwrw Dŵr arno iw ddiffodd ef, ŷw 'r Diaw. Ond lle gwelaiſt y tân yn lloſci yn uwch ac yn boethach er bwrw'r dŵfr arno, dydi a gei weled hefŷd yr achos o hynnŷ: Ac fellu fe a'i lediodd ef o

am

amgŷlch i ystlŷs arall y fagwŷr; Ac fe a welai yno ŵr a llestr yn ei law, o'r hwn yr oedd ef yn tywallt allan olew yn wastadol (etto yn ddirgel) ir tân.

CRISTION. Yna ebŷr Gristion, pa beth ŷw ystŷr y pethau ymma.

Deonglwr. Hwn ŷw Crist (ebŷr y Deonglwr) sŷdd yn wastadol ag olew ei râs yn cynnal y gwaith dâ, a ddechreuodd ef eusus ynghalonau ei bobl; ac am hynnŷ er a allo'r Diawl ei wneuthur, i mae eu heneidiau hwŷnt yn parhau yn rasol fŷth, (2 *Corinthiaid* 12. 9. *Philemon* 1. 6.) Ac llê a gwelaist y Gŵr yn sefŷll o'r tu ôl ir mûr, i faentumio y tân, i mae hynnŷ yn dangos i ti mai peth anhawdd ydŷw ir temptiedig weled pa fôdd yr ydŷs yn cynnal y grâs ymma yn eu heneidiau.

Myfi a gansum hefŷd y Deonglwr yn cymmerŷd Cristion drachefn erbŷn ei law, ac yn ei dwŷlo ef i fann hyfrŷd, llê yr adailadwŷd Llŷs gwŷch, a phrydferth ir golwg; Ac wrth edrŷch ar y Neuadd-dŷ hwn, fe a ymlawenychodd Cristion yn ddirfawr; Ac fe a welodd hefŷd rai yn rhodio ar nenn y Tŷ, wedi eu dilladu ôll a brethŷn aur; Yna ebŷr Cristion, a allwn ni fyned i mewn ir Tŷ hwn; Ond y Deonglwr a'i cymmerodd ef, ac a'i harweiniodd i fynu tua drws y Plâs; Ac wele yr oedd lliaws mawr o bobl yn sefŷll wrth y drws, megis rhai yn chwennychu myned i mewn, ond nis meiddient: Ac yr oedd Gŵr hefŷd yn eistedd yno yn o-agos ir drws wrth fwrdd, a llyfr a chorn dû yscrifennŷdd o'i flaen ef, i yscrifennu i lawr Enwau y sawl a aent i mewn ir llŷs; Ac fe a welai hefŷd lawer o Wŷr arfog, yn sefŷll ar y ffordd (oedd yn arwain ir Drŵs) iw chadw hi, wedi ymroi i wneuthur cymmaint o ddrŵg, a niweid ac a allent ir Dynnion a fynnent fyned i mewn, (*Actau* 14. 22. 2 *Timotheus* 3. 12.) A synnu a wnaeth Cristion

ar hŷn: O'r diwedd pan oedd pawb yn cillo yn ôl rhag ofon y Gwŷr arfog, fe welai Criſtion ddŷn ag wŷneprŷd Gwrol gantho, yn dyfod i fynu at yr hwn oedd yn eiſtedd yno i yſcrifennu, gan ddywedŷd wrtho, Syr, rhoddwch i lawr fy Enw i, a phan wnaeth ef hynnŷ, fe welai'r Dŷn yn tynu ei gleddŷf, ac yn goſod helm ar ei ben, ac yn rhuthro tua'r Drŵs ar draws y Gwŷr arfog, y rhai a ymoſodaſent yn ei erbŷn ef yn gynhwŷnol ag arfau angheuol: Ac nid allent hwŷ ei ddigalonni ef mewn mŵdd yn y Bŷd, ac am hynnŷ fe ymladdodd a nhwŷ yn ffyrnig; Ac fellu wedi cael ei glwŷfo ganthŷnt, a rhoddi amrŷw o friwiau iddŷnt, ſêf ir ſawl oedd yn ceiſio ei gadw ef allan, fe a wnaeth ei ffordd trwŷddŷnt hwŷ ôll, ac a ymwthiodd ymlaen ir llŷs: Ac ar hynnŷ clybwŷd llais hyfrŷd y rhai oedd yn y Llŷs, ſêf y ſawl oedd yn rhodio ar nenn y Tŷ, yn dywedyd,

Tyred, Tyred, i mewn yn wrol,
Ac ennilli fraint tragwŷddol.

Fellu fe a aeth i mewn, ac fe a'i gwiſcwŷd ef yno ar un-rhŷw Ddillad a nhwŷthau: Yna a gwenodd Criſtion ac a ddywedodd; Yn ddiamme mi dybygwn a gwn i beth ŷw yſtŷr a meddwl hŷn ſgŷd.

Yr awron ebŷr Criſtion, gadewch i mi fyned oddi-ymma; Nage ebŷr y Deonglwr, Aros hŷd oni ddangoſwŷf i ti ychydig ychwaneg, a chwedi hynnŷ di a gai fyned ith ffordd; Fellu fe ymaelodd yn ei law ef drachef, ac a'i harweiniodd i yſtafell dywŷll iwan, lle yr oedd Gŵr yn eiſtedd mewn cyffion o haiarn, wedi ei gau i fynu megis Aderŷn mewn rhwŷd.

Yr awron fe ellid tybied wrth edrŷch ar y

Dŷn

Dŷn, ei fôd ef yn athriſt iawn: Canŷs yr oedd ef yn eiſtedd a'i olygon tua'r Ddaiar, a'i ddwylo gwedi eu plethu ynghŷd; Ac yr oedd ef yn ocheneidio, fel pedfaſai ef ar dorri ei galon; Yna ebŷr Criſtion, pa beth ſŷdd i mi iw ddeall wrth hŷn? A'r hynnŷ fe a archodd y Deonglwr iddo ymddiddan a'r Dŷn.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrth y Dŷn, Pwŷ wŷti? yntef a'i hattebodd ef, yr wŷfi yr hŷn nid oeddwn gŷnt.

CRISTION. Pa beth a fuoſti gŷnt?

Dŷn. Dywedodd y Dŷn wrtho, mi a fum tros drô yn Broffeſſor têg blodeuog yn fy ngolwg fy hunan, ac yngolwg eraill hefŷd; Mi a dybiais unwaith fy môd i yn y ffordd ir Ddinas Nefol, ac yr oedd yn llawen gennif y prŷd hwnnw, pan feddyliwn yr awn i yno.

CRISTION. Ond pa beth wŷt ti yr awron?

Dŷn. Yr wŷfi yr awron yn Ddŷn ſŷdd yn llawn o Anobaith, ac fe a'm cauwŷd i ynthoy megis yn y cyffion haiarn ymma; Nis gallafi ddyfod allan o hono mewn môdd yn y bŷd.

CRISTION. Ond pa fôdd a daethoſt ir cyflwr hwn.

Dŷn. Peidio a wneuthum a gwilio a bôd yn ſobr: Myfi a adewais garreiau y ffrwŷn i gwŷmpio ar wddwf fy nhrachwantau; Mi a droſeddais yn erbŷn goleuni y Gair, a Daioni Duw; Myfi a ddigiais yr Yſprŷd glân, ac fe a ymadawodd a mi; Mi a demptiais y Diawl, ac fe a ddaeth attaf; Myfi a gyffrois Dduw i ddigofaint, ac fe a'm gadawodd i; A chaledais fy nghalon yn y fâth fôdd, fel nas gallaf edifarhau.

Yna ebŷr Criſtion wrth y Deonglwr, A oes dim gobaith ir fâth Ddŷn a hwn?

Gofŷn iddo ef ei hun ebŷr y Deonglwr.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrtho ef, a oes dim gobaith? Ond a gedwir di dros fŷth yn y fagl haiarn hon o Anobaith?

Dŷn. Nid oes ganni obaith yn y bŷd.

CRISTION. Pam hynnŷ? onid ŷw mâb y Bendigedig yn doſturiol iawn?

Dŷn. Myfi a'i hail-groeſ-hoeliais ef i mi fy hun; Mi a ddirmygais ei berſon ef, ac a ddibriſiais ei gyfiawnder ef, ac a fernais ei waed ef yn aflan, ac a laſhenwais yſpryd y grâs; Ac am hynnŷ nid oes un o'r addewidion ynghŷlch trugaredd yn perthŷn i mi; Ac nid oes dim wedi ei adael i mi yr awron ond y bygythion erchill ac ofnadwŷ, ynghŷlch coſpedigaeth ficcr, a phoethni tân, yr hwn a'm diſa i megis Gwrthwŷnebwr. (*Hebreaid 6. 6. Luc 19. 14, 27. Hebreaid 10. 28, 29.*)

CRISTION. Am ba bethau a dygaſoch eich hunan ir cyflwr hwn.

Dŷn. Am drachwantau, a meluſedd, a golud y Bŷd hwn; Ac myfi a addewais y pryd hynnŷ i mi fy hun lawer o hyfrydwch trwŷ eu mwŷnhau hwŷnt: Ond yr awron I mae pob un o honŷt yn fy nghnoi, ac yn fy yſu megis pryfed poethion gwenwŷnllŷd.

CRISTION. Oni elli di edifarhau, a dychwelŷd.

Dŷn. Duw a naccaodd i mi edifeirwch; Nid ŷw el air ef yn rhoddi dim gobaeth i mi I gredu; Ie ſe am cauodd i a'I law ei hun yn y rhwŷd haiarn hon: Ac ni ddichon hôll Ddynnion y Bŷd fy-ngollwng I aflan oddi ymma. O Tragywŷddoldeb! Tragywŷddoldeb! Pa fôdd a diodd-efaf y gofud a fŷdd arnaf, pan ddelwŷf i'th Fôr o dân annherfynol.

Deonglwr. Yna ebŷr y Deonglwr wrth Criſtion, coſia ddialedd y Dŷn hwn, a bydded

hŷn

hŷn yn rhybŷdd i ti tŷth.

CRISTION. Wele ebŷr Criſtion, I mae hŷn yn ofnadwŷ: Duw a'm cynnorthwŷo i, i wllio a bôd yn ſobr, ac i weddio fel a gallwŷf ochelŷd yr achos o ddrychineb y Dŷn hwn; Syr, onid ŷw hi 'n brŷd i mi fyned i'm ffordd bellach?

Deonglwr. Aros hŷd oni ddangoſwŷf i ti un peth ychwaneg, a chwedi hynnŷ di a gai fyned ith ffordd.

Fellu ſe ymaelodd yn llaw Criſtion drachefn, ac a'i harweiniodd ef i yſtafell, lle yr oedd un yn codi o'i welŷ; Ac fel yr oedd ef yn gwiſco ei Ddillad, yr oedd e'n crynu ac yn ofni: Yna ebŷr Criſtion pa ham a mae 'r Dŷn ymma yn crynu fel hŷn? A'r Deonglwr a barodd iddo fynegu i Griſtion yr achos o'i ddychryndod; Yntef ar hynnŷ a adroddodd wrtho freuddwŷd a welſai ef y noſon honno; Mi a welais ebŷr ef y Nefoedd yn duo yn ddirfawr, (*Matthew* 24. 29.) 'Bu hefŷd daranau a mellt mor ofnadwŷ ag a crynais i gan ofn. A chwedi edrŷch i fynu, mi a welais y cymylau yn ymrwŷgo mewn môdd anarferol; Ac ar hynnŷ myfi a glywais uchel lais udcorn, ac a welais ŵr hefŷd yn eiſtedd ar Gwmwl, a miloedd neu Lu y Nefoedd gydag ef; Yr oeddent hwŷ ôll megis Tân fflamllŷd, Yr oedd y Nefoedd hefŷd ar Dân poethlud. (1 *Theſſaloniaid* 4. 16. *Daniel* 7. 10, 13. *Judis* 14, 15. 2 *Theſſaloniaid* 1. 7, 8. 2 *Petr* 3. 10.) Yna mi a glywais lêf yn dywedŷd wrth y Meirw, Cyfodwch a dowch ir Farn: A chyda hynnŷ y Creigiau a holltwŷd, y Beddau a agorwŷd, a'r Meirw oedd ynthŷnt a ddaethant allan: Yr oedd rhai o honŷnt yn llawen iawn, ac yn edrŷch tuag i fynu; Ond rhai a geiſiaſant ymguddio dan y Mynyddoedd, (*Jsa* 5. 28, 29. *Luc* 21. 28. *Datcuddied* 6. 16, 17.) Yna mi a welais y Gŵr, oedd

yn eiſtedd ar y Cwmwl, yn agorŷd llyfrau, ac yn erchi ir Bŷd neſu. (*Matthew* 25. 32. *Datcuddiad* 20. 12, 13.) Etto yr oedd o achos y fflam danllŷd oedd yn dyfod o'i ſiaen ef, ennŷd o lê rhyngtho ef a hwŷnt, megis rhwng y Barnwr ar yr orſeddfaingc a'r Carcharorion wrth y Barr; Myfi a glywais hefŷd gyhoeddi (ir ſawl oedd yn canlŷn y Gŵr oedd yn eiſtedd ar y Cwmwl) Ceſglwch ynghŷd yr Efrau, a'r us, a'r Soſl, a bwriwch hwŷnt ir llŷn o Dân, (*Matthew* 13. 30 & 3. 12. *Malachi* 4. 2.) Ac a'r hynnŷ yr ymegorodd y pwll di.waelod, yn union ynghŷlch y ſann yr oeddwn i yn ſefŷll arno; A daeth llawer o fŵg, a marwor tanllŷd, a chrochleiſiau dychrynllŷd allan o'i ſafn; A dywedwŷd hefŷd wrth y gweinidogion, Ceſglwch fy 'ngweinith i'm yſcubor, (*Matthew* 13. 30.) Ac ar hynnŷ mi a welais gippio llawer i fynu, a'u dwŷn ymmaith ir Cymmylau, ond fe a'm gadawŷd i yn ôl, (*1 Theſſaloniaid* 4. 17.) Minneu hefŷd a ymdrechais i ymguddio, ond nis gallwn i Oblegid fôd y Gŵr oedd yn eiſtedd ar y Cwmmwl yn cadw ei olwg arnaf yn waſtadol; Fy mhechodau hefŷd a ddaethant im côf, a'm Cydwŷbod oedd yn fy nghyhuddo am danŷnt (*Rhuſeiniaid* 2. 15.) Ar hŷn Mi a ddeffrois o'm cwſc.

CRISTION. Ond pa beth a wnaeth i chwi fôd mor ofnus wrth weled y pethau hŷn?

Dŷn. Meddwl a wneuthŷm fôd Dŷdd y Farn wedi dyfod, a'm bôd inneu yn amharod erbŷn y Dŷdd hwnnw; Ond hŷn a'm dychrynodd i fwŷaf, ir Angylion gaſclu llewer i fynu, a'm gadel i yn ôl; Pwll uffern hefŷd a agorodd ei ſafn wrth y mann llê yr oeddwn i yn ſefŷll; Heb law hŷn yr oedd fy nghydwŷbod yn fy nhrallodi, ac (fel a tebygwn i) yr oedd y Barnwr yn cadw ei olwg arnaf yn waſtadol, gan ddangos llidiawgrwŷdd

yn

yn ei wŷnebpŷd.

Deonglwr. Yna ebŷr y Deonglwr wrth Gristion, A ystyriaist di y pethau hŷn ôll?

CRISTION. Do ebŷr Cristion, ac i maent yn perl i mi obeithio, ac ofni.

Deonglwr. Wele, cadw dithau 'r cwbl fellu yn dy gôt, fel a gallont fod megis symbylau yn dy ystlysau, i'th bigo di ymlaen yn y ffordd sŷdd raid i ti fyned rhŷd-ddi: Yna dechreuodd Cristion wregysu ei lwŷnau ac ymbarodtoi i gychwŷn; Yna ebŷr y Deonglwr, Cristion anwŷl! Y Diddanŷdd a fyddo gyda thi bôb amser, i'th gyfarwŷddo di yn y ffordd sŷ'n arwain ir Ddinas Nefol.

Fellu Cristion a aeth ymlaen rhŷd ei ffordd dan ganu.

Ymma gwelais bethau buddiol,
Pethau ymheuthŷn, a rhyfeddol,
Pethau hyfrŷd, ac ofnadwŷ,
Pethau i'm gwneuthur yn safadwŷ.

Glynu a wnelwŷf bôb mynudŷn,
Yn y pethau a ymaelais ynthŷn:
Rhaid im gofio, ac ystyried,
O herwŷdd pam a ces eu gweled.

A bydded i mi bŷth (dan amod
Tra bo ynof Rŷm a chwŷthod)
Roddi Diolch i ti beunŷdd,
Am dy gariad, fy nehonglŷdd.

Yr rwon mi welais yn fy mreuddwŷd, fôd y brifffordd (yr hon oedd yn rhaid i Gristion fyned rhŷd-ddi) wedi ei chau o'r ddau tu a mur, ac Enw 'r mur oedd iechydwriaeth, (*Esay* 26. 1.) Cristion gan hynnŷ a redodd i fynu rhŷd y ffordd hon

hon, ond nid heb anhawſder mawr, o achos y Bauch oedd ar ei gefn ef.

Fe a redodd hŷd oni ddaeth ef i lê oedd yn ychydig allt, ac yr oedd *Croes* yn ſefŷll ar y mann hwnnw; Ac ychydig bach îſlaw hynnŷ, yn y goriwared yr oedd Bêdd: Yna mi a welais yn fy mreuddwŷd (wedi i Griſtion ddyfod i fynu at y Groes) fôd ei fauch ef wedi ollwng oddiar ei yſc. wŷddau, Ac ar hynnŷ fe a ſyrthiodd oddiar ei Gefn ef, ac a ddechreuodd dreinglo, ac a barhaodd yn gwneuthur fellu hŷd oni ddaeth ef i eneu y Bêdd, lle a ſyrthiodd ef i mewn iddo, ac ni welais i mono mwŷ.

Yna a llawenychodd Criſtion, ac fe a lefarodd a chalon gyſurus gan ddywedŷd, Trwŷ ei ofud ei hun a'i farwolaeth a rhoddodd ef eſmwŷthdra a bywŷd i mi; Yna fe a ſafodd ennŷd yn llonŷdd, gan edrŷch a rhyfeddu; Canŷs yr oedd yn rhyfedd gantho iw olwg ar y Groes ei eſmwŷthau ef o'i Fauch fel hŷn. Am hynnŷ efe a edrychodd, ac a edrychodd drachefn, hŷd oni tharddodd Dyfroedd allan o'i Ben ef i wared rhŷd ei ruddiau (*Zacharia* 12. 10.) Ac fel yr oedd ef yn edrŷch ac yn wŷlo fe a wele Dri o rai diſclair gogoneddus yn dyfod atto, ac yn cyfarch gwell iddo, gan ddywedŷd Tangneddŷf i ti: A dywedodd y cyntaf wrtho, o Griſtion! Maddeuwŷd i ti dy bechodau, (*Matthew* 9. 2.) A'r All a ddioſcodd ei Frattiau oddiam dano, ac a'i gwiſgodd ef a Dillad newŷdd, (*Zacharia* 3. 4.) A'r Trydŷdd a oſododd nôd ar ei dalcen ef, ac a roddodd blŷg-lyfr iddo, a ſêl arno; Ac a archodd iddo edrŷch ar hwnnw wrth ymdeithio, a'i roddi ef i mewn ymhorth y Ddinas Nefol, (*Epheſiaid* 1. 13.) Ac ar ôl hynnŷ hwŷ a aethant ymaith, a Chriſtion a neidiodd dair gwaith o lawenŷdd, ac a aeth ymlaen dan ganu.

Mi

Mi ddaethum hŷd yn hŷn mewn gofud,
Dan ddirfawr Fauch fy mhechod enbŷd;
Yn llwŷthog iawn, heb gaffael canfod,
Dim a allai elinwŷtho 'nhrallod.

Daethum ymma dan ofudio;
Ac 'rwi'n cael fy llwŷr gyfuro;
A raid ir lle bendigaid ymma,
Ddechrau fy hapufrwŷdd mwŷa?

A'i ymma fŷrth fy mauch aflawen,
Yn rhŷdd, yn rhwŷdd oddiar fy nghefen?
A'i ymma torrir y rheffynnau,
A rwŷmodd hwnnw ar fy 'fcwŷddau?

Bendigaid Groes, a Beddrod buddiol!
Yn hytrach tra bendigaid bythol
A fo'r Gŵr a aeth yn un-fwŷdd,
Er fy mwŷn i oddef gwradwŷdd.

Yna mi a we'lais Griſtion yn myned ymlaen, hŷd ani ddaeth ef i orlwared, lle gwelodd ef (ychydig allan o'r ffordd) dri o wŷr yn cyſgu 'ndrwm, a'u Traed a'u ffetheiriau arnŷnt; A'u Henwau oedd *Angall*, *Diog*, a *Rhyſŷg*.

Griſtion Wedi eu gweled hwŷnt yn gorwedd fellu, a aeth attŷnt, i edrŷch a allai ef eu dihuno hwŷnt; Ac a waeddodd gan ddywedŷd, yr ydŷch chwi ymma fel rhai yn cyſcu ar ben hwŷl-bren, ac i mae y môr marw, ſef y pwll di-waelod, oddiyanoch, (*Diharebion* 23. 34.) Deffrowch gan hynnŷ, a dowch ymaith: Byddwch ewŷllyſgar hefŷd, ac myfi a'ch rhŷddhaf chwi o'ch heirn; Dywedodd hefŷd wrthŷnt, os y Diawl ſŷ'n rhodio oddiamgylch fel Llew rhuadwŷ, a ddaw heibio, chwi a fyddwch yn ddiammeu yn yſclyfaeth iw Ddannedd

ef

ef, (1 *Petr* 5. 8.) A'r hynnŷ hwŷ a edrŷchaſant arn o. ac a'i hitteb iſant ef fel hŷn: *Angall* a ddywedodd wrtho, Ni welaſi ddim perŷgl; *Diog* a ddywedodd, etto ychydig heppian; A *Rhyſŷg* a ddywedodd, Rhaid i bôb lleſtr ſefŷll ar ei waelod ei hun; Ac fellu hwŷ a orweddaſant i lawr i gyſcu drachefn, a Chriſtion a aeth iw ffordd.

Etto yr oedd yn flin gantho ef feddwl i wŷr oedd yn y perŷgl hwnnw ddibriſio ei garedigrwŷdd ef, gan iddo gynnig eu helpu nhwŷ mor rhwŷdd ac mor rhâd, trwŷ eu deffroi a'u cynghori, a dangos ei Ewŷllŷſgarwch iw rhyddhau nhwŷ o'u heirn; Ac fel yr oedd ef yn ymofudio ynghŷlch hynnŷ, fe ganfu ddau ŵr yn dyfod yn drwſgwl dros y mur, ar y llaw aſwŷf ir ffordd gyſŷg; A hwŷ a ddaethant i fynu atto ef yn fŷan; Enw un o honŷnt oedd *ffurfiol*, ac Enw'r llall oedd *Rhagrithiwr*; Yntef a ddechreuodd ymddiddan a nhwŷ fel hŷn.

CRISTION. Foneddigion, o ba lê a daethoch chwi, ac i ba lê yr ydŷch yn myned?

Ffurfiol, a *Rhagrithiwr*. Fe a'n ganwŷd ni yngwlâd *Gwag-ogoniant*, a myned yr ydŷm ni tua mynŷdd *Seion* am glôd.

CRISTION. Pa ham na ddaethoch chwi i mewn trwŷ'r porth ſŷdd ymhen y ffordd? Oni wŷddoch chwi fôd hŷn yn yſcrifennedig, yr hwn nid ŷw yn myned i mewn drwŷ'r drŵs, ond ſŷdd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yſpeliwr ŷw. (*Ioan* 10. 1.)

Ffurfiol, a *Rhagrithiwr*. Hwŷthau a ddywedaſant, fôd eu hôll wlâdwŷr hwŷ yn cyfrif fôd y ffordd ir porth yn rhŷ bell o amgŷlch, ac am hynnŷ eu harfer hwŷ oedd ei chwttogi hi, a dringo dros y mur, fel a gwnaethent hwŷthau.

CRISTION. Oni chyfrifir hŷn yn gamwedd,

ſêf

ſêf, i rai droſeddu fel hŷn yn erbŷn ewŷllŷs dat-cuddiedig Arglwŷdd y Ddinas, yr hon yr ydŷm ni yn myned tuag atti.

Ffurfiol, a *Rhagrithiwr*. Hwŷthau a ddywedaſant wrtho Nad oedd raid iddo ef ſiino ei Ben ynghŷlch hynnŷ; Oblegid fôd ganthŷnt hwŷ ddefod am y peth yr oeddent yn ei wneuthur, ac a gallent (ped-fyddai raid) ddwŷn tyſtiolaeth a dyſtiolaethai hynnŷ er ys mwŷ na mîl o flynyddoedd.

CRISTION. Ond ebŷr Criſtion, a fŷdd eich gwaith chwi yn gymmeradwŷ, os profir ef wrth y gyfraith?

Ffurfiol, a *Rhagrithiwr*. Hwŷthau a ddywedaſant wrtho ef a caiff arfer (gan ei bôd yn ſeſŷll cyhŷd, ſef er ys mwŷ na mîl o flynyddoedd) ei chyfrif yr awron yn ddiammeu yn llê cyfraith gan Farnwr annhueddol; Ac heblaw hynnŷ (ebŷr nhwŷ) os daethom ni ir ffordd pa fatter ydŷw pa fôdd a daethom ni iddi; Os ydŷm ni ynthi yr ydŷm ni ynthi; Nid wŷt ti ond yn y ffordd, yr hwn a ddaethoſt fel a gwŷddom ni tiwŷ'r porth; Ac yr ydŷm ninnau hefŷd yn y ffordd, y rhai a ddaethom iddi yn drwſgwl dros y mûr; Ymha beth bellach a mae dy gyflwr di yn well na'n cyflwr ni?

CRISTION. Yr wŷfi yn rhodio yn ôl Rheol fy Meiſtr, a chwithau yrŷch yn rhodio yn ôl eich Tŷb gwrthŷn eich hunain; Yr ydŷch yn Lladron euſus ynghyfrif Arglwŷdd y ffordd; am hynnŷ i mae'n ddiammeu gannif na chair monoch yn wŷr cywir yn ei diwedd hi (*Ioan* 10. 1.) Chwi a ddaethoch i mewn yn ôl eich cyngor eich hunain heb ei gyfarwŷddiad ef; A chwi a gewch eich gyrru allan ar eich pen eich hunain, heb ei drugaredd ef. (*Luc* 13. 25, 26, 27.)

Ond nid attebaſant hwŷ nemawr i hŷn; Ond yn unig hwŷ

hwŷ a archaſant Iddo et edrŷch atto ei hun: Yna mi a'u gwelais hwŷnt yn myned rhagddŷnt bôb un rhŷd ei ffordd, heb ymddiddan ond ychydig iawn a'u gilŷdd; Oddigerth dywedŷd o'r ddau wŷr ymma wrth Griſtion, mai am Gyfreithiau ac Ordinhadau nad oeddent yn ammeu nas cadwent y rheini mor gydwŷbodol ac ynteu: Am hynnŷ ni wŷddom ni ebŷr nhwŷ, pa ragoriaeth ſŷdd rhyngot ti a ninneu, ond bod yr hugan yna am dy gefn di, yr hon a roddwŷd i ti (dybygwn ni) gan rai o'th gymmydogion, i guddio dy noethni cywilyddus.

CRISTION. Ni achubir monoch chwi trwŷ Ddeddfau ac Ordinhadau, (*Galatiaid* 2. 16.) Ni dderbynnir nêb ir Ddinas Nefol, ond v ſawl ſŷ'n dyfod yno trwŷ'r drŵs (*Foan* 10. 9. & 14. 6.) Ac am y Siacced ſŷdd am fy nghefn, hi a roddwŷd i mi gan Arglwŷdd y lle yr wŷf yn myned iddo; A hynnŷ fel a dywedaſoch i guddio fy noethni a hi; Ac yr wŷf yn ei chymmerŷd hi fel Arwŷdd o'i garedigrwŷdd ef tuag attat, canŵs nid oedd gennif ddim ond brattiau o'r blaen: Ac heblaw hynnŷ yr wŷf yn fy nghyſuro fy hunan yn y modd ymma wrth ſiwrneio, yn ddiammeu dybygaf pan ddelwŷf i Borth y Ddinas, ei Harglwŷdd hi a'm adnebŷdd i yn ddigon dâ, gan ſod gennif ei ſiacced et am danaf; y ſiacced a roddodd ef i mi yn rhâd, yn y dŷdd a dloſcodd ef fy mrattiau oddiam-danaf. I mae gennif hefŷd Nôd ar fy nhalcen (yr hwn, ondodid, ni ddaliaſoch ſulw arno) a olodwŷd yno gan un o gyfeillion anwŷlaf fy Arglwŷdd, yn y Dŷdd a ſyrthiodd fy Mauch oddiar fy ysgwŷddau; Ac mi a ddywedaf i chwi yn ychwaneg, roddi i mi y prŷd hynnŷ Blŷg-lyfr wedi ei ſelio, im cyſuro i wrth ei ddarllen rhŷd y ffordd: Ac fe a orchymynwŷd i mi hefŷd i roddi ef i mewn ymmhorth y Ddinas

Nefol

Nefol, yn arwŷdd o'm mynediad ſiccr ſinneu i mewn ar ei ôl ef ir fann honno; I mae'n Siccr gannif fôd arnoch chwi eiſiau y pethau hŷn ôll, ac yr ydŷch chwi hebddŷnt hwŷ am na ddaethoch i mewn trwŷ'r porth.

Nid attebaſant hwŷ ddim iddo ef ynghŷlch y matterion ymn[illegible] Ond hwŷ a edrŷchaſont ar eu gilŷdd, ac a chwarddaſant: Yna mi a'u gwelais hwŷ ôll yn myned ymlaen, a bôd Criſtion yn cerdded yn galedtach gan eu gadel hwŷthau o'i ôl, ac nid ymddiddanodd ef ddim mwŷ a nhwŷ; Ond yr oedd ef yn myſyrio yntho ei hun, weithiau dan ocheneidio, ac weithiau dan ymgyſuro; Hefŷd fe a fyddai yn darllen yn fynŷch yn ei blŷg-lyſr, ac yr oedd ef yn cael Diddanwch oddiwrtho.

Mi a'u gwelwn hwŷ gwedi hynnŷ yn myned ôll ymlaen, hŷd oni ddaethant i ymmŷl Brŷn dy-rus, ac wrth y Brŷn hwnnw yr oedd ffynnon; Ac hefŷd yn yr un llê yr oedd dwŷ ffordd arall, heb law yr hon oedd yn dyfod yn union oddiwrth y porth; Un yn troi ar y llaw aſwŷ, ar llall ar y llaw ddeheu wrth droed y mynŷdd; Ond yr oedd y ffordd gyfŷng yn myned yn union i fynu ir Brŷn; Fe aeth Criſtion yr awron ir ffynnon, ac a yfodd o honi iw hybu ei hun, (*Eſaiah* 49. 10.) Ac yna efe a ddechreuod fyned i fynu ir Brŷn, dan ganu

Rwŷf yn chwennŷch mŷnd yn geſnog,
I benn y Brŷn ſŷdd fawr a chribog:
Ac er uched ŷw ei goppa,
Ni'm rhwŷſtrir i gan ddim anhawſtra.

Am mi wn mai dymma'r hyfrŷd
Ffordd ſŷ'n arwain Dŷn i fywŷd:
Cymraf galon, âf yn wiſgi,
Yn fy mlaen, heb rus, nac ofni.

Gwell

Gwell ŷw cerdded y ffordd union,
Er bôd rhwŷſtrau ynddi ddigon:
Na mŷnd rhŷd y traws gam lwŷbŷr,
Er ei fôd e'n hawdd ddirwŷſtŷr.

Y ddau eraill hefŷd a ddaethant hŷd troed y Brŷn; Ond pan welſant fôd y Brŷn yn ſerth, a bôd yno ddwŷ ffordd arall i fyned; A chan dybied hefŷd a cyfarfyddai y ddwŷ ffordd hynnŷ drachefn, a'r ffordd yr aethai Criſtion i fynu rhŷd ddi (ar yr yſtlus arall ir Brŷn) hwŷ a ymroeſant am hynnŷ i fyned rhŷd y ffŷrdd ymma (Enw un or ffŷrdd oedd Perŷgl, ac Enw'r llall oedd Diſtrŷw) Fellu y naill ŵr a gymmerodd y ffordd a elwir Perŷgl, yr hon a'i harweiniodd ef i Goedwig fawr; A'r llall a aeth yn union rhŷd y ffordd oedd yn arwain i Ddiſtrŷw, yr hon a'i harweiniodd ef i fann eheng yn llawn o fynyddoedd tywŷll, llê a tramgwŷddodd ac a ſyrthiodd ef, ac ni chyfododd ef mwŷ.

Yna mi a edrychais ar ôl Criſtion, iw weled ef yn myned i fynu i ben y Brŷn; Ac mi a'i gwelwn ef (gwedi rhedeg ar y cyntaf) yn cerdded yr awron, ac o'r diwedd yn crippian i fynu ar ei draed a'i ddwŷlo, oblegid fôd y llê yn ſerth ac yn llithrig. Ac ynghŷlch hanner y ffordd i ben y Brŷn, yr oedd eiſteddle hyfrŷd o goed plann, wedi ei oſod gan Arglwŷdd y Brŷn, i orffwŷſo ymdeithwŷr deffygiol; Ac am hynnŷ fe aeth Criſtion yno, ac a eiſteddodd i lawr i gymmerŷd gorphwŷsfa yn y llê hwnnw; Yna efe a gymmerodd ei Blŷg-lyfr allan o'i fynwes ac a ddarllenodd yntho, ac a gafodd ddiddanwch oddiwrtho; Efe a ddechreuodd hefŷd yr awron ail-edrŷch ar y ſiacced a roddaſid iddo ef, pan oedd ef yn ſefŷll wrth y Groes; A chwedi iddo gael hodlonrhwŷdd yn y pethau hŷn tros ennŷd; O'r diwedd fe a ſyrthiodd i heppian, ac ar ôl hynnŷ

i drwm gyſcu; A'r cwſc hwn a'i cadwodd ef yn y man hwnnw hŷd onid oedd hi hwŷr, a'i blŷg-lyſr a ſyrthiodd o'i law ef wrth gyſcu, (*Datcuddiad* 3. 2. 1 *Theſſaloniaid* 5. 7, 8.) Ac fel yr oedd ef yn cyſcu, daeth un atto ac a'i deffrodd ef, gan ddywedŷd wrtho, Cerdd at y morgrugŷn tydi ddiogŷn, edrŷch ar ei ffyrdd ef, a bŷdd ddoeth, (*Dihareb ion* 6. 6.) A chyda hynnŷ neidiodd Criſtion i fynu yn frawŵchus, ac a aeth ar ffrwſt iw ffordd, ac a gerddodd yn chwidir hŷd oni ddaeth ef i ben y Brŷn.

Yr awron pan ddaeth ef i fynu i ben y Brŷn, fe welai ddau ddŷn yn rhedeg yn gyddŷm tuag atto: Enw un o honŷnt oedd *Ofnog*. ac Enw'r llall oedd *Anhyderus*, a Chriſtion a ddywedodd wrthŷnt, Ha-wŷr, pa ham yr ydŷch yn rhedeg tuag ynima? *Ofnog* a attebodd, mai myned yr oeddent tua Dinas *Seion*, a darfod iddŷnt ddyfod i fynu o'r rhiw oedd anhawdd ei ddringo; Ond ebŷr ef, pa pellaf yr elein ni, mwŷ a fyddeu y perŷgl a gyfarfyddai a ni: Am hynnŷ ni a droeſom, ac yr ydŷm yn myned yn ôl drachefn.

Iê ebŷr *Anhyderus*, canŷs yr oedd dau Lew yn gorwedd yn union ar y ffordd o'n blaen (pa un a'i yn cyſcu, a'i yn effro, nis gwŷddom) ac ni allem dybied llai (os doem ni o fewn eu cyrraedd) na wnaent lai na'n llarpio yn gandrŷll. (*Diharebion* 22. 13. & 26. 13.)

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion, yr ydŷch chwi yn peri i mi ofni: Ond i ba lê a ffoâf i fôd mewn diogelwch? Os âf yn ôl i'm Gwlâd fy hun, i mae honno wedi ei pharodtoi i Dân a Brwmſtan; Ac fe dderfŷdd amdanaf yno yn ddiammeu; Os gallaf fyned ir Ddinas Nefol, i mae'n ſicr gennif a byddafi yno mewn Diogelwch. Rhaid i mi fentro i fyned ymlaen: Nid ŷw myned yn ôl ddim amgen na marwolaeth; Ac nid ŷw myned ymlaen

ond ofn marwolaeth: Ond i mae Bywŷd tragywŷddol yn ei ganlŷn ef; Ac am hynnŷ myfi a âf rhagof etto; Fellu *Anhyderus* ac *Ofnog* a redaſant i wared rhŷd y dibin, a Chriſtion a aeth rhagddo yn ei ffordd; Ond gwedi meddwl drachefn am yr hŷn a glywſai ef gan y Gwŷr, fe a chwiliodd yn ei fynwes am ei Blŷg-lyfr, fel a gallai ef ddarllain yntho, a chael cyſur oddiwrtho; Ac er chwilied am dano ni chafodd mono; Yna yr oedd Criſtion mewn cyfyngder mawr, ac ni wŷddai ei pa beth a wnae, am fôd arno eiſiau y peth oedd yn arfer o'i adfŷwio ef, a'r peth a ddylaſai fôd megis Paſs (neu lythŷr) yn ei law ef, fel a byddai iddo gael ei dderbŷn ir Ddinas Nefol; Yn y trallod ymma, fe a gofiodd o'r diwedd iddo gyſcu dan y llwŷn oedd ar ochr y Brŷn; A chan ſyrthio ar ei liniau fe a ofynnodd faddeuant gan Dduw am iddo fôd mor ynfŷd a chyſcu yno; Ac wedi hynnŷ fe a ddychwelodd yn ôl i chwilio am ei Blŷg-lyfr; Ond pwŷ a ddichon fynegu faint oedd gofud ei galon ef rhŷd y ffordd yr oedd ef yn dychwelŷd yn ei ôl rhŷd ddi? Weithieu yr oedd ef yn ocheneidio, weithieu yn wŷlo, ac yn fynŷch yn beio arno ei hun am fôd mor ynfŷd a chyſcu yn y llê hwnnw a wnaed yn unig i orffwŷs ychydig arno ef yn ei ludded; Fel hŷn gan hynnŷ a dychwelodd ef yn ôl, gan edrŷch yn ofalus y tu ymma ar tu arall, rhŷd yr nôll ffordd yr oedd ef yn trammwŷ arni; I edrŷch a allai ef gael cyfarfod a'i Blŷg-lyfr, yr hwn a'i cyſurodd ef cŷn fynyched yn ei daith; Ac yn y môdd hwn a cerddodd ef nes canfod y Llwŷn drachefn lle a buaſai ef yn eiſtedd ac yn cyſcu; Ond yr olwg honno a adnewŷddod ei driſtwch ef yn fwŷ, trwŷ ddwŷn ar gôf iddo ellwaith ei gwſc pechadurus; Ac fe a aeth ymlaen dan alaru am y cyſcu ymma gan ddywedŷd, truan o ddŷn ydwŷf!

am

Am i mi gyſcu liw dŷdd! Am i mi gyſcu yng-hanol peryglon! Am i mi foddhau y cnawd cŷn belled, ac arfer yn lle eſmwŷthdra ir corph y gorphwŷsfa hwnnw a bwŷntiaſai Arglwŷdd y Brŷn, yn unig i gyſuro eneidiau pererinod! Pa ſawl cam a gerddais i yn ofer! fel hŷn a digwŷddodd ir Iſraeliaid am eu pechodau; hwŷ a anfonwŷd yn eu hôl drachefn rhŷd ffordd y môr coch) ac yr wŷf inneu yr awron yn cerdded y llwŷbrau hynnŷ mewn gofud, y rhain a allaſwn i eu cerdded mewn hyfrydwch, oni bae y cwſc pechadurus hwnnw.

Pa belled a buaſwn i yn fy ffordd erbŷn hŷn; I mae'n gorfod i mi gerdded dair gwaith y camre na baſai raid i mi eu cerdded unwaith ond un: lê yr awron hefŷd i mae hi yn debŷg i fyned yn nôs arnaf, canŷs i mae'r Dŷdd yn darfod; O na baſwn i heb gyſcu! Erbŷn hŷn yr oedd ef wedi dyfod at yr eiſteddle drachefn, ac fe a eiſteddodd yno ennŷd, ac a wŷlodd; Ond o'r diwedd (fel yr oedd Criſtion yn ewŷllyſio) wrth edrŷch a chalon drom tua'r llawr, fe a ganfu ei Lyfr dan y faingc; Ac yn ddychrynllŷd fe a'i cippiodd ef i fynu ar frŷs, ac a'i rhoddodd ef yn ei fynwes; Ond pwŷ a all fynegu mor llawen oedd y Gŵr hwn, pan gafodd ef ei blŷg-lyfr drachefn? Canŷs y llyfr ymma oedd ſiccrwŷdd ei fywŷd ef, a'i ſiccrwŷdd ef yng-hŷlch ei dderbyniad i mewn ir porthladd dymunol (ſêf ir Nefoedd) Am hynnŷ fe a'i goſodod ef i gadw yn ei fynwes, ac a ddiolchodd i Dduw am gyfarwŷddo ei lygaid ef at y mann llê yr oedd y llyfr yn gorwedd; Ac wedi hynnŷ, dan lawenhau, ac wŷlo, fe a aeth ymlaen yn ei ffordd; Ond o mor fŷan a cerddodd ef i fynu rhŷd y rhan ddiweddaf o'r Brŷn! Etto cŷn iddo fyned i fynu fe fachludodd yr Haul ar Griſtion; A hŷn a wnaeth iddo alw ei gwſc iw gôf drachefn; Ac fe a

ddechreuodd eilwaith gwŷno wrtho ei hun fel hŷn; O dydi Gwſc pechadurus! Mor debygol ŷw hi i noſi arnafi yn fy nhaith o'th achos di! Rhaid i mi rodio heb yr Haul; A thywŷllwch a orchguddia fy llwŷbŷr i! Ac o'th blegit ti (o fy nghwſc pechadurus) fe orfŷdd i mi glywed rhuad creaduriaid blin! Yr awron hefŷd fe a gofiodd yſtori a ddywedaſai Anhyderus ac Ofnog wrtho ef, y môdd a dychrynnwŷd hwŷnt wrth weled y Llewod; Yna a dywedodd Criſtion wrtho ei hun drachefn; Mae'r bwŷſtfilod hŷn yn rhodio oddi amgŷlch yn y nôs i geiſio yſclyfaeth; Ac os cyfarfyddant a mi yn y tywŷllwch, pa fôdd a diangaf rhag cael fy llarppio ganthŷnt? Fel hŷn yr acth ef ymlaen yn ei ffordd; A thra yr ydoedd ef yn galaru oblegid ei gam-ymddygiad anhappus, fe a dderchafodd ei lygaid ac a ganfu yno (yn ymŷl y ffordd o'i flaen ef) Blâs gwŷch iawn, ac enw'r Plâs oedd prydferth.

Fellu mi a'i gwelais ef yn bryſio, ac yn myned ymlaen, fel (os bŷddai boſibl) a gallai ef gael llettŷ vno; Ond cŷn iddo fyned yn-hepell fe a ddaeth i lê cul iawn, yr hwn oedd ynghŷlch tair yſtad oddiwrth Babell y porthor; A chan edrŷch yn ofalus o'i flaen wrth gerdded, fe a ganfu ddau Lew yn y ffordd; Yr awron ebŷr ef mi a welaf y peryglon a yrraſant *Anhyderus* ac *Ofnog* i ddychwelŷd yn ôl; (yr oedd y Llewod wedi ei cadwŷno, ond nid oedd ef yn gweled y cadwŷni) yna fe a ofnodd, ac a fwriadodd ddychwelŷd yn ôl megis a gwnaethent hwŷthau; Canŷs yr oedd ef yn meddwl nad oedd dim ond marwolaeth o'i flaen ef; Ond y porthor yr hwn a elwid *Gwiliadwrus* (*Marc* 13. 34.) wrth weled Criſtion yn ymattal rhag myned ymlaen (fel pe baſai ar feddwl troi yn ei ôl) a waeddodd arno ef, gan ddywedŷd; A wŷt ti mor

wan

wan.galon a hynnŷ? Nac ofna y Llewod; Canys i maent wedi eu cadwŷno, a chwedi eu gosod yn y mann yna i brofi ffŷdd llê a mae hi, ac i ddatguddio y rhai sŷdd hebddi; Cadw di dy hunan ynghanol y llwŷbŷr ac ni bŷdd niweid i ti. (2. *Petr* 2. 4.

Yna mi a'i gwelais ef yn myned ymlaen dan grynu rhag ofn y llewod; Ond trwŷ ofalu yn ôl hyfforddiad y porthor, fe a'u clybu hwŷnt yn rhuo, ond ni wnaethant hwŷ ddim niwed iddo; Yna fe a gurodd ei ddwŷlo ynghŷd, ac a aeth rhagddo, hŷd oni ddaeth ef a sefŷll oflaen y porth, lle yr oedd y porthor yn aros; Yna a dywedodd Cristion wrtho, Syr pa Dŷ ŷw hwn? A allafi gael lletŷ ymma heno? A'r porthor a attebodd, y Tŷ hwn a adeiladwŷd gan Arglwŷdd y Brŷn, er mwŷn cysuro a gorffwŷso Pererinod; Y porthor hefŷd a ofynnodd i Gristion, o ba lê yr wŷt ti yn dyfod? Ac i ba lê yr wŷt ti yn myned?

CRISTION. Dyfod yr wŷfi o Ddinas Distrŷw, ac yr wŷfi yn myned tua mynŷdd *Seion*: Ond oblegit tôd yr Haul wedi machludo, yr wŷf yn dymmuno cael llettŷ ymma dros noswaith.

Porthor. Pa beth ŷw eich Enw chwi?

CRISTION. Fy enw i yr awron ŷw Cristion; Ond fy enw i ar y cyntaf oedd Di-râs: Yr wŷfi yn un o lîn *Fapheth*, yr hwn a ennill Duw i breswŷlio ymmhebŷll *Sem.* (*Genesis* 9. 27.)

Porthor. Pa tôdd a digwŷddodd, eich bôd chwi yn dyfod cŷn hwŷred, I mae'r Haul wedi machludo.

CRISTION. Mysi a faswn ymma yn gŷnt; Ond un truan o ddŷn ydwŷf! Mi a gyscais yn yr eisteddle sŷ'n sefŷll ar ystlus y Brŷn; Ac hefŷd mi faswn ymma er hynnŷ yn gŷnt o lawer, ond bae i mi golli fy siccrwŷdd wrth gyfcu, a dyfod

hebddo ef hŷd at lechwedd y Brŷn; Ac Yna wedi chwilied am dano ac heb ei gael ef, fe orfu i mi mewn gofud calon droi yn ôl ir llé a cyſcaſwn i yntho, llé a cefais i ef; Ac o'r diwedd yr wŷfi wedi dyfod ymma.

Porthor. Wele, mi a alwaf ar un o Langceſi y llé ymma, yr hon (os bŷdd hi bodlon i'ch ymadroddion) a'ch dŵg chwi i mewn at y Teulu yn ôl arfer y Tŷ; A'r hynnŷ fe a ganodd y Porthor glôch, Ac wrth ei ſŵn hi fe ddaeth Llangces ſobr brydferth allan ir Drŵs (a'i henw hi oedd *Pwŷllog*) ac a ofynnodd pa ham yr oeddid yn galw arni hi? A'r Porthor a attebodd, y Dŷn hwn ſŷdd yn ymdeithio o Ddinas Diſtrwŷ i fynŷdd Seion; A chan ei fôd ef yn ddeffygiol, a'i bôd hi gwedi noſi arno, efe a ofynnodd i mi a allai ef gael llettŷ ymma dros nôs; Fellu myfi a ddywedais wrtho a galwn i arnat ti, a gelli ar ôl ymddiddan ag ef wneuthur fel a byddo dâ yn dy olwg, ac yn ôl arfer y Tŷ.

Hithau a wenodd ar Griſtion, ond yr oedd y Dŵr yn ſefŷll yn ei llygaid hi; A chwedi ſefŷll ychydig heb ddywedŷd un gair, hi a ddywedod, myfi a alwaf allan ddau neu dri ychwaneg o'm Teulu; Fellu hi a redodd i ddrŵs y Tŷ, ac a alwodd am *Ddoethineb*, *Duwioldeb*, a *Chariad*, i ddyfod allan; Y rhain wedi ymddiddan ac ef ychydig ymhellach, a'i dygaſant ef i mewn ir Tŷ; A llawer o honŷnt (gan ei gyfarfod ef wrth riniog y drŵs) a ddywedaſant wrtho, Tyred i mewn dydi fendigedig yr Arglwŷdd; Fe adeiladwŷd y Tŷ hwn gan Arglwŷdd y Brŷn ir diben ymma, ſéf i groeſawu Pererinod yntho; Yna fe gyfarchodd iddŷnt, ac a'u canlynodd hwŷnt ir Tŷ; Ac wedi dyfod i mewn ac eiſtedd i lawr, hwŷ a roddaſant iddo rŷwbeth iw yfed, ac a gyttunaſant ynghŷd,

mai hŷd

hŷdoni byddai ſwpper yn barod, a cae rhai o honŷnt, er mwŷn gwneuthur denſŷdd dâ o'r amſer, ymddiddan a Chriſtion yn neilltuol ynghŷlch pethau crefyddol: A hwŷ a ordeiniaſant Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad, i chwedleua ag ef, a hwŷ a ddechreuaſant fel hŷn.

Duwioldeb. Pa beth a'ch cynghorodd chwi ar y cyntaf i fôd yn Bererin? A pha fôdd a digwŷddodd i chwi ddyfod allan o'ch gwlâd y ffordd ymma?

CRISTION. Fe am gyrwŷd i allan o wlâd fy 'nganedigaeth gan ſŵn ofnadwŷ oedd yn fy'nghluſtiau, ſêf bôd Diſtrŷw anocheladwŷ yn fy nghanlŷn, os trigwn i yn y mann lle'r oeddwn; A phan ddychrynwŷd fi ag ofn y Diſtrŷw ymma, ni wŷddwni i ba lê yr awn; Trwŷ ragluniaeth Duw (fel yr oeddwn yn crynu ac yn wŷlo) fe ddaeth Gŵr attafi, a elwid Efangylwr, ac fe a'm cyfarwŷddodd i ir porth cyfŷng; Ac fellu fe am goſododdi ar y ffordd a'm dygodd i yn union ir Tŷ hwn.

Duwioldeb. Oni ddaethoch chwi heibio i Dŷ y Deonglwr?

CRISTION. Daethŷm, ac a welais yno y fâth bethau, ag a glŷn eu coffadwriaeth hwŷ wrthŷf tra fyddwŷf bŷw, yn enwedig tri pheth, ſêf y môdd a mae Criſt (er gwneuthur o Satan ei waethaf) yn cynnal gwaith ei râs yng-halonau ei bobl: A'r môdd a pechodd rhŷw Ddŷn mor greulon, hŷd onid oedd ef yn gwbl allan o obaith a'm drugaredd Duw; Ac heſŷd Breuddwŷd yr hwn a dybiaſai fôd Dŷdd y Farn wedi dyfod; Yr oedd fy nghalon i yn crynu pan adroddodd y Dŷn ei freuddwŷd, etto i mae'n ddâ gennif i mi ei glywed ef; Llawer o bethau eraill a welais i ar y ffordd; Ond un peth oedd fwŷaf nodedig, ſêf pan welais i un yn crogi, ac yn gwaedu at y Groes,

fe a wnaeth yr olwg arno ef i'm Bauch i ſyrthio oddiar fy nghefn : A'r Bauch hwnnw a fu yn flinder mawr i mi. (*Zecharia* 12. 10. & 13. 1.)

Doethineb. Onid ydŷch chwi yn meddwl weithie am y wlâd o'r hon a daethoch allan.

CRISTION. Ydwŷf, ond trwŷ lawer o gywilŷdd a ffi dd.dra ; Yn wir pedtaſwn i yn meddwl (drwŷ hyfrydwch) am y wlâd honno, o'r hon a daethŷm allan, mi a allaſwn gael amſer i ddychwelŷd yn ôl ; Ond yr awron, Gwlâd well yr wŷfi yn ei chwennŷch, hynnŷ ydŷw un Nefol. (*Hebreaid* 11. 15, 16.)

Doethineb. Onid ydŷch chwi etto yn canfod ynoch eich hunan rai o'r pethau yr oeddech y prŷd hwnnw yn gynefin a hwŷnt.

CRISTION. Ydwŷf, ond i mae'r pethau hynnŷ ynoi yn erbŷn fy wŷllŷs yn fawr iawn, yn enwedig fy meddyliau cnawdol, y rhai oeddŷnt yn dra hyfrŷd gennif gŷnt ; Ond yr awron i mae'r meddyliau hŷn ôll yn flinder i mi ; A phe gallwn i ddewis yr hŷn ſŷdd ddâ, myfi a ddewiſwn nas meddyliwn i y fâth feddyliau bŷth mwŷ ; Ond pan fyddwŷf yn ewŷllyſio gwneuthur yr hŷn ſŷdd oreu, i mae yr hŷn ſŷdd waethaf yn breſennol gyda mi. (*Rhufeinaid* 7. 21.)

Doethineb. Onid ydŷchwi yn edrŷch ar y pethau hŷn weithian fel pedfaent wedi eu gorchfygu, y rhai ſŷ brŷdiau eralll yn wrthwŷnebus a blin i chwi ?

CRISTION. Ydŷwf, ond nid ŷw hynnŷ ond yn anfynŷch iawn ; Ond oriau euraid ŷw y rheini i mi, yn y rhai a dîgwŷdd i mi gael goreſcyniad ar fy llygredigaethau.

Doethineb. A ellwch chwi gofio trwŷ ba fodd. lon, a mae y llygredigaethau blinderus hŷn yn cael eu daroſtwng ynoch, fel pedfaent wedi eu gorchfu.

CRIS

CRISTION. Gallaf, yn gyntaf pan feddyliwŷf am yr hŷn a welais i wrth y Groes; Yn ail pan edrychwŷf ar fy fiacced fraith; Yn drydŷdd pan ddarllenwŷf yn y plŷg-lyfr yr wŷf yn ei ddwŷn yn fy mynwes; Ac yn bedwerŷdd pan fyddo fy meddyllau ynghŷlch y llê yr wŷf yn myned tuag atto yn ymwrefogi, fe rŷdd hynnŷ ergŷd marwol i'm llygredigaethau

Doethineb. A pha beth fŷ'n peri i chwi fôd mor chwanog i fyned i Fynŷdd *Seion*.

CRISTION. Yr wi'n gobeithio cael gweled yr hwn a fu farw ar y Groes, yn fŷw yno; Ac yr wŷf yn gobeithio a rhŷddheir fi yno oddiwrth yr hôll wendid fŷdd yn fy aflonyddu i hŷd y dŷdd hwn; I maent yn dywedŷd hefŷd nad oes dim marwolaeth yno; Ac mi a gâf drigo yno gyda'r fâth Gymdeithion ar fŷdd oreu gennif; Ac o ddywedŷd wrthŷch y gwir, yr wŷf yn caru yr hwn a fu farw ar y Groes, am iddo fe fy efmwŷthau i o'm Bauch (*Luc* 7. 47.) ac i mae fy aflendid oddifewn yn ofudus i mi; Ac yr wŷf yn ewŷllyfſio bôd yn y mann hwnnw llê na fŷdd nac afiechŷd na marwolaeth mwŷ; A chyda'r Cymdeithion a fyddant yn crio yn waſtadol, *Sanct, Sanct, Sanct.* (*Eſaŷ* 6. 3.)

Yna gofynnodd *Cariad* i Griſtion, a oes i chwi dylwŷth? A ydŷch chwi yn ŵr priod?

CRISTION. I mae gennif Wraig, a phedwar o Blant bychain.

Cariad. A phaham na ddygaſech chwi hwŷnt o hŷd gyda chwi?

CRISTION. Ar hynnŷ fe wŷlodd Criſtion, ac a ddywedodd, O mor ewŷllyſgar yr oeddwn i iddŷnt hwŷ ddyfod gyda mi! Ond yr oeddent hwŷ ôll yn gwbl anfodlon i'm pererindod.

Cariad. Ond chwi a ddyleſech ymddiddan

a nhwŷ, a dangos iddŷnt y perŷgl o aros yn ôl.

CRISTION. Fellu a gwneuthŷm, ac mi a fynegais iddŷnt hefŷd yr hŷn a ddangosodd Duw i mi am Ddiniſtr ein Dinas ni: Ond yr oeddwn i yn eu golwg hwŷ fel un yn cellwair, ac ni choelient monof (*Geneſis* 19. 14.)

Cariad. A ddarfu i chwi weddio ar Dduw am fendithio eich cyngor iddŷnt?

CRISTION. Do, a hynnŷ o wir ewŷllŷs çalon; Rhaid i chwi feddwl fôd fy ngwraig a'm plant truain yn anwŷl lawn gennif.

Cariad. Ond a fynegaſoch chwi iddŷnt hwŷ eich gofud eich hun, a'ch ofn o gael eich diniſtrio.

CRISTION. Do dracheſn a thracheſn; A hwŷ a allaſent ganfod fy ofn i yngwêdd fy wŷnebprŷd, yn fy nagrau, ac hefŷd yn fy nychrŷn wrth yſtyried y Farn oedd ynghrôg uwch ein pennau: Ond nid oedd y cwbl yn ddigon iw hynnill hwŷ i ddyfod gyda mi.

Cariad. Ond pa beth a allent hwŷ ei ddywedŷd troſtŷnt eu hunain, am na ddaethant hwŷ gyda chwi?

CRISTION. Yr oedd fy ngwraig yn ofni colli ei meddiannau, a chariad Dynnion y Bŷd preſennol; A'm plant oeddŷnt yn ymroddi i ynfŷd ddigrifwch ieuengctid; Ac fellu hwŷ a rwŷſtrwŷd, rhai gan un peth, a rhai gan beth arall, hŷd onis gadawſant hwŷ fi i ſiwrneio fy hunan yn y môdd ymma.

Cariad. Oni ddarfu i chwi ddiwŷno a halogi (a'ch ymddygiad ofer) yr hŷn ôll a ddywedaſoch chwi mewn ffordd o gyngor iw hannog hwŷnt i ddyfod gyda chwi?

CRISTION. Mewn gwirionedd nid allafi ganmol fy ymddygiad; Canŷs myfi a wn fy môd i yn llithro mewn llawer o bethau (*Iaco* 3. 2.) myfi a

wn

wn hefŷd a gelll Dŷn trwŷ ei fywŷd drŵg, ddymchwelŷd mewn ychydig o amſer, yr hŷn a oſodo ef mewn ffordd o Addŷſc, Rheſwm, Cyngor a Cherŷdd, oflaen pobl iw troi nhwŷ at yr hŷn ſŷdd ddâ; Etto mi a allaf ddywedŷd hŷn, fy môd i yn ofalus iawn na byddai i mi roddi iddŷnt achos trwŷ un weithred anweddus, iw gwneuthur hwŷnt yn wrthwŷnebus i ddyfod i bererindod: Iê yn y matter ymma hwŷ a ddywedent wrthif fy môd i yn rhŷ fanwl, ac fy môd i yn fy ngwadu fy hunan (er eu mwŷn hwŷ) o ran rhŷw bethau, yn y rhai nid oeddent hwŷ yn gweled dim drŵg ynthŷnt; Nage yr wŷf yn tybied a gallaf ddywedŷd hŷn; Os ydoedd dim a welſant hwŷ ynoſi yn rhwŷſtr iddŷnt, mai fy ofn mawr i rhag pechu yn erbŷn Duw, a rhag gwneuthur cam a'm Cymmydoglon ydoedd hynnŷ.

Gariad. *Cain* yn wir a gaſâodd ei Frawd am fôd ei weithredoedd ei hun yn ddrŵg, a gweithredoedd ei Frawd yn ddâ; Ac os hŷn a fu yn rhwŷſtŷr i'th Wraig a'th Blant, ac a wnaeth iddŷnt ddiglo wrthit, i maent trwŷ hynnŷ yn dangos eu bôd yn anghymmodol i ddaioni, a thi a waredaiſt dy Enaid oddiwrth eu gwaed hwŷnt (1 *Joan* 3. 12. *Ezeciel* 33. 9.)

Yr awron mi a'u gwelais hwŷ yn eiſtedd fel hŷn, gan ymddiddan a'u gilŷdd hŷd onid oedd ſwpper yn barod; A chwedi iddŷnt ei barodtoi ef, hwŷ a eiſteddaſant i fwŷdta; Ac yr oedd y Bwrdd wedi ei Lenwi a phaſcedigion, ac a Gwin, ie gloŷw wŷn puredig (*Eſaŷ* 25. 6. *Matthew* 22. 4.) A'u hôll ymddiddan hwŷ wrth y Bwrdd oedd ynghŷlch Arglwŷdd y Brŷn, yn enwedig ynghŷlch yr hŷn a wnaeth ef, a phaham a gwnaeth ef yr hŷn a wnaethpwŷd gantho, a phaham yr adeiladodd ef y Tŷ hwnnw; Ac wrth yr hŷn a lefaraſant

aſant hwŷ, myſi a wŷbum, ei fôd ef yn rhyfelwr mawr; Ac iddo ef ymladd a'r hwn oedd a nerth Angau gantho, a'i ddiniſtro ef, ond nid heb berŷgl dirfawr iddo ei hun, yr hŷn a wnaeth i mi ei garu ef yn fwŷ (*Hebreiid* 2. 14, 15.)

Ac megis a dywedaſant hwŷ, ac yr wŷf finneu yn credu, Efe a gollodd lawer o waed wrth wneuthur hynnŷ; Ond y peth ſŷ'n gogoneddu ei râs ef ydŷw hŷn, ſêf iddo wneuthur y cwbl o wir gariad iw wlâd: Ac heblaw hynnŷ yr oedd yno rai o'r teulu yn dywedŷd eu bôd yn ymddiddan ag ef ar ôl ei Farwolaeth ar y groes, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw; A hwŷ a dyſtiolaethaſant iddŷnt glywed allan o'i enau ef ei hun fôd gantho gariad mawr tuag at Bererinod truain, fel a gellin dywedŷd nad oes gyffelŷb iddo iw gael o'r Dwŷrain ir Gorllewin.

Drachefn, hwŷ a roddaſant eſampl o'r hŷn a ddywedaſant; A honno oedd, iddo ef ymddioſc o'i Ogoniant fel a gallai ef wneuthur hŷn dros y tlawd; A dywedaſant iddŷnt hwŷ ei glywŷd ef yn dywedŷd, Na phreſwŷliai ef ymmynŷdd Seion yn unig, ond a mynnai ef eraill i breſwŷlio gydag ef yno (*Philemon* 2. 6, 7, 8. *Ioan* 17. 24.) A hwŷ a fynegaſant ymhellach iddo ef dderchafu llawer o Bererinod i fôd yn Dwŷſogion, er eu bôd hwŷ wrth natur wedi eu geni yn dlodion, a'u dechreuad o'r dommen (1 *Samuel* 2. 8. *Datcuddiad* 1. 6.)

Ac fel hŷn yr ym ddiddanaſant hŷd onid aeth hi yn llawer o'r nôs; Ac wedi iddŷnt eu gorchymŷn eu hunain i gadwraith eu Harglwŷdd, hwŷ a aethant iw heſmwŷthdra; A rhoddaſant y Pererin i orwedd mewn yſtafell eheng, a'i ffeneſt yn agored tua chodiad yr Haul (enw'r yſtafell oedd *Tangneddŷf*) lle a cyſgodd ef hŷd y wawr-ddŷdd, ac yna fe a ddeffrodd, ac a ganodd;

Ymhle

Ymhle yr wŷf yn awr yn gorwedd?
O! dymma ddirfawr gariad rhyfedd,
A gofal Ieſu Grîſt am ddynnion,
Y rhai ſŷdd yn bŷw yn ffyddlon;

Yn rhagddarbod, a thoſturio,
Fel a cawn ty arbed gantho,
Ac anneddu ofewn y gwiw lwŷs
Riniog neſaf i Baradwŷs!

Fellu hwŷ a gyfodaſant ôll y boreu drannoeth, ac wedi iddŷnt ymddiddan ynghŷlch rhŷw bethau ychwaneg, hwŷ a ddywedaſant wrtho, na chae ef ymadel hŷd oni ddangoſent iddo wŷch ddodrefn y Tŷ; Ac yna hwŷ a'i harweinaſant ef ir ſtydi, lle a goſodaſant hwŷ o'i flaen ef y llyfrau Coffadwriaethau hynaf yn y Pŷd; Yn y rhai a dongoſaſant hwŷ iddo ef, yn gyntaf Achau Arglwŷdd y Brŷn, ſef ei fôd ef o Dragywŷddoldeb yn Fâb ir Hén ar hynaf ei ddyddiau; A chwedi hynnŷ ei weithredoedd ef, y rhai oeddŷnt wedi eu hyſcrifennu ymma yn gyflawn, gydag enwau llawer cant a gymmeraſeu ef iddo iw waſanaeth; A'r môdd a cyfleuaſeu ef hwŷnt yn y cyfrŷw Breſwŷlfŷdd, na allai heneidd-dra mo'u gwaethygu, (*2 Corinthiaid 5. 1.*)

Yna hwŷ a ddarllennaſant iddo ef rai o'r Gweithredoedd anrhydeddus a wnaethai rhai o'i weiſion ef: megis y môdd a goreſcŷnnaſent Deŷrnaſoedd, a gwnaethent gyfiawnder, a cawſent addewidion, a cauaſent ſafnau Llewod, a diffoddaſent boethni y tân, a diangaſent rhag min y cleddŷf a nerthwŷd, o wendid y môdd heſŷd a gwnaethpwŷd hwŷ yn gryfion mewn rhyfel, ac a gyrraſent fyddinoedd yr eſtroniaid i gilio, (*Hebreaid 11. 33, 34.*)

Wedi hynnŷ hwŷ a ddarllennaſant mewn rhan arall

arall o lyfrau coffadwriaethau'r Tŷ; A dangoſ. wŷd yno mor ewŷllyſgar oedd eu Harglwŷdd i dderbŷn iw ffafor bôb un, ie pôb un er iddŷnt gŷnt amherchi ei Berſon a'i ffyrdd eſ, os troent, ac os deuant yr awron atto eſ, (*Foan 6. 37.*) Yr oedd ymma hefŷd amrŷw o Hŷſtoriau am lawer o bethau enwog eraill, y rhai a gafodd Criſtion eu gweled ôll, ſef Hŷſtoriau hên a newŷdd ynghŷd a phrophwŷdoliaethau ynghŷlch pethau a gyflawnir yn eu hamſer yn ſiccr, er dychrŷn a ſyndod i elynion Arglwŷdd y Brŷn, ac er cyſur a diddanwch i Bererinod.

Dranoeth hwŷ a'i tywŷſaſant eſ ir Arſ-dŷ, ac a ddangoſaſant iddo yno bôb mâth o Arfogaeth, y rhai a barodtoiſai eu Harglwŷdd hwŷnt i Bererinod, megis Cleddŷf, Tarian, Helm, Dwŷfronneg, Pôb rhŷw Weddi, ac Eſgidiau na heneiddient; Ac yr oedd yno ddigon o honŷnt i arfogi cymaint o gwŷr i waſanaeth eu Harglwŷdd, ac ſŷdd o Sêr yn y Nefoedd. (*Epheſiaid 6. 14 &c.*)

Hwŷ a ddangoſaſant iddo hefŷd rai o'r Pelrlannau, a'r rhai a gwnaethau rhŷw wŷr enwog ymŷſc ei weiſion eſ ryfeddodau; Megis *Gwialen Moſes*, y *Morthwŷl* a'r *Hoel* a'r rhai a lladdaſai *Fael Siſera*; Y *Piſſerau*, yr *Udcŷrn* a'r *Lampau*, a'r rhai a gyrtaſai *Gideon* Fyddinoedd y *Midianiaid* i ffoi; Yr *Irai* ychen, a'r hon a lladdaſai *Samgar*, chwechan-ŵr; *Gên Aſſŷn*, a'r hon a gwnaethai *Sampſon* bethau aruth; Y *Daſl* a'r *Garreg*, a'r rhai a lladdaſai *Dafŷdd Goliah*; A'r *Cleddŷf* hefŷd, a'r hwn a lâdd eu *Harglwŷdd* hwŷnt *Fâb* y *Golledigaeth* yn y dŷdd a cyfodo eſ ir yſclyfaeth: Hwŷ a ddangoſaſant lawer o Bethau rhagorol i Griſtion heblaw yr hŷn a henwŷd, y rhai oedd ddâ iawn gantho eu gweled, a chwedi hynnŷ hwŷ a aethant iw gorphwŷſa drachefn.

A

A chwedl cyfodi yn foreu mewn bwrlad i fyned rhagddo, fe attolygodd y Teulu arno ef aros hŷd dranoeth; Ac yna (ebŷr nhwŷ) Nyni a ddangoſwn i chwi (os bŷdd y diwrnod yn eglur) y Mynyddoedd hyfrŷd, y rhai (ebŷr nhwŷ) a chwanegant at eich cyſur chwi, am fôd y myn. yddoedd hynnŷ yn nâs at y Porthladd dymunol na'r mann yr ydŷch yntho yn breſennol; Fellu fe a gŷdſynniodd, ac a arhoſodd yno y noſon honno; A'r boreu neſaf hwŷ a aethant ag ef i Nen y Tŷ, ac a archaſant iddo edrŷch tua'r Dehau, ac fe a wnaeth fellu; Ac wele fe a ganfu ymhell oddiwrtho wlâd hyfrŷd, wedi ei harddu a choedŷdd, gwinllanoedd, ffrwŷthau hyfrŷd o bôb rhŷw, a blodau heſŷd, a ffynhonnau hyfrŷd iawn (*Eſay* 33. 16, 17.) Yna fe a ofynnodd henw'r wlâd; A nhwŷthau a'i hattebaſant ef mai Tir *Emmanuel* oedd ei henw hi; Ac i mae hi (ebŷr nhwŷ) mor gyffredin ir hôll Bererinod i ddyfod iddi, ac i gael croeſo ynthi ag ydŷw'r Brŷn ymma; A phan ddelŷch di i'r wlâd honno di a elli ganfod Porth y Ddinas Nefol oddiyno, trwŷ gyfarwŷddiad y Bugeiliaid ſŷ'n bŷw yn y lle hwnnw.

Yna fe a ymbarodtodd i gychwŷn, ac yr oeddŷnt hwŷthau yn fodlon i hynnŷ, Ond yn gyntaf (ebŷr nhwŷ) Awn drachefn ir Arf-dŷ, a hwŷ a aethant fellu, ac a'i gwiſcaſant ef yno o wadn y troed hŷd y pen ag Arfau profedig, fel a gallai ef ymddiffŷn ei hunan os digwŷddeu i neb ruthro arno ar y ffordd; A chwedi ei Arfogi ef fel hŷn, fe a rodiodd gyda ei gyfeillion ir porth, ac a ofynnodd ir porthor a welſai ef un Pererin yn myned heibio? A'r Porthor a'i hattebodd ef, Do.

CRISTION. Attolwg a adwaenoch chwi ef ebŷr Criſtion?

Patth

Porthor. Myfi a ofynnais ei enw ef, ac yntef a ddywedodd wrthif mai *Ffyddlon* oedd ei enw.

CRISTION. O! (ebŷr Criſtion) 'rwi'n ei ddynabod ef, i mae fe'n Gymmydog agos i mi, Fe ddaeth o'r Dref i'm ganwŷd i ynthi; Pa faint yr ydŷch chwi yn tybied a gall ef fôd o'm blaen?

Porthor. I mae ef erbŷn hŷn wedi myned iſlaw y Brŷn.

CRISTION. Wele Borthor anwŷl (ebŷr Criſtion) yr Arglwŷdd a fyddo gyda thi, ac a anghwanego gynnŷdd mawr at dy hôll fendithion di, am y caredigrwŷdd a ddangoſaiſt i mi.

Yna dechreuodd Criſtion ſyned rhegddo; A *Phwŷllog*, *Duwioldeb*, *Cariad*, a *Doethineb* a aethant gydag ef, dan ymddiddan drachefn ynghŷlch y matterion a darfu iddŷnt hwŷ chwedleua o'r blaen amdanŷnt, nes dyfod hŷdat lechwedd y Brŷn; Yna (ebŷr Criſtion) megis yr oedd yn anhawdd eſcŷn i fynu, Fellu hefŷd (am a welaf) i mae 'n beryglus ddiſcŷn i wared; I mae'r peth fellu (ebŷr *Doethineb*) canŷs matter caled ydŷw i Ddŷn ſyned i wared i Ddyffrŷn Daroſtyngiad (fel yr wŷt ti yr awron yn myned) ac heb gael cwŷmp ar y ffordd; A dyna 'r rheſwm pa ham yr ydŷm ni 'n dyfod gyda thi i droed y rhiw; Fellu fe a ddechreuodd ſyned i wared, ond yn araf iawn, er hynnŷ efe a lithrodd unwaith neu ddwŷ.

Yna mi a welais y cymdeithion dâ hynnŷ, yn rhoddi i Griſtion (wedi iddo ddyfod i wared o'r brŷn) Dorth o Fara, Coſtrelaid o wîn, a ſwp o Reſins, a chwedi hynnŷ fe a aeth iw ffordd.

Ond yn y Dyffrŷn ymma o Ddaroſtyngiad, hi fu'n galed iawn ar Griſtion; Canŷs nid aethai ef yn-hepell ymlaen, ond wele fe a ganfu yſprŷd dŵg yn dyfod rhŷd y maes iw gyfarfod ef, a'i enw

enw ef oedd *Apol-lyon*: A gwnaeth y golygiad hwnnw i Griſtion ofni, ac i feddwl yntho ei hunan pa un oedd oreu iddo ef a'i dychwelŷd yn ei ôl, a'i myned ar ei Daith; Ond efe a yſtyriodd eilwaith nad oedd gantho ddim harnes iw gefn; Ac o herwŷdd hynnŷ fe a feddyliodd a gallai troi ei gefn tuagat *Apol-lyon*, roddi iddo twŷ o rydd did iw frathu ef yn haws a'i Biccellau; Ac am hynnŷ fe a roes ei frŷd i fentro, ac i gadw ei ſefyllfa; Canŷs ebŷr ef, pedfawn i heb edrŷch ar ddim amgen na chadw fy einioes, gwell ŷw i mi ſefŷll na chilio.

Fellu fe a aeth ymlaen, ac *Apol-lyon* a gyfarfu ag ef: Yr awron yr oedd yr Anghenfil yn arw ei wêdd; Canŷs yr oedd ef wedi ymwiſco a chenn fel Pyſcodŷn (y rhain oedd falch ganddo ef) yr oedd gantho adenŷdd fel Draig, a thraed fel traed Arth, a thân a mŵg oedd yn dyfod allan o'i fol ef, a'i ſafn oedd fel ſafn Llew; A phan neſodd ef at Griſtion, fe a edrychodd arno a chuwch ddirmygus, ac a'i holodd ef fel hŷn.

Apol-lyon. O ba le a daethoch ti, ac i ba le yr ydŷch yn yn myned?

CRISTION. Yr wi'n dyfod o Ddinas Diſtrŷw, yr hon ŷw trigfa pob dryg-ddŷn, ac yr wŷf yn myned tua Dinas *Seion*.

Apol-lyon, Myfi a wn wrth hŷn, mai un o'm Deiliaid i wŷt ti, canŷs myfi a biau'r holl wlâd honno, ac myfi ŷw ei Thwŷſog a'i Duw hi (2 *Corinthiaid* 4. 4 *Epheſiaid* 2. 2.) Pa fódd gan hynnŷ a rhedaiſt ymaith oddiwrth dy Frenin? Oni bae fy môd i yn gobeithio a gwnei di etto i mi twŷ o waſanaeth, myfi a'th darawn di yn fŷan ag un dyrnod ir llawr.

CRISTION. Fe a'm ganwŷd i yn wîr o fewn eich Arglwŷddiaeth chwi: Ond yr oedd eich gwaſ-

 aeth

Porthor. Myfi a ofynnais ei enw ef, ac yntef a ddywedodd wrthif mai *Ffyddlon* oedd ei enw.

CRISTION. O! (ebŷr Criſtion) 'rwi'n ei ddynabod ef, i mae fe'n Gymmydog agos i mi, Fe ddaeth o'r Dref i'm ganwŷd i ynthi; Pa faint yr ydŷch chwi yn tybied a gall ef fôd o'm blaen?

Porthor. I mae ef erbŷn hŷn wedi myned iſlaw y Brŷn.

CRISTION. Wele Borthor anwŷl (ebŷr Criſtion) yr Arglwŷdd a fyddo gyda thi, ac a anghwanego gynnŷdd mawr at dy hôll fendithion di, am y caredigrwŷdd a ddangoſaiſt i mi.

Yna dechreuodd Criſtion ſyned rhegddo; A *Phwŷllog*, *Duwioldeb*, *Cariad*, a *Doethineb* a aethant gydag ef, dan ymddiddan drachefn ynghŷlch y matterion a darfu iddŷnt hwŷ chwedleua o'r blaen amdanŷnt, nes dyfod hŷdat lechwedd y Brŷn; Yna (ebŷr Criſtion) megis yr oedd yn anhawdd eſcŷn i ſynu, Fellu hefŷd (am a welaf) i mae 'n beryglus ddiſcŷn i wared; I mae'r peth fellu (ebŷr *Doethineb*) canŷs matter caled ydŷw i Ddŷn ſyned i wared i Ddyffrŷn Daroſtyngiad (ſel yr wŷt ti yr awron yn myned) ac heb gael cwŷmp ar y ffordd; A dyna 'r rheſwm pa ham yr ydŷm ni 'n dyfod gyda thi i droed y rhiw; Fellu fe a ddechreuodd ſyned i wared, ond yn araf iawn, er hynnŷ efe a lithrodd unwaith neu ddwŷ.

Yna mi a welais y cymdeithion dâ hynnŷ, yn rhoddi i Griſtion (wedi iddo ddyfod i wared o'r brŷn) Dorth o Fara, Coſtrel o win, a ſwp o Reſins, a chwedi hynnŷ fe a aeth iw ffordd.

Ond yn y Dyffrŷn ymma o Ddaroſtyngiad, hi fu'n galed iawn ar Griſtion; Canŷs nid aethai ef yn-hepell ymlaen, ond wele fe a ganfu yſprŷd dŵg yn dyfod rhŷd y maes iw gyfarfod ef, a'i enw

enw ef oedd *Apol-lyon*: A gwnaeth y golygiad hwnnw i Griſtion ofni, ac i feddwl yntho ei hunan pa un oedd oreu iddo ef a'i dychwelŷd yn ei ôl, a'i myned ar ei Daith; Ond efe a yſtyriodd eilwaith nad oedd gantho ddim harnes iw gefn; Ac o herwŷdd hynnŷ fe a feddyliodd a gallai troi ei gefn tuagat *Apol-lyon*, roddi iddo twŷ o rydd did iw frathu ef yn haws a'i Biccellau; Ac am hynnŷ fe a roes ei frŷd i fentro, ac i gadw ei ſefyllfa; Canŷs ebŷr ef, pedfawn i heb edrŷch ar ddim amgen na chadw fy einioes, gwell ŷw i mi ſefŷll na chilio.

Fellu fe a aeth ymlaen, ac *Apol-lyon* a gyfarfu ag ef: Yr awron yr oedd yr Anghenfil yn arw ei wêdd; Canŷs yr oedd ef wedi ymwiſco a chenn fel Pyſcodŷn (y rhain oedd falch ganddo ei) yr oedd gantho adenŷdd fel Draig, a thraed fel traed Arth, a thân a mŵg oedd yn dyfod allan o'i fol ef, a'i ſafn oedd fel ſafn Llew; A phan neſodd ef at Griſtion, fe a edrychodd arno a chuwch ddirmygus, ac a'i holodd ef fel hŷn.

Apol-lyon. O ba le a daethoch ti, ac i ba le yr ydŷch yn yn myned?

CRISTION. Yr wi'n dyfod o Ddinas Diſtrŷw, yr hon ŷw trigfa pob dryg-ddŷn, ac yr wŷf yn myned tua Dinas *Seion*.

Apol-lyon, Myfi a wn wrth hŷn, mai un o'm Deiliaid i wŷt ti, canŷs myfi a biau'r holl wlâd honno, ac myfi ŷw ei Thwŷſog a'i Duw hi (2 *Corinthiaid* 4. 4 *Epheſiaid* 2. 2.) Pa fódd gan hynnŷ a rhedaiſt ymaith oddiwrth dy Frenin? Oni bae fy môd i yn gobeithio a gwnei di etto i mi twŷ o waſanaeth, myfi a'th darawn di yn fŷan ag un dyrnod ir llawr.

CRISTION. Fe a'm ganwŷd i yn wîr o fewn eich Arglwŷddiaeth chwi: Ond yr oedd eich gwaſ-

anaeth chwi yn galed, a'ch cyſlog yn doſt, nas galleu Ddŷn ſŷw arno; Canŷs cyflog pechod ŷw marwolaeth (*Rhufeinied 6. 23.*) ac am hynnŷ pan ddaethŷm i beth oedran, myfi a yſtyriais fel a gwnaeth dynnion pwŷllog eraill, a allwn i wellhau fy nghyflwr.

Apol-lyon. Nid oes un Tywŷſog a gŷll ei Ddeiliaid cŷn yſgafned a hŷn; Ac myfi a wnaf fyngoreu nas collwŷf Inneu monot titheu; Ond gan dy fôd ti yn achwŷn am dy waſanaeth a'th gyflog (bŷdd fodlon i fyned yn ôl) ac yr wŷfi'n addaw ymma roddi i ti ran o'r pethau goreu ſŷdd yn ein gwlâd ni.

CRISTION. Myfi a ymroddais fy hunan i fôd yn waſanaethwr i Frenin y Brenhinoedd, a pha fôdd a gallafi drwŷ oneſtrwŷdd dorri ag ef i ddychwelŷd gŷda thi?

Apol-lyon. Tydi a wnaethoſt yn hŷn yn ôl y Ddihareb, Newid Drŵg am Waeth; Ond i mae'n arferol ir rhai ſŷ'n eu haddef eu hunain eu bôd hwŷnt yn weiſion iddo ef, ar ôl ennŷd fechan ei adel ef, a dychwelŷd attafi; Gwna ditheu fellu a bŷdd pôb peth yn ddâ.

CRISTION. Myfi a roddais iddo ef fy nghrêd, ac a dyngais a byddwn i ufudd iddo; A pha fôdd a gallafi dynnu'n ôl oddiwrth hŷn, heb gael fy nghrogi fel Bradwr?

Apol-lyon. Tydi a wnaethoſt yr un peth i minneu, Ac etto nis cofiaf fi dy waith di yn gadel fy ngwaſanaeth os dychwèli di yr awron dracheſn, a myned yn ôl.

CRISTION. Yr hŷn a addewais i ti oedd yn fy ieuengctid, Ac heblaw hynnŷ myfi a wn a gall y Tywŷſog (dan faner yr hwn yr wi yr awron yn rhyfela) fy rhŷddhau i oddiwrth fy rhwŷmedigaethau, ie a maddeu i mi hefŷd fy 'ngwaith yn

ym,

ymrwŷmo i fôd yn wâs i ti, ac o ddywedŷd y gwîr O *Apol-lyon*, gwell gennifi ei wasanaeth, ei gyflog, ei weision, ei Lywodraeth, ei Gyfeillach a'i Wlâd ef na'r eiddoti; Ac am hynnŷ na themptia monofi mwŷ i ddychwelŷd i'th wasanaeth di; Canŷs ei wâs ef wŷfi ac mi a'i canlynaf ef.

Apol-lyon. Yftyria dracheſn pan fyddi yn Bwŷllog o Griſtion, pa beth yr wŷti yn debŷg i gyfarfod ag ef yn y ffordd yr wŷti yn myned; Dydi a wŷddoſt fôd Gweision yr hwn yr wŷt ti yr awron wedi ei gymerŷd yn lle'th Arglwŷdd, y rhan mwŷaf yn dyfod i ddiwedd drŵg, am eu bôd nhwŷ yn fy ngwrthwŷnebu i a'm ffyrdd; Pa ſawl un o honŷnt hwŷ a roddwŷd i farwolaeth gwirfyddus? A lle yr wŷt yn cyfrif ei wasanaeth ef yn well na'r eiddo fi: Gwŷbŷdd hŷn, na ddaeth ef erioed etto o'r mann a mae fe yntho. I waredu néb (o'r rhai a'i gwaſanaethaſant ef) o'm dwŷlo i; Ond amdanafi, Pa ſawl gwaith (fel y gŵŷr y Bŷd yn ddigon dâ) a gwaredais i, naill a'i trwŷ nerth, neu trwŷ ddiſchell (y rhai a'm gwaſanaethaſant i yn ffyddlon) odditan ei ddwŷlo ef a'i eiddo, er ſddŷnt eu dal hwŷnt yn eu rhwŷdau; Ac fellu i'th waredaf ditheu os mynni.

CRISTION. Ei bwrpas ef trwŷ beidio yn breſennol, a gwaredu rhai o'i bobl o'th garcharau a'th gadwŷnau di, ydŷw er mwŷn cael prawf a ydŷnt hwŷ yn ei garu ef, ac a lynant hwŷ wrtho ef hŷd y diwedd (*Datcuddiad* 2. 10.) Ac am y drŵg ddihenŷdd yr wŷti yn dywedŷd fôd rhai o honŷnt yn dyfod iddo, i mae hynnŷ yn dra gogoneddus yn eu golwg hwŷnt; Canŷs nid ydŷnt hwŷ yn diſgwŷl nemmawr am warediad preſennol; Oblegit eu bôd yn aros am eu gogoniant; Yr hwn a gânt hwŷ yn ddiammeu ei fwŷnhau, pan ddelo eu Tywŷſog yn ei ogoniant gyda ei Angylion go-

goneddus (*Rhufeiniaid* 8. 18. *Coloſiaid* 3. 4.)

Aol-lyon. Dydi a fuaſt anffyddlon euſus yn ei waſanaeth ef, a pha fôdd yr wŷti 'n meddwl cael cyflog gantho ef?

CRISTION. Ymha beth (o *Apol-lyon*) a bum i yn anffyddlon iddo ef?

Apol-lyon. Dydi a wanhychaiſt yn dy fynediad cyntaf allan, pan oeddŷt ymmron ſuddo yn y Llyngc-lŷn o Anobaith; Dydi a amcenaiſt trwŷ y gau foddion, i ymddilwŷtho oddiwrth dy fauch, lle dylaſit ti aros hŷd oni baſai i'th Dwŷſog ei gymmerŷd ef ymaith; Di a gollaiſt dy dlyſau mewn cwſc pechadurus; Di a fuoſt heſŷd o fewn ychydig i ddychwelŷd yn dy ôl wrth ganfod y Llewod; A phan wŷti 'n ſôn ac yn llefaru am dy Daith, a'r hŷn a glywaiſt ac a welaiſt, i mae dy Galon yn chwennychu gwag ogoniant, yn y cwbl yr wŷti yn ei ddywedŷd, ac yn ei wneuthur.

CRISTION. I mae hŷn ôll yn wîr, a llawer mwŷ nag a adroddaiſt; Ond i mae y Tywŷſog, yr hwn yr wŷfi yn ei waſanaethu, ac yn ei anrhydeddu, yn Drugarog, ac yn barod i faddeu gwendid ei bobl; Ond cofia hŷn (o Gyhuddwr y brodŷr) mai yn dy wlâd di a dyſcais i bechu, ac yno a ſugnais i bôb drŵg i'm calon; Ond o'r diwedd mi a ruddfanais dan lwŷth fy mhechodau, gan fôd yn ofudus o'u plegŷd hwŷnt, a'm Tywŷſog a faddeuodd i mi 'r cwbl.

Apol-lyon. Yna llefarodd *Apol-lyon* mewn cynddeiriogrwŷdd mawr, gan ddywedŷd yr wŷfi yn elŷn ir Tywŷſog ymma, ac yr wi 'n caſhâu ei Berſon, ei ddeddfau, a'i bobl ef: Ac myfi a ddaethŷm allan mewn llawnfrŷd i'th wrthwŷnebu di.

CRISTION. Gwilia di Apol-lyon pa beth a wnelŷch, canŷs yr wŷfi yn teithio ar brif ffordd y Brenin, ſef yn y ffordd o ſancteiddrwŷdd, ac

am

am hynnŷ edrŷch attad dy hunan (*Eſaŷ* 35. 8.)

Apol-lyon. Yna lledodd *Apol-lyon* ei draed tros lêd y ffordd, ac a ddywedodd, nid oes arnafi ofn yn y matter ymma, Ymbarodtoa i farw; Canŷs mi a dyngais i'm Ogof uffernol, nad ei di ddim pellach; Ac mi fynnaf weled gwaed dy galon di yn y lle hwn; A chyda hynnŷ fe a daflodd biccell danllŷd tuagat ei ddwŷfron ef; Ond yr oedd gan Griſtion Darian yn ei law, ac efe a ymddiffynnodd ei hunan a honno; Ac fellu fe a ymgadwodd rhag niwed y prŷd hwnnw (*Epheſiaid* 6. 16.) Yna tynnodd Griſtion ei gleddŷf allan, canŷs yr ef yn ei gweled hi'n brŷd iddo edrŷch atto ei hunan; Ac *Apol-lyon* ar frŷs a ymoſodod yn filain yn ei erbŷn ef eilwaith, gan daflu piccellau cyn amled a'r cenllŷſg tuag atto ef; Ac a'r rhain (er cymmaint a allodd Griſtion ei wneuthur, i ymgadw rhagddŷnt) fe 'i clwŷfwŷd ef gan Apol-lyon yn ei Ben, yn ei Law, ac yn ei Droed, yr hŷn a wnaeth i Griſtion gilio ychydig; Ac am hynnŷ fe a gurodd Apol-lyon arno yn fwŷ nerthol; Ond fe gymmerodd Griſtion galon drachefn, ac a'i gwrthwŷnebodd ef mor wrol ac a gallai; Yr ymladd toſt ymma a barhâodd fwŷ na hanner diwrnod, ie hŷdonid oedd Griſtion ymron deffygio; Canŷs rhaid i chwi wŷbod ei fôd ef o achos ei friwlau yn myned wannach wannach.

Apol-lyon ar hŷn (wedi cael y fâth gyfleu) a ddaeth neſnes at Griſtion; A chan ymryſon ag ef, a'i taflodd ef i lawr mewn môdd creulon, a chyda hynnŷ fyrthiodd cleddŷf Griſtion allan o'i law ef; Yna ebŷr Apol-lyon wrth Griſtion 'rwi'n ſŵr o honoti yr awron; A chan gwŷmpio arno ef, fe a'i llethodd ef agos i farwolaeth, hŷdoni ddechreuodd Griſtion ofni am ei fywŷd; Ond fel yr oedd Duw yn mynnu, tra yr ydoedd Apol-lyon ar roddi

ei ddyrnod diwaethaf iw lâdd ef, fe a eſtynnodd Criſtion ei law allan yn egniol, ac a ymaelodd yn ei gleddŷf, ac a ddywedodd, Na lawenhycha i'm herbŷn O fy Ngelŷn! Pan ſyrthiwŷf mi a gyfodaf drachefn (*Mica* 7. 8.) A chyda hynnŷ efe a roddodd frâth dwŷs i Apol-lyon, yr hwn a wnaeth iddo gilio megis un wedi derbŷn ei friw marwol: Criſtion wrth weled hynnŷ, a gurodd arno ef drachefn, gan ddywedŷd; Yn y pethau hŷn oll, yr ŷm ni yn trwŷ nâ choncwerwŷr trwŷ'r hwn a'n carodd ni; Ac ar hynnŷ Apol-lyon fel Draig a dannodd ei adenŷdd ar lêd, ac a fryſiodd ymaith, fel na welodd Criſtion mono mwŷ (*Rhufeinaid* 8. 37. *Iaco* 4. 7.)

Yn yr ymdrech hwn, ni ddichon calon Dŷn feddwl (oni baſai iddo weled a chlywed fel a gwneuthŷm i) mor ofnadwŷ yr oedd Apol-lyon, trwŷ hôll amſer yr ymdrech, yn rhuo, gan leiſio fel Draig: Ac o'r tu arall, pa ocheneidiau a gruddfannau oedd yn dyfod allan o galon Criſtion; Ni welais i mono ef trwŷ gydol yr amſer, yn edrŷch cymmaint ag unwaith yn ſiriol, hŷdoni wŷbu ef iddo glwŷfo Apol-lyon a'i Gleddŷf dau finiog, (*Epheſiaid* 6. 17. *Hebreaid* 4. 12.) Ond gwedi Deall hynnŷ, fe a wenodd ac a chwarddodd.

A chwedi gorphen yr ymdrech hwn fe a ddywedodd Criſtion, myfi a ddiolchaf yn y lle ymma ir hwn a'm gwaredodd i o ſafn y Llew, ac a'm nerthodd i yn erbŷn Apol-lyon; Ac ar hynnŷ fe a ganodd fel hŷn,

Belzebub, pen Tywŷſog hŷll,
Y diffaith Ellŷll ymma,
(Am ei fôd ar feddwl frŷd,
O'm bywŷd fy nifetha)

A yrrodd ymma mewn gwŷg gref;
Y gwrthŷn gene gwaethaf,
Mewn tanllŷd ac uffernol fôdd,
A chwimwth ruthrodd arnaf.

Ond *Michael* fendigedig borth,
A ddaeth i'm cynnorthwŷo:
Ac mi a'i gyrrais (gwŷch ŷw'r wêdd)
A mîn y clêdd i gillo.

Am hynnŷ bŷdd i mi roi mawl,
A diolch bythawl iddo,
A bendithio a llafar lêf
Ei enw ef heb peidio.

Wedi hynnŷ daeth atto ef Law, gan ddwŷn iddo rai o ddail pren y bywŷd; A Chriſtion a'u cymmerodd, ac a'u rhoddodd wrth y clwŷfau a gawſai ef yn yr ymladdfa; Ac fe a iachawŷd yn ſŷan (*Datcuddiad* 22. 2.) Ac fe a eiſteddodd yno hefŷd i fwŷdta Bara, ac i yfed o'r Goſtrel a roddaſid iddo ychydig o'r blaen; Fellu wedi ymadfŷwio, fe a ymdaclodd i fyned ymlaen, gan ddwŷn ei gleddŷf noeth yn ei Law; Canŷs ebŷr efe, ni wn i nad oes rhŷw Elŷn arall ger llaw; Ond ni ruthrodd Apol-lyon mwŷ arno trw'r hôll ddyffrŷn ymma.

Yr awron ynghwrr y Dyffrŷn hwn, yr oedd Dyffrŷn arall a elwŷd Dyffrŷn cyſcod Angeu, ac yr oedd yn rhaid i Griſtion fyned trwŷddo, am fôd y ffordd ir Ddinas Nefol yn myned trwŷ ei ganol ef; Ond lle anghyſanedd iawn ydwŷ'r lle hwn, megis yr anialwch yr aeth yr Iſraeliaid gynt drwŷddo (*Feremiah* 2. 6.) Yr awron hi a fu gwaeth ac Griſtion yn y Dyffrŷn ymma nag yn ei ymdrech ag Apol-lyon.

Yna mi a welwn, wedi ei Gristion ddyfod i bdreu Dyffrŷn cyscod Angeu, ddau ŵr yn cyfarfod ag ef, meibion i rhai a roesant anglod gŷnt i wlâd *Canaan*, yn brysio i fyned yn ôl (*Numeri* 13. 32.) Wrth y rhai a llefarodd Cristion fel hŷn.

CRISTION. I ba le yr ydŷch chwi yn myned?

Gwŷr. Hwŷthau a attebasant, yn ôl, yn ôl, ac nyni a fynem i chwithau hefŷd wneuthur fellu, os ŷw eich einioes na'ch heddwch yn werthfawr gennŷch.

CRISTION. Pa beth ŷw'r matter ebŷr Cristion?

Gwŷr. Matter ebŷr nhwŷ, yr oeddem ni yn myned fel yr ydŷch chwithau rhŷd y ffordd ymma; Ac ni a aethom cŷn belled ag a meiddiem; Ac yn wir pe basem yn myned ychydig ymhellach, ni allesem ni bŷth ddyfod yd ôl, ac ni chlywsit ti bŷth y newŷddion ymma allan o'n geneuau ni.

CRISTION. Ond pa beth a welsoch ac a glywsoch chwi ebŷr Cristion?

Gwŷr. Nyni a welsom Ddyffrŷn cyscod Angeu; Canŷs ni a ddaethom o fewn ychydig iddo, ac ir peryglon sŷdd yntho; Ond trŵŷ ddigwŷddiad dâ, Nyni a edrŷchasom o'n blaen, ac a ganfuom y perŷgl cŷn dyfod iddo (*Psalm* 23. 4. & 107. 18.) I mae'r Glŷnn cŷn dywŷlled ar Pŷg; Nyni a welsom yno Ellyllon a Dreigiau y pwll uffernol; Ac a glywsom udo a Gwŷlofain dibaid yn dyfod o'r Dyffrŷn hwnnw, megis oddiwrth Ddynnion yn gorwedd yn rhwŷm yno, mewn heirn a thrueni anrhaethadwŷ; Ac i mae cymylau tewion iawn (y rhain a allent fagu dychrŷn mewn pobl) yn crogi uwch ben y Glŷnn ymma, ac i mae Angeu hefŷd yn lledu ei adenŷdd trosto ef yn waftadol: Ac o fôd yn fŷrr i mae pôb mymrŷn

o hono iw arſwŷdo, gan ei fôd ef igŷd yn wrthŷn ac yn hagar.

CRISTION. Er hŷn igŷd ebŷr Criſtion, dyma fy ffordd i tua'r porthladd dymunol.

Gwŷr. Bydded hi'n ffordd i ti, ni ddewiſwn ni moni yn ffordd i ni: Fellu hwŷ a ymadawſant; A Chriſtion a aeth ymlaen, ond yn waſtadol a'i Gleddŷf noeth yn ei law, rhag ofn i neb ruthro arno.

Wedi hynnŷ mi a welais yn fy mreuddwŷd, fôd ffôs ddŵfn iawn ar yr hôll yſtlus dehau i'r Dyffrŷn hwn, ac ir ffôs hon a bu'r Dall yn tywŷſo'r Dall ymhob oes; Ac ynthi hi a darfu am y ddau mewn môdd erchŷll. (*Matthew* 15. 14.) A thrachefn, Wele ar yr ochr aſwŷ yr oedd Cors beryglus iawn, ie ir hon os ſyrthiai Gŵr dâ, ni chai ef un gwalod caled ynthi iw draed i ſefŷll arno; Ir Gors honno a ſyrthiodd y Brenin *Daſŷdd* unwaith; Ac yn ddiammeu fe ddarfaſai amdano ef yno, oni bae ir hwn ſŷdd Alluog ei dynnu ef ir Lann. (*Pſalm* 69. 2, 14)

Yr oedd y llwŷbr hefŷd yn y Dyffrŷn hwn yn gyfŷng iawn, ac am hynnŷ a bu hi yn galed iawn ar Chriſtion yn y lle ymma: Oblegit pan geiſiai ef yn y tywŷllwch ochelŷd y ffôs ar y naill law, fe a fyddai yn barod i ſyrthio droſodd ar y llaw arall: A phan geiſiai ef hefŷd ymgadw rhag y clai o'r naill du, oni byddai ef yn gofalus iawn, fe a fyddai yn barod iawn i ſyrthio ir ffôs; Ac fel hŷn yr oedd ef yn myned ymlaen; Ac mi a'i clywais ef ymma yn ochneidio yn doſt; Canŷs heblaw y perŷgl a grybwŷllwŷd amdano uchod, yr oedd y llwŷbr mor dywŷll, fel na wŷddai ef yn ſynnŷch, pan godai ef ei droed i fyned ymlaen, ym mha le, nac ar ba beth a goſodai ef ei droed drachefen.

Heblaw hŷn, yr oedd ſaſn uffern ynghanol

y

y Dyffrŷn hwn, ac yr oedd hi hefŷd yn agos iawn at fin y ffordd; A phan wŷbu Criſtion hynnŷ, efe a ddywedodd Pa beth a wnafi yr awron? Ac yr oedd y fflam a'r mŵg, a'r Gwreichion, ynghŷd a lleiſiau creulon ac erchŷll yn dyfod allan yn fynŷch, ac yn aml iawn oddiyno; Ac oblegit nad allai Criſtion a'i gleddŷf wneuthur niweid ir pethau hŷn, fel a gwnaethai o'r blaen i Apol lyon, efe a'i dododd yn ei wain; Ac a gymmerodd Arf arall yn ei law, a elwid Pôb rhŷw weddi (*Epheſiaid* 6. 18.) Ac mi a'i clywn efyn gweddio, Attolwg Arglwŷdd gwared fy enaid (*Pſalm* 116. 4.) Ac er myned o hono ymlaen fel hŷn dros grŷn ennŷd, etto yr oedd y fflam yn ymgyrchu tuag atto ef yn waſtadol; Ac efe a glywai hefŷd leiſiau yn grudd-ſan, a thrwſt mawr ymma a thraw, megis pedfaſai rhai yn neſu tuag atto, a hynnŷ dros amrŷw filltyroedd; A'r golwg creulon, a'r lleiſiau ofnadwŷ ymma, a wnaeth iddo ofni a cai efei larpio yn ddryllíau, neu ei ſathru fel y dom yn yr heolŷdd; Ac wedi dyfod i fynu lle a tebŷgaſai ef ei fôd yn clywed bagad o Ellyllon, yn dyfod ymlaen iw gyfarfod ef, fe a ſafodd ac a ddechreuodd feddwl pa beth oedd oreu iddo wneuthur; Weithiau yr oedd yn ei frŷd ef droi yn ôl; Wedi hynnŷ efe a yſtyriodd ei fôd ef gwedi dyfod ynghŷlch hanner y ffordd trwŷ'r Dyffrŷn; Ac yn ddiweddaf fe a feddyliodd ddarfod iddo euſus orchfygu llawer o beryglon; Ac a gallai y perŷgl o fyned yn ôl fôd yn fwŷ o lawer nag o fyned ymlaen; Ac ar hynnŷ fe a ymrodd i fyned ymlaen; Ond yr oedd yr yſprydion drŵg yn dyfod nes-nes, a phan ddaethant o fewn ychydig o ffordd atto, fe a waeddodd a llef uchel iawn, gan ddywedŷd; Myfi a rodiaf yn nerth yr Arglwŷdd Dduw; A chyda hynnŷ hwŷ a droeſant eu cefnau, ac ni ddaethant ymhellach

Fe

Fe a ddigwŷddodd un peth i Griſtion, nad allaſi adel heibio heb ei adrodd; Mi a ddeliais ſulw ei fôd ef (druan Gŵr) trwŷ y gorthrymderau hŷn, megis un yn agos a gwallgofi, oblegit nid adwaenai ef mo'i leferŷdd ei hun; Ac fel hŷn a gwŷbum i hynnŷ: Gyntaf ac a daeth ef drôſodd gyferbŷn a ſafn y llŷn ſŷdd yn lloſci a thân a brwmſtan, fe ddaeth un o'r yſprydion drŵg y tu cefn iddo, ac a neſodd atto yn araf, ac a hyrddodd lawer o gableddau blîn lw enaid ef, y rhai a debŷgaſai Criſtion mai allan o'i galon ei hun yr oeddent hwŷ yn dyfod; A gwaſgodd hŷn arno ef yn fwŷ na dim arall ar a ddigwŷddodd iddo o'r blaen, ſef i feddwl iddo ef yr awron gablu yr hwn yr oedd ef yn ei fawr garu yn yr amſer gŷnt; Etto yr oedd ef yn yſtyried pe gallaſai ef beidio, na wnaethaſai fe mo hynnŷ; Ond nid oedd gantho ef mor doethineb yr awron, nac i gau ei gluſtiau, nac i Ddeall o ba le yr oedd y cableddau hynnŷ yn dyfod.

Wedi i Griſtion ymdeithio grŷn ennŷd yn y cyflwr anghyſurus hwn, fe glywodd leferŷd rhŷwŵr, yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef, yn dywedŷd fel hŷn, Pe rhodîwn rhŷd glŷnn cyſcod Angeu nid ofnaf niwed, canŷs yr wŷt ti gyda mi (*Pſalm* 23.4.) Yna fe a gymmerodd galon a chyſur; A hynnŷ o herwŷdd y rheſymmau a ganlynant.

Yn Gyntaf, Am ei fôd ef yn caſclu oddiwrth hynnŷ, fôd rhai ar a oeddŷnt yn ofni Duw yn ymdeithio yn y Dyffrŷn hwn yn gyſtal ac ef ei hun.

Yn Ail, Am ei fôd ef yn deall fôd Duw gyda hwŷnt (er eu bôd nhwŷ mewn tywŷllwch, a chyflwr anghyſſurus tros yr amſer preſennol) Ac onid ŷw ef gyda minnau hefŷd (ebŷr Criſtion) er nad wŷfi yn ei weled ef, o achos y rhwŷſtrau ſŷ yngŷn wrth y llê ymma (*Job* 9. 11.)

Yn Drydŷdd, Am ei fôd yn gobeithio (os gallai ef ei goddiwes hwŷ) a cai ef gyfeillion ymhen ennŷd; Fellu fe a aeth ymlaen, ac a alwodd ar yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef; Ond ni wŷddai hwnnw pa beth a attebai, am ei fôd ynteu hefŷd yn tybied ei fôd ef ar ei ben ei hun; A gwawriodd y Dŷdd ymhen ychydig ar ôl hynnŷ: Yna a dywedodd Criſtion, Duw a drodd gyſcod Angeu yn foreu-ddŷdd (*Amos* 5. 8.)

A phan ddaeth y Borau, fe a edrychodd o'i ôl; Ond nid o chwant dychwelŷd, ond i weled wrth liw Dŷdd y peryglon yr aethai ef trwŷddŷnt yn y tywŷllwch: Ac wele fe a ganfu yn eglurach y ffôs oedd ar y naill law, a'r Gors oedd ar y llaw arall; Ac hefŷd gyfynged oedd y ffordd, yr hon ſŷdd yn arwain rhyngthŷnt trwŷ'r Dyffrŷn; Efe a welodd hefŷd yr awron yr yſprydion drŵg, a dreigiau 'r pwll di.waelod, ond ôll o hirbell; Canŷs ni ddeuent hwŷ yn agos gwedi ir Dŷdd wawrio; Etto hwŷ a amlygwŷd iddo ef, yn ôl yr hŷn a yſcrifenwŷd, Duw ſŷ'n datcuddio pethau dyfnion allan o dywŷllwch, ac yn dwŷn cyſcod Angeu allan i oleini (*Job* 12. 22.)

Yr awron yr oedd yn hôff gan Griſtion gael o hono ei waredu o ddiwrth hôll beryglon ei ffordd arial; Y peryglon hŷn, er ei fôd yn eu hofni yn fwŷ o'r blaen, etto yr oedd ef yn eu gweled hwŷ yn eglurach yr awron, am fôd goleuni y Dŷdd yn eu gwneuthur hwŷ yn amlwg iddo; Ac ynghŷlch y prŷd hŷn a codaſai yr Haul; Ac yr oedd hynnŷ yn drugaredd arall i Griſtion: Canŷs rhaid i chwi wŷbod er bôd y rhan gyntaf o Ddyffrŷn cyſcod Angeu yn berŷgl; Etto yr oedd yr ail rhan, ir hon yr oedd ef yn myned yr awron (pettai boſſibl) yn beryclach o lawer; Canŷs o'r mann yr oedd ef yn ſefŷll arno yr awron, hŷd at gwrr eithaf y Dyffrŷn,

yr

yr oedd yr hôll ffordd cŷn llawned o faglau, o gynllwŷnion i dwŷllo, ac o rwŷdau, a chŷn llawned o Byllau a thyllau dyfnion, ac o fannau yn pwŷſo tuag i wared, fel ped faſai hi yn dywŷll yr awron, megis yr oedd hi pan ddaeth ef y rhan gyntaf o'r ffordd, pedfaſai gantho fil o Eneidiau (yng-olwg rheſwm) fe'u collaſai nhwŷ bodygun ; Ond yr oedd yr Haul (megis a dywedais i) yr awron yn codi; Yna a dywedodd Criſtion, Duw a wnaeth iw oleuni lewŷrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn yr aethŷm trwŷ dywŷllwch (*Job* 29. 3.) Ac wrth y goleuni hwn a daeth ef i gwrr eithaf y Dyffrŷn.

Wedi hynnŷ mi a welais yn fy mreuddwŷd, ac wele yn y mann eithaf o'r Dyffrŷn ymma, yr oedd Gwaed, Eſcŷrn, Lludw, ac aelodau cŷrph rhŷw Ddynnion, ie Pererinod (y rhai a aethent y ffordd ymma gŷnt) yn gorwedd ar wŷneb y ddaear; A thra yr oeddwn i yn meddwl pa beth a allai fôd yr achos o hŷn, myfi a ganfum ogof ychydig o'm blaen, lle a baſai Dau *Gawr* yn trigo yn yr hên amſer, trwŷ awdurdod a chreulondeb pa ral, a rhoddwŷd y Dynnion hynnŷ i farwolaeth boen-fawr : Ond Criſtion a aeth heibio ir llê hwn heb fawr berŷgl, yr hŷn a fu yn lled-ryfêdd gennifi; Ond myfi a wŷbum wedi hynnŷ fôd un o'r Cawri, ſef *Pagan* wedi marw er ys talm : Ac am y llall, ſef *Mab y golledigaeth*, er ei fôd ef etto yn ſŷw, i mae ef er hynnŷ o achos ei henaint, a'r amrŷw friwiau atgas a gafodd ef o brŷd i brŷd, mor yſig, ac mor anyſtwŷth yn ei gymalau, fel na ddichon ef yr awron wneuthur nemmawr gydag eiſtedd yng enau ei ogof, a chwrnu ar y Pererinod a fyddo yn myned heibio, a chnoi ei ewinedd am nad ŷw ef yn gallu dyfod attŷnt hwŷ (2 *Theſſalonians* 2. 3.)

Yna mi a welwn Criſtion yn myned rhŷd ei ffordd

ffordd; Etto wrth ganfod yr hên ŵr oedd yn eiſtedd yng-enau'r ogof, Ni wŷddai ef pa beth i dybied, yn enwedig am ei ſôd yn lleſaru wrtho (er na alleu ddyfod ar ei ôl ef) gan ddywedŷd, Ni pheidiwch chwi bŷth, ac ni wellewch, hŷd oni loſcir llawer mwŷ o honoch; Ond ſe a dawodd a ſôn, ac a edrychodd arno ef ag wŷnebprŷd gwrol; Ac fellu ſe a aeth heibio, ac ni chafodd ddim niwed oddiwrtho; Yna a canodd Criſtion fel hŷn,

Ni allaf ddywedŷd llai o'm genau,
Nad crŷn Fŷd o ryfeddodau,
Oedd fy achub a'm gwaredu,
O'r gofudiau a'm cyfarfu.

Tra fum yn y Dyffrŷn ymma,
Dyſn dywŷllwch o'r perycla,
Diawlaid, Uffern, pechod gwrthŷn,
A'm cwmpaſeu bôb mynudŷn.

Pyllau, Rhwŷdau, a chrog-prennau,
Oedd yn llawn o bôb-tu 'm llwybrau;
Y fi druan gwael, ſe allaſid,
Dal a maglu fy' enaid heſŷd.

O! Bendigaid bŷth heb derfŷn,
A fo'r llaw a'm cadwodd rhagddŷn:
A chan fy môd yn fŷw yr awron,
Bŷdd ir Ieſu wiſco'r Goron.

Ac fel yr oedd Criſtion yn myned ymlaen, ſe a ddaeth i allt ſechan; Yr hon a godaſid ir dîben hwn, fel a galleu Bererinod ganffod o'u blaen; Ag wedi dyfod i fynu yno, ac edrŷch o'i flaen, ſe a ganfu *Ffyddion* ar ei daith; Yna Criſtion a waeddodd a llêſ uchel, Hai, Hai, Hai-how, arhoſwch,

a

a mi a fyddaf gydymalth i chwi; Ar hynny *ffyddlon* a edrychodd o'i ôl, a gwaeddodd Criſtion arno ef drachefn, gan ddywedŷd Arhoſwch Arhoſwch, hŷd oni ddelwŷf i fynu attoch; Ond *Ffyddlon* a attebodd, Na wnaf, yr wŷfi'n rhedeg am fy mywŷd, i mae Dialwr y gwaed yn fy nilŷn i; A Chriſtion a gyffrowŷd ychydig ar hŷn; A chan ymegnio a'i hôll nerth, fe a oddiweddodd *Ffyddlon* yn fŷan, ac a redodd hefŷd yn gŷnt nag ef, fellu yr olaf a fu flaenaf; Yna chwarddodd Criſtion yn wagfaw, o blegid iddo gael y blaen ar ei Frawd; Ond heb ofalu 'n ddâ ar ei draed, fe a dripiodd yn fŷan ac a fyrthiodd, ac nis gallai gyfodi drachefn hŷdoni ddaeth *Ffyddlon* i fynu iw gynnorthwŷo ef.

Yna mi a'u gwelwn hwŷ yn myned ynghŷd yn garedig iawn, gan ymddiddan yn hyfrŷd a'u gilŷdd am yr hôll bethau a ddigwŷddaſeu iddŷnt yn eu Pererindod; A Chriſtion a ddechruodd fel hŷn.

CRISTION. Fy anwŷl Frawd Ffyddlon, i maen 'n ddâ gennif i mi 'ch goddiweddŷd chwi, ac fôd Duw wedi cŷdtymheru ein Hyſprŷdoliaeth ni yn y fâth fôdd, fel a gallom rodio ynghŷd megis Cymdeithion yn y llwŷbŷr ymma yr hwn ſŷdd mor hytrŷd.

Ffyddlon. Gyfaill anwŷl, myfi a obeithiais gael eich cymdeithas chwi o'n trêſ ni o hŷd, Ond chychwi a gawſoch y blaen arnafi; Ac am honny ſe orfu i mi ddyfod hŷdymmâ fy hunan.

CRISTION. Pa hŷd yr aroſaſoch chwi yn Ninas Diſtrŷw, cŷn i chwi ddyfod allan ar fy ôl i ar eich Pererindod.

Ffyddlon. Hŷd nad allwn i aros dim yn hwŷ, canŷs yr oedd yno ſôn mawr (yn y mann gwedi i chwi ymadel a ni) a byddai i'n Dinas ni ar fyrder gael ei lloſci a thân o'r Nefoedd hŷd y llawr.

CRISTION. A oedd eich cymydogion chwi yn

yn ſiarad fellu? Ac a ddaeth nêb o honŷnt hwŷ allan o'r Ddnias ond chwychwi, i ddiangc rhag y perŷgl ymma?

ffyddlon. Er bôd yno, ac oddiamgŷlch mewn lleoedd eraill ſôn mawr, a difethid ein Dinas ni a Thân a Brwmſtan oddi uchod; Etto nid wŷſi'n tybied, fôd ein Dinaſyddion ni yn coelio hynnŷ; Canŷs myfi a glywais rai o honŷnt (pan oeddid yn ſiarad fwŷaf am y matter hwn) yn dywedŷd yn watwarus amdanoch chwi, a'ch taith rhyfygus (canŷs fellu a galwaſant hwŷ eich pererindod chwi) ond yr oeddwn i, ac yr wŷfi fŷth yn credu mai fellu a difethir ein Dinas ni; Ac am hynnŷ myfi a ddiangais allan o honi.

CRISTION. A glywſoch chwi ddim ſôn am fy nghymydog *Meddal*? Ac os do, pa fôdd yr oedd pobl yn ymddwŷn eu hunain tuag atto ef?

ffyddlon. Myfi a glywais iddo ef eich canlŷn chwi hŷdoni ddaeth ef i Gors anobaith, yn yr hon a ſyrthiodd ef (meddai rhai) ond ni ſynnai ef i neb wŷbod hynnŷ; Ond myfi a wn ei fôd ef wedi ei ddiwŷno yn fŷdŷr a thom y Gors honno; A chwedi iddo ddychwelŷd yn ôl, i mae pôb mâth o bobl yn ei watwar, ac yn ei ddirmygu ef; A phrin a gelŷd neb ef ar waith, ac i mae ef yr awron yn ſaith waeth nag a bu ef erioed o'r blaen.

CRITSION. Ond pa ham a maent hwŷ wedi ymoſod yn ei erbŷn ef fellu, gan eu bôd nhwŷthau heſŷd yn dibriſio'r ffordd a trôdd ef oddiarni.

ffyddlon Ow meddant hwŷ! Crogwch ef crogwch ef, Rhagrithiwr ŷw ef; Ni bu ef gywir iw ffŷdd ei hun: Ie yr wi'n tybied fôd Gelynion Duw wedi eu goſod ar waith iw annoſs ef, ac iw wneuthur ef yn Ddihareb, am iddo gilio allan o'i ffordd a dychwelŷd yn ôl i Ddinas Diſtrŷw (*Jeremi* 29. 18. 19.)

CRIS.

CRISTION. A fu dim ymddiddan rhyngochi ac ef cŷn eich dyfod oddicartref?

ffyddlon. Myfi a gyfarfum ag ef unwaith yn yr heol, ond efe a giliodd ymaith i yſtlus arall yr heol, fel un a chywilŷdd arno am yr hŷn a wnaethai; Fellu nid yngenais i air wrtho.

CRISTION. Pan ddechreuais i fy nhaith, yr oeddwn yn gobeithio 'n ddâ am y gŵr hwnnw; Ond yr awron yr wi 'n ofni a derfŷdd amdano ef yn niſtrŷw y Ddinas; Canŷs digwŷddodd iddo ef yn ôl y wir Ddihareb, Y Ci a ymchwelodd at ei chwdiad ei hun, a'r Hŵch wedi ei golchi iw hymdreiglſa yn y dom (*2 Petr* 2. 22.)

ffyddlon. Yr wŷf inneu yn ofni hynnŷ (ebŷr *ffyddlon*) ond pwŷ a all rwyſtro yr hŷn a fŷdd?

CRISTION. Ond y cymydog *ffyddlon* ebŷr Criſtion, gan adel *Meddal*, ſiaradwn am y matterion a berthŷn i ni ein hunain yn fwŷ yr awron; Mynegwch i mi gan hynnŷ, pa bethau a ddigwŷddaſant i chwi ar y ffordd wrth ddyfod; Canŷs myfi a wn i chwi gyfarfod a rhŷw ddrygau; Onidto gellir yſcrifennu hynnŷ yn lle rhyfeddod.

ffyddlon. Myfi a ymgedwais rhag y Gors, ir hon a ſyrthiaſoch chwi iddi; Ac a ddaethŷm i fynu ir porth heb gael prawf o'r perŷgl hwnnw; Ond myfi a gyfarfum ag un a elwid *Trythŷll*, yr hon a fu debŷg i wneuthur i mi niwed.

CRISTION. Dâ a fu i chwi ddiangc rhag ei rhwŷd hi; Y fâth un a honno a fu caled iawn i *Joſeph*, ond ynteu a ddiangodd rhagddi, er iddo agos golli ei fywŷd o'i phlegid hi (*Geneſis* 39.) Ond pa beth a wnaeth hi i chwi?

ffyddlon. Chwi a ryfeddech (oni bae eich bôd chwi 'n gwŷbod rhŷwbeth), pa fâth dafod gwenheuthus oedd gan y Faeden: Hi a fu daur wrthŷf am droi gyda hi, gan addo i mi bôb mâth

o Fodlonrhwŷdd cnawdol, ond nid y bodlonrhwŷdd ſŷ'n dofod allan o gydwŷbod ddâ.

CRISTION. Diolchwch i Dduw a'ch cadwodd chwi rhagddi: Y nêb a byddo'r Arglwŷdd yn ddig wrtho, a ſyrth yn y ffôs honno (*Diharebion* 22. 14)

ffyddlon. Nage, ni wn i pa un a wnaethŷm a'i dlangc yn gwbl oddiwrthi a'i peidio.

CRISTION. Ow! Yr wi'n gobeith na rodd. aſoch chwi lê iw hudoliaeth hi?

ffyddlon. Na ddo i'm halogi fy hun yn gorphorol gyda hi, canŷs yr oeddwn yn cofio hên yſcrifen a welſwn i, yr hon oedd yn dywedŷd, ei thraed hi a ddeſcynnant i Angeu, a'i cherddediad a ſang uffern (*Diharebion* 5. 5.) Am hynnŷ mi a geuais fy llygaid, rhag ofn cael fy hudo gan ei golygon hi (*Job* 31. 1.) Yna hi a'm difenwodd I, a minneu a aethŷm i ffordd.

CRISTION. A gyfarfuoch chwi ag un brofedigaeth arall wrth ddyfod tuag ymma?

ffyddlon. Wedi i mi ddyfodd i odreu y Brŷn a elwid *Anhawſtra*, myfi a gyfarfum a Gŵr oedrannus lawn, yr hwn a ofynnodd i mi pwŷ oeddwn I, ac i ba le yr oeddwn yn myned? A minneu a'i hattebais ef, mai Pererin oeddwn yn myned tua'r Ddinas Nefol: Yna ebŷr yr hên ŵr yr wŷti yn edrŷch fel Dŷn goneſt; A fyddi di fodlon i aros gyda mi; Os gwnei di fellu mi a roddaf i ti gyflog; Yna mi a ofynnais iddo ei enw, a pha le yr oedd ef yn trigo? Yntef a'm hattebodd I, mai ei enw ef oedd *Adda* y cyntaf, a'i fôd ef yn aros yn y Dref a elwir *Twyll* (*Epheſiaid* 4. 22. *Jeremi* 17. 9.) Wedi hynnŷ mi ofynnais iddo pa beth oedd ei waith ef, a pha gyflog a roddai ef? Yntef a'm hattebodd I, mai hêla am olud, ac am feluſwedd buchedd, ac am bôb mâth ô bethau hyfrŷd a ddilchon gyffawni trachwantau'r cnawd oedd ei

waith ef, ac yn lle cyflog a cawn i fôd yn eiſtedd iddo yn y diwedd; Mi a ofynnais iddo ymhellach pa fâth Dŷ yr oedd ef yn ei gadw, a pha weiſion eraill oedd gantho ef? Ac fe a'm hattebodd i fôd yn ei Dŷ ef hôll ymheuthundod y Bŷd hwn, ac mai y rhai a genhedlaſai ef ei hun oedd ei weiſion ef; Yna mi a ofynnais pa ſawl un o blant oedd gantho? A dywedodd yntef wrthŷf, nad oedd gantho ond tair o ferched, ſef *Chwant y cnawd*, *Chwant y llygaid*, a *Balchder y bywŷd*, ac a cawn i eu priodi nhwŷ ill tair os mynnwn (1 *Ioan* 2. 16.) Yna mi a ofynnais iddo, pa hŷd a mynnai ef i mi fŷw gydag ef? Ac fe a'm hattebodd i cyhŷd o amſer ac a byddai ef bŷw ei hun.

Wedi clywed hyn, yr oeddwn i ar y cyntaf yn gogwŷddo peth i fyned gyda'r hên ŵr, canŷs yn oedd ef yn dywedŷd yn dêg iawn; Ond wrth edrŷch yn ei dalcen ef, mi welwn yno yn yſcrifennedig, Dòd heibio yr hên Ddŷn a'i weithredoedd (*Epheſiaid* 4. 22. *Rhufeiniaid* 13. 12.)

Yna yr oedd hŷn yn rhedeg yn fy meddwl (er tegced oedd ei eiriau ef) a gwerthe ef fi yn lle caeth-wâs, os awn iw Dŷ ef i drigo; Ac am hynnŷ mi a archais iddo dewi a fôn, oblegid na ddown i yn agos i Ddrŵs ei Dŷ ef; A'r hynnŷ fe a'm llaſhenwodd i, ac a ddywedodd wrthif, a gyrai ef y fâth un ar fy ôl, ac a wnai fy ffordd yn chwerw i'm Henaid i; Yna mi a droiſ i ymadel ag ef; Ond cŷn gyntaf ac yr ymdroeſŷm i fyned oddiyno, mi a'i clywn ef yn ymaelŷd ynoſi, ac yn rhoddi i mi y fâth dynnfa creulon, mewn amcan i'm tynnu'n ôl, hŷdoni thybiais iddo gipplo ymalth ran o'm cnawd i; A gwnaeth hŷn i mi waeddi allan, O truan o Ddŷn wŷfi! (*Rhufeiniaid* 7. 24.) Ac ar ôl hynnŷ mi a aethŷm rhŷd fy ffordd tua phen y Brŷn; A chwedi i mi fyned ynghŷlch

hanner y ffordd i fynu, mi a edrychais yn ôl, a gwelwn un yn dyfod ar fy ôl i yn chwimmwth fel y gwŷnt; Ac fe'm goddiweddodd i yn union yn yn man lle'r oedd llwŷn wedi blanu; A chŷn gynted ag a darfu iddo fy 'ngoddiwes i, nid oedd ei chware ef a'm fi ond gair a dyrnod; Canŷs fe 'm curodd i lawr, ac a'm gosododd i orweddodd ar y ddaiar fel Dŷn marw; Ond pan ddaethŷm i ychydig attaf fy hun drachefn, mi a ofynnais iddo pa ham a gwnaethai ef fellu a mi? Yntef a ddywedodd o achos fy 'ngogwŷddiad dirgel i at yr *Addi Cyntaf*; A chyda hynnŷ fe a roddodd i mi ddyrnod erchŷll arall ar fy nwŷfron, ac am bwriodd i lawr ar fy nghefn; Fellu mi a orweddais i lawr wrth ei draed ef fel Dŷn marw megis orblaen; A phan ddadebrais i eilwaith mi a lefais arno am drugaredd; Ond fe a'm hattebodd i nas medrai ef ddangos trugaredd, ac ar hynnŷ fe a'm curodd i lawr drachefn; Ac yn ddiammeu fe 'm lladdasai i oni bae i un ddyfod heibio, ac erchi iddo beidio.

CRISTION. Pwŷ oedd yr hwn a archodd iddo ef beidio?

ffyddlon. Ni adwaenwn i mo hwnnw ar y cyntaf, ond wrth ei fynediad ef heibio mi a ganfum dyllau yn ei ddwŷlo ac yn ei yſtlŷs ef; Yna mi a wŷbum mai 'n Harglwŷdd ni ydoedd ef; Fellu mi a aethŷm i ben-y Brŷn.

CRISTION. Y Gŵr hwnnw a'ch goddiweddodd chwi oedd *Moſes*; Nid ŷw ef yn arbed neb; Ac ni felder ef ddangos trugaredd ir rhai a droſeddant ei gyfraith ef.

ffyddlon. Mi a'i hadwaen ef yn ddigon dâ; Nid y prŷd hwnnw a cyfarfu ef a mi gyntaf; Efe oedd yr hwn a ddaeth attaſi pan oeddwn yn trigo yn ddiofal gartref, ac a ddywedodd wrthŷf a lloſcai ef fy nhŷ a'm fy nhen os aroſwn yno.

CRIS-

CRISTION. Oni welſoch y Tŷ oedd ar ben y Brŷn, yn agos ir lle a cyfarfu *Moſes* a chwi?

ffyddlon. Dô, a'r Llewod hefyd; Ond i'm tŷb i yr oeddent hwŷ'n cyſcu; Canŷs ynghŷlch hanner dŷdd ydoedd hi: Ac am fôd gennif gymaint o'r Dŷdd o'm blaen, mi a aethŷm heibio ir porthor ac a ddaethŷm i wared o'r Brŷn.

CRISTION. Ond attolwg a gyfarfuoch a neb yn Nyffrŷn Daroſtyngiad?

ffyddlon Do, mi a gyfarfŷm a Gŵr a elwir *Anfodlonrwŷdd*, yr hwn a fynnai fy mherſwaedio i i ddychwelŷd yn ôl drachefn gydag ef am y rheſwm hwn, ſef oblegit nad oedd dim Anrhydedd iw gael yn y Dyffrŷn hwnnw; Ac heblaw hynnŷ ebŷr ef, os byddwch chwi mor ffôl a myned y ffordd honno, chwi a ddigiwch eich hôll gyfeilion, megis *Balchder, Uchder, Hunan dŷb, Gogoniant bydol*, gyda llawer eraill.

CRISTION. Pa fódd yr attebaſoch ef?

ffyddlon. Mi a'i hattebais ef, mai er gallu o rhai ôll a enwaſai ef fy holi o'ran carennŷdd (canŷs fy ngheraint i oeddŷnt yn ôl y cnawd) etto er pan aethŷm i'n Bererin, hwŷ a'm gwadaſant i, a minne a'u gwrthodais hwŷthau: Ac am hynnŷ mi a ddywedais nad oeddent hwŷ yr awrôn ddim mwŷ i mi na phe haſent erioed heb fôd o'm cenhedl; Ac heblaw hynnŷ mi a ddywedais wrtho, iddo lwŷr gamoſod allan y Dyffrŷn ymma; canŷs oflaen Anrhydedd yr a Goſtyngeiddrwŷdd, ond Balchder ſŷdd yn myned oflaen diniſtr, ac uchder yſprŷd oflaen cwŷmp; Ac am hynnŷ ebŷr fi gwell genni fyned trwŷ'r Dyffrŷn ymma, i feddiannu y peth y mae'r doethaf yn ei gyfrif yn anrhydedd, na dewis yr hŷn yr wŷti yn ei gyfrif yn deilwng o'm ſerchiadau (*Diharebion* 15. 33. & 16. 18.)

CRISTION. A gyfarfuochi a neb arall yn

Dyſtrŷn hwnnw?

ffyddlon. Dô mi a gyfarfum ag un a elwir *Digwilŷdd*; Ac fe a leſarodd lawer yn erbŷn crefŷdd, gan ddywedŷdd mai peth gwael iawn ydoedd i ddŷn feddwl am grefŷdd, ac nad oedd cydwŷbod dyner ond peth anwrol; Ac nad oedd gwillo ar ein gelriau a'n gwelthredoedd (fel a bom dan rwŷmedigaeth i ymgadw oddiwrth y rhyddid gwrol-wŷch, yr hŷn i mae Gwŷr calonnog y Bŷd preſennol yn ymarfer ag ef) ond gwatwar ir amſeroedd; Efe a ddywedodd heſŷd nad oedd nemmawr o'r rhai Galluog, nac o'r rhai cyſoethog, a'r Doethion o'r un feddwl a mi; Ac nad oedd neb o honŷnt hwŷ ychwaith o'm barn i, nes eu denu yn gyntaf i fod yn ffyliaid, trwŷ feiddio yn ewŷllyſgar i golli 'r cwbl ar a feddant i feddiannu nis gwŷr neb pa beth (1 *Corinthiad* 1. 26. & 3. 18. *Philemon* 3. 8.) Heblaw hynnŷ efe a oſododd ger ſy mron i wael ac iſel o râdd a chyflwr, y rhai oeddŷnt yn fwŷ enwedigol yn Bererinod ymhôb oes; Ac fe ddarfu iddo edliw heſŷd i mi eu hanwŷbodaeth, a'u hanneallgarwch hwŷ ymhôb mâth o Ddyſceidiaeth naturiol (*Foan* 7. 48, 49.) Iê efe a ddywedodd ymhellach, mai Cywilŷdd oedd fôd neb yn wŷlo ac yn gruddfan wrth wrando ar Bregethiad y Gair, a dyfod wedi hynnŷ oddi-yno dan ocheneidio; mai cywilŷdd oedd ceiſiio maddeuant gan Gymmydog am feiau bychain, a thalu adref yr hŷn a ladradtawŷd neu a gamattaliwŷd oddiwrth neb; Dywedodd heſŷd, fôd Crefŷdd yn peri i Ddŷn ymddieithro oddiwrth y Gwŷr mawr, oblegid ychydig o feiau (ir rhai er eu bôd yn feiau annhrus, thoes ef enwau tegcach) a dywedodd fôd crefŷdd yn peri i rai yſtyried a derbŷn wŷneb Dynion gwael, am eu bôd nhwŷ o'r un brawdoliaeth grefyddol a nhwŷthau; Ac onid ŷw hŷn ebŷr

ef

ef yn gwilyddus?

CRISTION. A pha beth a ddywedaſoch chwithau wrtho ef?

ffyddlon. Ni wŷddwn i pa beth iw ddywedŷd ar y cyntaf; Ie efe a'm cyffrôdd i yn y fâth fôdd, fel a cododd fy ngwaed yn fy wŷneb, a braidd na'm dygwŷd i ymaith oddiwrth grefŷdd, trwŷ'r pethau a adroddodd y Dŷn Digwilŷdd hwn wrthif; Ond o'r diwedd mi a yſtyriais fôd yr hŷn ſŷdd uchel gyda Dynnion yn ffiaidd ger bron Duw (*Luc* 16. 15.) Ac mi a feddyliais dracheſn, mai y Dŷn digwilŷdd hwn, a fynnai daro cywilŷdd ynof i'm hattal i trwŷ hynnŷ. rhag myned ymlaen i fôd yn grefyddol; Mi a feddyliais fôd y dŷn hwn yn mynegu i mi pa beth ŷw Dynnion: Ond nad oedd ef yn dywedŷd dim wrthŷfi pa beth oedd Duw na'i air; Ac mi a yſtyriais heblaw hynnŷ, na fernir ni yn Nŷdd y Farn i farwolaeth, nac i Fywŷd yn ôl Barn yſprŷd gwrol-wŷch y Bŷd, ond yn ôl Doethineb a Chyfraith y Goruchaf; Am hynnŷ (ebŷr fi) yr hŷn a mae Duw yn ei ddywedŷd ei fôd yn oreu, ſŷdd oreu yn wîr, er bôd hôll Ddynnion y Bŷd yn ei erbŷn; Yr awron gan fôd Duw yn gwneuthur gwell cyfrif o'r Grefŷdd a appwŷntiodd ef ei hun, ac o Gydwŷbod dyner, nag yr wŷt ti yn ei wneuthur o honŷnt o *Dŷn Digwilŷdd*; A chan fôd y rhai ſŷ 'n eu gwneuthur eu hunain yn ffyliaid (er mwŷn Teŷrnas Nefoedd) yn Ddoethach na neb arall ym-marn yr Arglwŷdd; A chan fôd y Gŵr tlawd ſŷ 'n caru Crift, yn gyfoethogcach na'r Gwŷr mwŷaf yn y Bŷd ſŷ 'n ei gaſau ef; Dôs ymaith gan hynnŷ o *Dŷn Digwilŷdd* oddiwrthif; Canŷs Gelŷn wŷt ti i'm iechŷdwriaeth i; A wrandawaſi arnati trwŷ fôd yn wrthwŷneb l'm Harglwŷdd goruchaf? Os felly a gwnaſi, pa fôdd yr edrychaſi ar ei wŷneb ef

yn ei ddyfodiad? A Gywilyddiafi yr awron o herwŷdd ei ffŷrdd a'i weiſion ef? Os fellu a gwnaf, pa fôdd a gallafi ddiſgwŷl am ei fendith ef (*Marc* 8. 34. *Matthew* 10. 32.) A braidd a gellais i (a'r ymadroddion hŷn) yrru ymaith o'm cyfeillach y Dihirwr digwilŷdd hwn, a fynnai weithio cywilŷdd ynof, i ymwrthod a Duw a'i ffŷrdd a'i Bobl; Iê fe a lefarai yn ddiſtaw yn fy nghluſtiau, yn fynŷch amrŷw o bethau, y rhai yr oedd pobl grefŷddol yn dangos llawer o wendid ynthŷnt: Ond o'r Diwedd mi a ddywedais wrtho ef, na fyddai ei drafferth ef yn y gorchwŷl hwn rhagllaw ond gwaith ofer; Canŷs yn y pethau (ebŷr fi) yr ŷch chwi yn eu diyſtyru, yr wŷfi'n gweled y Gogoniant mwŷaf; A chwedi gyrru'r Dŷn taer hwn ymaith, a chael gwared o hono; Myfi a genais fel hŷn.

Y profiadau ſŷ'n cyfarfod,
Pawb ſŷ'n telthio mewn ufudd-dod,
Ir wir alwad Nefol hyfrŷd,
ŷnt yn aml, ac yn enbŷd.

Wedi eu trefnu, a'u gweddeiddio,
I'n drŵg nattur ſŷdd yn effro:
Delant a'm ein pennau beunŷdd,
Delant, delant fŷth o newŷdd.

Fel y gallom yn aflawen,
Naill a'i 'nawr, a'i rhŷw brŷd amgen,
Trwŷddŷnt gael ein dal, a'n gorfod,
Ac o'u plegid gael ein gwrthod.

O gan hynnŷ Nac anghofied,
Pererinod fôd yn gwilied,
I wrthnebu twŷll drŵg Ddynnion,
Cŷn wroled ag y gallon.

CRIS-

CRISTION. I mae 'n ddiammeu a dylem ni alw ar yr hwn a fynnei i ni fôd yn wrol ar y ddaiar gyda 'r gwirionedd, am gymmorth i wrthwŷnebu y cyfrŵw Ddynnion digwilŷdd, ar a fynnent i ni gywilŷddio i ymwrthod a 'r hŷn ſŷdd ddâ; Ond a ddigwŷddodd i chwi ddim drŵg arall yn y Dyffrŷn hwnnw?

ffyddlon. Na ddo, canŷs yr oedd yr Haul yn llewŷrchu arnaf yn yr hôll ran arall o'r ffordd trwŷ 'r Dyffrŷn hwnnw, ac hefŷd trwŷ Ddyffrŷn cyſcod Angeu.

Ac arôl i Griſtion a *ffyddlon* fyned ymlaen oddiyno, mi a welwn yn fy mreuddwŷd ŵr a elwir *Chwedleugar* yn cyfarfod a nhwŷ; Yr oedd ef yn ŵr mawr o gorpholaeth, ac yn degcach yr olwg arno o bell nag yn agos: A gofynnodd *ffyddlon* iddo ef, y cyfaill i ba le yr ewch chwi? A ydŷch chwi yn ſiwrnelo tua 'r wlâd Nefol?

Chwedleugar. Yr wŷfi yn myned tua 'r wlâd honno.

ffyddlon. Os fellu, rwi 'n gobeithio cael elch cyfeillich chwi.

Chwedleugar. Mi a fyddaf o ewŷllŷs fy nghalon yn gydymaith i chwi.

ffyddlon. Awn gydan gilŷdd gan hynnŷ, a threuliwn eln hamſer mewn ymddiddamſon yng. hŷlch rhŷw bethau lleſol.

Chwedleugar. I mae 'n ddâ lawn gennifi ſiarad a chwi am bethau dâ; Ac yr wi 'n llawenhychu i mi gyfarfod ag un ſŷ 'n tueddu i chwedleua am fatterion crefyddol; O ddywedŷd wrthŷch y gwir, nid oes nemmawr yn gofalu am dreulio eu hamſer fel hŷn wrth ymdeithio, ond dewiſant yn hytrach o lawer ymddiddan am bethau anfuddiol; A bu hŷn yn flinder i mi.

ffyddlon. I mae hynnŷ yn beth iw doſturio, canŷs i mae pechaŵ

pethau Duw yn haeddu adroddiad ein tafodau am danŷnt ymma ar y ddaiar oflaen dim arall.

Chwedleugar. Yr wi 'n dra bodlon i chwi, canŷs i mae 'ch ymadroddion yn llawn o reiwm dâ: Pa beth ſŷ mor hyfrŷd, ac mor ſuddiol ag ymddiddan am bethau Duwiol?

Pa beth ſŷ mor hyfrŷd (os ydŷw Dŷn yn cymmerŷd hyfrydwch mewn pethau rhyfeddol) os bŷdd yn hyfrŷd gan Ddŷn chwedleua am Hiſtoriau, neu Ddirgeledigaethau mowrion; Neu os bŷdd Dŷn yn caru ymddiddan am Wrthlau, Rhyfeddodau, neu Arwŷddion; Ym mha le a calff ef y pethau hŷn wedi eu coffau mor hyfrŷd, a'i hyſcrifennu mor lluniedd, ag yn yr yſcrythur lân.

ffyddlon. Etto wrth ſiarad ynghŷlch y fâth bethau dâ, ein diben ni a ddylai fôd i dderbŷn lleſhâd i'n heneidiau oddiwrth y cyfrŷw ymddiddanion.

Chwedleugar. Dyna'r hŷn a ddywedais i; Canŷs i mae ymddiddanion ynghŷlch pethau Duwſol yn leſol, oblegid trwŷ hynnŷ fe ddichon Dŷn ddyfod i wŷbod llawer ynghŷlch gwagedd pethau daiarol, ac ynghŷlch godidowgrwŷdd pethau nefol: Ond yn fwŷ neilltuol, oddiwrth hŷn a gall Dŷn ddyſcu, Mor angenrheidiol ŷw 'r All-anedigaeth, mor amnigonol ŷw'n gwelthredoedd goreu ni i haeddu Bywŷd Tragywŷddol, a pha fâth ddiffŷg ſŷdd arnom ni am Gyfiawnder Ieſu Grîſt, i guddio ein noethni yſprydol; Heblaw hynnŷ, trwŷ hŷn a dichon Dŷn ddyſcu pa beth ŷw Edifarhau, Credu, Gweddio, Dioddef dros Grîſt, a chyffelib bethau eraill: Trwŷ hŷn a dichon Dŷn ddyſcu beth ŷw ſylwedd, a nattur Addewidion mawr yr Efengŷl, er cyſur lŵ enaid ei hun; A pha fôdd hefŷd i ymgadw rhag twŷllodrus opiniwnau, ac i amddiffŷn y gwirionedd, ac i roi Addyſc ir anwŷbodol.

ffyddlon

ffyddlon. I mae hŷn ôll yn wîr; Ac i mae 'n ddâ gennif glywed y pethau hŷn oddiwrthŷch.

Chwedleugar. Och o eſceuluſdra pobl i ymddiddan am y cyfrŷw fatterion, hŷn ŷw 'r achos fôd cŷn lleied yn deall yr Angenrhaid o ffŷdd, ac o waith grâs yn eu heneidiau, iw cymmhwŷſo nhw i feddiannu Bywŷd tragywŷddol: Ac o eiſiau chwedleua am y fâth betbau a hŷn, i mae pobl yn bŷw mewn anwŷbodaeth, gan hyderu ar weithredoedd y Gyfraith am gael Teŷrnas Nefoedd trwŷddŷnt, er na cheir moni y ffordd honno.

ffyddlon. Ond trwŷ'ch cenad Rhodd Duw ŷw Gwŷbodaeth Nefol o'r pethau hŷn; Ac ni all neb eu gwŷbod hwŷnt trwŷ eu dyfalwch eu hun, neu yn unic trwŷ ymddiddan amdanŷnt.

Chwedleugar. Mi a wn hynnŷ yn ddigon dâ: Oblegid ni ddichon Dŷn dderbŷn dim oni bŷdd wedi ei roddi iddo o'r Nêf; O râs i mae 'r cwbl, ac nid o weithredoedd; Mi a allwn roddi i chwi gant o Scrythyrau i dyſtiolaethu hynnŷ.

ffyddlon. Am ba beth gan hynnŷ yn neilltuol (ebŷr *ffyddlon*) a chwedleuwn ni yr awron.

Chwedleugar. Mi a fiaradaf a chwi am y pethau a fynnoch; Pa un bynnag a'i pethau Nefol, a'i pethau Daiarol; Pethau Moeſol, a'i pethau Efangylaidd; Pethau Cyſſegredig, a'i pethau Halogedig: Pethau a Fu, a'i pethau a Fŷdd; Pethau mewn Gwledŷdd dieithr, a'i pethau yn ein Gwlâd ein hun; Etto rhaid ŷw gwneûthur y cwbl er adelladaeth i'n heneidiau.

ffyddlon Wedi clywed hŷn a ryfeddodd, a chan droi at Griſtion efe a ddywedodd wrtho ef yn ddiſtaw: Pa fâth Gydymaith dâ a gawſom ni! Yn ddiammeu ſe fŷdd y Gŵr hwn yn Bererin rhagorol.

CRISTION. Ar hynnŷ gwenodd Criſtion

yn

yn bwŷllog, ac a ddywedodd; Y Gŵr ymma yr hwn yr ydŷch yn ei ganmol, a dwŷlla a'i dafod ugain o rai ſŷ heb ei ddynabod ef.

ffyddlon. A ydŷch chwi yn ei ddynabod ef?

CRISTION. Ydwŷf yn well nag a mae ef yn ei ddynabod ei hun.

ffyddlon. Attolwg pwŷ ydiw ef?

CRISTION. Ei enw ef ŷw *Chwedleugar*, i mae ef yn aros yn ein Dinas ni; Ac oni bae ſy môd i yn yſtyried tôd ein Trêf ni yn fawr iawn, myfi a ryſeddwn nad ŷw ef yn gydnabyddus a chwithau hefŷd.

ffyddlon. Mâb i bwŷ ŷw ef? Ac ynghŷlch pa fann a mae fe'n trigo?

CRISTION. Mâb ŷw ef i un a elwir *Ymadroddwr-dâ*, ac yr oedd ef yn trigo yn *Heol y Siarad*: Ond er tegced ŷw ei dafod ef, nid ŷw ef ond Cydymaith drŵg.

ffyddlon. Ow! Fe debygid ei fôd ef (o ran crefŷdd) yn ddŷn gwŷch.

CRISTION. Hynnŷ ŷw gan y rhai ſŷ heb ei gwbl ddynabod ef; Canŷs oddi-cartref a mae ef yn oreu; Gerllaw gartref mae fe 'n ddigon ffiaidd; A lle 'r ŷch chwi yn dywedŷd mai Dŷn gwŷch ŷw ef, i mae hynnŷ yn dwŷn ar gôt i mi, yr hŷn a greffais i arno yngwaith Paentiwr; I mae 'r Lluniau y mae ef yn eu Paentio yn ymddangos yn oreu o bell, ond yn amhrydferth yn agos.

ffyddlon. Yr wi 'n barod i dybied nad ŷch chwi ond cellweir, am i chwi wenu.

CRISTION. Na adto Duw i mi gellweir yn y fâth fatter a hwn, na cham-achwŷn ar neb (er i mi chwerthin ar eich gwaith chwi yn canmol y Dŷn ymma) myfi a yſpyſaf i chwi ymhellach pa fâth ŵr ydŷw ef; I mae ef yn Ddŷn ſŷdd am bôb mâth o gyfeillach, ac am bôb mâth o ſiarad;

Fel

Fel i mae ef yn chwedleua a chwi yr awron, fellu a chwedleua ef pan fo yn y dafarn ymſg y meddwon; A pha mwŷaf o gwrw a fyddo yn ei ben ef, mwŷaf óll a fŷdd y pethau hŷn yn ei enau ef; Nid oes i grefŷdd lê yn ei Galon ef, nac yn ei Dŷ ef, nac yn ei ymddygiad ef; Ond i mae hi yn ſefŷll yn unic ar ei dafod ef; A'i Grefŷdd ef ŷw gwneuthur ſŵn am bethau yr Arglwŷdd ar tafod. hwnnw.

ffyddlon. A ddywedwch chwi fellu? Yna fe a'm twŷllwŷd i 'n fawr yn y Gŵr ymma.

CRISTION. Do yn ddiammeu; Cofiwch y Ddihareb; Dywedant ac nis gwnant; Ond nid mewn ymadrodd a mae teŷrnas Dduw (yn ſefŷll) Ond mewn gallu (*Matthew* 23. 3. 1 *Corinthiaid* 4. 20.) I mae ef yn chwedleua am Weddi, am Edifeirwch, am Ffŷdd, ac am yr Ad-anedigaeth; Ond nid oes gantho yn ei enaid ei hun brofiad yn y Bŷd o honŷnt; Fe feidr yn unic chwedleua am danŷnt; Myfi a fum yn ei Deulu ef, ac a ddellais ſulw arno ef Gartref ac oddi-cartref; Ac mi a wn mai gwir ydŷw 'r hŷn yr wŷfi yn ei ddywedŷd amdano ef; I mae ei Dŷ ef cŷn wagced o grefŷdd ag ŷw gwŷnn wŷ o flâs; Nid oes yno na Gweddi, nac arwŷdd o Edifeirwch am bechod; Iê i mae'r Anifail yn ei Rŷw yn gwaſnaethu Duw yn llawer gwell nag ef (*Eſaiŷ* 1. 3.) I mae Crefŷdd yn dioddef Gogan, Gwarthrŷdd, a Chywilŷdd o'i achos ef; Ac i mae'n anhawdd iddi gael Gair dâ yn yr hôll ran hwnnw o'r Drêf lle mae ef yn aros ynthi, am fôd ei fuchedd ef yn ei diwŷno hi (*Rhufeiniaid* 2. 23, 24.) Fel hŷn a dywed y Bobl amdano ſŷ 'n ei ddynabod ef, Angel pen ffordd Diawl cil pentan ydŷw; Mae ei Deulu wedi cael profiad o hŷn; I mae ef yn llaſhenwi, ac mor antwŷn, mor Dauog, ac mor anrheſymmol wrth ei weiſion, fel na wŷdd-

ant

ant hwŷ pa fôdd iw fodloni ef yn eu Gwaith a'u Gorchwŷlion, na pha fôdd i lefaru wrtho heb gyffroi ei Ddigofaint ef; I mae'r rhai ſŷdd yn gwerthu pethau iddo, ac yn prynu pethau gantho yn dywedŷd mai gwaeth ŷw iddŷnt farchnadta ag ef nag a Thwrciaid; am fôd y rheini yn oneſtach nag ef yn eu bargenion a'u haddewidion; Fe a dwŷlla bawb os geill ef; Ac heblaw hynnŷ, i mae fe 'n dyſcu iw Feibion ganlŷn ei Lwŷbrau ef: Ac os cenfŷdd ef yn un o'i Blant ddim amheuon ynfŷd (canŷs fellu a mae fe 'n galw yr ymddangoſiad cyntaf o gydwŷbod dyner, ſŷ'n ei gogwŷddo nwŷ at oneſtrwŷdd) fe a'i geilw hwŷnt yn ynfydion ac yn ddwl; Ac ni eſŷd ef un o honŷnt, mewn môdd yn y Bŷd, i drin llawer o'i fuſneſau ef, os bŷdd ef yn deall fôd arnŷnt ofn ſiommi neb arall: Ac ni chanmol ef un o honŷnt ynghŵŷdd eraill, os bŷdd hwnnw yn tueddu at oneſtrwŷdd cyffredinol; O'm rhan i, yr wi 'n tybied iddo ef trwŷ ei fuchedd annuwiol, beri i lawer dramgwŷddo a ſyrthio; Ac fe a fŷdd (oni leſŷr Duw hynnŷ) yn achos o ddiſtrŷw i laweroedd mwŷ.

Ffyddlon. Wele fy mrawd, yr wŷf yn rhwŷm i'ch coelio chwi; Nid yn unic am eich bôd yn dywedŷd yr adwaenoch ef, ond heſŷd am eich bôd chwi fel Criſtion yn datcuddio beth ŷw'r Dŷn ymma; Canŷs ni allaſi feddwl eich bôd chwi 'n dyweded y pethau hŷn o ddrŵg ewŷllŷs, ond am fôd y peth fellu, fel yr ydŷch chwi'n dywedŷd.

CRISTION. Pe baſwn i heb el ddynabod ef ddim gwell na chychwi, mi a allaſwn ondodid fel chwithe dybied mai Gŵr dâ rhagorol ydoedd ef; Ie pe baſai fe yn cael yr Anair ymma oddiwrthŷnt hwŷ yn unic, ſŷdd yn Elynion i Grefŷdd, mi a debŷgaſwn, mai malais oedd hynnŷ; Anglod ſŷdd yn dyfod yn fynŷch yn ddiachos allan o eneuau

y

y rhai drygionus, ar enwau Dynnion dâ a'u proffes; ond yr hôll bethau a adroddais i amdano ef, a llawer mwŷ o rai cynddrwg a hwŷnt, a allafi o'm gwŷbodaeth fy hun brifio ei fôd ef yn euog o honŷnt; Heblaw hynnŷ i mae ar wŷr dâ gywilŷdd oi blegid ef; Ni allant hwŷ na'i alw ef yn Frawd nac yn Gyfaill: Os henwir ef ymhlith y rhai crefyddol ſŷdd yn ei ddynabod ef, hwŷ a wridant gan gywilŷdd o'i herwŷdd ef.

ffyddlon. Myfi a welaf yr awron, mae un peth ŷw dywedŷd, a pheth arall ŷw Gwneuthur: Ac o hŷn allan mi a graffaf yn well ar y rhagor ſŷdd rhwng y naill a'r llall.

CRISTION. I maent yn ddau beth yn wîr, ac mor wahanedig y naill oddiwrth y llall, ac ŷw 'r Enaid a'r Corph; Canŷs megis nad ŷw 'r Corph heb yr Enaid, fellu heſŷd nid ŷw dywedŷd yn ddâ heb wneuthur yn ddâ. ond celain farw; Enaid crefŷdd ŷw Buchedd ddâ, crefŷdd bur a dihalogedig ger bron Duw ŷw hŷn, ymweled a'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfŷd; A'i gadw ei hun yn ddifrycheulŷd oddiwrth y Bŷd (*Iaco* 1. 27.) Nid ŷw meiſtr *Chwedleugar* yn meddwlam hŷn; I mae ſe yn tybied fôd gwrando a dywedŷd yn ddigon i wneuthur Dŷn yn Griſtion dâ, er nad ŷw gwrando heb ddwŷn ffrwŷth ond megis derbŷn yn ofer yr hâd a hauer, Ac fel hŷn a mae ſe 'n twŷllo ei enaid ei hun, Nid ŷw gwaith Dŷn yn chwedleua am Grefŷdd yn ddigonol i brifio fôd gantho Galon a Buchedd ffrwŷthlon a Daionus; Gwŷbyddwn yn ſicr mai yn ôl eu ffrwŷthau neu weithredoedd (ac nid yn ôl eu geiriau yn unig) y bernir Dynnion yn nŷdd y Farn (*Datcuddiad* 22. 12. *Matthew* 16. 27.) Ni fŷdd cymaint o holiad y prŷd hwnnw, A ddarfu i chwi gredu a dywedŷd yn dda, ac a fŷdd a ddygaſoch chwi ffrwŷthau dâ yn eich buchedd

ant hwŷ pa fôdd iw fodloni ef yn eu Gwaith a'u Gorchwŷlion, na pha fôdd i lefaru wrtho heb gyffroi ei Ddigofaint ef; I mae'r rhai ſŷdd yn gwerthu pethau iddo, ac yn prynu pethau gantho yn dywedŷd mai gwaeth ŷw iddŷnt farchnadta ag ef nag a Thwrciaid; am fôd y rheini yn oneſtach nag ef yn eu bargenion a'u haddewidion; Fe a dwŷlla bawb os geill ef; Ac heblaw hynnŷ, i mae fe 'n dyſcu iw Feibion ganlŷn ei Lwŷbrau ef: Ac os cenfŷdd ef yn un o'i Blant ddim amheuon ynfŷd (canŷs fellu a mae fe 'n galw yr ymddangoſiad cyntaf o gydwŷbod dyner, ſŷ'n ei gogwŷddo nwŷ at oneſtrwŷdd) fe a'i geilw hwŷnt yn ynfydion ac yn ddwl; Ac ni eſŷd ef un o honŷnt, mewn môdd yn y Bŷd, i drin llawer o'i fuſneſau ef, os bŷdd ef yn deall fôd arnŷnt ofn ſiommi neb arall: Ac ni chanmol ef un o honŷnt yngŵŷdd eraill, os bŷdd hwnnw yn tueddu at oneſtrwŷdd cyffredinol; O'm rhan i, yr wi 'n tybied iddo ef trwŷ ei fuchedd annuwiol, beri i lawer dramgwŷddo a ſyrthio; Ac fe a fŷdd (oni leſtŷr Duw hynnŷ) yn achos o ddiſtrŷw i laweroedd mwŷ.

ffyddlon. Wele fy mrawd, yr wŷf yn rhwŷm i'ch coelio chwi; Nid yn unic am eich bôd yn dywedŷd yr adwaenoch ef, ond hefŷd am eich bôd chwi fel Criſtion yn datcuddio beth ŷw'r Dŷn ymma; Canŷs ni allaſi feddwl eich bôd chwi 'n dyweded y pethau hŷn o ddrŵg ewŷllŷs, ond am fôd y peth fellu, fel yr ydŷch chwi'n dywedŷd.

CRISTION. Pe baſwn i heb el ddynabod ef ddim gwell na chychwi, mi a allaſwn ondodid fel chwithe dybied mai Gŵr dâ rhagorol ydoedd ef; Ie pe baſai fe yn cael yr Anair ymma oddiwrthŷnt hwŷ yn unic, ſŷdd yn Elynion i Grefŷdd, mi a debŷgaſwn, mai malais oedd hynnŷ; Anglod ſŷdd yn dyfod yn fynŷch yn ddiachos allan o eneuau

y

y rhai drygionus, ar enwau Dynnion dâ a'u proffes; ond yr hôll bethau a adroddais i amdano ef, a llawer mwŷ o rai cynddrwg a hwŷnt, a allafi o'm gwŷbodaeth fy hun brifio ei fôd ef yn euog o honŷnt; Heblaw hynnŷ i mae ar wŷr dâ gywilŷdd oi blegid ef; Ni allant hwŷ na'i alw ef yn Frawd nac yn Gyfaill: Os henwir ef ymhlith y rhai crefyddol ſŷdd yn ei ddynabod ef, hwŷ a wridant gan gywilŷdd o'i herwŷdd ef.

ffyddlon. Myfi a welaf yr awron, mae un peth ŷw dywedŷd, a pheth arall ŷw Gwneuthur: Ac o hŷn allan mi a graffaf yn well ar y rhagor ſŷdd rhwng y naill a'r llall.

CRISTION. I maent yn ddau beth yn wîr, ac mor wahanedig y naill oddiwrth y llall, ac ŷw'r Enaid a'r Corph; Canŷs megis nad ŷw'r Corph heb yr Enaid, fellu heſŷd nid ŷw dywedŷd yn ddâ heb wneuthur yn ddâ. ond celain farw; Enaid crefŷdd ŷw Buchedd ddâ, crefŷdd bur a dihalogedig ger bron Duw ŷw hŷn, ymweled a'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadſŷd; A'i gadw ei hun yn ddifrycheulŷd oddiwrth y Bŷd (*Iaco* 1. 27.) Nid ŷw meiſtr C*hwedleugar* yn meddwlam hŷn; I mae ſe yn tybied fôd gwrando a dywedŷd yn ddigon i wneuthur Dŷn yn Griſtion dâ, er nad ŷw gwrando heb ddwŷn ffrwŷth ond megis derbŷn yn ofer yr hâd a hauer, Ac ſel hŷn a mae ſe'n twŷllo ei enaſd ei hun, Nid ŷw gwaith Dŷn yn chwedleua am Grefŷdd yn ddigonol i brifio fôd gantho Galon a Buchedd ffrwŷthlon a Dalonus; Gwŷbyddwn yn ſicr mai yn ôl eu ffrwŷthau neu weithredoedd (ac nid yn ôl eu geiriau yn unic) y bernir Dynnion yn nŷdd y Farn (*Datcuddiad* 22. 12. *Matthew* 16. 27.) Ni fŷdd cymaint o holiad y prŷd hwnnw, A ddarfu i chwi gredu a dywedŷd yn dda, ac a fŷdd a ddygaſoch chwi ffrwŷthau dâ yn eich buchedd

buchedd a'ch ymddygiad; Dymma a fŷdd yn gwestiwn mawr ar y Dŷdd hwnnw, pa un ai Gwneuthurwŷr y Gair, a'i ynteu Chwedleuwŷr yn unic am y Gair a fuoch chwi? Ac yn ôl hynnŷ hernir Dynnion; Diwedd y Bŷd a gyffelydir i'n cynhaiaf ni, a chwi a wŷddoch nad ŷw Dynnion yn y cynhaiaf yn edrŷch ar ddim ond ffrwŷth (nid all dim fod yn gymeradwŷ gyda Duw oni bŷdd ef yn dyfod allan o ffŷdd (*Galatiaid* 5. 6.) Ond dywedŷd yr wŷfi hŷn, i ddangos i chwi mor afleſol a bŷdd Proffes Meiſtr *Chwedleugar* yn y dŷdd hwnnw, heb fôd yn wneuthurwr y Gair.

ffyddlon. I mae hŷn yn dwŷn ar gôf i mi y peth a ddywedodd *Moſes* am yr Anifail glân; I mae ef yn y ſâth un, ar ſŷdd yn hollti 'r ewin ac yn cnoi ei gil (*Leviticus* 11. 3.) Nid yr hwn ſŷ 'n hollti 'r ewin yn unic, neu yn cnoi ei gil yn unic ſŷdd lân, ond yr hwn ſŷ 'n gwneuthur y ddau; I mae'r yſcyfarnog yn cnoi ei chil, ond er hynnŷ i mae hi 'n aflan, am nad ŷw hi yn hollti yr ewin; Ac mewn gwirionedd i mae Meiſtr *Chwedleugar* yn gyffelib ir yſcyfarnog; I mae ef yn cnoi 'r cil, i mae fe'n ceiſio gwŷbodaeth trwŷ fyfyrio ar y Gair; Ond nid ŷw ef yn Forchogi'r ewin, nid ŷw ef yn ymado a ffordd pechaduriaid; Ond megis yr yſcyfarnog, i mae gantho droed Cî neu Arth, ac am hynnŷ mae ef yn aflan.

CRISTION. Myfi a anghwanegaf un peth arall; I mae *Paul* yn galw Chwedleuwŷr mawr (y rhai ſŷdd heb râs yn eu calonnau) yn Efŷdd yn ſeinio, a Symbal yn tingcian; Hynnŷ ŷw, fel i mae fe yn deonglu y geiriau mewn lle arall, Pethau di-enaid ydŷnt, ſef yn rhoddi ſain yn unic, a dim ond hynnŷ: Pethau di-enaid ydŷnt, hynnŷ ŷw Dynnion ydŷnt heb wir ffŷdd, a heb râs yr Efengŷl yn eu calonnau; A thrwŷ ganlyniaeth I maent yn

gyfrŷw

gyfrŷw rai, na chyfrifir monŷnt hwŷ bŷth yn Nheŷrnas Nefoedd, ymhlith y rhai ſŷdd yn Blant y Bywŷd; Er ei bôd nhwŷ'n ſeinio wrth chwedleua, Fel pedfai dafodau neu Leferŷdd Angylion ganddŷnt (1 *Corinthiaid* 13. 12. & 14. 7.)

ffyddlon. I mae ei Gymdeithas ef yr hŷn a ſu ar y cyntaf yn fatter o hoffder, yr awron yn fatter o ſtinder i mi, pa beth a wnawn ni'i gael gwared o hono ef?

CRITSION. Cymmerwch fy nghyngor i, ac yna (megis yr ydŷch chwi 'n blino ar ei gymdeithas ef) a blina yntef heſŷd yn fŷan ar eich cymdeithas chwitheu, oddieithr i Dduw droi ei Galon ef; A'm cyngor i ŷw hŷn; Ewch atto, ac ymddiddanwch ag ef yn ddifrifol ynghŷlch Grŷm Crefŷdd, a gofynnwch iddo, a ydŷw y peth ymma wedi ei weithio yn ei Galon ef, ac a ydŷw hynnŷ yn ymddangos yn ei ymddygiad ef.

Yna yr aeth *ffyddlon* drachefn at *Chwedleugar*, ac a ofynnodd iddo, pa fôdd yr oedd ef?

Chwedleugar. Diolch i chwi, ebŷr yntef, yr wi 'n ſiongc; Mi a obeithiais a cawſem ni erbŷn hŷn lawer mwŷ o gŷd-ymddiddan.

ffyddlon. Wele, os mynnwch chwi, nyni a ddechreuwn eilwaith; A chan eich bôd chwi wedi goſod arnafi i ofŷn y cweſtiwn, mi a fyddaf cŷn hyfed a gofŷn i chwi, pa fôdd a gall dŷn wŷbod, fôd Duw wedi Gweithio Grâs Iachuſol yn ei galon ef?

Chwedleugar. Mi a welaf wrth hŷn, a rhaid i'n hymddiddan ni fôd ynghŷlch Crefŷdd; Dâ iawn ŷw eich cweſtiwn; Ac yr wŷfi yn ewŷllyſgar i'ch hatteb chwi, ac yn fŷrr fy Atteb i ŷw hŷn; Yn gyntaf lle bo Grâs Duw yn y Galon, i mae hynnŷ yn peri i ddŷn waeddi yn erbŷn pechod. Yn ail

ffyddlon. Nage, digon ydŷw i ni yſtyried un

peth ar un-waith; 'Rwi'n tybied a dylaſech ddywedŷd yn hyttrach, fôd Grâs yn ei amlygu ei hun, trwy ogwŷddo'r enaid i ffieiddio pechod.

Chwedleugar. Pa ragoriaeth ſŷ rhwng gwaeddi yn erbŷn pechod, a'i ffieiddio ef?

ffyddlon. Ow! Llawer iawn; Fe eill dŷn waeddi yn erbŷn pechod trwŷ gyfrwŷſtra; Ond ni eill ef gaſháu pechod, ond trwŷ rinwedd ddnwſol (hynnŷ ŷw grâs Duw) ſŷdd wrthwŷneb iddo; Myſi a glywais lawer yn gwaeddi yn erbŷn pechod yn eu pregethau, y rhain er hynnŷ a gŷd-ddygent ag ef, ac a ymfodlonent yntho (yr hŷn oedd hawdd ei ddeall wrth eu ffrwŷthau nhw) yn eu calonnau, eu Tai, a'u hymddygiad; Gwaeddodd Meiſtres *Joſeph* a lléf uchel yn erbŷn pechod, fel ped faſei hi yn ſanctaidd: Ond er hynnŷ hi a fynnaſei yn ewŷllyſcar fôd yn aflan gydag ef (*Geneſis* 39. 7. &c.) I mae rhai yn gwaeddi yn erbŷn pechod, megis ag y mae Mam yn gwaeddi yn erbŷn ei phlentŷn ar ei harffed, gan roddi drŵg-henwau ir plentŷn, a chwedi hynnŷ coſleiddio a chuſanu'r plentŷn.

Chwedleugar. Mi debygwn eich bôd chwi 'n amcanu ſy machellu, am dal mewn rhwŷd.

ffyddlon. Nagydwŷf yn wîr; Ond celſio'r wŷſn 'n unig dreſnu pôb peth yn ei lawn le; Ond pa beth ydŷw 'r ail arwŷdd ſŷdd gennŷch, trwŷ yr hwn a mynnech chwi dyſtiolaethu fôd Grâs yn y galon?

Chwbdleugar. Gwŷbodaeth fawr yn Nirgeledigaethau 'r Efengŷl.

ffyddlon. Dylaſei'r arwŷdd hwn fôd yn gyntaf; Ond os cyntaf neu olaf, i mae hwn hefŷd yn ffals: Canŷs fe ddichon dŷn gyrhaeddŷd gwŷbodaeth, ie llawer o wŷbodaeth yn Nirgeledigaethau'r Efengŷl ac etto bôd heb râs yn ei Galon; Ie pedeai gan dŷn bob máth o wŷbodaeth, ſe alleu er hynnŷ fôd

John Jones

fôd yn Ddŷn anrasol, a thrwŷ hynny heb fôd yn blentyn i Dduw (1 *Corinthiaid* 13. 2.) Pan ofynnodd Crist iw Ddyscyblion; A ydŷch chwi'n gwŷbôd y pethau hŷn oll? Hwŷthau a'i hattebasant ef ydŷm; Yntef a ddywedodd wrthynt, os gwŷddoch y pethau hŷn, Gwyn-eich bŷd os gwnewch hwŷnt (*Ioan* 13. 17.) Nid ŷw Crist yn dywedyd, fôd y fendith yn perthynu ir sawl sŷ'n gwŷbod ewŷllys Duw; Ond ir sawl sŷ'n ei wŷbod ac yn gwneuthur: Canys i mae máth o wŷbodaeth heb weithredoedd dâ yn ei chanlyn (*Luc* 12. 47.) Gall fôd gan ŵr gymaint o wŷbodaeth ac sydd gan un o'r Angylion, ac etto heb fôd yn wîr Gristion; Ac am hynny, nid ŷw gwŷbodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr Efengyl yn Arwŷdd didwyll o râs yn y galon; I mae gwŷbodaeth yn wîr yn bodloni siaradwŷr ac ymffrostwŷr: Ond gwneuthur yn ôl ein gwŷbodaeth ydŷw'r hŷn sydd yn rhyngu bôdd Duw; Gwir ŷw, ni eill y galon fôd yn ddâ, ond i mae hi'n ddrŵg heb wŷbodaeth (*Diharebion* 19. 2.) I mae gan hynny wŷbodaeth, a gwŷbodaeth; I mae gwŷbodaeth yn gyntaf, yr hon sŷ'n ymfodloni yn unic i edrŷch ar bethau er mwŷn deall eu nattur; Ac yn all i mae gwŷbodaeth yr hon i mae'r grâs o ffŷdd a chariad ynglun wrthi; ac i mae hi'n gosod dŷn ar wneuthur ewŷllys Duw o'r galon; Y cyntaf o'r thain a Fodlona'r chwdleugar; Ond ni fodlonir mo'r gwîr Gristion heb yr all; Gwna i mi ddeall (ebŷr *Dafydd*) a chadwaf dy gyfraith; Ie cadwaf hi a'm holl galon (*Psalm* 119 34.)

Chwedleugar. 'Rŷchi'n ceisio fy rhwŷdo i drachefn; Nid ŷw hŷn er adeiladaeth yn y Bŷd.

Ffyddlon. Wele, os mynnwch chwi rhoddwch arwŷdd arall o'r môdd a mae grâs yn ei ddatcuddio ei hun lle i mae ef.

Chwedleugar. Na wnaf, canys mi a welaf nad

allwn ni gyttuno a'n gilydd.

ffyddlon. Wele, oni wnewch chwi, a roddwch chwi genad i mi i wneuthur hynny.

Chwedleugar. Gwnewch yn y matter ymma fel a gweloch yn oreu.

ffyddlon. I mae gwaith grâs yn yr enaid yn ei ddatcuddio ei hun, naill a'i i'r hwn ſydd yn ei feddiannu ef, neu i eraill.

Ir hwn ſydd a'r Grâs ymma gantho i mae yn ei ddatcuddio ei hun fel hyn; I mae'n argyhoeddi dyn am ei bechod, yn enwedig am lygredigaeth ei nattur, a'r pechod o Anghredinïaeth am ba un i mae 'n gweled yn eglur a bydd ef colledig, oddigerth cael o hono drugaredd ar law Duw, trwy ffydd yn Ieſu Grift (*Joan* 16. 8, 9. *Rhufeiniaid* 7. 24. *Pſalm* 51. 5. *Marc* 16 16.) Y golwg a'r yſtyriaeth ymma ſydd yn gwelthio yntho driſtwch, a chywilydd am bechod (*Pſalm* 38. 18. *Jeremi* 31. 19.) Ac ymhellach i mae ſachawdwr y Byd wedi ei wneuthur yn gydnabyddus iddo, a'r llwyr-gwbl Anghenrheidrwydd hefyd o lynu wrtho ef am fywyd; Ac o herwydd hynny i mae fe'n newynu ac yn ſychedu am Grift; Ac ir newyn a'r ſyched ymma i mae addewidion Duw yn perthynu (*Galatiaid* 1. 16. *Actau* 4. 12. *Matthew* 5. 6. *Datcuddiad* 22. 16.) Yr awron yn ôl cadernid, neu wendid ei ffydd ef yn ei Achubwr, fellu i mae ei lawenydd a'i heddwch ef, a'i ſerch hefyd at ſancteiddrwydd, a'i ddymuniad i ddynabod Criſt yn well, ac iw waſanaethu ef yn y Byd preſennol; Ond er fy mod yn dywedyd fod gwaith grâs yn ymddangos fel hyn lle a bytho; Etto ni ellir un ond yn anfynych iawn farnu, mai gwaith Grâs ydyw 'r peth a mae fe 'n ei gymmeryd tan yr enw hwnnw: Oblegid ei lygredigaethau welthieu, a'i Reſwm wedi ei gam arfer ar brydiau eraill a nadant

iddo

iddo lawn farnu ynghŷlch y matter ymma; Ac am hynnŷ rhaid ŷw bôd barn bwŷllog lawn yn yr hwn ſŷdd a'r gwaith ymma cŷn a gallo ef wŷbod yn ddiammeu mai gwaith grâs ydŷw'r peth.

I mae'r grâs ymma mewn dŷn yn ymddangos i eraill fel hŷn.

Yn gyntaf, Trwŷ gŷfaddefiad prûdd difrifol o'i ffŷdd yng Hriſt (*Rhufeiniaid* 10. 10.) Yn Ail, Trwŷ ſuchedd gyfattebol ir gyffes honno, gan fôd yn ſanctaidd yn ei ymddygiad, ac yn ei galon, gan ymegnio heſŷd i wneuthur ei Deulu 'n ſanctaidd (os bŷdd gantho Deulu) yr hŷn yn gyffredinol ſŷ'n dyſcu iddo gaſhâu pechod o'i Galon, ei ffieiddio ei hunan yn y dirgel amdano, ac i ymegnio iw ddaroſtwng ei yn ei Deulu; Ac i dderchafu Sancteiddrwŷdd yn y Bŷd; Nid trwŷ ſiarad yn unic, megis a gwna y Chwedleugar a'r Rhagrithwŷr; Ond trwŷ ymddaroſtyngiad beunyddiol, mewn ffŷdd a chariad i nerth gair yr Arglwŷdd, gan ymorcheſtu bŷw yn ei ôl ef; Ac yr awron Syr, os oes gemŷch ddim iw ddywedd yn erbŷn yr eglurhâd bŷrr ymma, ynghŷlch gwaith grâs, neu yn erbŷn y môdd y mae yn ei ddatcuddio ei hunan lle a bytho, mynegwch i mi hynnŷ; onide rhoddwch gennad i mi i ofŷn i chwi ail gweſtiwn.

Chwedleugar. Nage, nid ſŷ rhan i yr awron ydŷw gwrth-ddadleu, ond gwrando: Moſwyngly-wed gan hynnŷ eich cweſtiwn arall.

ffyddlon. Fy nghweſtiwn i ŷw hŷn; A oes gennŷch chwi broſiad ynoch eich hunan o'r rhan gyntaf o'r eglurhâd ymma o waith grâs yn y galon? Ac a ydŷw eich buchedd a'ch ymddygiad chwi yn tyſtiolaethu hynnŷ? Canŷs lle bo calon lân, i mae buchedd lân (*Matthew* 12. 35.) Neu ynteu a ydŷw'ch creſŷdd chwi yn ſeſŷll yn unic mewn Geiriau ac ymadroddion, ac nid mewn Gweithred

a Gwirionedd? Attolwg os ydŷchi ar fedr fy atteb i yn y matter ymma, na ddywedwch ddim mwŷ nag a wŷddoch a bŷdd i'r Goruchaf ddywedŷd amen gydag ef; Na dim heſŷd ond y peth a allo eich Cydwŷbod eich Cyſiawnhau chwi yntho; Canŷs nid yr hwn ſŷdd yn ei ganmol ei hun ſŷdd gymmeradwŷ, ond yr hwn a mae'r Arglwŷdd yn ei ganmol (2 *Corinthiaid* 10. 18.) Hebiaw hynnŷ, anwiredd mawr iawn ydŷw i ddŷn ddywedŷd, yr ydwŷf fel hŷn ac fel hŷn, pan fyddo ei ymddygiad a'i hôll gymmydogion yn dywedŷd mai celwŷddog ydŷw ef.

Chwedleugar. Yna a dechreuodd *Chwedleugar* wrido; Ond wedi dyfod o hono ychydig atto ei hun, efe a attebodd fel hŷn; Chwi a ddaethoch yr awron at brofiad, at gydwŷbod at Dduw, ac i appello atto ef am gyſiawnhâd o'r hŷn a lefarir: Nid oeddwn i yn diſgwŷl am y fâth ymddiddanion a hŷn; Ac nid oes yn fy mrŷd i roddi atteb ir fâth gweſtiwnau; Oblegit nad wŷf yn fy nghyfrif fy hun yn rhwŷm i hynnŷ, oddigerth eich bôd chwi yn cymmerŷd arnoch fôd yn ymholwr; A phedfaech chwi y fâth ŵr, etto mi a allwn wrthod eich cymmerŷd chwi yn Farnwr arnaf; Ond attolwg, a gafi wŷbod gennŷch, pa ham yr ydŷch chwi yn gofŷn i mi y fâth gweſtiwnau.

Ffyddlon. Am fy môd yn eich gweled chwi yn barod iawn i ſiarad; Ac oblegit fy môd yn tybied, nad oes dim ynoch ond gwŷbodaeth yn unic; Ac o ddywedŷd i chwi yr hôll wirionedd, mi a glywais amdanoch mai Gŵr ydŷchi ſŷdd a'i greſŷdd yn ſefŷll yn unic mewn gelriau, a bôd eich ymddygiad yn anghyfattebol i'ch proffes; Dywedant heſŷd mae blottŷn ydŷch ymblith Criſtionogion; a bôd creſŷdd yn dioddef llawer o wradwŷdd oblegit eich annuwiol ymddygiad; A bôd rhai euſus

wedi

wedi tramgwŷddo o herwŷdd eich ffyrdd drygionus chwi; A bôd bagad etto mewn perygl, i gael eu colli trwy eich ſiampl ddrŵg chwi, eich Crefydd, a'ch meddwdod yn y Tafarnau, a Chybydd-dod, ac Affendid, a Thyngu, a Rhegu, a dywedŷd Celwŷdd, a chadw cymdeithas ofer &c A gŷd-ſafaſant gyda chwi; I mae'r Ddiareb yn wir amdanochi yr hon a ddywedir am buttain, ſef ei bôd hi 'n gwilŷdd ir hôll wragedd, ſellu yr ydŷch chwitheu'n gwilŷdd ir hôll broffeſiwŷr.

Chwedleugar. Gan eich bôd cŷn barodted i goelio pôb chwedl, ac i farnu mor fyrhwŷll, ni allaſi dybied llai nad rhŷw ŵr anhywaith pendrwm ydŷch, ac anghymwŷs i neb ymddiddan a chwi; Ac am hynnŷ byddwch wŷch.

Yna a neſodd Criſtion at *ffyddlon*, ac a ddywedodd wrtho; Fy Mrawd! mi a fynegais i chwi ymlaen llaw yr hŷn a ganlynai eich ymddiddanion graſol chwi a'r dŷn ymma; Mi a wŷddwn yn ddigon dâ, na chydtunai eich geiriau chwi a'i Drachwantau ef; Gwell oedd gantho ymadel a'ch cymdeithas chwi, na gwellhau dim ar ei fuchedd; Ond fe a aeth ymaith; Gadewch iddo fyned; Nid oes colled i neb ond iddo ef ei hun: Ni roes ef mo'r trwbwl i ni, i ymadel ag ef yn gyntaf; Os parheiff ef (megis yr wŷfi'n tybied a gwna) yn y cyflwr drŵg a mae yntho, ni baſei ef ond blottŷn yn ein cwmpeini ni; Ac medd yr Apoſtol gochel y rhai ſŷdd a rhîth duwioldeb, ond wedi gwadu ei grŷm hi (2 *Timotheus* 3. 5. 2 *Theſſalonicaid* 3. 6.

ffyddlon. Ond i mae'n dda gennif gael o honof yr ychydig ymddiddan ymma ag ef; Fe ddaw'r pethau hŷn yſgadffŷdiw gôf ef drachefn; Pa fôdd bynnag, myfi a oſodais bethau yn eglur o'i flaen ef; Ac ſellu yr wi'n ddi-euog oddwrth ei waed ef os bŷdd ef colledig.

CRISTION. Dâ iawn a gwnaethoch, gan i chwi yn eich ymddiddan ddangos iddo mor eglur, y drŵg gyflwr a mae ef yntho; Nid oes nemmawr yn y dyddiau hŷn, mor ffyddlon iw cymmydogion yn y matterion ymma: A dyna un achos pa ham a mae crefŷdd mor ddrewllŷd yn ffroenau llawer-oedd; Canŷs y ſiaradwŷr ynfŷd hŷn (crefŷdd pa rai ſŷ'n ſefŷll yn unic ar flaen eu Tadodau, gan fôd yn frwnt ac yn ofer yn eu hymddygiad) ydŷnt yn peri ir Bŷd ſynnu yn y fâth fôdd, fel na wŷddant hwŷ pa beth iw dybied am ddynnion crefyddol, gan fôd bagad o'r gwâg ſiaradwŷr hŷn wedi eu derbŷn iw cymdeithas hwŷnt; Ac i mae 'r Bŷd yn meſur eraill wrth y rhain; Ac fellu o achos diffeithdra y fâth ddynnion mawr eu ſiarad, i mae crefŷdd yn cael ei diwŷno, a'r rhai diragrith yn cael eu diyſtyru; Mi ſynnwn pe cyhoeddai pawb hwŷnt, megis a darfu i'chwi argyhoeddi'r Clapci hwn; Canŷs trwŷ wneuthur fellu a'r fâth ddynnion, fe'i gwneid hwŷ naill a'i 'n fwŷ cŷdffurfiol a chrefŷdd, neu fe fyddai cymdeithas y Sainct yn rhŷ boeth iddŷnt; Yna canodd *ffyddlon* fel hŷn.

Dechreuodd y Chwedleugar ſerfŷll,
Ar y cyntaf ddercha ei eſcŷll,
Gan ryfygu cwŷmpo, a gorfod
Pawb o'i flaen wrth nerth ei dafod.

Mor hŷawdlaidd a chwedleuodd!
Ond hwŷ'n gyntaf a dechreuodd
Ffyddlon ſôn am râs iachuſol,
F'aeth y cyfaill yn ei wrthol.

Fel y Lloer o'i llawn oleuni,
Sy'n mŷnd lai lai hŷd ei geni;
Fellu hefŷd â yr hôll ddynnion,
Ond ſŷ'n dynabod gwaith y galon.

Ac

Ac ſel hŷn hwŷ a aethant ymlaen dan ſarad ynghŷlch y pethau a welſent yn eu taith; A thrwŷ hynnŷ, hwŷ a wnaethant y ffordd hono yn ddifŷr, yr hon yn ddiammeu heb y fâth ymddiddanion a faſeu'n anhyfrŷd iddŷnt; Canŷs mewn Anialwch yr oeddŷnt hwŷ yr hôll amſer hŷn.

Yr awron wedi dyfod agos allan o'r Anialwch, hwŷ a ganffuant *Eſangylwr* yn eu canlŷn hwŷnt: A chwedi iddo eu goddiwes, fe a gyfarchodd well iddŷnt, ac a ddywedodd wrthŷnt, Tangneddŷf i chwi fy anwŷl Garedigion, ac i bawb o'ch cynnorthwŷ-wŷr.

CRISTION, a *ffyddlon* Croeſaw, a chan croeſaw i ti garedig *Eſangylwr*; Wrth weled eich wŷnebprŷd, nid allwn ni lai na chofio eich hên garedigrwŷdd, a'ch llafur diflin er ein daioni tragywŷddol; O mor ddymunol ŷw'ch Cymdeithas i ni y Pererinod truain! Ac wedi mynegi iddo y cwbl ôll a ddigwŷddaſei iddŷnt yn eu taith, a pha fôdd, ac mor anhawſed a daethent hwŷ ſr lle yr oeddent yr awron yntho, fe lefarodd *Eſangylwr* wrthŷnt hwŷ fel hŷn.

Eſangylwr. Rwi'n llawenychu'n ddirfawr, nid am i chwi gyfarfod a phrofedigaethau, ond am i chwi eu gorchfygu hwŷnt; Ac heſŷd am barhau o honoch i ymdeithio yn y ffordd hon hŷd y dŷdd preſennol, er bôd ynoch lawer o wendid, 'Rwi'n dra llawen (meddaf) am y pethau hŷn, yn gyſtal er fy mwŷn fy hun, ac er eich mwŷn chwitheu: Myfi a heues, a chwetheu a fedaſoch; Ac mae'r dŷdd yn dyfod, yn yr hwn a caiff y ſawl a hauodd a'r ſawl a fedodd gŷd-lawenhau (hynnŷ ŷw os parhewch chwi hŷd y diwedd yn eich ffordd) canŷs yn ei iawn brŷd a medwch oni ddeffygiwch; I mae Coron anllygredig o'ch blaen chwi, fellu rhedwch fel a caffoch afael arni; I mae rhai yn myned allan

allan i geiſio meddiannu y Goron hon, ac wedi myned ymhell amdani, i mae arall yn dyfod ac yn ei dwŷn hi oddiarnŷnt; Deliwch gan hynny yr hŷn ſŷdd gennŷch, fel na ddygo neb eich Coron chwi (*Datcuddiad* 3. 11) Nid ydŷchi etto allan o gyrraedd ergŷdion Satan; Ni wrthwŷnebaſoch etto hŷd at waed, gan ymdrech yn erbŷn pechod (*Hebreaid* 12. 4.) Bydded Teŷrnas Nefoedd yn waſtadol oflaen eich llygaid; A bydded gennŷch ffŷdd gadarn ynghŷlch y pethau ſŷdd anweledig; Na choeliwch fôd eich happuſrwŷdd yn ſefŷll mewn dim ar ſŷdd y tu ymma i'r Nefoedd; Ac yn bendifaddeu, edrychwch yn fanwl at eich calonnau eich hunain, a'u trachwantau; Canŷs maent yn fwŷ eu twŷll na dim, ac yn ddrŵg ddiobaith; Goſodwch eich wŷnebau fel fflint yn eu herbŷn: I mae'r hwn ſŷ'n Holl-Alluog yn y Nêf, ac ar y ddaiar yn eich plaid chwi.

CRISTION. Yna a diolchodd Griſtion iddò am ei gyngor, gan ddymuno arno (yn ei enw ei hunan, ac yn enw *ffyddlon*) eu hyfforddi nhw ymhellach, pa fôdd i fyned y rhan ddiweddaf o'u ffordd; Oblegit (ebŷr ef) ni a wŷddom yn ddiammeu, mai Prophwŷd ydŷch, ac a gellwch chwi ragfynegu y pethau a ddigwŷddant i ni rhagllaw yn ein Taith, ac hefŷd yſpyſu i ni, pa fôdd a gallwn wrthwŷnebu, a gorchfygu y profedigaethau a gyfarfyddwn a hwŷnt.

Efangylwr. Yna ebŷr *Efangylwr*, fy mhlant anwŷl, Chwi a glywſoch allan o'r yſcrythur, mai trwŷ lawer o orthrymderau a mae yn rhaid i ni fyned i Deŷrnas Dduw; Ac hefŷd fôd rhwŷmau a blinderau ymhôb Dinas yn ein haros ni; Ac am hynny na Ddiſgwŷliwch fyned ymhell ar eich Pereindod hebddŷnt yn rhŷw fôdd neu gilŷdd; Chwi a gawſoch beth tyſtiolaeth am y gwirioneddymma

ymma yn barod; A chwi a gewch anghwaneg ar fŷrr; Canŷs yr ydŷch yr awron megis a gwelwch, ar fyned allan o'r Anialwch hwn; Ac chwi a ddowch yn fŷan i Drêf, yr hon a ganffyddwch chwi o'ch blaen; Ac yn y Drêf honno a gwarchaeir chwi'n galed gan elynnion, y rhai a ymdrechant a'u hôll nerth i'ch llâdd chwi; A byddwch ficer o hŷn, a gorfŷdd ar un o honoch oni orfŷdd ar y llall, ſelio a'i waed y dyſtiolaeth yr ydŷch yn ei ddal: Ond byddwch ffyddlon hŷd Angeu, A'r Breuin a rŷdd i chwi Goron y bywŷd (*Datcudliad* 2. 10.) A'r hwn a fyddo marw yno (er bôd ei farwolaeth ef yn anmaturiol, a'i boenau ondodid yn ddirfawr) a gaiff y goreu er hynnŷ ar ei Gydymaeth; Nid yn unic o herwŷdd a derbynnir ef yn gyntach ir Ddinas Nefol, ond hefŷd oblegit a bŷdd iddo ddiangc rhag llawer o gledi, y rhai a ddigwŷddant ir llall cŷn ei ddyfod ef i ben ei ſiwrnai; Ond pan ddeloch ir Drêf, a gweled yr hŷn ôll a ragfynegais i chwi ymma wed eu cyflawni; Yna cofiwch fi eich cydymaith; Ac ymwrolwch, a Gorchymmynnwch Gadwedigaeth eich eneidiau i Dduw, megis i Greawdwr ffyddlon, gan wneuthur yr hŷn ſŷdd dda yn ei olwg ef (*1 Petr* 4. 19.)

Yna mi a welais yn fy mreuddwŷd, yn gyntaf ac a daethant allan o'r anialwch, ganfod o honŷnt Drêf ar eu cyfer, a'i Henw hi *ŷw Gwagedd*, ac ynthi hi a cedwir ffair trwŷ'r hôll flwŷddŷn, yr hon a elwir ffair *Gwagedd*, am fôd y Drêf lle yn ydŷs yn ei chadw hi yn yſcafnach na Gwaged: Ac hefŷd am nad ŷw y cwbl a werthir yno, neu fŷ'n dyfod yno, ddim amgen na *Gwagedd*, megis a dywedodd y Gŵr Doeth, Gwagedd ŷw'r cwbl (*Eſai* 40. 17. *Pregethwr* 1. 2.)

Nid ffair newŷdd, ond hên ffair ydŷw hon;

Mi a ddangoſaf i chwi ei dechreuad hi.

Er ys agos i bum mil o flynnyddoedd, yr oedd Pererinod yn ymdeithio tua'r Ddinas Nefol; A *Belzebub*, *Apol-lyon*, ynghŷd a'r Cythreuliaid eraill a wŷbuant wrth y llwŷbr a wnaetheu y Pererinod, fôd eu ffordd hwŷ ir Ddinas Nefol yn myned trwŷ ganol Trêf *Gwagedd*; Ac am hynnŷ hwŷ a ddyfeiſiaſant godi ymma ffair, i barhau trwŷ'r flwŷddŷn, yn yr hon a gwerthid pôb mâth o *Wagedd*; Am hynnŷ fe werthir ynddi bôb mâth o farſiandaeth, megis Arian, Aur, Perlau, Trachwantau, Plant, Gweinidogion, Gwragedd, Gwŷr, Meiſtred, Celfŷddydau, uchel Swŷddau, Anrhydedd, Tai, Tiroedd, Gwledŷdd, Teŷrnaſoedd, Trythillwch o bôb mâth, megis Putteiniaid a'u Lleteion; Gwaed, Cŷrph, Bywŷd, ac Eneidiau pobl, a pha beth nas ceir ar werth ymma.

Ac heblaw hynnŷ, ceir gweled yn y ffair hon bôb amſer, Hudolwŷr, Twŷllwŷr, Chwaryddion, Ynfydion, Cnafiaid o bôb mâth; Lladron, Llofruddion, Godinebwŷr, ac Anudonwŷr wedi eu diwŷno a gwaed gwirion.

Ac megis i mae mewn ffeiriau eraill (llai eu bri) fellu hefŷd i mae ymma amrŷw Heolŷdd, tan eu henwau cymwŷs, lle a gwerthir y cyfrŷw farſiandaeth; I mae ymma Heol y *Brittaniaid*, Heol y *Ffrancod*, Heol yr *Italiaid*, Heol yr *Hiſpaenwŷr*, a Heol y *Germaniaid*, lle mae amrŷw fâth o wagedd ar werth; Ond megis mewn ffeiriau eraill i mae rhŷw bethau yn fwŷ enwedigol iw cael ar werth, fellu Marſiandaeth *Rhuſain* ſŷ'n cerdded orau yn y ffair ymma, ond bôd y *Brittaniaid* a rhŷw Bobloedd eraill yn dibriſio'r Marſiandaeth hwnnw.

Yr awron fel a dywedais, i mae'r ffordd ir Ddinas Nefol yn myned yn union trwŷ'r Drêf hon;

A'r

A'r neb a fynno fyned ir Ddinas honno, heb fyned trwŷ'r Drêf ymma, rhaid iddo fyned allan o'r Bŷd (1 *Corinthiad* 5. 10.) Fe orfu ar Dywŷſog y Tywŷſogion, pan oedd ef ar y Ddaiar, fyned trwŷ'r Drêf a'i ffair hon iw wlâd ei hun; Ac fe'i gwahoddwŷd ef gan *Belzebub* Pen llywodraethwr y ffair, i brynu o'i wagedd ef: Ie cynnygiodd i wneuthur ef yn Arglwŷdd y ffair, pe baſai ef ond ymgrymmu iddo, a'i addoli ef wrth fyned trwŷ'r Drêf; Ac oblegid bôd Tywŷſog y Tywŷſogion yn dra amrhydeddus, dygodd *Belzebub* ef o Heol i Heol, gan ddangos iddo hôll Deŷrnaſoedd y Bŷd mewn munŷd awr; Fel a gallai ef (pedfaſai boſſibl) ddenu'r Bendigedig hwnnw i brynu peth o'i wagedd ef; Ond nid oedd gantho ef ddim ſerch at y fâth farſiandaeth, ac am hynnŷ fe a aeth ymaith o'r Drêf, heb wario cymaint ac un hatling ar y Gwagedd ymma (*Matthew* 4. *Luc* 4.)

Yr awron fel a dywedais i, yr oedd yn rhaid ir Pererinod hŷn fyned trwŷ'r ffair ymma; Ond gyntaf ag a daethant yno, fe gyffrodd yr hôll bobl oedd yn y ffair; A'r hôll Drêt a ymgaſ. claſant o'u hamgŷlch hwŷnt, fel pedfaient mewn terfŷſg; A hynnŷ o herwŷdd amrŷw reſ. ymmau.

Yn Gyntaf, Yr oedd y Pererinod wedi eu dilladu a'r fâth wiſcoedd, nad oedd gan neb yn y drêf a'r ffair honno mo'i bath: Ac oblegid hynnŷ yr oedd Llygadrythu yn rhyfeddol arnŷnt; Rhai a ddywedent mai Ynfydion oeddent, rhai mai Bedlemmod, ac eraill a ddywedent mai Gwŷr o wlâd ddieithr oeddŷnt.

Yn Ail, Megis yr oeddŷnt yn rhyſeddu wrth weled eu Dillad; Fellu heſŷd yr oeddŷnt yn rhyſeddu wrth glywed eu hiaith hwŷnt; Canŷs nid oedd nemmawr yn deall yr hŷn a leſarent; eu hiaith

hiaith hwŷ oedd ſaith Gwlad *Canaan*: Ond Gwŷr y Bŷd hwn oedd pobl y ffair; Canŷs yr oeddent yn Tyngu, ac yn Rhegu, ac yn eu hoffrwm eu hunain ir Diawl yn fynŷch; Ac fellu o'r naill ben ir ffair ir llall, yr oedd y Pererinod a'r ſawl oedd yn marchnadta yno, megis *Barbariaid* y naill ir llall (1 *Corinthiaid* 2. 7, 8.)

Yn Drydŷdd, Y peth mwŷaf rhyfeddol gan y Marſiandwŷr oedd, fôd y Pererinod ymma yn llwŷr ddibriſio eu hôll Farſiandaeth hwŷ; Canŷs ni wnaent hwŷ gymaint ac edrŷch ar y pethau oedd ar werth yno; Ac os gelwid arnŷnt i brynu dim, hwŷ a oſodent eu byſedd yn eu cluſtiau, ac a waeddent, Trô heibio fy llygaid rhag edrŷch ar wagedd; Ac a edrychent i fynu, gan arwŷddo trwŷ hynnŷ, fôd y wâr ar pethau yr oeddŷnt hwŷ yn ymoſŷn amdanŷnt, iw cael yn unic yn y Nefoedd (*Pſalm* 119. 37. *Philippiaid* 3. 19, 20.)

Digwŷddodd i rŷw watwarwr (wrth ddal ſulw ar eu hymddygiad) ofŷn iddŷnt, Pa beth a brynwch chwi? A hwŷthau yn Sobor iawn a'u hattebaſant ef, ein hewŷllŷs ni ŷw prynu'r Gwirioned (*Diharebion* 23. 23.) Ac ar hŷn cymerwŷd mwŷ o eſgus iw dirmygu hwŷnt: Canŷs rhai yr awron a'u gwatwarent, rhai a'u enlliblent, a rhai a annogent eraill iw curo nhwŷ; O'r diwedd, yr oedd yr hôll ffair mewn Terfŷſc a chythryfwl, hŷdoniô oedd pôb peth allan o drefn; Yna a mynegwŷd y cwbl i Arglwŷdd y ffair; Ac yntef a ddaeth i wared yn fŷan, ac a archodd i rai o'i gymdeithion ffyddlonaf i holi hwŷnt yn ſanwl, o achos pa rai yr oedd y ſâth gynnwrf yn yr hôll ffair.

Fellu fe ddygwŷd y Gwŷr oflaen y Sawl a appwŷntiwŷd iw Holi nhw; A gofynnwŷd iddŷnt, o ba le yr oeddent yn dyfod, ac i ba le yr oeddent yn myned, ac i ba bwrpâs

a

a daethant yno yn y fâth wiſcoedd anarferol? Hwŷthau a'u hattebaſant, mai Dieithraid a Phererinod oeddent yn y Bŷd hwn, a'u bôd nhw'n myned tua eu Gwlâd eu hun, ſef *Caerſelem* Nefol; Ac na roeſent hwŷ ddim achos, nac i wŷr y Dréi. nac ir Marſiandwŷr ychwaith, iw hamharchu ac iw rhwŷſtro hwŷ yn eu ſiwrnai; Oddieithr bôd hŷn yn achos, ſef pan oſynnodd un iddŷnt pa beth a brynnent, atteb o honŷnt hwŷthau mai 'r gwîr a brynnent.

Ond ni choelieu y Swŷddogion eu bôd nhw ddim amgen na *Bedlemmod*, a Dynnion allan o'u côf, neu mai pobl oeddŷnt a ddaethai yn bwrpaſol i wneuthur cynnwrf yn y ffair; Am hynnŷ hwŷ a guraſant y Pererinod, gan eu trybaeddu nhw a thom. ac wedi hynnŷ hwŷ a'u goſodaſant mewn Cyffion, fel a byddent yn amlwg ir hôll ffair; Ac yno buant dros ennŷd yn wrth-ddrychau i watwarwŷr a maleuſwŷr: Ac Arglwŷdd y ffair oedd yn y cyfamſer yn chwerthin wrth weled eu hamherchi nhw yn y môdd ymma; Ond yr oedd y Gwŷr yn ammynedd lawn, heb roi geir drŵg am air drŵg, ond yr oeddŷnt yn bendithio, gan rôi geiriau dâ am rai drŵg, a pharch am amharch.

Ond rhai o'r ffair, wrth graffu yn well ar y Pererinod, ac heb farnu yn fyrbwŷll amdanŷnt megis eraill, a ddechreuaſant geryddu a beio'r bobl gyffredin, am eu bôd nhw'n waſtadol yn gwneuthur cam a'r Dieithriaid ymma yn y fâth fôdd dirmygus: Hwŷthau yn llidiog a attebaſant y ſawl oedd yn eu ceryddu nhw, gan ddywedŷd wrthŷnt, eu bôd nhw cynddrwg a'r Gwŷr oedd yn y Cyffion, a'u bôd hefŷd (mewn pôb tebygoliaeth) mewn cyttundeb a hwŷnt, am eu bôd yn pledio troſtŷnt; Ac o herwŷdd hynnŷ, a caent fôd yn gŷd-gyfranogion o'u haflwŷdd hwŷnt; A'r lleill

a dywedaſant, am ddim ar a welſent hwŷ, fôd y dynnion yn llonŷdd ac yn ſobor, heb chwennŷch drŵg i neb; A bôd bagad yn marchnadta yn y ffair, y rhai a haeddent eu carcharu, ie a'u goſod yn y *Pilwri* yn hytrach na'r Dieithraid ymma; A chwedi ymgegu digon a'i gillŷdd (a'r Pererinod trwŷ 'r hôll amſer yn eu dwŷn eu hunain yn ddoeth, ac yn bwŷllog iawn ger eu bron hwŷnt) pobl y ffair a rŷthraſant y naill ar y llall, gan guro a chlwŷtô 'r naill y llall.

Yna a dygwŷd y ddau Bererin drachefn oflaen y Swŷddogion, iw holi 'n fanylach; Ac achwŷnwŷd arnŷnt, mai hwŷnt a fu'r achos o'r Terfŷſc diweddar a faſai yn y ffair; Ac am hynnŷ, fe'u curwŷd hwŷ yn anrhugarog, a goſodwŷd hwŷ mewn heirn, a dygwŷd hwŷ mewn tidau i fynu ac i wared trwŷ 'r hôll ffair, er ſiampl a dychrŷn i eraill, rhag dywedŷd o neb ddim yn eu plaid, neu ymgyfeillachu ac ymgyſſylltu a hwŷnt; Ond Criſtion a *ffyddlon* a ymddygaſant eu hunain yn ddoethach etto, gan dderbŷn yr amharch a'r dirmŷg a gawſant, mor ammynedd a llarieidd. hŷdoni ynnillaſant trwŷ hynnŷ lawer o bobl y ffair iw plaid, er nad oeddŷnt ond nifer fechan i ymdrechu a'r lleill; A gwnaeth hŷn i'r blaid arall ymgynddeirdogi yn fwŷ; A dywedaſant wrth y ddau ŵr, na chai Carchar a Heirn waſanaethu moi trô, ond caent eu rhoddi i Farwolaeth am y cynnwrf a wnaethant, ac am hudo rhai o'r ffair i fôd o'u tu hwŷnt.

Yna a danfonwŷd hwŷ drachefn ir Carchar, hŷdoni chymmerid cwrs ymhellach a hwŷnt; Ac yn y carchar, fe ddodwŷd eu traed hwŷnt yn gaeth mewn heirn.

Ac yno daeth iw côf hwŷnt yr hŷn a ddywedaſei eu ffreind *Efangylwr* wrthŷnt; A hwŷ a gadarnhawŷd

hawŷd yn fwŷ yn eu ffŷrdd a'u dioddefiad, gan iddo ef ragfynegu yr hŷn a ddigwŷddaſai iddŷnt; Dechreuaſant hefŷd yr awron gyſuro y naill y llall, gan farnu mai 'r hwn a ddioddefai farwolaeth yn gyntaf, a gae'r gorau ar y llall; Ac am nynnŷ yr oedd pôb un yn chwennŷch yn ei galon gael y rhagorfraint hwnnw; Ond gan eu gorchymŷn eu hunain i ddoeth ragluniaeth yr hwn ſŷ 'n llywodraethu pôb peth, hwŷ a ymroeſant drwŷ lawer o Fodlonrhwŷdd i ddwŷn eu croes, hŷdoni threfnid iddŷnt rŷw gyflwr arall.

Yna wedi ordeinio amſer cyfaddas, fe 'u dygwŷd hwŷ allan ir Frawdle, i gael eu barnu gan eu gelynion: Enw'r Barnwr oedd *Caſwr pob Daioni*; Eu hendeitment oedd un mewn ſylwedd, er ei ſôd yn ddau mewn ffurf a dull; Y matter cynnwŷſyedig yntho ydoedd hŷn.

Fôd y Pererinod ymma yn Elynion iw crefftau a'u marſiandaeth hwŷnt; A gwneuthur o honŷnt hwŷ derfŷſc ac ymryſon yn y Drêf, gan hudo llaweroedd i dderbŷn eu peryglus a'u ffals opiniwnau hwŷnt mewn matterion crefŷdd, gan ddiyſtyru a dirmygu cyfraith eu Tywŷſog trwŷ wneuthur fellu.

Yna *ffyddlon* a attebodd trofto ei hun, gan ddywedŷd, Ni wrthwŷnebais i neb, ond y ſawl oedd yn wrthwŷnebus ir hwn ſŷdd uwch na'r uchaf ar y ddaiar; Ac ni wnaethum i ddim Terfŷſc, gan fy mòd fy hun yn ŵr heddychlon; Ac am y rhai a ennillwŷd i'n plaid, fe'u hennillwŷd hwŷ trwŷ yſtyried y gwirionedd a'r diniweidrwŷdd ſŷdd ynom; Ac i maent wedi eu troi, yn unig oddiwrth y gwaetha ar y gorev; Ac am y Brenin yr ydŷch yn ſôn amdano, gan mai *Belzebub* ydŷw ef (ſef Gelŷn mawr i'n Harglwŷdd ni) yr wi'n ei ddiyſtyru ef a'i hôll Angylion.

Yna a Cyhoeddwŷd, od ydoedd gan neb ddim

iw ddywedŷd ymhlaid eu Harglwŷdd Frenin *Belzebub*, yn erbŷn y Carcharwr wrth y barr, ymddangos o honŷnt ar frŷs, i roddi eu Tyſtiolaeth ar Cowrt; Ac ar hynnŷ daeth Tri o Dyſtion i mewn, a'u henwau oedd **Cynſigen**, *Gau-grefŷdd*, a *Cham-gyhuddwr*: Yna gofynnwŷd iddŷnt, a adwaenent hwŷ y Carcharwr wrth y barr? A pha beth oedd ganthŷnt iw ddywedŷd yn ei erbŷn ef, tros eu Harglwŷdd Frenin.

Yna ſaſodd **Cynſigen** i ſynu, ac a ddywedodd fel hŷn, ſy Arglwŷdd Uſtus, myfi a adwaen y Gŵr ymma er ys talm o amſer, ac mi a dyſtiolaethaf ar ſy llŵ oflaen yr Orſeddfaingc anrhydeddus hon ei fôd ef ——

Barnwr. Arafwch, rhoddwch ei Lŵ iddo ef; Ac wedi gwneuthur fellu, efe a ddywedodd, nid ŷw'r Gŵr hwn er tegced ŷw ei enw, ond un o'r dynnion diffeithaf yn ein Gwlâd: Nid ŷw ef yn gwneuthur pris yn y Bŷd, nac o'n Tywŷſog, nac o honom ninnau eu Ddeiliaid ef, nac o Gyfreithiau, nac o arferion; Ond i mae'n gwneuthur a allo i lenwi pennau pobl a rhŷw opiniwnau melltigedig, ſŷ'n wrthwŷnebus i ufudd-dod, ir Awdurdodau goruchel; Yrhain opiniwnau y mae efe yn eu galw, yn wŷddorion ffŷdd a ſanctteiddrwŷdd; Ac ynneilltuol myfi a'i clywais ef a'm cluſtiau fy hun yn taeru, fôd Criſtionogaeth, ac arferion ein Trêf ni, yn gwbl wrthwŷnebus iw gilŷdd, ac nas gellir eu cymmodi hwŷnt: A thrwŷ'r ymadrodd hwn fy Arglwŷdd Uſtus, i mae ef ar unwaith yn condemnio nid yn unic ein hâll weithredoedd canmoladwŷ ni, ond y ninneu hefŷd ſŷdd yn eu gwneuthur hwŷnt.

Barnwr. Yna a gofynnodd y Barnwr iddo, a oes gennŷch ddim mwŷ iw ddywedŷd?

Cynſigen. Fy Arglwŷdd, Mi a allwn ddywedŷd

wedŷd llawer mwŷ; Ond ni fynnwn i ddim'n Cowrt; Etto os bŷdd rhaid (wedi ir Gwŷr bonheddigion eraill roddi eu tyſtiolaeth i mewn) yn amgen nag a bo dim yn eiſſau iw grogi neu iw loſci ef, myſi a helaethaf fy nhyſtiolaeth yn ei erbŷn ef; Yna fe archwŷd i Gynkigen ſefŷll heibio, a galwŷd *Gau-grefŷdd*, a gorchymynwŷd iddo edrŷch ar y Carcharwr wrth y barr; A gofynnwŷd iddo, pa beth a allai ef ddywedŷd, dros eu Harglwŷdd Frenin yn ei erbŷn ef? Ac wedi rhoddi ei Ateb iddo, efe a lefarodd fel hŷn.

Gau-grefŷdd. Fy Arglwŷdd Uſtus, nid ydwŷf hanner cydnabyddus â'r Gŵr hwn; ac nid wi'n chwennychu bŏd yn fwŷ cydnabyddus ag ef; Er hynnŷ mi a wn hŷn, oddiwrth rŷw yddiddan a fu rhyngofi ag yntef y dŷdd arall yn y Dref ymma, Mai Dŷn diriaid a pheryglus ydŷw ef; Canŷs myſi a'i clywais ef y prŷd hwnnw yn dywedŷd fŏd ein crefŷdd ni yn ddrŵg, ſef yn y ſêth un, ac nad ŷw hoſſibl i neb foddhau Duw trwŷddi; Ac oddiwrth yr ymadroddion ymma, fy Arglwŷdd Uſtus, chwi a wŷddoch yn ddigon dâ fŏd hŷn yn canlŷn, ſef mai ofer ŷw'n haddoliad ni'n waſtadol, A'n bŏd ni etto yn ein pechodau, Ac a byddwn ni damnedig yn y Diwedd; A hŷn fŷ geniſ iw ddywedŷd.

Yna a rhoddwŷd *Cam-gyhuddwr* iw lŵ, ac ſe archwŷd iddo ddywedŷd yr hŷn ŏll a wŷddai, ymhlaid ei Arglwŷdd Frenin, yn erbŷn y Carcharwr wrth y barr.

Cam-gyhuddwr. Fy Arglwŷdd Uſtus, a chwithau wŷr boneddigion ŏll, myſi a adwaen y cyfaill ymma er ys talm o amſer, ec a'i clywais ef yn llaſenwi ein hardderchog Dywŷſog *Beltzhub*, ac yn llefaru yn ddirmygus am ei Gyfeillion anrhydeddus ef, ſef am yr *Arglwŷdd Mŵn-ddŷn*, yr *Arglwŷdd*

Hyfrŷdwch cnawdol' yr *Arglwŷdd Gloddeſt*, ar *Arglwŷdd Trachwantus am Wâg-ogoniant*, yr hên *Arglwŷdd Anlladrwŷdd*, ynghŷd a phawb eraill o'n Pendefigion ni; Ac efe a ddywedodd ymhellach, pedfai bawb o'r un feddwl ag ef, os byddai boſſibl, na chai un o'r rhain aros yn hwŷ yn y Drêf ymma; Heblaw hynnŷ fy Arglwŷdd Ulſtus, ni ruſodd ef eich llaſenwi chwithau hefŷd, yr hwn ſŷ yr awron wedi ei appwŷntio i fôd yn Farnwr arno ef, gan eich galw chwi yn fulaen annuwiol, wrth roddi allan lawer o eiriau cynfigenus eraill amdanoch chwi, ac am y rhan fwŷaf o uchelwŷr ein Trêf ni; Ac yno wedi i *Gam-gyhuddwr* ddywedŷd ei chwedl, fe drodd y **Barnwr** at y Carcharwr wrth y barr, gan ddywedŷd wrtho; Tydi'r Crwŷdrad, yr Heretic, a'r Traetur, a glowaiſt beth a dyſtiolaethodd y gwŷr goneſt hŷn i'th erbŷn di?

ffyddlon. A gâf i gennad i ddywedŷd ychydig droſof fy hun?

Barnwr. Syre, Syre, 'rŷch i'n haeddu cael eich rhoddi i farwolaeth yn ddimaros, yn y mann ymma; Ond etto fel a gallo pawb weled ein gweddeidd-dra ni tuag attoch, moſwch glowed beth ſŷdd gennŷch (y crwŷdrŷn brwnt) iw ddywedŷd troſoch eich hunan.

ffyddlon. Yn gyntaf, Am yr hŷn a lefarodd Meiſtr **Cynfigen**, 'Rwi 'n atteb, Na ddywedais i ddim ond hŷn, am y Rheolau, y Cyfreithiau, y Defodau, a'r Bobl hynnŷ ſŷ 'n wrthwŷnebus i air Duw, fôd y rheini i gŷd yn wrthwŷnebus i Griſtionogaeth; Os dywedais i ar fai yn hŷn, 'rwi 'n barod (ond i chwi ddangos i mi fy ngham-gymeriad) i alw y geiriau'n ôl, ac i ymddaroſtwng ymma o'ch blaen chwi o'i plegid hwŷnt.

Yn ail Am y peth a dyngodd Meiſtr *Gau-greſŷdd* i'm herbŷn, 'rwi'n atteb, mai hŷn yn unic a ddywedais

wedais i, ſef y dylai ein ffŷdd ni ynghŷlch y pethau yr ŷm yn eu gwneuthur, yn addoliad Duw, fôd y fâth un ar ſŷ wedi ei goſod ar Air Duw; Canŷs yno a mae ſe'n datcuddio y pethau, y mae ef yn eu ewŷllyſio i ni eu cyflawni, yn ei addoliad ef; A gelwir y ffŷdd ymma yn ffŷdd dduwiol, yr hon heb warant allan o Air Duw nid all mor bôd yn neb; Ac am hynnŷ os dygir dim i mewn i Addoliad Duw, nad ydŷw gyttunol a'r datcuddiad ſŷdd o'i ewŷllŷs ef yn yr yſcrythur, nid ellir cyflawni hynnŷ ond a ffŷdd ddynol, yr hon nid ŷw fuddiol i fywŷd tragywŷddol.

Yn drydŷdd Am yr hŷn a dyngodd Meiſtŷr *Gamgyhuddwr*, 'rwi n atteb (heb ddal ſulw ar ei walth ef yn taeru, fy môd i'n difenwi &c.) fôd *Belzebub* Tywŷſog y Ddinas hon, a'r hôll dyrfa o'i weiſion ef, yn gymhwŷſach i fôd yn uffern, nag yn y wlâd neu'r Ddinas ymma; Fellu Duw a drugarhâo wrth fy enaid i.

Yna dywedodd y Barnwr wrth y Cweſt (y rhai, tros yr hôll amſer, a ſafaſant gyferbŷn, i wrando ac i ddal ſulw) Chwychwi wŷr Beneddigion o'r cweſt a welwch y Gŵr ymma, o achos pa un â bu cymmaint o gynnwrf yn ddiweddar yn ein Trêf ni; Chwi a glywſoch pa bethau a dyſtiolaethodd y Gwŷr boneddigion hŷn yn ei erbŷn ef; Ac hefŷd ei attebion a'i gyfaddefiad yntef; Arnoch chwi yr awron a mae'n ſefŷll, ei fwrw neu ei gadw ef; Ond etto 'rwi 'n gweled hŷn yn beth cymwŷs, ſef l'ch haddyſcu chwi, ynghŷlch nattur ein cyfreithau ni.

Yn nyddiau Brenin *Pharao* (Gweinidog l'n Tywŷſog *Belzebub*) a gwnaethpwŷd Cyfraith, yn yr hon a gorchmynwŷd bwrw plant gwrw yr Iſraeliaid ir afon, rhag ofn ir rhai oedd o greſŷdd wrthwŷnebus iw greſŷdd ef amlhau, a myned yn

drech nag ef; Gwnaed Act hefŷd yn nyddiau *Nebuchadnezar* fawr (Gwâs arall i'n Tywŷsog ni) a byddai i bwŷ bynnag ni syrthiai i lawr, i addoll ei ddelw Aur ef, gael eu bwrw i ffwrn o dân poeth; Gwnaethpwŷd Act hefŷd yn nyddiau *Darius*, a byddai ir sawl a alwai ar un Duw (tros rŷw amser terfŷnnedig) ond yn unic arno ef, gael eu taflu i ffau 'r Llewod (*Exodus* 1. *Daniel* 3. *Daniel* 6.) Yr awron i mae'r Rebel ymma wedi troseddu y cyfreithiau hŷn igŷd, nid yn unic mewn meddwl, ond hefŷd mewn gair a gweithred, yr hŷn nis gellir ei ddioddef mewn môdd yn y Bŷd.

Pharao a wnaeth ei gyfraith i ragflaenu, ac i rwŷstro anghydfod a niweid; Canŷs nid oedd un bai etto yn weledig, fel y mae beiau yn weledig ymma; Am yr ail a'r drydŷdd gyfraith, chwi a glywsoch fel a mae 'r Carcharwr yn dadleu yn eu herbŷn, trwŷ ddywedŷd yn erbŷn ein crefŷdd ni; Ac yr awron i mae 'n haeddu marwolaeth am y traeturiaeth a gyffesodd ef.

Yna yr ymnailltuodd y cwest, a'u henwau ydoedd, Meistir *Dall*, Meistir *Di-ddaioni*, Meistir *Maleusus*, Meistir *Anllad*, Meistir *Ofer-ddŷn*, Meistir *Pen-galed*, Meistir *Uchel ei olwg*, Meistir *Gelyniaeth yn erbŷn pôb daioni*, Meistir *Celwŷddog*, Meistir *Creulondeb*, Meistir *Casswr y Goleuni*, Meistir *Anghymmodol*; A'r rhain igŷd a roesant eu ferdid yn benodol yn erbŷn y carcharwr yn eu plith eu hunain; A chwedi hynnŷ hwŷ a gyttunasant yn un frŷd iw ddwŷn ef i mewn yn euog o farwolaeth oflaen y Barnwr; Ac yn gyntaf yn eu plith eu hunain, ebŷr Meistir *Dall* y fforman, myfi a welaf yn eglur mai Heretic ydŷw 'r Dŷn ymma; Ymaith a'r cyfrŷw un oddiar y ddaiar ebŷr Meistir *Di-ddaioni*; Ie ebŷr Meistir *Maleusus* ymaith eg ef, canŷs y mae 'n gâs gennif yr olwg arno;

Ni

Ni ellais i erioed aros mono ebŷr Meiſtir *Anllad*; Na minneu ychwaith ebŷr Meiſtir *Ofer-ddŷn*, canŷs ſe fyddai bôb amſer yn beio, ac yn condemnio ſy ffŷrdd i; Crogwch ef crogwch ef ebŷr Meiſtir *Pen-gled*; Nid ŷw ef ond yſcerbwd ſâl ebŷr Meiſtir *Uchel ei olwg*: Mae 'nghalon i yn codi yn ei erbŷn ef ebŷr Meiſtir *Gelyniaeth yn erbŷn pŏb daioni*; Dihirŷn brwnt ŷw ef ebŷr Meiſtir *Celwŷddog*; mae crogi yn rhŷ ddâ iddo ebŷr Meiſtir *Creulondeb*; Moſwch i ni yn fŷan ei ddanfon ef allan o'r Bŷd ebŷr Meiſtir *Caſſwr y Goleuni*; Pe rhoddid i mi yr hôll Fŷd, ni allwn i ymheddychu ag ef ebŷr Meiſtir *Anghymmodol*: Gadewch i ni gan hynnŷ, yn fŷan ei ddwŷn ef i mewn yn euog o farwolaeth; Ac ſellu gwnaethant: Ac am hynnŷ barnodd y Barnwr i garrio ef oddiwrth y barr ir Carchar drachefn, ac oddlyno i le y coſpedigaeth, i ddioddef y farwolaeth greulonaf ar a ellid ei dyfeiſio.

Yna hwŷ a'i dygaſant ef allan iw ddihenyddu yn ôl eu cyfraith hwŷnt; Ac yn gyntaf hwŷ a'i chwipiaſant ac a'i curaſant ef; A chwedi hynnŷ hwŷ a borcciaſant ei gnawd ef a chyllill, ac a'u pwniaſant ef a meini; Ac yn ddiweddaf, wedi ei frathu ef trwŷddo a'u cleddyddau, hwŷ a'i lloſgaſant ef yn ulw wrth boſt; A dymma i chwi ddiwedd *ffyddlon*; Ond mi a welais (o'r tu ôl ir fintai, oedd yn breſennol wrth ei loſci ef) Gôuts a chwpwl o gyffylau yn diſgwŷl amdano; Ac yn gyntaf ag a bu ef farw trwŷ'r poenau hŷn, dygwŷd ef ir couts; Ac yn ddiſymmwth cippiwŷd ef i fynu trwŷ'r cymmylau (gyda Sŵn udcorn) y ffordd neſſaf ir Ddinas Nefol.

Ffyddlon enwog am dduwiol-frŷd,
Dâ mewn gair a gweithred heſŷd,
Ni allai Barnwr, cweſt, na thyſtion,
Wneud i'th enaid ddim niweidion

Yn lle dy lâdd di yn dragywŷdd,
Dangoſaſant gynddeiriogrwŷdd:
Pan ſont hwŷ, a'u henwau 'n feirwon,
Byddi bŷw ymhlith Angylion.

Ond hwŷ a arbedaſant Griſtion y tro ymma, gan ei ddanſon ef yn ôl ir Carchar; Lle a gadawſant ef dros rŷw amſer; Ond Duw, yr hwn ſŷ 'n goruwch-reoli pôb peth (gan fod gantho allu i ffrwŷno eu cynddeiriogrwŷdd hwŷnt) a wnaeth ffordd iddo i ddiangc y prŷd hwnnw, rhag malais ei elynion; Ac fellu fe a aeth rhŷd ei ffordd dan ganu:

Ffyddlon, cywir a fuoſt ti,
I'th unig Ri rhagorol;
Gyda 'r hwn cai ar ôl hŷn,
Fawr wnfŷd yn dragywŷddol.

Pan fyddo 'r Anffyddloniaid trwch,
A'u hôll ddigrifwch oſer,
Yn uffern boeth yn udo 'n brudd,
It titheu bŷdd uchelder.

Can ffyddlon, bŷdd ith enw o hŷd,
Barch yn y Bŷd tragywŷddol:
Er cael dy lâdd, gwirionedd ŷw
Dy fôd yn fŷw 'n waſtadol.

Yr awron mi a welais yn fy mreuddwŷd, nad aethau Criſtion ymaith yn unig ar ei ben ei hunan; Canŷs yr oêdd yno un a elwid *Gobeithiol*, (calon pa un a gyffyrddwŷd, ac a wnaethpwŷd yn obeithiol, trwŷ ddal ſulw ar eiriau ac ymddygiad Criſtion a *ffyddlon* dan eu dioddefaint yn y ffair) yr hwn a lynodd wrth Griſtion, ac a wnaeth gyfammod brawdol ag ef, gan ddywedŷd wrtho, a

byddai

bŷddai ef gydymaith iddo yn ei ſiwrnai; Fel hŷn a bu un farw i ddwŷn tyſtiolaeth o'r gwirionedd; Ac wele un arall yn cyfodi allan o'i briddin ef, i fôd yn Gydymaith i Griſtion yn ei Bererindod; A dywedodd *Gobeithiol* wrth Griſtion, fôd llawer o bobl yn y ffair honno y rhaln mewn amſer oeddent debygol iw canlŷn hwŷnt.

A chŷn gynted ag a daethant allan o'r ffair, hwŷ a ddaethant o hud i ŵr, a elwid *Neilltuol-fwriad*; A hwŷ a ofŷnnaſant iddo, Syr, gŵr o ba wlâd ydŷch chwi? A pha bellter yr ydŷch chwi'n teithio rhŷd y ffordd hon? Yntef a'u hattebodd hwŷnt, ei fôd ef yn dyfod o Drêf *Têg-Tmadrodd*, a'i fôd ef yn myned tua'r Ddinas Nefol, ond ni fynegodd iddŷnt moi henw.

CRISTION. A ddichon dim dâ ebŷr Criſtion ddyfod allan o Drêf *Têg-Tmadrodd* (*Diharebion* 26. 25.)

Neilltuol-fwriad. Dichon 'rwi 'n gobeithio ebŷr *Neilltuol-fwriad.*

CRISTION. Attolwg Syr, beth ŷw'ch enw chwi?

Neilltuol-fwriad. 'Rwi 'n ddieithr i chwi, a chwitheu i minneu; os ydŷch yn trafaello y ffordd hon, fe fŷdd dâ iawn gennif gael eich cwmpeini; Onid ydŷch rhaid i mi fôd yn fôdlon.

CRISTION. Myfi a glywais ſôn am y Drêf ymma *Têg-Tmadrodd* (ebŷr Criſtion) ac hŷd yr wŷfi yn ei gofio, hwŷ a ddywedant ei bôd hi 'n lle cyfoethog.

Neilltuol-fwriad. Ydŷw ar fy ngair i, ac mae i mi lawer iawn o geraint cyfoethogion yn bŷw yno.

CRISTION. Pwŷ ŷw'ch Ceraint chwi yno?

Neilltuol-fwriad. Yr hôll Drêf agos, ond yn enwedigol yr Arglwŷdd *Anwadal*; yr Arglwŷdd

Gwaſ-

Gwaſanaethwr-amſer; yr Arglwŷdd *Teg-ymadrodd*, (oddiwrth Henafiaid yr hwn a cafodd y Drêf ei hênw) ac hefŷd *Meiſtir Tyfod-aur*, Meiſtir *Dau-wŷnebog*, Meiſtir *Dau-dafod* ŷw fy ewŷthr brawd fy Mam, hefŷd Meiſtir *Pôb-peth*; Ac o ddywedŷd i chwi'r gwîr, 'rwiſi yr awron yn ŵr Bonheddig o gymmeriad mawr ac enw dâ; Er nad oedd fy Hên daid i ond *Moriwr*, yn rhwŷfo un ffordd, ac yn edrŷch ffordd arall; Ac wrth y gelfyddŷd honno yr enillais inneu y rhan fwŷaf o'm Golud.

CRISTION. A ydŷch chwi'n ŵr priodol?

Neilltuol fwriad. Ydwŷf, ac i mae fy ngwraig i yn llawn o rinweddau dâ, a merch ydŷw hi, ir *Arglwŷddes Rhagrithiol*; A chan fôd ei thylwŷth hi'n anrhydeddus, hwŷ a roeſant y fâth ddyglad i fynu iddi, fel a meidr hi ei hymddwŷn ei hunan yn weddaidd, yn gyſtal oflaen y Tywŷſogion ac oflaen y cyffredin; Gwir ŷw, fôd rhagor mewn crefŷdd rhyngom ni a'r gwŷr or gretŷdd ddiwŷdiaf; Etto nid ŷw hynnŷ ond mewn dau o byngciau bychain; Yn gyntaf, nid ydŷm ni yn ymdrechu un amſer i rwŷfo yn erbŷn y gwŷnt ar Llanw; Yn Ail, yr ydŷm ni bôb amſer yn dra awuddus i fôd yn grefyddol, pan fo crefŷdd yn myned yn ei gwiſg Arian; Canŷs dâ fawn gennŷm rodio gyda hi yn yr heolŷdd, os bŷdd yr Haul yn tywŷnnu arni, a'r bobl yn ei chlodfori.

Yna Criſtion a drôdd ychydig o'r neilltu at ei gydymaith *Gobeithiol*, ac a ddywedodd wrtho, rwi'n tybied mai Meiſtir *Neilltuol-fwriad* o Drêf *Teg-ymadrodd* ŷw'r dŷn hwn; Ac os efe ydŷw'r Gŵr, i mae gennŷm yn ein cwmpeini cŷn benned cnâf a'r pennaf yn y wlâd hon; Yna ebŷr *Gobeithiol* gofynnwch iddo beth ŷw ei enw ef; Yn ſiwr mi debygwn nas dylai ef gywilyddio o ddatcuddio

ei

ei enw; Fellu Criſtion a aeth atto drachefn; ac a ddywedodd, Syr, yr ydŷch chwi'n ſiarad megis un a fai'n tybied ei fôd yn deall rhŷw bethau yn well na llawer oedd eraill: Ac onid wŷf yn eich camgymmerŷd, mi debygwn fy môd yn eich brith ddynabod chwi; Ond Meiſtir *Neilltuol-ſwriad* ydŷw'ch henw chwi? Ac ond ydŷch yn bŷw yn nhrêf *reg-ymadrodd*?

Neilltuol ſwriad. Nid *Neilltuol ſwriad* ŷw fy henw i: Ond gwîr ydŷw fôd rhai o'm caſeion yn fy llaſhenwi fellu; Ac mae'n rhaid i mi ymfodloni i ddioddef eu hambarch, megis a dioddefodd gwŷr dâ eraill o'm blaen.

CRISTION. A roeſoch chwi ddim achos erioed i nêb i'ch galw chwi wrth yr henw hwn.

Neilltuol ſwriad. Na ddo erioed; Ond fe gymmerodd pobl gennad i'm galw i wrth yr henw hwnnw, am fy môd i yn tueddu yn waſtadol i rodio yn y ffŷrdd yr oedd pobl yn arfer o rodio ynthŷnt, beth bynnag a fyddent, os arfer a ffaſiwn y wlâd oedd hynnŷ; Ac yr oeddwn i yn lwccus iawn i ennill yn ddâ wrth y gwaith ymma; Ac os digwŷddodd i mi gaſclu cyfoeth yn y môdd hwn, rhaid i mi eu cyfrif yn fendith; Ond na amharched y maleuſus fi am hŷn o beth.

CRISTION. Yr oeddwn i'n tybied yn wîr mai chwi oedd y gŵr a clywais i ſôn amdano; Ac o ddywedŷd wrthŷch fy meddwl, rwi'n ofni, fôd yr enw hwn yn perthŷn i chwi yn fwŷ nag a mynnech i ni dybied ei fôd.

Neilltuol ſwriad. Wele os coeliwch y pethau fellu Ni allaſi wrthŷch; Ond os byddwch cŷn fwŷned a'm cymmerŷd i'ch cymdeithas, chwi a'm cewch i yn gydymaith glân.

CRISTION. Os dowchi gyda ni, rhaid i chwi fyned yn erbŷn Gwŷnt a Llanw, yr hŷn ſŷ'n wrth-

wrthwŷnebus i'ch opiniwn chwi; A rhaid i chwi hefŷd ymddangos tros grefŷdd, pan fo hi yn ei hên gadachau, yn gyſtal a phan fo hi yn ei gwiſg arian; A'i chyfaddef hi hefŷd pan fytho hi yn rhwŷm mewn cadwŷnau, yn gyſtal a phan fytho hi'n rhodio'r heolŷdd mewn anrhydedd.

Neilltuol ſwriad. Nid oes i chwi arglwŷddiaethu ar fy ffŷdd i; Gadewch fi i'm rhydd-did, a dôf gyda chwi.

CRISTION. Na ddowch gam ymhellach gyda ni, onis gwnewch fel yr ŷm ninneu yn gwneuthur.

Yna ebŷr *Neilltuol ſwriad*, ni ymadawaf i bŷth a'm hên brif-byngciau, a'm pwrpas, gan eu bôd yn ddiniweid ac yn ſuddiol; Oni chafi deithio gyda chwi, rhaid i mi fyned ar fy mhen fy hunan, fel a gwneuthum cŷn eich goddiwes chwi, nes a delwŷf ymŷſc rhai a fŷdd dâ ganthŷnt fy nghwmpeini.

Yr awron mi a welwn (yn fy mreuddwŷd) Griſtion a *Gobeithiol* yn ei adel ef ar eu hôl; Ond digwŷddodd i un o honŷnt edrŷch yn ôl ei gefn; Ac efe a welai dri o wŷr yn dyfod ar ôl Meiſtir *Neilltuol ſwriad*; Ac wele, pan ddarfu iddŷnt neſu atto, fe a ymgrymmodd iddŷnt hŷd y llawr, a hwŷthau hefŷd a ymgrymmaſant iddo yntef; Henwau'r gwŷr oedd Meiſtir *Awudd y Bŷd*, Meiſtir *Chwant yr Arian*, a Meiſtir *Eiriach y cwbl*, ſef gwŷr a baſeu Meiſtir *Neilltuol-ſwriad* gŷnt yn gydnabyddus a hwŷnt; Canŷs cŷd-yſcolheigion a faſent yn eu hieuengctid, a'u Meiſtir hwŷ oedd *Meiſtir Dal-gafael ar y Bŷd*, yn nhrêf *Câer-elw*, yr hon ſŷdd Drêf farchnad yn Sîr *Trachwant* yn y *Gogledd*; A'u hathro a ddyſcodd iddŷnt y gelfyddŷd o elwa, naill a'i trwŷ drais, twŷll, gweniaeth, dywedŷd celwŷdd, neu trwŷ wneuthur eſgus o grefŷdd; A'r pedwar Pendefig ymma a ddyſcaſant gymaint

o

o gelfyddŷd eu Hathro, hŷdoni fedrai pôb un o honŷnt gadw yr un rhŷw yſcol ag yntef.

Ac a'r ôl iddŷnt (fel a dywedais) gyfarch gwell iw gilŷdd, gofynnodd Meiſtir *Chwant yr Arian* i Meiſtir *Neilltuol-ſwriad*, pwŷ ydŷw 'r rhai accw ſŷdd o'n blaen ar y ffordd? Canŷs yr oedd Criſtion a *Gobeithiol* etto o fewn golwg iddŷnt.

Neilltuol-ſwriad. Dau ŵr o wlâd bell ydŷnt, y rhai ſŷ'n myned ar bererindod.

Chwant yr Arian. Och! Pa ham nas arhoſent, fel a cawſem eu cwmpeini dâ hwŷ; Canŷs i maent hwŷ, a ninneu, a chwitheu Syr, rwi'n gobeithio yn mynd ar Bererindod.

Neilltuol-ſwriad. Rŷm ni fellu yn wîr, ond i mae'r gwŷr accw ſŷdd o'n blaen ni, mor yſtyfnig, ac mor anyſtwŷth, trwŷ garu eu opiniwnau eu hunain, gan ddibriſio opiniwnau rhai eraill; Bydded gŵr mor dduwiol ag y mynno, etto oni bŷdd ef yn cyttuno a hwŷnt ymhôb pwngc, nid ymgyfeillachant hwŷ ag ef.

Eiriſtch y cwbl. Drŵg iawn ŷw hynnŷ; 'Rŷm ni'n darllen am rai a'r ſŷdd yn rhŷ Gyfiawn, ac mae ſtyfnigrwŷdd y fâth wŷr yn eu gyrru hwŷnt i farnu, a chondemnio pawb ond eu hunain; Ond attolwg pa fâth, a pha ſawl un oedd y pethau yr oeddech yn anghyttuno a hwŷnt yn eu cŷlch.

Neilltuol-ſwriad. Yr oeddent hwŷ yn ôl eu pengaledrwŷdd, yn barnu mai eu dyledſwŷdd hwŷ ydoedd i deithio drwŷ bôb tywŷdd, a minneu wŷf yn diſgwŷl am wŷnt a Llanw, Y maent hwŷ am fentro y cwbl ôll ar a feddont dros Dduw mewn munŷd, a minneu ydwŷf yn diſwŷl pôb odfa i ſiccrhau fy enioes, a'm golud; I maent hwŷ am ddadlu eu cretŷdd, pe byddei'r hôll Fŷd yn eu herbŷn; Ond rwŷf innau am gretŷdd cŷn

belled

beiled, ac a bytho'r amſeroedd, a'm diogelwch ſy hun yn rhoddi lle i hynnŷ ; I maent hwŷ am ymlynu wrth grefŷdd, pan fytho hi mewn dirmŷg a diyſtyrwch ; Ond yr wŷf inneu am lynu wrthi pan fytho hi 'n rhodio yn eu gwiſg euraid, a'r Haul yn Llewyrchu arni, a'r hôll Bobl yn ei chlodfori.

Awudd y Bŷd. Dâ iawn a gwnewch chwi Meiſtir *Neilltuol-ſwriad*, os parhewch fellu bŷth ; Canŷs i'm tŷb i mae 'r Dŷn hwnnw yn ynfŷd, yr hwn a gŷll ei feddiannau, pan allo eu cadw nhwŷ ; byddwn ddoeth fel Sarph ; Da cweirio'r Gwair tra fo'r Haul yn llewŷrchu ; Chwi a welwch fel a mae'r wenynen yn llechu yn y gaiaf, ac yn llafurio yn unig pan allo hi gael ennill gyda phleſer ; I mae Duw yn rhoddi glaw weithiau, a Thegwch weithiau ; Os bŷdd neb mor ynfŷd a myned trwŷ'r dymheſtl, gadewch iddo fyned ; Etto o'n rhan ein hunain, gadewch i ni fôd yn fodlon ei orphwŷs hŷdoni chaffom y tywŷdd yn dêg, a'r hîn yn dawel ; O'm rhan i, yr wŷfi 'n caru 'r Grefŷdd honno yn oreu ar a ſafo gyda'r ſiccrwŷdd mwŷaf, a bŷdd i ni feddiannu y bendithion a rodd yr Arglwŷdd i ni ; Canŷs i mae 'n hawdd i ni ddeall (onid ŷm ni wedi gwallgofi) a mŷn Duw i ni gadw er ei fwŷn ef, yr hôll bethau daionus a gawſom oddiwrtho ; I'n cynnal ni yn y Bŷd hwn ; *Abraham* a *Solomon* a ymgyfoethogaſant er eu bôd yn grefyddol ; Ac mae *Eliphaz* yn dywedŷd a rhŷdd Gŵr dâ aur i gadw fel llŵch (*Job* 22. 24.) Nid fellu a dywaid y gwŷr o'n blaen, os ydŷnt y fâth rai ag a dywedaſoch chwi eu bôd.

Eiriach y cwbl. Rwi 'n meddwl ein bôd ni ôll wedi cyttuno yn y matter ymma, ac am hynnŷ nid oes achos ſiarad ymhellach amdano.

Chwant yr Arian. Nid rhaid yn ddiammeu ddywedŷd

ddywedŷd gair ymhellach ynghŷlch y matter ymma; Canŷs yr hwn nid ŷw 'n credu na Scrythur, na rheſwm (a chwi a welwch fôd y ddau ar ein plaid ni) nid ŷw hwnnw 'n cydnabod moi rydd-did, nac yn cenſio ei ſiccrwŷdd ei hun.

Neilltuol-fwriad. Fy mrodŷr, yr ydŷm ni ôll yr awron (fel a gwelwch) yn myned ar Bererindod; Ac o ran difyrru 'r amſer yn well, rhowch gennad i mi i ofŷn i chwi y cweſtiwn hwn.

Bwriwch fôd Gwelnidog neu Grefftwr, mewn cyfle a ffordd i ennill bendithion daionus y bywŷd hwn; Etto fel na allo mewn môdd yn y Bŷd fôd yn gyfrannog o honŷnt, oddigerth iddo ymddangos yn dra gwreſog, tiwnt i gyffredin arfer y wlâd mewn rhai Pyngciau crefŷdd, y rhai nad oedd ef erioed o'r blaen yn eu canlŷn; Onid eill ef ddewis y ffordd ymma, er mwŷn cael ei fwriad, ac etto fôd yn ŵr goneſt iawn.

Chwant yr Arian. Rwi 'n deall eich meddwl yn eglur; A thrwŷ gennad y pendefigion ymma, myfi a wnâf fy ngoreu i roddi atteb i'ch cweſtiwn; Am y Crefftwr, Bwriwch nad oes gan Grefftwr ond ychydig iw gynnal ei hun yn y Bŷd; Ond trwŷ ddyfod i broffeſu crefŷdd, fe a eill gael odfa i wellhau ei gyflwr; Naill a'i trwŷ gael gwraig gyfoethog, neu trwŷ ennill mwŷ, a gwell prynwŷr iw Siop; O'm rhan i, nid wŷf yn gweled Rheſwm yn y Bŷd, nas gellir gwneuthur hŷn yn gyfreithlon; Canŷs Yn gyntaf, Rhinwedd ŷw bôd yn grefyddol, trwŷ ba fôdd bynnag a delo dŷn i fôd fellu; Yn ail, Nid ŷw 'n anghyfreithlon i geiſio Gwraig gyfoethog, neu fwŷ o gwſmeriaid iw Siop; Yn drydŷdd, Heblaw hynnŷ, i mae'r Gŵr a enniſſo'r pethau hŷn, trwŷ fôd yn grefyddol, yn ennill yr hŷn ſŷ'n ddâ oddiwrth y ſawl ſŷdd ddâ, trwŷ ddyfod ei hun i fôd yn ddâ; Felly dymma

wraig

wraig ddâ, Cwſmeriaid dâ, ac Elw dâ, a'r rhain ſydd wedi eu hynnill, trwŷ ddyfôd i broffeſu crefydd, yr hŷn ſŷdd beth dâ; Ac am hynnŷ, gwaith dâ a buddiol ydŷw bôd yn grefŷddol, er mwŷn ennill yr hôll bethau ymma.

Wedi i *Chwant yr Arian.* roddi'r atteb hwn i Gweſtiwn Meiſtir *Neilltuol ſwriad*, hwŷ a ganmolaſant ei Atteb ef yn ddirfawr, ac a farnaſant fôd y cwbl a lefarodd ef yn dra buddiol a iachus; Ac oblegid eu bôd nhwŷ 'n tybied, nad oedd nêb a alleu ddywddŷd dim yn wrthwŷnebus ir atteb ymma; Ac o herwŷdd fôd Criſtion a *Gobeithiol* o fewn clŷw, hwŷ a gyttunaſant yn un frŷd, cŷn gynted ag a byddai iddŷnt eu goddiwes, i oſod y cweſtiwn hwn iddŷnt; Yn enwedig oblegid iddŷnt hwŷ or blaen wrthwŷnebu Meiſtir *Neilltuol-ſwriad* yn y matterion ymma; Fellu hwŷ a alwaſant ar y Pererinod, a hwŷthau a ſafaſant yn yr un man, hŷdoni ddaeth y lleill hŷd attŷnt; Ond wrth ddyfod tuag attŷnt, hwŷ a gyttunaſant mai nid Meiſtir *Neilltuol-ſwriad*, ond yr hên ŵr Meiſtir *Awuddy Bŷd*, a gai oſŷn y cweſtiwn iddŷnt, o herwŷdd eu bôd nhwŷ yn tybied a byddent dynerach wrtho ef, ac nas byddent mor danbaid ac a buant ychydig or blaen, wrth ymadel a *Neilltuol-ſwriad.*

Fellu hwŷ a ddaethant hŷd attŷnt; Ac wedi iddŷnt gyfarch gwell iw gilŷdd, *Awuddy Bŷd* a oſododd y cweſtiwn ger bron Criſtion a'i gydymaith, gan ddymuno arnŷnt ei atteb os gallent.

CRITSION. Yna ebŷr Criſtion, fe all paban mewn crefŷdd atteb deng Mil o'r fâth Gweſtiwnnau a'r rhain; Canŷs gan ei bôd hi yr awron fel yr oedd hi gŷnt, yn anghyfreithlon i ddilin Criſt am y Torthau bara (*Ioan 6.*) Pa faint mwŷ ffiaidd ydŷw ei wneuthur ef a chrefŷdd i fôd megis

march

March cynfas, i ennill a mwŷnhau'r Bŷd ? Ac ni bu rêb ond Cenhedloedd, Rhagrithwŷr, Diawlaid, a Swŷnwŷr, o'r meddwl hwn.

Yn gyntaf, Cenhedloedd, Canŷs pan ewŷllyſiai *Hamor* a *Shechem* gael Merch ac anifeiliaid *Jacob*, a phan welſant nad oedd módd yn y Bŷd iw mwŷnhau hwŷnt, ond trwŷ ddeirbŷn yr Enwaediad; Hwŷ a ddywedaſant wrth eu cyfeillion, Os enwaedir ein hóll wrwod ni fel a maent hwŷ wedi eu henwaedu, oni ſŷdd eu hanifeiliaid, a'u cyfoeth, a'u hóll yſcrubliaid hwŷnt yn eiddom ni ? Y Ferch a'r Anniſeiliaid oedd y cwbl yr oeddent hwŷ yn eu ddiſgwŷl amdanŷnt, a'u Creſŷdd oedd y march-cynfas a arferaſant iw mwŷnhau hwŷnt (*Geneſis* 34. 20. &c.)

Yn Ail, Y *Phariſeaid* rhagrithiol oeddŷnt hefŷd o'r Greſŷdd ymma, canŷs tan rîth hir weddio, eu diben hwŷ oedd i lwŷr fwŷdta tai gwragedd gweddwon ; Ac am hynnŷ a bygwthiodd Criſt nhw a damnedigaeth mwŷ creulon na damnedigaeth troſſeddwŷr eraill (*Luc* 20. 47.)

Yn drydŷdd, Yr oedd *Judas* y Cythrael hefŷd o'r Greſŷdd ymma ; 'Roedd ef yn Greſyddol er mwŷn y gód, Gan obeithio a gallai ef trwŷ hynnŷ feddiannu yr arian oedd yn y pwrs ; Ond efe a gollwŷd, ac a fwriwŷd ymaith, ac yr oedd ef yn wir fâb i'r golledigaeth.

Yn bedwaredd, *Seimon* y Swŷnwr oedd hefŷd o'r greſŷdd ymma, Canŷs efe a fynnai gael yr Yſprŷd glân fel a gallai wneuthur elw o hono, a'i farn o eneu *Peter* oedd yn ôl hynnŷ (*Actau* 8. 18. &c.)

Yn bumed, Ac nis gallaf dybied llai, nas gwerth hwnnw ei Greſŷdd am y Bŷd, yr hwn a'i proffeſodd hi er mwŷn y Bŷd ; Canŷs cŷn ſiccred ac yr oedd *Judas* yn amcanu ennill arian trwŷ fôd yn greſyddol, mor ſiccir a gwerthodd ef gre-

ſŷdd, a'i feiſtir am arian; Ac o roddi atteb i'ch cweſtiwn, gwŷbyddwch hŷn, pe dywedwn i gyda chwi yn y matter ymma, mai da a gellid ſŷ ngalw i megis a gellir galw pôb un o honoch chwithieu yn Bagan, yn Rhagrithiwr, ac yn Gythrael, y rhain a bŷdd eu cyflog iddŷnt yn ôl eu gweithredoedd.

Yna hwŷ a ſafaſant yn ſŷnn, gan lygadrythu y naill ar y llall, Ac nid allent hwŷ roddi atteb yn y Bŷd i Griſtion ynghŷlch y peth ymma; *Gobeithiol* hefŷd a ymfodlonodd yn yr hŷn a lefarodd Criſtion wrthŷnt: Ac fellu a bu diſtawrwŷdd mawr yn eu plith hwŷ: Ar hŷn Meiſtir *Neilltuol-ſwraid* a'i gymdeithion a ſafaſant yn ôl, fel a gallai Criſtion a *Gobeithiol* gael y blaen arnŷnt, am eu bôd yn chwennychu cael gwared o'u cwmpeini; Yna ebŷr Criſtion wrth ei gydymaith, Oni all y gwŷr hŷn ſefŷll oflaen barn dynnion, pa fôdd a ſafant hwŷ oflaen Duw yn y farn? Ac os ydŷnt yn fudion pan eu teimler gan leſtri pridd, pa beth a wnant pan geryddir hwŷnt a ffiamme o dân yſol?

Yna Criſtion a *Gobeithiol* a'u blaenaſant hwŷ drachefen, nes iddŷnt ddyfod i waſtadedd hyfrŷd, yr hwn a elwid *Eſmwŷthdra*: A hwŷ a deithiaſant yno mewn bodlonrhwŷdd mawr: Ac am nad oedd y gwaſtadedd ymma ond bychan iawn, hwŷ a aethant droſto yn ſŷan; Yr awron yr oedd ynghwrr eithaf y Gwaſtadedd hwn frŷn bychan a elwid *Elw*; Ac yn y brŷn hwn yr oedd Mŵn arian; I weled yr hwn gwŷrdroeſeu bagad yn yr amſer gŷnt, wrth fyned heibio; O herwŷdd bôd y fâth leoedd yn anaml iawn, Ond wrth fyned yn rhŷ agos at ymmŷl y pwll; Y tîr gan ei fôd yn dwŷllodrus oddiſtanŷnt a dorrodd, a hwŷthau a ddiſethwŷd, Ac eralll o honŷnt a ddaethant ymaith yn anafus, y rhai ni lwŷr iachawŷd hŷd ddŷdd eu marwolaeth.

Yna

Yna gwelwn yn ſy Mreuddwŷd ychydig dros y ffordd, ar gyfer y Mŵn glawdd arian, *Demas* yn ſefŷll fel gŵr Bonheddig, i alw trafaelwŷr i droi tuag yno; Ac ſe a ddywedodd wrth Criſtion a'i gydymalth; Ho, Trowch ymma, Ac myfi a ddangoſaf i chwi rŷw beth godidawg (2 *Timotheus* 4. 10.)

CRITSION. Pa beth ſŷdd yn y lle yna mor odidawg, ar a allai ein hudo ni i droi oddiar y ffordd iw weled?

Demas. Dymma Fŵn arian, a rhai yn clodd'o yntho am Dryſor; Os dowch chwi ymma Chwi a ellwch ymgyfoethogi wrth gymmerŷd ychydig o boen.

Gobeithiol. Yna ebŷr *Gobeithiol* awn i weled y peth ymma.

CRISTION. Naga fi ddim ebŷr Criſtion; Myfi a glywais ſôn am y lle ymma cŷn hŷn, a pha rifedi a ddifethwŷd ymma; Ac heblaw hŷn, mae'r Tryſor accw yn fagl i'r rhai ſŷ'n ei geiſio ef; Canŷs i mae ef yn eu rhwŷſtro nhwŷ yn eu Pererindod; Yna Criſtion a alwodd ar *Demas*, gan ddywedŷd wrtho, onid ŷw'r lle yna yn beryglus.

Demas. Nagydŷw yn beryglus iawn, oddigerth i rhai ſŷ'n ddiofal; Ac wrth ddywedŷd hynnŷ efe a wridodd.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrth *Obeithiol*, gadewch i ni gadw'n ffordd, ac nac yſcown droedfedd oddiarni.

Gobeithiol. Yn ddiammeu, pan ddelo *Neilltuol-fwriad* heibio, os gwahoddir ef fel a gwahoddwŷd nyni, fe a drŷ accw.

CRISTION. Diammeu ŷw hynnŷ, Canŷs i mae opiniwnau *Neilltuol fwriad* yn ei dwŷſo ef at y cyfrŷw deganau; A chan punt i geiniog a diſethir ef.

Demas. Yna *Demas* a alwodd arnŷnt drachefn, gan ddywedŷd oni ddowchi drosodd, a gweled yr hŷn ſŷdd ymma?

CRISTION. Yna Criſtion a'i hattebodd ef yn dra ſarrug, gan ddywedŷd, *Demas* yr wŷt ti yn Elŷn i uniawn ffyrdd yr Arglwŷdd, wedi'th euogfarnu euſus gan un o Farnwŷr ei Fawrhydi ef; A pha ham yr wŷt ti yn ceiſio'n denu ninneu i'r un ddamnedigaeth? Ac heblaw hynnŷ os trown ni ſymŷſn oddiar y ffordd, fe glŷw ein Brenin ni hynnŷ; Ac yna a cawn ni ddioddef cywilŷdd, lle a gallaſem ſefŷll yn ei wŷdd ef yn hyderus.

Yna *Demas* a waeddodd drachefn arnŷnt, ac a ddywedodd mai un o'u brawdoliaeth hwŷ oedd yntef, ac os arhoſent ychydig a dae ef gyda hwŷnt.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion ond *Demas* ŷw dy Enw di?

Demas. Ie *Demas* ŷw fy enw, ac yr wŷf yn fab i *Abraham.*

CRISTION. Mi a'th adwaen di; *Gehazi* oedd dy hên daid, a *Suddas* oedd dy dâd; A thi a rodiaiſt yn eu llwŷbrau hwŷnt (2 *Brenhincedd* 5. 20.) Gwaith v Cythrael yr wŷt ti yn ei wneuthur, trwŷ geiſio hudo pobl oddiar ffordd yr Arglwŷdd; Fe grogwŷd dy Dâd di am deŷrn-ſradwriaeth; Ac nid wŷt titheu yn haeddu gwell; Bydded hysbŷs i ti mai pan ddelom at y Brenin, a gwnawn ef yn gydnabyddus o'th ymddygiad ti tuagattom; Ac ar ôl hynnŷ hwŷ a aethant i ffordd.

Erbŷn hŷn, *Neillduol ſwriad* a'i Gymdeithion, oeddŷnt wedi dyfod drachefn mewn golwg, Ac ar yr amnaid gyntaf hwŷ a aethant troſodd at *Demas*: Yrawron pa un a wnaethant wrth edrŷch dros ymŷl y pwll ai ſyrthio iddo, ai myned i lawr i gloddio'r Mŵn arian, neu gael o honŷnt eu tagu

gan

gan y tarth ſy'n arferol o godi or mannau hynnŷ nis gwnn i; Ond hŷn a ddeliais ſulw arno, ſef na welſom ni monŷnt mwŷ ar y ffordd.

Yna daeth y Pererinod i rŷw fann, lle'r oedd hên Golofn fawr yn ſefŷll ar ſîn y brif-ffordd; A hwŷ a ryfeddaſant yn fawr wrth weled ei dull a'i môdd hi; Canŷs yr oedd hi'n ymddangos megis gwraig wedi ei throi yn biler; A hwŷ a ſafaſant yno dros dro, gan edrŷch yn fynŷch arni: Ond ni is gwŷddent dros ennŷd pa beth a dybient o honi; Ond o'r diwedd *Gobeithiol* a ganfu beth yn ſcrifennedig ar ei phen hi, mewn llaw anarferol; Ond o herwŷdd ei fôd ef yn ŵr anllythrennog, fe a alwodd ar Griſtion atto (canŷs yr oedd ef yn ŵr dyſcedig) i edrŷch a fedrai ef ddeall yr yſcrifen: Ac wedi ei Griſtion gyſyllty y llythyrennau ynghŷd, fe a ddeallodd mai hŷn oedd y geiriau; **Cofiwch wraig Lot**: Ac efe a'u darllennodd hwŷnt iw gyd-ymaith; Yna a gwŷbuant mai honno ydoedd y golofn o halen ir hon a troed Gwraig *Lot* am edrŷch yn ôl a chalon chwantus am y pethau a adawſai hi o'i hol yn *Sodom*, pan oedd hi'n diange allan o honi am ei bywŷd (*Geneſis* 19. 26.) A'r Golofn ymma a wnaeth iddŷnt hwŷ ymddiddan fel hŷn.

CRISTION. Ah! fy mrawd, dymma olwg a welſom mewn amſer, ychydig ar ôl i *Demas* ein gwahodd ni i ddyfod i weled y brŷn lle yr oedd y Mŵn arian yntho; A pha baſem ni yn myned yno, fel yr oedd efe yn dymuno a thitheu fy mrawd yn ewŷllyſio, fe a'n gwnaethid ninneu fel a gwnaed hitheu am ddim ag a wnn i, yn ddrŷch ir rhai a ddelant ar ein hôl i edrŷch arnom.

Gobeithiol. Mae'n ediſar gennif fy môd i mor ynfŷd; Ac 'rwi'n rhyfeddu nad ydwŷf yr awron fel gwraig *Lot*; Canŷs pa ragoriaeth ſŷdd

rhwng ei phechod hi a'm pechod inneu? Yn unig hi a edrychodd o'i hôl, a minneu a ewŷllysiais fyned i weled; Diolch ſŷ'n ddyledus i Dduw am fy nghadw i rhag myned i Frŷn yr Arian; A chywilŷdd i minneu am fôd y fâth ewŷllys erioed yn fy nghalon i fyned yno.

CRISTION. Cymmerwn hŷn yn rhybŷdd rhagllaw; Y wraig hon a ddiangodd rhag un farnedigaeth; Canŷs ni ddiniſtrwŷd moni wrth ddiniſtr *Sodom*; Etto difethwŷd hi trwŷ farnedigaeth arall, megis ag a gwelwn hi ymma heddiw wedi ei throi yn golofn o halen.

Gobeithiol. Gwîr ŷw hi a all fôd yn rhybŷdd, ac yn ſiampl i ni rhagllaw; Yn rhybŷdd i ni i ochelŷd ei phechod, neu yn arwŷdd or farnedigaeth a ddigwŷdd i'r ſawl na chymerant rybŷdd oddiwrthi; Fellu *Corah*, *Dathan*, ac *Abiram*, a'r Dengwŷr a deugain a dau cant, a ddifethwŷd yn eu pechod (*Numeri* 16.) A wnaed yn rhybŷdd neu 'n eſampl i ni i ochelŷd eu drŵg weithredoedd hwŷnt; Ond 'rwi'n rhyfeddu 'n fawr am un peth tuwnt i ddim arall, ſef pa fôdd a gall *Demas* a'i Gymdeithion feſŷll accw mor hyderus, i chwilio am y tryſor hwnnw, am ba un a cafodd y wraig ymma (yr hon ni wnaeth ond edrŷch yn ôl gan ei ſerchu ef) ei throi yn Golofn o halen (canŷs nid ŷm ni 'n darllen iddi fyned droedfedd oddiar y ffordd) yn enwedig gan ir farnedigaeth a'i goddiweddodd ei gwneuthur hi yn eſampl, gyf. erbŷn a'r mann lle maent hwŷ yn bŷw yntho; Canŷs ni allant lai nai chanfod hi os derchafant eu golygon i fynu.

CRISTION. Gwîr ŷw ei fôd e'n beth rhyfeddol, ac i mae'n dangos fôd eu calonnau hwŷ wedi eu caledu yn ddrŵg yn y cyflwr hwnnw; Ac nis gwni i bwŷ a gellir eu cyffelybu nhw

yn

yn well nag ir rhai a fo'n pigo poccedau ger bron y Barnwr, neu i rai a dorrant byrfau dan y trog-pren; Fe ddywedir am bobl *Sodom* mai pechaduriaid mawr oeddynt, Am eu bod yn bechaduriaid ger bron yr Arglwydd (*Geneſis* 13. 10, 13.) Hynny yw yn ei wydd ef, er cymaint o garedigrwydd a ddangoſodd ef tuag attynt; Canys yr oedd tir *Sodom* y pryd hwnnw megis Gardd Eden gynt; Yr hyn a wnaeth i Dduw fod yn ſwy eiddigus, a'u Coſpedigaethau hwythau cyn boethed ag a galleu Tan yr Arglwydd o'r Nefoedd eu gwneuthur hwynt: I mae 'n ſefyll gan hynny gyda theſwm, a bydd i'r fath bobl a hyn fod yn gyfrannogion o'r barnedigaethau toſtaf; Sef y fath bobl ar ſydd yn pechu yn ei wydd ef; A hynny hefyd mewn dirmyg i'r fath eſamplau, y rhai ſydd wedi eu goſod yn waſtadol ger bron eu llygaid iw hattal hwy rhag pechu yn erbyn Duw.

Gobeithiol. Yn ddiammeu di a ddywedaiſt y gwir; Ond pa drugaredd fawr ydyw hyn, nad wyt ti, ac yn enwedig myfi, wedi fy ngwneuthur yn Eſampl yn y modd ymma? I mae'r matter hwn yn rhoddi i ni achos i fod yn ddiolchgar ir Arglwydd, ac i arſwydo gar ei fron ef, gan gofio gwraig *Lot* yn waſtadol.

Wedi hynny, mi a'u gwelais hwynt yn myned ymlaen hydoni ddaethant at Afon hyfryd, yr hon a alweu y Brenin *Dafydd* Afon Duw (*Pſalm* 65. 9. *Datcuddiad* 22. 1. *Ezeciel* 47.) Ond *Joan*, ai geilw hi Afon dwfr y bywyd; Yr awron yr oedd eu ffordd hwy yn myned yn union rhyd glan yr afon ymma, gan hynny yr ymdeithiodd Criſtion a'i gydymaith yn ddifyr iawn: A hwy a yfaſant hefyd o Ddwfr yr afon, Yr hwn oedd ddymunol, am iddo adfywio eu heneidiau deffygiol hwynt; Ac heblaw hynny, yr oedd rhyd glan yr afon ymma

o bôb tu Goed iraidd, yn dwŷn pôb maîth o ffrwŷthŷdd; A hwŷ a fwŷdtaſant o ddail y coed, i leſtŷr glothineb a chleſydau eraill, y rhai ſŷ arferol o ddigwŷdd i drafaelwŷr yn ôl gwreſogi eu gwaed wrth drafaelio; Yr oedd heſŷd o ddeutu glan yr afon weirglodd yn llawn o Lili; Ac yr oedd hi'n lâs twŷ 'r hôll ffwŷddŷn; Yn y weirgl dd ymma a gorweddaſant, ac a cyſcaſant; Canŷs hwŷ a allent gyſcu ymma mewn diofalwch (*Pſalm* 4. 8.) A phan ddeffroeſant, hwŷ a fwŷdtaſant drachefen o ffrwŷthau'r coed, ac a yfaſant eilwaith o ddŵr yr afon; Ac wedi hynnŷ hwŷ a orwedd-ſant i lawr i gyſcu drachefn; Fel hŷn a gwnaethant dros amrŷw ddyddiau a noſweithiau, Yna hwŷ a ganaſant y gân hon.

Gwelwch fel a rhêd yn rhwŷdd,
Y ffrydau hylwŷdd heini,
I gyſuro ar eu taith,
Bôb glân gydymaith difni.

Y gweirgloddiau Tég eu gwêdd,
A'r rhogleu hafedd heſŷd.
I bôb Pererin ſŷdd yn rhâd,
Wrth fynd i wlâd y bywŷd.

A wŷddo fawr.werth y rhain ôll,
A'u ffrwŷthau didoll, dywedaf
A gwerth ei hôll ddaiarol fraint,
I brynnu'r ennaint ymmaf.

A chwedi myned ychydig ymlaen (canŷs nid oeddŷnt wedi dyfod etto i ben eu ſiwrneu) hwŷ a ganffŷant fôd yr Afon yn ymadel a'r ffordd dros ennŷd; Yr hŷn a ſu drwm dros ben ganthŷnt; Ond etto ni feiddient fyned oddiar y ffordd:

Yr

Yr awron yr oedd y ffordd (yr hon oedd yn myned oddiwrth yr afon) yn arw ac yn garregog; Ac yr oedd eu Traed hwŷ'n ddolurus o herwŷdd eu teithiau; A blin oedd ar y Pererinod o herwŷdd y ffordd (*mumeri* 21. 4.) Ac am hynnŷ, yr oeddent yn waſtadol wrth tyned ymlaen, yn dymuno cael gwell ffordd; Yrawron ychydig o'u blaen hwŷ, yr oedd ar y llaw aſſwŷ i'r ffordd weirglodd, a chamſa i fyned trofodd iddi; A'r weirglodd honno a elwir Gweirglodd y *Traws Lwybr*: Yna cbŷr Criſtion wrth ei gydymaith, os ydŷw y weirglodd hon yn gorwedd o hŷd ar yſtlus y ffordd, gadewch i ni droi iddi; Yna eſe a aeth i ben y gamſa i edrŷch; Ac fe a welai lwybŷr yn myned o hŷd o'r tu tewn i'r weirglodd gydag ymŷl y ffordd; I mae hŷn yn ôl fy wŷllys i cbŷr Criſtion; *Gobeithiol* fy ffrŷnd anwŷl tyred trofodd ymma, Canys dymma'r ffordd eſmwŷtha.

Gobeithiol Ond pa beth os tywŷs y llwybŷr ymma ni dros y ffordd?

CRISTION. Nid ŷw hynnŷ yn debygol cbŷr Criſtion; Gwêl fel a mae'n myned o hŷd gydag ymŷl y ffordd; Fellu *Gobeithiol* wedi ei berſwaedio gan Griſtion, a aeth ar ei ôl ef dros y gamſa; Ac wedi iddŷnt fyned trofodd a dyfod ir Llwybŷr, hwŷ a'u cawſant yn eſmwŷth lawn iw traed; Ac wrth edrŷch o'u blaen, hwŷ a ganffuant ŵr yn teithio yno megis nhwŷthau (a i enw ef oedd *Gwig-Hyder*) fellu hwŷ a alwaſant arno, ac a ofŷnnaſant iddo I ba le yr oedd y ffordd honno'n myned? Yntefa ddywedodd tua'r Porth Nefol; Gwelwch cbŷr Criſtion, oni ddywedais i fellu wrthŷch? Wrth hŷn a gellwch weled ein bôd ni ar yr uniawn ffordd; Fellu hwŷ a'i canlŷnaſant ef; Ond hi a hwŷrhaodd arnŷnt yn y mann, ac a aeth yn dywŷll iawn, hŷdoni

choll-

chollaſant eu golwg ar y Gŵr yr hwn oedd o'u blaen hwŷnt.

Gwig-Hyder gan hynnŷ (elſieu gweled y ffordd o'i flaen) a ſyrthiodd ar ei ben i bwll dwfn (*Eſaŷ* 9. 16.) Yr hwn a gloddwŷd yno o hwrpas, gan Arglwŷdd y tiroedd hynnŷ, i ddal ynfydion gwâg-ymffroſtus yntho; A thrwŷ ei gwŷmp efe a friwŷd yno yn chwilfriw.

Yr awron Criſtion a'i gydymaith a'i clywſant ef yn ſyrthio, a hwŷ a alwaſant arno, i wŷbod beth oedd y matter; Ond nid attebodd ef ddim iddŷnt; Ond hwŷ a'i clywſant ef yn gruddfan yn y pwll; Yna ebŷr *Gobeithiol* Ymha le yr ydŷm ni yr awron? A chyda hynnŷ yr aeth Criſtion yn tud, gan ofni iddo ddwŷn ei Gydymaith oddiar y ffordd; Ac yr awron yr oedd glaw, a tharanau, a mellt, a llif mawr yn yr afon, yn eu brawychu hwŷnt.

Yna a gruddfannodd *Gobeithiol* yntho ei hun, gan ddywedŷd, oh na baſwn i yn cadw fy ffordd.

CRISTION. Pwŷ a alleu dybied a baſai y Llwŷbŷr ymma yn ein dwŷn ni allan o'r ffordd?

Gobeithiol. Yr oeddwn ni yn ofni hŷn ar y cyntaf; Ac oblegid hynnŷ a rhybuddiais i chwi yn garladus, myſi a ddywedaſwn fy meddwl yn eglurach wrthuch, oni bae 'ch bôd yn hynach na mi.

CRISTION. Fy mrawd anwŷl na ddigia wrthif; I mae 'n ddrŵg gennif i mi dy ddwŷn di allan o'r ffordd, ac ir fâth beryglon mawr: maddeu i mi, canŷs nid o ddrŵg ſwriad a gwneuthŷm i hŷn.

Gobeithiol. Bŷdd gyſurus fy mrawd, canŷs rwl'n maeddeu i ti; Ac yr wŷſi'n credu hefŷd, a bŷdd hŷn er daioni i ni.

CRISTION. I mae 'n ddâ gennif fôd gyda mi Frawd trugarog; Ond ni ddylem ni

ſefŷll

ſefŷll fel hŷn; Edrychwn a allwn ni fyned yn ein hôl.

Gobeithiol. Ond fy mrawd anwŷl gadewch i mi fynned o'ch blaen.

CRISTION. Nage, os rhynga bôdd i chwi Gadewch i mi fyned ymlaenaf, Fel (os bŷdd dim perŷgl) a gallwŷfi fôd yntho ef yn gyntaf; Canŷs trwŷ fy nghamgymeriad i yr aethom ni 'n dau allan o'r ffordd.

Gobeithiol. Nage ebŷr *Gobeithiol*, ni chewch chwi fyned ymlaenaf, Canŷs fe ddichon trwbl eich meddwl eich tynnu chwi dros y ffordd drachefn; Yna er mawr gyſur iddŷnt, hwŷ a glywſant leferŷdd un yn dywedŷd wrthŷnt, goſod dy galon tua'r brîf-ffordd; Y ffordd yr aethoſt dychwel (*Jeremi* 31. 21.) Erbŷn hŷn yr oedd y dyfroedd wedi codi yn uchel; Ac o herwŷdd hynnŷ yr oedd y ffordd i fyned yn ôl yn berŷgl lawn (yna mi a feddyliais mai hawſach ydŷw myned allan o'r ffordd pan fyddom arni, na dyfod iddi pan fo 'm ni allan o honi) etto hwŷ a feiddiaſant fyned yn ôl; Ond yr oedd hi cŷn dywŷlled, a'r llif cŷn uched, fel a buant agos a boddi ddêng-waith wrth ddychwelŷd.

Methaſant y noſon honno (er cymaint eu hymgais) ddyfod yn ôl at y gamfa; Ond o'r diwedd wedi cael ychydig o gyſgod, hwŷ a eiſteddaſant i lawr hŷdoni wawrlodd y dŷdd; Ond gan eu bôd yn ddeffygiol hwŷ a gyſcaſant yno; Yr awron yr oedd o ſewn ychydig i'r mann lle roeddent yn gorwedd, Gaſtell a elwid *Caſtell Amheus*; A'r *Gawr Anobaith* oedd el Berchennog, Ac ar el dîr ef yr oeddent hwŷ yr awron yn cyſcu; Yr hwn wrth rodio yn ôl ei arfer ar y boreu-ddŷdd thŷd ei gaeau, a gafodd Griſtion a *Gobeithiol* yn cyſcu ar ei Dîr ef; Yna a lleferŷdd garw a ſarrug, efe

a archodd iddŷnt ddeffroi; A gofynnodd hefŷd iddŷnt gwŷr o ba wlâd oeddent? A pha beth yr oeddent yn ei wneuthur ar ei Dir ef? Hwŷthau a fynegafant iddo mai Pererinod oeddŷnt, ac iddŷnt golli eu ffordd; Yna ebŷr y *Cawr* wrthŷnt, Fe ddarfu i chwi Neithiwr dreſpaſu arnafi trwŷ ſathru fy nhîr i a gorwedd arno; Ac am hynnŷ mae'n rhaid i chwi ddyfod gyda myfi; Fellu fe orfu arnŷnt fyned gydag ef, o herwŷdd ei fôd ef yn drech na hwŷnt; Ac hefŷd nid oedd ganthŷnt nemmawr iw ddywedŷd yn ei erbŷn ef; Canŷs yr oeddŷnt yn gwŷdod eu bôd ar fai: Y *Cawr* gan hynnŷ a'u gyrrodd hwŷ o'i flaen, ac a'u goſodod yn ei Gaſtell (*Pſalm* 107. 16, 17.) Mewn Daiar-dŷ Tywŷll iawn, yr hwn oedd ffiaidd a drewllŷd i'r ddau Bererin; Yno a buont yn gorwedd o'r borau ddŷdd *Mercher* hŷd nôs *Sadwrn*, heb gymaint a thammeid o fara, na defnŷn o ddŵr, nac un mâth o oleuni, na dŷn na dynes i ofŷn pa fôdd yr oeddŷnt; Ymma gan hynnŷ yr oeddent yn ddrŵg eu cyflwr, ymhell oddiwrth eu carennŷdd, a'u cyfathrach, a phôb math o gydnabyddiaeth; Ymma hefŷd a cafodd Criſtion driſtwch dau ddyblig; Un am eu bôd nhw yn Garcharorion, a'r llall oblegid mai trwŷ ei gyngor angall ef a dygaſid hwŷnt i'r dryſni hwn.

Yr awron yr oedd gan y *Cawr Anobaith* wraig, a'i henw hi oedd *Anhyder*; Ac wedi iddo fyned iw welŷ efe a fynegodd iddi hi yr hŷn ôll a wnaethai, ſef iddo ddal dau Garcharwr, a'u taflu nhw iw Ddaiar-dŷ am iddŷnt dreſpaſu ar ei dîr ef; Ac efe a ofynnodd hefŷd iddi pa beth oedd oreu iddo wneuthur iddŷnt ymhellach; Hitheu a ofynnodd pwŷ oeddent, o ba le yr oeddent yn dyfod, ac i ba le yr oeddŷnt yn myned? Ac yntef a fynegodd iddi; Yna hi a'i cynghorodd ef, pan gyfoden

ſe'r

ſe'r boreu eu curo nhwŷ yn anrhugarog: Fellu pan gyfododd ef y boreu drannoeth, ſe a gymmerodd gwlbren mawr cnycciog o ddraenen ddu, ac a aeth i wared attŷnt i'r daiar dŷ; Ac yno yn gyntaf efe a ddechreuodd eu llaſenwi nhw, megis pedfaſent Gŵn (er na roddaſent hwŷ erioed iddo ef air anweddus) ac wedi hynnŷ efe a ruthrodd arnŷnt, ac a'u curodd yn y fâth fôdd, ſel nas gallent na chŷnnorthwŷo y naill y llall, nac ymdroi ar y llawr; Wedi iddo wneuthur fellu efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwŷnt yno i gŷd gwŷno eu gofud, ac i alaru dan eu cyſtŷdd; Fellu hwŷ a dreullaſant yr hôll ddiwrnod hwnnw mewn ocheneidiau a galarnadau chwerw; Yr ail nôs *Annyaer* a ymddiddanodd a'i Gŵr yn eu cŷlch drachefn; A chan ddeall eu bôd nhw yn ſŷw etto, hi a'i hannogodd ef iw cynghori hwŷnt i wneuthur diwedd o honŷnt eu hunain: Fellu pan ddaeth y boreu, efe a aeth attŷnt mewn môdd ſarrug megis o'r blaen; A chan wŷbod eu bôd nhw yn glwŷfus iawn, gan y cleiſiau a roddaſei ef iddŷnt o'r blaen, efe a ddywedodd wrthŷnt ſel hŷn; Gan nad oes tebŷgoliaeth a dowch chwi bŷth allan o'r lle ymma, goreu peth a wnewch chwi ŷw gwneuthur diwedd o honoch eich hunain yn ſŷan; Naill a'i a chyllill, Cebyſtrau, neu a Gwenwŷn; Canŷs pa ham ebŷr ef yr ydŷch chwi yn dewis bywŷd, gan weled fod cymaint o flinderau ynglŷn wrtho? Ond hwŷ a attolygaſant arno ef eu gollwng hwŷnt ymaith; A chyda hynnŷ ſe a edrychodd arnŷnt a golwg erchill; A chan ruthro arnŷnt, diammeu a baſai ef ei hun yn gwneuthur diwedd o honŷnt y prŷd hwnnw, oni bae iddo ſyrthio mewn llewŷg (canŷs yr oedd efe weithieu ar dywŷdd teſog yn cael ymbell leſmair a cholli grŷm ei law dros amſer) Am hynnŷ efe a aeth

ymaith

ymaith, ac a'u gadawodd hwŷnt (megis or blaen) i ystyried pa beth a wnaent; Yna'r Carcharorion a ymgynghorasant rhyngthŷnt eu hunain, pa un oreu oedd cymmerŷd cyngor y *Cawr* a'i peidio, ac fel hŷn a dechreuasant ymddiddan.

CRISTION. Fy mrawd ebŷr Cristion pa beth a wnawn; I mae'r bywŷd yr ydŷm ni yn bŷw ymma yn ofudus iawn, O'm rhan i nid wŷf yn gwŷbod pa un oreu ŷw bŷw fel hŷn, ai gwneuthur diwedd o honom ein hunain yn fŷan; I mae fy enaid yn dewis ymdagu yn fwŷ na hoedl (*Fob* 7. 15.) Ac i mae'r bêdd yn esmwŷthach i mi na'r daiardŷ Tomlŷd hwn; A wnawn ni gyngor y *Cawr*, ai nis gwnawn?

Gobeithiol. Mewn gwirionedd i mae'n cyfiwr presennol yn ofnadwŷ; A gwell o lawer a fyddei gannif farw na bŷw fel hŷn dros fŷth; Ond er hynnŷ ystyriwn i Arglwŷdd y wlâd (tua'r hon yr ydŷm ni'n teithio) ddywedŷd Na lâdd, ie na lâdd un arall (*Exodus* 20. 13.) Mwŷ o lawer gan hynnŷ i mae fe'n gorafun i ni dderbŷn cyngor y *Cawr*, sef i'n llâdd ein hunain; Heblaw hŷn ni all yr hwn fŷ'n llâdd un arall ond llâdd ei Gorph ef; Ond i mae'r hwn a'i llâddo ei hun yn llâdd ei enaid a'i gorph ar unwaith; Ac ymhellach fy mrawd, yr wŷti'n sôn am esmwŷthdra yn y bêdd; Ond a anghofiaisti 'r uffern lle a gorfŷdd ar y lleiddiaid yn ddiammeu aros ynthi tros fŷth? Canŷs ni chaiff un lleiddiad etifeddu bŷwŷd tragywŷddol (*Datcuddiad* 21. 8. 1 *Foan* 3. 15.) Ystyriwn hefŷd nad ŷw'r hôll Gyfraith ynghŷlch bywŷd a rhydd-did pobl, yn sefŷll yn llaw'r *Cawr Anobaith*; Fe ddalwŷd eraill (cŷn belled ac yr wŷfi'n deall) yn ei rwŷdau ef yn gystal a ninneu, ac etto hwŷ a ddfangasant o'u ddwŷlo ef; Pwŷ a wŷr na symmŷd Duw y Cawr hwn (trwŷ farwolaeth)

allan

allan o'r Bŷd ymma? Neu nad all efe rŷw brŷd neu gilŷdd anghofio cloi y drŵs arnom; Neu nas geill ef ar fyrder ſyrthio eilwaith mewn llewŷg ger ein bronnau, a cholli grŷm ei aelodau: Ac os digwŷdd y fâth beth iddo drachefn, O'm rhan i mae yn ſy mrŷd gymerŷd calon a bôd yn wrol, i ymegnio a'r eithaf o'm gallu i ddiangc oddi tan ei law ef; Mi a fum yn ffol iawn nas gwneuthum hynnŷ euſus: Er hynnŷ fy mrawd byddwn ammyneddgar, a dioddefwn ychydig; Fe allau a cawn ni ddedwŷddol ymwared oddiwrtho mewn amſer; Ond na lâddwn monom ein hunain mewn môdd yn y Bŷd; Ac a'r geiriau hŷn a llonyddodd *Gobeithiol* drom galon ei frawd Criſtion; Ac fellu hwŷ a aroſaſant ynghŷd yn y carchar tywŷll y diwrnod hwnnw, yn eu cyflwr athrift a galarus.

A phan hwŷrhaodd hi, fe aeth y Cawr i wared ir Daiardŷ drachefn, i edrŷch oedd ei Garcharorion wedi gwneuthur yn ôl ei gyngor ef; Ond wedi iddo ddyfod yno, fe a'u cafodd hwŷnt yn fyw, Ac yn ſiccir dyna'r cwbl; Canŷs yr awron o elſieu ymborth, ac o achos y doluriau a gowſent pan gurodd ef hwŷnt, braidd yr oedd anadl yn eu geneuau, Ond fe a'u cafodd (megis a dywedais) yn fyw; Ac ar hynnŷ fe a aeth yn gynddeiriog, ac a ddywedodd wrthŷnt; Mae yn gymmaint ag nad ufuddhaſant iw gyngor ef, a cai eu cyflwr hwŷ fôd yn waeth na pha baſent erioed heb eu geni.

Ar hŷn, hwŷ a ddychrŷnaſant yn fawr; Ac yr wŷf yn tybied i Griſtion ſyrthio mewn llewŷg; Ond pan ddadebrodd ef ychydig, hwŷ a adnewŷddaſant eu hymddiddanion ynghŷlch cyngor y Cawr; Ac a ddechreuaſant yſtyried pa un oedd orêu iddŷnt a'i dilŷn ei gyngor ef ai peidio; Yr oedd Criſtion drachefn am wneuthur yn ôl ei gyngor ef, ond *Gobeithiol* eilwaith a'i gwrthwŷnebodd fel hŷn.

Gobeith-

Gobeithiol. Fy mrawd ebŷr ef, onid wŷti 'n cofio mor ddewr-wŷch a bucſti gŷnt? Methodd ar *Apol-lyon* dy orchfygu di; Methodd hefŷd ar yr hôll bethau a welaiſt, a glywaiſt, ac a deimlaiſti yn Nyffrŷn cyſcod Angeu dy orchfygu di; Pa gledi, dychrŷn, a ſyndod yr aethoſti euſus trwŷddŷnt; Ac a wŷti yrawron mor ofnus? Di a well fy môd i yn y Carchar gyda thi, Yr hwn ydwŷf (with nattur) yn wanach Gŵr o lawer na thi; Fe a'm briwŷd gan y Cawr ymma yn gyſtal a thithau; Fe a'm cadwŷd hefŷd oddiwrth bôb ymborth a lluniaeth yn y Bŷd, ac yr ydwŷf yn galaru ymma yn y tywŷllwch gyda thi; Ar tolwg gâd i ni fôd yn ammyneddgar tros ennŷd bach etto; Cofia fel a chwareuſti'r Gŵr yn ffair Gwagedd, ac nad peddŷt yn ofni na'r Tidau, na'r Carchar, nac un mâth o farwolaeth waedlŷd ychwaith: Gâd i ni gan hynnŷ rhag cywilŷdd (yr hwn nid ŷw gymheſur clywed fôd Criſtion yn gorwedd tano) ddioddef trwŷ ammynedd hŷd yr ethaf o'n gallu.

Yrawron wedi 'r nôs ddyfod drachefn, a mŷned o'r Cawr a'i wraig iw gwelŷ, hi a ofynnodd iddo beth a ddaethai o'r Carcharorion? Ac a wnaethent hwŷ yn ôl ei gyngor ef ai peidio? Yntef a'i hattebodd hi, mai dihirwŷr pengaled oeddŷnt; A gwell oedd ganthŷnt ddioddef pôb mâth o gledi, na'u ditetha eu hunain; Yna ebŷr hi, cymmer hwŷnt y foru i gyntedd y Caſtell, a dangos iddŷnt Eſcŷrn a phenglogau y rhai a ddiſethaiſti euſus; A gwna iddŷnt goelio a bŷdd i ti cŷn pen yr wŷthnos eu rhwŷgo nhwŷthau yn ddarnau, fel a rhwŷgaiſt eu cyfeillion o'u blaen hwŷnt.

Fellu pan ddaeth y boreu, y Cawr a aeth attŷnt drachefn, ac a'u cymmerth i gyntedd y Caſtell; Ac a ddangoſodd iddŷnt yr Eſcŷrn a'r penglogau, megis a gorchymŷnnaſai ei wraig iddo:

Yr

Yr oedd y rhain ebŷr ef yn Bererinod unwaith fel chwithau; Ac fe ddarfu iddŷnt dreſpaſu ar fy nhîr i megis a gwnaethoch chwithau; A phan welais i fôd yn ddâ, mi a'i drylliais hwŷ yn chwilfriw; A chŷn pen deng niwrnod, mi a'ch drylliaf chwithau yn yr un môdd: Ewch i wared i'ch lloches drachefn, a chyda hynnŷ fe a'u curodd hwŷ o hŷd, nes iddŷnt ddyfod iw gwâl: Ac yno buant yn gorwedd yr hôll ddŷdd Sadwrn mewn cyflwr gofudus, megis a buant o'r blaen; Yrawron gwedi iddi noſi, a myned o meiſtres *Anhyder* a'r Cawr ei Gŵr iw gwelŷ, hwŷ a ddechreuaſant ymddiddan drachefn a'i gilŷdd, ynghŷlch y Carcharorion; A rhyfeddu yn fawr a wnaeth yr hén Gawr ei fôd ef yn methu, yn gyſtal trwŷ ei ddyrnodiau a thrwŷ ei gynghorion eu dwŷn hwŷ i ddiwedd drŵg: Ac ar hynnŷ ei wraig a ddywedodd wrtho; Rwi 'n ofni ebŷr hi eu bôd nhwŷ 'n gobeithio a daw rhŷw rai iw gwaredu hwŷnt; neu mae ganthŷnt rŷw offerŷn i agorŷd y clo ag ef, trwŷ ba foddion y maent yn gobeithio diangc; A wŷti'n dywedŷd fellu fy Anwŷlŷd ebŷr y Cawr? Myfi a ddyfal chwiliaf eu poccedau a'u dillad hwŷnt y boreu foru, i edrŷch oes ganthŷnt y fâth bethau.

Ac wele nôs Sadwrn ynghŷlch hanner nôs, hwŷ a ddechreuaſant weddio; Ac a barhaeſant mewn gweddi agos hŷd y wawr ddŷdd.

Yrawron ychydig cŷn ei bôd hi 'n ddŷdd, Criſtion fel un wedi hanner amhwŷllo, a waeddodd ac a ddywedodd fel hŷn; Pa fâth gydafel (ebŷr ef) ydwŷfi, i orwedd yn y môdd ymma mewn Daiardŷ drewllŷd, pan allwŷf rodio mewn rhydd-did? I mae gennif agoriad yn fy mynwes, a elwir *Addewid*, yr hwn a mae'n ddiammeu gennif, a ddatcloia bôb clo ynghaſtell *Amheus*; Yna ebŷr *Gobeithiol* dymma newŷdd dâ fy mrawd anwŷl,

Tŷnn ef allan o'th fynwes, a threiwn ef; Yna Criſtion a'i cymmerodd ef allan o'i fynwes, ac a ddechreuodd ar ddrŵs y Daiardŷ; A chynted ac a troes yr agoriad yn y clo, f'aeth y bollt yn ôl; A'r drŵs a agorodd yn fŷan; A Chriſtion a *Gobeithiol* a ddaethant allan ill dau; Yna daethant at y drŵs neſaf i gyntedd y Caſtell, yr hwn hefŷd a agorodd Criſtion a'i egoriad yn ddiattreg; Wedi hynnŷ efe a ddaeth at y porth haiarn, canŷs yr oedd yn rhaid agor hwnnw hefŷd; Ond peth anodd iawn oedd agorŷd clo y porth hwnnw; Etto fe a'i hagorwŷd ef ar ygoriad hwnnw: A chwedi hynnŷ hwŷ a wthiaſant y porth i egorŷd ddiſtawaf ag a medrent, fel a gallent ddiangc ar ffrwſt; Ond y porth wrth ei agor a wnaeth y fâth drŵſt, fel a deffrodd y Cawr: Yna fe a geiſiodd gyfodi'n ddiſymmwth i ddal y Carcharorion; Ond ei Aelodau a ballaſant, Canŷs ei leſmeiriadau a'i cymmeraſant ef drachefn, fel na alleu mewn môdd yn y Bŷd fyned ar eu hôl hwŷnt; Yna hwŷ a aethant ymaith, ac a ddaethant i brif-ffordd y Brenin: Erbŷn hynnŷ yr oeddent mewn diofalwch, gan eu bôd wedi dyfod allan o feddiannau'r *Cawr*.

Yrawron wedi iddŷnt fyned dros y gamfa yn eu hol, hwŷ a ddechreuaſant ddyfeiſio ynddŷnt eu hunain, pa beth a oſodent ar y gamfa i rwŷſtro'r ſawl a ddelent ar eu hôl i ddyfod dan ddwŷlo'r *Cawr Anobaith*. A hwŷ a gyttunaſant i gyfodi yno Golofn, ac i yſcrifennu ar ei hyſtlus hi yr yſcrifen ymma: **Dyma'r gamfa ſy'n tywyſo i Gaſtell Amheus**, ſe a mae'r *Cawr Anobaith* yn tario, yr hwn ſŷ'n dirmygu Brenin y wlâd Nefol, ac yn ceiſio hefŷd ddiſetha y Sanctaidd Bererinod (Llawer gan hynnŷ o'r rhai a'u canlŷnaſant hwŷ, a ddarllennaſant yr yſcrifen, ac a ddiangaſant rhag y perŷgl ymma) Ac ar ôl gwneuthur hynnŷ Criſtion a *Gobeithiol* a ganaſant fel hŷn.

Trwŷ droi o'n ffordd, nyni 'brofasom,
Beth ŷw rhodio 'n anghyfreithlon:
Gocheled y rhai a'n canlynant,
Osgoi, a phrofi'r un aflwŷddiant.

Gwedi hynnŷ hwŷ a aethant ymlaen, hŷdoni ddaethant i'r mynyddoedd hyfrŷd, y rhai a berthynent i Arglwŷdd y Brŷn, am yr hwn a soniais i o'r blaen: fellu hwŷ a aethant i fynu ir mynyddoedd, i weled y Gerddi, a'r Perllannau, a'r Gwinllannoedd, a'r Ffynhonnau dyfroedd oedd yno; Lle'r yfasant o'r dŵr, ac yr ymolchasant, ac a fwŷdtasant o'r grawn-wîn yn rhâd; Yrawron yr oedd ar bennau y mynyddoedd hŷn *Fugeiliaid*, yn cadw eu Defaid; Ac yr oeddŷnt yn sefŷll yn agos i-fîn y ffordd fawr: Y Pererinod gan hynnŷ a aethant attŷnt, a chan bwŷso ar eu ffŷnn (fel a mae'n arferol i Bererinod deffyglol, pan fyddant yn sefŷll i ymddiddan a neb ar y ffordd) hwŷ a ofŷnnasant iddŷnt, eiddo pwŷ ŷw'r mynyddoedd hyfrŷd ymma? A phwŷ a bia'r Defaid sŷ'n pori arnŷnt.

Bugeiliaid. Y mynyddoedd ymma ydŷnt Dir *Immanuel*, ac i maent hwŷ yngolwg ei Ddinas ef; Ei eiddo ef ydŷw'r Defaid hefŷd, Ac efe a roes ei Einioes ar lawr drostŷnt.

CRITSION. Ai dymma'r ffordd i'r Ddinas Nefol?

Bugeiliaid. Yr ydŷch chwi yn union ar eich ffordd.

CRISTION. Pa bellder ydŷw hi oddiymma yno?

Bugeiliaid. Rhŷ bell i neb, ond i'r sawl sŷ'n myned tuag yno mewn gwirionedd.

CRISTION. A ŷdŷw'r ffordd yn ddiberŷgl, neu yn beryglus?

Bugeiliaid. Diberŷgl i'r cyfiawn, ond trosedd

 wŷr

wŷr a dramgwŷddant ynddi (*Hoſea* 14. 9.)

CRISTION. Oes yn y lle ymma lettu ac ymgeledd i Bererinod lleſc lluddiedig iw gael ?

Bugeiliaid. Fe orchymynnodd Arglwŷdd y lle hwn i ni nac anghofiem Letugarwch; Ac am hynnŷ chwi a ellwch gael rhan o'r pethau dâ ſŷdd ymma (*Hebreaid* 13. 1, 2.)

Mi a welais hefŷd yn fy mreuddwŷd, mai pan wŷbu 'r *Bugeiliaid*, mai trafaelwŷr oeddŷnt; Hwŷthau hefŷd a ofynnaſant Gweſtlwnau iddŷnt, megis gwŷr o ba wlâd ydŷch ? A pha fôdd a daethoch i'r ffordd ? A thrwŷ ba foddion a darfu i chwi ddilŷn ynthi fel hŷn ? Canŷs nid oes ond ychydig o'r rhai ſŷ 'n dechreu dyfod tuag ymma, yn dangos eu hwŷnebau ar y mynyddoedd hŷn; A'r Pererinod a roddaſant yr un ſâth attebion iddŷnt hwŷ, ac a roeſent i eraill; Ond pan glybu y *Bugeiliaid* eu hattebion hwŷnt, fe 'u bodlonwŷd hwŷ 'n fawr; A hwŷ a edrŷchaſant yn gariadus arnŷnt, ac a ddywedaſant wrthŷnt, Croeſaw i'r mynyddoedd hyfrŷd.

A'r *Bugeiliaid* (meddaf) y rhai a elwid, **Gwybodaeth**, **Profiad**, **Gwilaidwrus**, a **Phurdeb**, a'u cymmeraſant erbŷn eu dwŷlo, ac a'u dyghaſant hwŷ iw pebŷll; Ac a oſodaſant gar eu bron yr hŷn oedd barod ganthŷnt; A hwŷ a ddywedaſant ymhellach wrthŷnt; Nyni a ewŷllyſiem i chwi aros gyda ni ychydig o amſer, fel a galloch fôd yn gydnabyddus a ni; Ac hefŷd fel a caech ychydig o eſmwŷthfŷd a dlddanwch, trwŷ fôd yn gyfrannogion o'r pethau daionus ſŷdd iw cael yn yr hyfrŷd Fynyddoedd ymma: A'r Pererinod a ddywedaſant wrthŷnt eu bôd nhwŷ 'n fodlon i aros; Ac fellu hwŷ a aethant iw gorphwŷsfa y noſon honno, canŷs yr oedd hi 'n hwŷr iawn.

A'r boreu drannoeth mi glywn y *Bugeiliaid* yn

yn galw ar Criſtion a *Gobeithiol*, i ddyfodd gyda nhwŷ i rodio ar y mynyddoedd; Fellu hwŷ a aethant allan gyda hwŷnt, ac a rodiaſant ennŷd, ac a ganffuant fôd y Tir yn ffrwŷthlon a hyfrŷd ar bôb tu; Yna ebŷr y *Bugeiliaid* wrth ei gllŷdd, a gawn ni ddangos rhŷw ryfeddodau i'r Pererinod hŷn; Ac wedi iddŷnt gyttuno i wneuthur fellu, hwŷ a'u dygſaſant hwŷnt yn gyntaf i ben y brŷn a elwid *Cyfeiliorni*, yr hwn oedd yn ſerth iawn ar yr yſtlus pellaf oddiwrthŷnt; A'r *Bugeiliaid* a archaſant iddŷnt edrŷch tua'r gwaelod: Fellu Criſtion a *Gobeithiol* a edrŷchaſnt tua'r gwaelod tan y Brŷn; A hwŷ a welent wrth droed y Brŷn fintau fawr o ddynnion wedi eu dryllio yn ddarnau gan gwŷmp a gawſent yno; Yna ebŷr Criſtion pa beth ŷw hŷn? A'r *Bugeiliaid* a attebaſant; Oni chlywſochi ſôn am y rhai a gwnaed iddŷnt gam gredu yn eu crefŷdd, trwŷ goelio athrawiaeth *Hymeneus* a *Philetus*, y rhai oddiwrth y gwirionedd a gyfeillornaſant, gan ddywedŷd ddarfod yr adgyfodiad euſus (1 *Timotheus* 1. 19, 20. 2 *Timotheus* 2. 17, 18.) A thrwŷ ddywedŷd na bŷdd adgyfodiad ir meirw dracheſn: A'r Pererinod a ddywedaſant Do, ni a glywſom ſôn am danŷnt; Yna ebŷr y *Bugeiliaid* wrthŷnt, y rhai a gwelwch chwi en haelodau nhw yn gorwedd yn ddarnau wrth odreu y Brŷn ymma, ydŷw'r bobl hynnŷ: Ac fe'u gadawŷd hwŷ heb eu claddu hŷd y dŷdd hwn (fel a gwelwch) er ſiampl i eraill i ochelŷd na ddringont yn rhŷ uchel, ac na ddelont yn rhŷ agos i ymylau y mynŷdd hwn.

Yna mi a'i gwelais nhw yn eu dwŷn hwŷ i ben mynŷdd arall, yr hwn a elwid *Gochelïad*, a'r *Bugeiliaid* a archaſant iddŷnt edrŷch ymhell oddiwrthŷnt: Yr hŷn pan wnaethant hwŷ a dybygent eu bôd yn canſod llawer o ddynnion yn rhodio

i fynu ac i wared ymŷſc y beddau y rhai oedd yno; A hwŷ a ddeallaſant fôd y gwŷr yn ddeillion, am eu bôd yn ſyrthio weithieu ar draws y beddau, ac am eu bôd yn methu dyfod allan oddiyno; Yna ebŷr Criſtion pa beth ſŷdd i ni iw ddeall wrth hŷn.

A'r *Bugeiliaid* a attebaſant, oni welſochi gamſa ychydig iſlaw y mynyddoedd hŷn, yr hon ſŷ'n arwain i weirglodd, o'r tu aſſwŷ i'r ffordd ymma? A'r Pererinod a attebaſant gwelſom: Yna ebŷr y *Bugeiliaid* i mae Llwŷbŷr yn myned o'r gamſa honno, yr hwn ſŷ'n tywŷs yn union i *Gaſtell Amheus*, yn yr hwn a mae'r *Cawr Anobaeth* yn trigo; A'r Gwŷr accw (ſef y rhai a welwch ymŷſc y Beddau) a fuant yn Bererinod fel yr ydŷchi yrawron, hŷd oni ddaethant at y gamſa honno, Ac o herwŷdd bôd yr iawn ffordd yn arw yn y mann hwnnw, hwŷ a droeſant i'r weirglodd honno; Ac yno a dalwŷd hwŷ gan y *Cawr Anobaeth*, ac efe a'u carcharodd hwŷnt yn ei Gaſtell: Ac wedi iddo eu cadw nhw dros ennŷd o amſer yn ei Ddaiardŷ, efe o'r diwedd a dynnodd allan eu llygaid hwŷ, ac a'u gyrrodd i blith y beddau accw; Lle a gadawodd ef hwŷnt i frwŷdro hŷd y dŷdd heddiw, fel a cyflawnid ymadrodd y Gŵr doeth, Dŷn yn myned ar gyfeiliorn oddiar ffordd deall, a orphwŷs ynghynulleidfa y meirw (*Diharebion* 21. 16.) Yna Criſtion a *Gobeithiol* a edrŷchaſant y naill ar y llall, a'r dagrau yn diferu rhŷd eu griddiau, er hynnŷ ni ddywedaſant hwŷ ddim wrth y *Bugeiliaid*.

Wedi hynnŷ, mi a welwn y *Bugeiliaid* yn myned a hwŷnt i le arall, mewn pant lle'r oedd drŵs yn ochor Brŷn; A hwŷ a agoraſant y drŵs, ac a baraſant iddŷnt edrŷch i mewn, a hwŷ a wnaethant fellu; Ac wele yr oedd y lle oddifewn

yn

yn dywŷll, ac yn fyglud iawn: Ac wele hwŷ a dybygent hefŷd eu bôd yn clywed megis ſŵn rhŷw Dân, a lleiſiau rhai yn dioddef poenau mawr, a'u bôd hefŷd yn rhogleuo rhogleu brwmſtan; Yna ebŷr Criſtion, pa beth ŷw hŷn? A'r *Bugeiliaid* a attebaſant, Traws.lwŷbŷr i uffern ŷw hwn, Dyma'r ffordd a mae Rhagrithwŷr yn myned i mewn yno, yn enwedig, y ſawl ſŷ'n gwerthu eu ganedigaeth fraint gydag *Eſau*; Y rhai a werthant eu Meiſtir gyda *Suddas*; A rhai ſŷ'n cablu'r Efengŷl gydag *Alexander*; A rhai ſŷ'n dywedŷd celwŷdd, ac yn rhagrithio gydag *Ananias* a *Saphira* ei wraig ef.

Yna ebŷr *Gobeithiol* wrth y *Bugeiliaid* yr wŷfi'n deall fôd gan y rhain, ie gan bôb un o honŷnt enw o Bererindod, megis a mae gennŷm ninnau yr awron; Ond oedd y peth fellu?

Bugeiliaid. Oedd yn ddiammeu, a hwŷ a barhaeſant fellu hefŷd yn hîr o amſer.

Gobeithiol. Pa bellder a gallent hwŷ (ſŷdd yrawron wedi eu colli yn greulonedd yn y mòdd ymma) fyned mewn Pererindod yn yr amſer gŷnt?

Bugeiliaid. Rhai a aethant ymhellach, a rhai ni ddaethant cŷn belled a'r mynyddoedd ymma.

Yna ebŷr y Pererinod wrth eu gilŷdd, rhaid i ni alw ar yr Hôllalluog am nerth.

Bugeiliaid. Gwîr ŷw hynnŷ, a rhaid i chwi wneuthur deunŷdd dâ o hono hefŷd wedi ei gael ef.

Erbŷn hŷn yr oedd y Pererinod yn ewŷllyſio myned ymlaen; A'r *Bugeiliaid* oeddent fodlon i hynnŷ: Fellu hwŷ a rodlaſant ynghŷd hŷd ochor eithaf y mynyddoedd; Yna ebŷr y *Bugeiliaid* wrth eu gilŷdd, gadewch i ni ddangos oddiymma hŷrth y Ddinas Nefol i'r Pererinod; Os medrant edrŷch trwŷ'n Drŷch-golwg ni: A'r Pererinod oeddŷnt fodlon i hynnŷ, fellu hwŷ a'u cymmeraſant i ben brŷn uchel, yr hwn a elwid *Eglur*, ac

a roddaſant iddŷnt y drŷch i edrŷch trwŷddo: Yna hwŷ a brofaſant edrŷch trwŷddo, ond wrth gofio y peth diweddaf a ddangoſaſai y *Bugeiliaid* iddŷnt, yr oedd eu dwŷlo nhw'n crynu gan ofn; Ac o herwŷdd hynnŷ, methodd arnŷnt edrŷch yn ddiyſcog trwŷ'r drŷch; Er hynnŷ yr oeddent yn tybied eu bôd yn gweled rhŷw beth tebŷg i'r porth, ac hefŷd peth o ogoniant y lle.

Pan oeddent ar ymadel, un o'r *Bugeiliaid* a roddodd iddŷnt yſcrifen o yſpyſrwŷdd ynghŷlch eu ffordd; A'r llall a archodd iddŷnt ochelŷd y dŷn gwenheuthus: A'r trydŷdd a archodd iddŷnt ochelŷd rhag cyſcu ar y Tir a felldithwŷd: A'r pedwaredd a ddywedodd wrthŷnt, Duw a fo'n rhwŷdd i chwi.

Yna mi a welwn y ddau Bererin yn myned i wared o'r mynyddoedd, rhŷd y ffordd-fawr tua'r Ddinas Nefol; Yrawron ychydig iſlaw'r mynyddoedd ymma, ar y llaw aſſwŷ, yr oedd Gwlâd *Cellwzir* yn ſefŷll; Ac o'r wlâd hon yr oedd hwŷlfa gam fechan, yn dyfod i'r ffordd yr oedd y Pererinod ynthi: Ac ymma a cyfarfuant a llangc ſiongc a ffraeth, yr hwn oedd yn teithio o'r wlâd honno, a'i Enw ef oedd *Anwŷbodaeth*; Fellu Criſtion a ofynnodd iddo, o ba le yr oedd ef yn dyfod? Ac i ba le yr oedd ef yn myned?

Anwŷbodaeth. Syr fe'm ganwŷd i yn y wlâd accw, ychydig ar y llaw aſſwŷ; Ac yr wŷfi'n myned tua'r Dinas Nefol.

CRISTION. Ond pa fodd yr ydŷch chwi'n meddwl myned i mewn trwŷ'r porth, canŷs chwi a ellwch gyfarfod a rhŷw anhawſder yno?

Anwŷbodaeth. Fel a mae pobl ddâ eraill yn myned ebŷr yntef.

CRISTION. Ond pa beth ſŷdd gennŷch iw ddangos yno, fel a bo iddŷnt agor y porth i chwi?

Anwŷb.

Anwŷbodaeth. Mi a wn ewŷllŷs fy Arglwŷdd, ac a fum yn Fucheddwr dâ, yr wŷf yn talu i bawb eu heiddo; Yr wŷfi 'n Gweddio, yn Ymprydio, yn Talu fy Negymmau, ac yn rhoddi elusenau, ac mi a adewais fy ngwlâd er mwŷn y lle yr wŷf yn myned iddo.

CRISTION. Ond ni ddaethoft di i mewn trwŷ 'r porth cyfŷng, yr hwn ſŷ ymhen y ffordd ymma; Ond dydi a ddaethoſt i mewn i'r ffordd hon trwŷ'r Llwŷbŷr cam accw; Ac am hynnŷ yr wŷf yn ofni pa beth bynnag yr wŷt ti yn el dybied amdanat dy hun; pan ddelo 'r Dŷdd cyfrif a rhoddir i'th erbŷn, mai lleider ac yſpeiliwr wŷt, yn lle cael myned i mewn i'r Ddinas.

Anwŷbodaeth. Foneddigion, yr ydŷchi yn ddieithriaid i mi, nid adwaen i monoch; Byddwch fodlon i ddilŷn crefŷdd eich Gwlâd chwi, a minneu a ddilynaf grefŷdd fy ngwlâd inneu, Ac yr wŷfi yn gobeithio a bŷdd pôb peth o'r goreu: Ac am y porth a ſonſaſoch amdano, ſe ŵŷr yr hôll Fŷd fôd hwnnw ymhell o'n Gwlâd ni: Nid wŷfi chwaith yn tybied fôd nêb yn ein hôll barthau ni yn gwŷbod y ffordd tuag yno; Ac nis gwaeth pa un ai bôd yn ei gwŷbod hi ai peidio, gan fôd gennŷm (fel a gwelwch) Lwŷbŷr glâs hyſrŷd yn dyfod o'n Gwlâd ni, yn uniawn i'r ffordd ymma.

Pan welodd Griſtion fôd y gŵr yn ddoeth yn ei olgwg ei hun, efe a ddywedodd wrth *Obeithiol* yn ddiſtaw; Gwell ŷw 'r gobaith am ffôl nag amdano ef (*Dihareb*ion 26. 12.) Ac ſe a ddywedodd ymhellach, y ffôl pan rodio ar y ffordd, ſŷdd a'i galon yn pallu, ac i mae'n dywedŷd wrth bawb ei fôd yn ffôl (*Pregethwr* 10. 3.) Pa beth a wnawn ni? A ſiaradwn ag ef ymhellach? Neu ynteu myned o'i flaen ef yrawron, i adel iddo

ſyſyrio

ſyſyrio ar yr hŷn a glywodd eusus, ac yna i aros ef drachefn, i edrŷch a allwn bôb yn ychydig wneuthur dim daioni iddo ef: 'Rwi'n tybied ebŷr *Gobeithiol*, nad ŷw'n ddâ dywedŷd y cwbl ar unwaith wrtho ef, gadewch i ni ei adel ef y prŷd ymma os mynnwch; A ſiaradwn ag ef yn y mann, pan fô yn aplach i dderbŷn ein haddŷſc a'n cynghorion.

Fellu hwŷ a aethant ymlaen ill dau, ac *Anwŷbodaeth* a ddaeth ar eu hôl; Yrawron gwedi iddŷnt ei ragflaenu ef ychydig, hwŷ a ddaethant i Heol fechan dywŷll lawn, lle a cyfarfuant a Gŵr wedi ei rwŷmo gan ſaith Gythrael, a ſaith o raffau cedŷrn; Ac yr oeddent yn ei garrio ef yn ôl, i'r Drŵs a welſent ar ochor y Brŷn: Criſtion yrawron a'i gydymaith *Gobeithiol* a ddechreuaſant arſwŷdo a chrynu yn aruth; Etto fel yr oedd y Cythreuliaid yn dwŷn ymaith y Gŵr; Criſtion a edrychodd yn graff arno, i weled a oedd ef yn ei ddynabod ef; Ac fe a dybiodd, mai un *Tor-broffes*, ydoedd y Gŵr, yr hwn oedd yn bŷw yn Nhrêf *Gwrthgiliad*: Ond ni allei ef weled ei wŷneb ef yn amlwg am ei fôd yn goſtwng ei ben i lawr fel lleidr a fae wedi ei ddal; Ond wedi iddo fyned heibio, *Gobeithiol* a edrychodd ar ei ôl ef, ac a ganfu Bapŷr ar ei gefn ef, lle yr oedd yr yſcrifeniad hwn, **Proffeſwr anllad, a gwrthgiliwr damnedig**; Yna a dywedodd Criſtion wrth ei gydymaith, yrawron yr wŷf yn ailgofio yr hŷn a fynegwŷd i mi, am beth a ddigwŷddodd i ŵr dâ ynghŷlch y mann ymma; Ei enw ef oedd *Ychydig ffŷdd*, ond Gŵr dâ rhinweddol ydoedd ef, ac yr oedd ef yn trigo yn Nhrêf *Diragrith*. Hŷn oedd y matter; Ymhen y ffordd ymma i mae Heol fechan, yn dyfod i wared o Borth y ffordd Lydan, a elwir *Heol y dŷn Marw*; A hi a elwir fellu o achos y lladdiad a wneir

wneir yno yn fynŷch: A'r Gŵr ymma (yr hwn a elwir *Tchydig ffŷdd*) oedd yn myned ar Berer-indod megis yr ydŷm ninnau yrawron; Ac fe ddigwŷddodd iddo eiſtedd i lawr a chyſgu yno; Yrawron fe ddigwŷddodd y prŷd hwnnw, i dri o williaid cryfion ddyfod i wared rhŷd y ffordd o *Borth y ffordd-Lydan*, a'u henwau oedd *Gwan-galon*, *Gwan grêd*, ac *Euogrwŷdd*, tri brawd oeddŷnt; a phan ganffuant hwŷ melſtir *Tchydig ffŷdd* yn gorwedd yno, hwŷ a ddaethant atto ar ffrwſt; Yrawron yr oedd y Gŵr dâ wedi newŷdd ddihuno o'i gwſc, a'i frŷd ar gyfodi i fynd iw daith; Fellu hwŷ a ddaethant ôll i fynu atto, a chan fygwth yn arw archaſant iddo ſefŷll; Ar hŷn *Tchydig ffŷdd* a gollodd ei liw, ac a aeth cŷn wnned a'r foled, ac nid oedd yntho na chalon i ymladd, na gallu i ffoi; Yna ebŷr *Gwan-galon* delifrwch eich pwrs; Ond ni fryſiodd ef i wneuthur fellu (canŷs yr oedd yn anodd gantho golli ei Arian) *Gwan grêd* gan hynnŷ a redodd i fynu atto, a chan wthio ei law ſw boc-ced ef, fe a dynnodd allan byrſed o Arian; Yna efe a waeddodd yn groch, Lladron, Lladron; Ar hynnŷ *Euogrwŷdd* a drawodd *Tchydig ffŷdd* ar draws ei ben a ffon fawr, yr hon oedd gantho yn ei law; Ac a'r dyrnod hwnnw fe a'i bwrlodd ef i lawr, lle a bu ef yn gwaedu, a'i waed yn ffrydio fel un a fae'n gwaedu hŷd Angeu, A'r lladron yn y cyſamſer yn ſefŷll yn ei ymŷl ef: Ond o'r diwedd hwŷ a glowent megis trwſt rhai yn dyfod i wared rhŷd y ffordd, a chan ofni mai un *Grâs-Mawr* oedd un o honŷnt, ſŷ'n trigo yn Nhref *Cydwŷ-bod ddâ*, hwŷ gymmeraſant y traed, ac a adawſant *Tchydig ffŷdd* i ymdaro droſto ei hun fel a gallai; Ac yno ymhen ennŷd fe a ddaeth atto ei hun, a chan gyfodi ar ei draed, efe a ymegniodd i ymgrippio i fyned ymaith.

Gobeith-

Gobeithiol. Ond a ddygaſant hwŷ oddiarno gymaint ôll ar a feddai ?

CRISTION. Naddo, ni anrheithiaſant hwŷ'r mann lle'r oedd ei Dlyſau ef; Fellu efe a gadwodd y rheini o hŷd; Ond mi a glywais fôd yn gyfŷng iawn ar y Gŵr dâ hwn o herwŷdd ei golled; Canŷs y lladron a'u hyſpeiliaſant ef o rhan fwŷaf o'i arian; Yr hŷn a ddiangodd eu dwŷlo nhwŷ (fel a dywedais i o'r blaen) oedd ei dlyſau ef (1 *Peter* 4. 18.) Ac nid oedd yr ychydig arian oedd gantho, ond prin ddigon iw ddwŷn ef i ben ei daith; Ac (oni cham ddywedwŷd wrthŷfi) fe orfu iddo gardotta, a hel i fywŷd ar y ffordd (canŷs ni allai ef werthu moi dlyſau) ond er cardotta a gwneuthur a allai, efe a aeth (fel a dywedwn ni) a'i fol yn wâg y rhan fwŷaf o'r ffordd oedd yn ôl i ben ei ſiwrnai.

Gobeithiol. Ond rhyfedd ŷw, na ddygaſent hwŷ yſcrifen ei ſiccrwŷdd oddiarno, trwŷ hwn yr oedd ef i gael ei dderbŷn i mewn ymhorth y Ddinas Nefol.

CRISTION. Mae hynny yn rhyfeddod, ond ni chawſant hwŷ mo'r yſcrifen hwnnw; Er na chollaſant moni, trwŷ gyfrwŷſtra Meiſtir *Ychydig ffŷdd*; O herwŷdd nid oedd gantho ef allu na meder i guddio dim, gan ei fôd mewn ſyndod a braw trwŷ eu dyfodiad hwŷ atto: Fellu trwŷ ragluniaeth Daionus yr Arglwŷdd (yn fwŷ na thrwŷ ei ddyfalwch a'i ofal ef) methaſant gael y peth dâ hwnnw (2 *Timotheus* 1. 14.)

Gobeithiol. Ond yr oedd yn gyſur mawr iddo, na ddygaſant ei dlyſau oddiarno ?

CRISTION. Fe allaſai hynnŷ fôd yn gyſur mawr idddo, pa baſai yn gwneuthur deunŷdd o hono fel a dylaſai; Ond y rhai a adroddaſant wrthŷfi yr yſtori ymma, a ddywedaſant, na wnaeth ef ond ychydig ddeunŷdd o'r peth, yr hôll ran arall

o'r

o'r ffordd; A hynny o herwydd y braw a gawsei ef, pan ddygasant ymaith ei Arfau ef: Gwir ydyw, fe anghofiodd yr hyn a'i cysurai ef, y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ôl o'i daith; Ac heblaw hynny pan ddigwyddai ar un amser iddo ei ailgofio, ac a byddeu yn dechreu cael cylur oddiwrtho; Yna meddyliau newydd ynghylch ei golled am ei Arfau, a orchfygau bôb math o fyfyrdodau eraill.

Gobeithiol. Ocho druan gŵr, nid oedd fódd nad oedd hynny yn driſtwch mawr iddo.

CRISTION. Mae hynny yn ddiammeu; Ond baſai yn driſtwch i ni, pa gwnaethid a ni megis a gwnaethpwyd ag ef, trwy ei yſpelio (a'i glwyfo ef hefyd) a hynny mewn lle mor ddieithr, ag yr oedd ef yntho? Rhyfeddol ydyw, na baſei ef (druan Gŵr) yn marw gan ofud! Myfi a glywais, ei fôd ef yn llefain ac yn cwynfan yn alarus, y rhan fwyaf o'r ffordd gwedi hynny; Gan achwyn wrth bawb ar a'i goddiweſaſant ef, ac wrth y ſawl yr oedd yntef yn eu goddiwes ar y ffordd; Gan achwyn (meddaſi) ymha le yr yſpelwyd ef; A pha fódd; A phwy oedd y gwŷr a wnaethant hynny; A pha beth a gollaſei; A'r môdd a clwyfwyd ef; Ac mai prin a diangodd ef yn fyw.

Gobeithiol. Ond peth rhyfeddol ydyw, na pharodd ei angen iddo ef werthu, neu wyſtlo rhai o'i dlyſau, fel a gallai ef ei ddianghenu ei hun yn ei daith.

CRISTION. Yr wyti 'n ſiarad megis un o'r ynfydion: Canys am ba beth a gwyſtlai ef ei dlyſau? Neu i bwy a gwerthai ef hwynt? Nid oeddid yn gwneuthur cyfrif yn y Byd o'i dlyſau ef yn yr hôll wlâd honno, yn yr hon yr yſpeiliwyd ef ynthi; Ac nid oedd arno ef eiſau dim o'r fath gymmorth ar a oedd gan bobl y wlâd honno, iw waſanaethu fe; Heblaw hynny pa baſai ei dlyſau

dlyſau ef yn eiſiau wrth Borth y Ddinas Nefol, fe'i cauesid ef allan o'r etifeddiaeth oedd yno (a hynny a wyddai ef yn ddigon dâ) a gwaeth a faſai hynny iddo ef nag ymddangoſiad a chreulondeb myrddiwn o ladron.

Gobeithiol. Pa ham yr wyt mor chwerw fy mrawd? Fe werthodd *Eſau* ei anedigaeth fraint, a hynny am phiolaid o frowes (*Hebreaid* 12. 16.) A'r anedigaeth honno oedd ei Dlws pennaf ef; Ac os gallai ef, pa ham na allai *Ychydig ffydd* wneuthur fellu hefyd?

CRISTION. Gwir yw, *Eſau* a werthodd ei anedigaeth fraint, Yr hyn a mae llawer o rai eraill yn i wneuthur; A thrwy hynny maent yn eu cau eu hunain allan oddiwrth feddiannu y fendith bennaf, megis a gwnaeth yr yſcerbwd hwnnw; Ond i mae'n rhaid i chwi fwrw fôd peth rhagoriaeth rhwng *Eſau* ac *Ychydig ffydd*, ac hefyd rhwng eu cyflwr hwynt: Ganedigaeth *Eſau* oedd gyſcodawl, ond Tlyſau *Ychydig ffydd* nid oeddent fellu; Bol *Eſau* oedd ei Dduw, ond nid fellu yr oedd bol *Ychydig ffydd*; Eiſieu *Eſau* oedd yn ei flys naturiol, ond eiſieu *Ychydig ffydd* nid oedd fellu; Heblaw hynny, nid oedd *Eſau* yn edrych am ddim ond am gyflawni ei chwant: Canys wele fi yn myned i farw, ebyr ef (*Geneſis* 25. 32.) A pha lês a wna'r Anedigaeth fraint hon i mi? Ond *Ychydig ffydd* a dybiodd mai rhan o'i etifeddiaeth ef oedd ei ffydd ef er gwaaned oedd hi; A thrwy y ffydd honno efe a gadwyd rhag y fâth afradlondeb, ac a'i dyſcwyd i iawn briſſio ei dlyſau, yn lle eu gwerthu hwynt, megis a gwerthodd *Eſau* ei anedigaeth fraint; Nid ydych yn darllen yn yr yſcrythur, fôd gan *Eſau* ffydd yn y meſur lleiaf; Ac am hynny nid yw'n rhyfedd, lle bo'r cnawd yn bennaf yn ulwyu rhwyſc (megis a gwna yn y dyu hwnnw,

lle

lle na bo yntho ffŷdd iw wrthwŷnebu ef) os gwerth ef ei anedigaeth fraint, a'i Enaid, a'r cwbl ôll ſŷdd gantho, a hynnŷ hefŷd i'r diawl o uffern; Canŷs mae'r ſâth ddynnion yn debŷg ir Aſſŷn wŷllt, yr hon wrth ei hachlyſſur nis gellir ei throi ymaith (*Jeremi* 2. 24.) Fellu nhwŷthau pan ſont wedi goſod eu brŷd ar gyflawni eu Trachwantau, a ſynnant y pethau a maent yn eu hlyſio pa beth bynnag a goſtiont iddŷnt; Ond meiſtir *Ychydig ffŷdd* oedd o dymmer arall, yr oedd ei feddwl ef ar bethau Nefol; A phethau yſprydol ac oddiuchod yr oedd ei gynhaliaeth ef; I ba bwrpas gan hynnŷ a gwerthai ef (yr hwn oedd o'r ſâth dymmer) ei dlyſau (pa baſai yno un a'i prynnaſau hwŷnt) i borthi ei drachwantau a phethau gweigion? A ddyru gŵr geinlog er cael lloned ei fol o wair? Neu a ellwch wneuthur i'r glomen ymborthi ar furgŷn, megis a gwna'r gigfran? Ac er gallu o rhai di-grêd wŷſtlo, neu werthu'r hŷn ôll a feddont, er mwŷn cyflawni eu trachwantau cnawdol, etto ni ddichon y rhai ſŷdd ganthŷnt ffŷdd (ſef ffŷdd iachuſol) wneuthur fellu, er nad ŷw eu ffŷdd ond ffŷdd wann iawn; A dymma dy gam-gymmeriad di fy mrawd.

Gobeithiol. 'Rwŷfi'n cydnabod hynnŷ; Etto eich gwaith chwi yn troi arnaf mor ſarrug, a ſu agos a pheri i mi ddigio wrthŷch.

CRISTION. Pa ham, ni wneuthŷm i ond dy gyffelybu di i rai o'r adar gwŷlltion, y rhai a redant ymma a thraw rhŷd lwŷbrau anhyfforddd, a'r bliſg ar eu pennau: Ond gâd heibio hynnŷ fy mrawd; Ac yſtyria y peth ſŷdd mewn llaw gennŷm; Ac fe ſŷdd pôb peth o'r goreu rhyngoti a mi.

Gobeithiol. 'Rwi 'n credu yn fy nghalon, nad oedd y tri chyfaill hynnŷ ond gwŷr di galon, onide

a redaſent hwŷ ymaith dybygechi, fel a gwnaethant wrth glywed trŵſt rhŷwun yn dyfod rhŷd y ffordd fawr? Paham na baſai *Tchydig ffŷdd* yn cymerŷd gwell calon? Yr wŷfi'n tybied a gallaſai ef ſefŷll un ymladdfa a hwŷnt, a rhoddi'r maes iddŷnt pan faſent yn myned yn rhŷ galed iddo.

CRISTION. Clywais lawer megis chwitheu yn eu barnu nhwŷ'n llyrfion; Ond nid oes ond ychydig ar a brofaſant y peth fellu mewn awr o brofedigaeth; Ac am fôd yn fwŷ gwrol, nid allai *Tchydig ffŷdd* fôd a'r fâth galon a hynnŷ; Ac mi a dybygwn wrthit titheu fy mrawd, pa baſiti yn ei le ef, ni faſiti gwell nag yntef; Canŷs nid ydwŷt ti ond tros un trawiad, ac wedi hynnŷ ni wnai di ond cillio; Ac yn ddiammeu, mae uchder dy feddwl ſŷ'n peri i ti ſiarad yn y môdd ymma (am eu bôd nhw yrawron ymhell oddiwrthŷm) pa digwŷddai iddŷnt ymddangos i ti, megis a gwnaethant iddo ef, hwŷ a allent beri i tî newid dy feddyliau.

Ond yſtyria drachefn, mae lladron ar gyflog ydŷnt, yn gwaſanaethu Tywŷſog y pwlf diwaelod; Yr hwn os bŷdd rhaid, a ddaw ei hun iw cynnorthwŷo hwŷnt, a'i lais ef ſŷdd fel rhuad Llew (1 *Petr* 5. 8.) Mi a fum fy hun yn yr ymladdfa ymma, fel a bu meiſtir *Tchydig ffŷdd*, a dychrynllŷd iawn oedd y peth yn fy marn i; Y tri dihirŷn ymma a ruthraſant arnaf, a minneu a ddechreuais fel Criſtion eu gwrthſefŷll hwŷ; Ond ni wnaethant ond rhoddi un galw, A'u meiſtir a ddaeth ar droead llaw attŷnt: Yna (megis a mae'r Ddihareb) a rhoeſwn fy mywŷd er ceiniog; Ond fel yr oedd Duw yn mynnu yr oeddwn wedi fy ngwiſco ag Arfogaeth brofedig; Ac etto er fy môd wedi fy arfogi fellu, fe fu anhawdd iawn i mi ymgadw fy hun fel Gŵr; Ni ddichon un Dŷn draethu pa fôdd a bu arnom yn yr ymladdfa honno, ond y

ſawl

ſawl a fu yn y frwŷdŷr ei hun.

Gobeithiol. Ond hwŷ a ffoeſant pan dybiaſant fôd Gŵr a elwir *Grâs mawr* ar y ffordd.

CRISTION. Gwir ŷw, hwŷnt a'u meiſtir heſŷd a ffoeſant yn fynŷch, pan ymddangoſei *Grâs Mawr*; Ac nid rhyfedd, Canŷs rhyfelwr pybŷr y Brenin ŷw ef: Ond rwi'n tybied a cyfrifwch bêth rhagoriaeth rhwng *Tchydig ffŷdd* a Champiwr y Brenin: Nid Campwŷr y Brenin ŷw ei hôll ddeiliaid ef; Ac nis gallant ychwaith pan brofir hwŷnt wneuthŷd y fâth waith hynod mewn Rhyfel ac a eill ef ei wneuthur; Ai gwiw coelio a gallaſai rhŷw fachgenŷn byc an drîn *Goliab* fel a gwnaeth *Daſŷdd*? Neu fôd nerth ŷch mewn Drŷw? I mae rhai yn Gryfion, a rhai yn weiniaid; I mae rhai a llawer o ffŷdd ganthŷnt, ond nid oes ond ychydig gan rai eraill; Un o'r Gweiniaid oedd y Gŵr hwn; Ac am hynnŷ a ſyrthiodd ef ir clawdd.

Gobeithiol. Mi a ddŷmunwn pa baſei *Grâs Mawr* yno er eu mwŷn hwŷ.

CRISTION. Pedfaſai ef yno, gallaſai gael ei lawn waith; Canŷs rhaid i mi ddywedŷd hŷn wrthŷchi, er bôd *Grâs Mawr* yn dra medrus a'i arfau, iw amddiffŷn ei hunan; Ac er gwneuthur o hono lawer; Ac er gallu o hono ef etto wneuthur llawer yn erbŷn y gelynnion hŷn, tra cadwo ef hwŷnt wrth flaen ei gleddŷf; Er hynnŷ, os geill *Gwan galon*, *Gwan grêd*, ac *Eugrwŷdd* ddyfod i mewn atto, a chael gafael arno; Deugain i un a trippiant ei ſodlau ef; A phan elo Gŵr i lawr, pa beth a all ef wneuthur

Pwŷ bynnag a edrycho'n graff yn wŷneb *Grâs Mawr*, fe a gaiff weled y fâth greithiau a thorriadau yno, y rhai a wiriant yr hŷn a leſarais i amdano; Ie mi a glywais unwaith iddo ddywedŷd (a hynnŷ pan oedd ef yn yr ymladdfa, iddo ddy-

wedŷd meddaſi) yr wi'n ofni a collaſi ſy mywŷd: Pa fôdd a gwnaeth y dihirwŷr cyndŷn ymma a'u cyfeillion i *Ddaſŷdd* ruddfan, galaru, a rhuo? Ie ſe orfu i *Hezeckiah* a *Heman* hefŷd er eu bôd yn Gampwŷr yn eu dyddiau, ymdrechu'n galed pan ruthrodd y rhain arnŷnt? Ac er hŷn igŷd hwŷ a gawſant eu trybaeddu ganthŷnt; *Peder* a chwennychodd ar amſer brofi beth a allai ef ei wneuthur; Ond er bôd rhai yn dywedŷd amdano mai ef oedd Tywŷſog yr Apoſtolion, etto 'r gwŷr hŷn a'u trinaſant ef fellu, fel a gwnaethant iddo o'r diwedd ofni morwŷn wael.

Heblaw hŷn, mae eu Brenin hwŷ'n barod wrth eu chwibanniad, Nid ŷw ef un amſer allan o glŷw iddŷnt; Ac os ar rŷw amſer a digwŷdd gael o honŷnt y gwaethaf (os bŷdd poſſibl) efe a ddaw ei hun i mewn iw cynnorthwyo hwŷnt; Ac am dano ef a gellir dywedŷd gyda yr hŷn a ddywedir am y *Leſiathan*; Cleddŷf yr hwn a'i carawo ni ddeil; Y waŷw-ffon, y biccell, na'r llurig; Efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phrês fel pren pwdr; Ni phâr ſaeth iddo ffoi; Cerrig taſl a droed iddo yn ſoſl; Piccellau a gyfrififf fel ſoflŷn, ac efe a chwardd wrth yſgwŷd Gwaŷw-ffon (*Job* 41. 26. &c) Pa beth a all Gŵr wneuthur yn y cyflwr hwn? Gwir ŷw, pedtai gan ŵr farch *Job* bôb amſer, a medr a grymmuſder iw farchogaeth ef, ſe a allai wneuthur pethau nodedig (*Job* 39. 20. &c) Ni ddychryna ef fel ceiliog y rhedŷn: Dychrŷn ydŷw ardderchawgrwŷdd ei ffroen ef; Ei draed ef a gloddiant yn y Dyffrŷn, ac efe a lawenycha yn ei gryfdwr; Ac efe a allan i gyfarfod Arfau; Efe a ddiyſtyra arſwŷd Ac ni ddychryn ef; Ac ni ddychwel yn ei ôl rhag y cleddŷf: Y cawell ſaethau a dryſtla yn ei erbŷn ef, y ddiſclair waŷwffon ar Darian; Efe a lwngc y Ddaiar gan greulondeb a chy-

chynddaredd, ac ni chrêd ef mai llais yr Udcŷrn ŷw; Efe a ddywed ymhlith yr Udcŷrn, ha, ha, ac a arogla ryfel o bell, Sŵn Tywŷsogion a'r bloeddio.

Ond am y fâth wŷr traed a thi a minneu, na fydded i ni bŷth ddymumo cyfarfod a Gelŷn, nag ymffrostio (fel pa gallem ni wneuthur yn well) pan glywom i eraill gael eu maeddu; Nag ymfalchio wrth feddwl a'm ein gwroldeb ein hunain; Canŷs y cyfrŷw rai yn fynnychaf a orchfygir pan brofir hwŷnt: I mae'r Apostol *Peder* yn esampl yn y matter ymma, am yr hwn a crybwŷllais i o'r blaen; Efe a swagreu, ie a pha beth nis gwnai? Efe a wnai (megis yr oedd ei galon dwŷllodrus yn ei annog ef i ddywedŷd) fwŷ na nêb, ac a safai gyda'i feistir pan adawai pawb ef: Ond pwŷ a gafodd y fâth wrthwŷnebiad, a phwŷ a orchfygwŷd gan y dihirwŷr hŷn, fel a gorchfygwŷd ef?

Nyni a ddylem gan hynnŷ gyflawni dau ddyledswŷdd, pan glywom wneuthur y fâth anrheithiadau ar ffordd fawr y Brenin; Yn gyntaf Ein harfogi ein hunain pan elom allan ynghŷlch ein gorchwŷlion, a bôd yn siwr i gymmerŷd ein Tarian gyda ni; Canŷs dymma'r achos (sef am ei fôd heb y Darian hon) paham a methodd yr hwn a osododd mor gefnog ar y *Leviathan* ei orchfygu ef; Canŷs mewn gwirionedd os bŷdd honno yn eisiau, nis ofna ef monom ni: Am hynnŷ dywedodd yr hwn oedd fedrus, Uwch law pôb dim cymmerwch Darian y ffŷdd, âr hwn a gellwch ddiffoddi hôll Biccellau tanllŷd y fall (*Ephesiaid 6. 16.*)

Dâ fyddai, i ni hefŷd alw ar y Brenin am help; Ie ar iddo ddyfod ei hun gyda ni: Canŷs dyna'r peth a wnaeth i *Ddafŷdd* orfoleddu pan oedd ef yn Nyffrŷn Cyscod Angeu; A gwell oedd gan *Forsyn* farw yn y fann lle'r oedd ef yn sefŷll, na myned

 cym

cymmaint ag un cam heb ei Dduw gydag ef: O fy mrawd! Os efe â gyda ni, nid rhaid i ni ofni Myrdd. iwn o rai a ymoſodo yn ein herbŷn; Ond hebddo ef y cynnorthwŷwŷr beilchion a grynant, ac a ſyrthiant (*Pſalm* 23. 4. & 27. 1, 2, 3. *Exodus* 33. 15. *Job* 9. 13.)

O'm rhan i, myfi a ſum yn yr ymladdfa hon cŷn hŷn, ac er diangc o honoſ yn fŷw (trwŷ ddaioni a gallu yr Holl Alluog) etto, nid oes achos gennif i ymffroſtio am fyngwroldeb; Fe fŷdd dâ gennif oni chyſarfyddaf yn ôl hŷn a'r fâth ymdriniaeth; Er fy môd yn tybied nad aethom ni etto tuhwnt i bôb peryglon; Pa fôdd bynnag, gan na ddarfu ir Llew na'r Arth mo'n diſa hŷd yn hŷn, yr wŷf yn gobeithio heſŷd a gwared Duw ni oddiwrth y *Philiſtiaid* dienwaededig neſſaf; Yna a canodd Criſtion fel hŷn.

Ychydig ffŷdd, pa le buoſt di?
Ai ynghwmpeini lladron?
Ai fellu 'gwnaeth yr enwir blâ,
Ai'th bocced a 'ſpeiliaſon?

Cais gan hynnŷ ychwaneg ffŷdd,
Os mynni dorfeudd orfod;
Fel hŷn dros ddengmil yr âi di,
Onide mae tri yn ormod.

Fellu hwŷ a aethant ymlaen, ac *Anwŷbodaeth* a'i canlynodd hŷdoni ddaethant lle yr oedd ffordd arall yn dyfod iw ffordd hwŷnt, yr hon a ymddangoſai mor uniawn ar ffordd oedd ganthŷnt hwŷ i fyned rhŷd-ddi: Ac ni wŷddent hwŷ ymma pa un or hdwŷ a gymmerent: Canŷs yr oedd pôb un yn union o'u blaen hwŷnt; Ac am hynnŷ hwŷ a faſaſant ymma dro i yſtyried; Ac fel yr oeddŷnt yn

yn myfyrio ynghŷlch y ffordd; Wele ŵr o wŷneb prŷd gô-ddû yn dyfod attŷnt, wedi ei ddilladu a gwîſc wen iawn; Ac yn gofŷn iddŷnt pa ham yr oeddŷnt yn ſefŷll yno? Hwŷthau a'u hattebaſant ef, eu bôd yn myned tua'r Ddinas Neſol, ond nis gwŷddent pa un o'r ddwŷ ffordd a gymmerent: Dilynwch fi ebŷr y Gŵr, canŷs yno yr ydwŷfinneu yn myned: Fellu hwŷ ai canlŷnaſant ef rhŷd y ffordd newŷdd, yr hon oedd yn arwain ir brif ffordd, A'r ffordd ymma bôb yn ychydig a oſgôodd ac a drodd, ac a'u dygodd hwŷn oddiwrth y Ddinas, Yr hon yr oeddent yn chewnnychu myned iddi; Hŷd onid oeddent mewn ychydig amſer wedi troi eu hwŷnebau oddiwrthi; Er hynny hwŷ ai canlŷnaſant ef; Ond ymhen ennŷd ſe a'u tywŷſodd hwŷ i rwŷd heb wybod iddŷnt; Yn yr hon a maglwŷd hwŷ ill dau, ſel na wŷddent pa beth a wnaent; Ac ar hynny y wiſc wen a ſyrthiodd oddiam Gefn y Gŵr dû; Yna gwŷbuaſt ymha le yr oeddŷnt; Ac yno a buont dros rŷw amſer yn cwŷno, ac yn ocheneidio, canŷs i roeddent yn methu dyfod allan o rhwŷd.

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrth ei gydymaith, yrawron yr wŷf yn gweled fy nghamgymeriad; Oni archodd y *Bugeiliaid* i ni ochelŷd y Gwenheithwr? I mae gennŷm brofiad yrawron mai gwir a ddywedodd y Gŵr doeth. ſef, y dŷn a ddywedo weniaith wrth ei gymydog, ſŷdd yn tanu rhwŷd iw draed ef (*Dihareb*ion 29. 5.)

Gobeithiol. Hwŷ a roddaſant i ni hefŷd yſcrifen o gyfarwŷddiad am y ffordd, ſel a gallem ei chadw hi yn ſiccrach; Ond ſe ddarfu i ni ollwng dros gôf ddarllen yn honno hefŷd, ac nid ymgadwaſom rhag llwŷbrau yr yſpeiludd; Yn hŷn yr oedd *Daſŷdd* yn ddoethach na ni; Canŷs ebŷr ef, (am weithredoedd dynnion) wrth eiriau dy weſuſau yr ym-

ymgedwais rhag llwŷbrau yr yſpeiludd (*Pſalm* 17. 4.) Fel hŷn a buant yn cwŷno ac yn ymofudio, am eu bôd mewn cyflwr caeth yn y rhwŷd: O'r diwedd, hwŷ a ganffuant ŵr mewn gwiſc ddifclair, yn dyfod tuagattŷnt a chwip o gŷrt mân yn ei law; Ac wedi iddo ddyfod attŷnt fe ofynnodd iddŷnt, o ba le yr oeddŷnt yn dyfod? A pha beth yr oeddŷnt yn ei wneuthur yno? Hwŷthau a ddywedaſant, mai Pererinod tlodion oeddŷnt yn myned tua *Seion*, ond wedi eu hudo allan o'u ffordd gan ŵr dû, wedi ei ddilladau mewn gwiſc wen; Yr hwn (ebŷr nhw) a archodd i ni ei ganlŷn ef; Canŷs yr oedd yntef (meddai ef) yn myned tuag yno hefŷd: Yna ebŷr hwn oedd a'r chwip yn ei law, *Gwenheithiwr* ydŷw ef a gau Apoſtol, yr hwn a ymrithiodd i rith Angel goleuni (*Diharebion* 29. 5. *Daniel* 11. 32. 2 *Corinthiaid* 11. 13, 14.) Fellu efe a dorrodd y Rhwŷd, ac a'u gollyngodd hwŷnt allan: Yna ebŷr ef wrthŷnt hwŷ, canlynwch fi, fel a goſodwŷf chwi ar eich ffordd drachefn; Fellu fe a'i dygodd yn eu hôl i'r ffordd, yr hon a adawſent hwŷ i ganlŷn y *Gwenheithiwr*: Yna fe a ofynnodd iddŷnt ymha le a lletteuaſoch neithiwr? Hwŷthau a attebaſant gyda'r *Bugeiliaid* ar y mynyddoedd hyfrŷd: Goſynnodd iddŷnt ymhellach oni chawſoch gan y *Bugeiliaid* yſcrifen o hyſpyſrwŷdd am y ffordd? Hwŷthau a attebaſant cawſom; Ond ebŷr ef pan oeddech yn ameu ynghŷlch y ffordd, a edrŷchaſoch chwi yn yr yſcrifen honno i gael cyfarwŷddiad amdani? Na ddo ebŷr nhwŷthau; Pa ham nas gwnaethoch fellu ebŷr yntef? Ni a anghofiaſom wneuthur hynnŷ ebŷr y Pererinod: Yna goſynnodd ef iddŷnt ymhellach, Oni rybuddiodd y *Bugeiliaid* chwi i ochelŷd y *Gwenheithiwr*? Do ebŷr nhw; Ond nid allem ni dybied mai'r Gŵr tafod-bêr ymma ydoedd ef (*Rhufeiniaid* 16. 18.)

Yna

Yna yn fy mreuddwŷd, mi a glywn yr un diſclair yn gorchymŷn iddŷnt orwedd i lawr; Yr hŷn pan wnaethant, eſe a'u curodd hwŷ'n doſt, i wneuthur iddŷnt gofio yn well y ffordd dda, yn yr hon a dylaſent rodio ynthi; Ac wrth eu chwipio hwŷnt, eſe a ddywedodd, Yr wŷfi yn argyoeddi, ac yn ceryddu y ſawl yr wŷf yn eu caru: Am hynnŷ bydded zêl gennit, ac edifarha: Ac wedi iddo wneuthur fellu, eſe a archodd iddŷnt fyned iw ffordd; Ac i fôd yn fwŷ gofalus i ddal ſulw rhagllaw ar Hyfforddiadau eraill y Bugeiliaid (*Deuteronomium* 25. 2. 2 *Chronicl* 6. 26, 27. *Datcuddiad* 3. 19.) Fellu hwŷ 2 ddiolchaſant iddo am ei holl garedigrwŷdd, ac a aethant yn araf rhŷd y ffordd unlon dan ganu.

Y ſawl ſŷ'n rhodio llwŷbrau'r Saint,
Edrychwch ſaint iw'r archoll,
A gafodd Pererinod gwâr;
Am fyned ar gyfyrgoll.

Mewn rhwŷdau, maglau, myglŷd maith,
Eu dal yn gaeth a wnaethwŷd,
Am eu gwaith nhw'n gwrthod gwîr
Gynghorion difŷr, dofwŷd.

Gwîr ydŷw iw gwaredŷdd púr,
Eu dwŷn o'u cûr, a'u cyſtudd:
Ond derbŷniaſant fflangell drwch,
Am hŷn cymerwch rybŷdd.

Ac yno ymhen ennŷd, hwŷ a ganfuant o hirbell un yn dyfod yn araf ei hunan rhŷd y ffordd fawr iw cyfarfod hwŷnt: Yna ebŷr Criſtion wrth ei gydymaith, Daccw ŵr a'i geſn tua Sion, ac i mae ef yn dyfod i'n cyfarfod ni.

Gobeithiol. Mi a'i gwelaf ef yn dyfod, edrychwn

attom ein hunain yrawron, rhag iddo yntef fôd yn Wenheithiwr hefŷd ; Fellu fe a ddaeth nes nes, ac o'r diwedd a ddaeth i fynu attŷnt ; A'i enw ef oedd *Athŷſt* (hynnŷ ŷw dŷn nad ŷw'n credu fôd Duw) ac efe a otynnodd iddŷnt i ba le yr oeddent yn myned ?

CRISTION. Yr ydŷm ni'n myned ebŷr Criſtion i Fynŷdd *Seion*.

Yna chwarddodd yr *Athŷſt* yn uchel iawn.

CRISTION. Pa ham yr ydŷchi yn chwerthin ebŷr Criſtion ?

Athŷſt. Yr ydwŷf yn chwerthin wrth weled eich anwybodaeth ; Ac am i chwi gymmerŷd cŷn ſlined hwrnai, Pan nad ydŷch debŷg i gael dim ond eich poen am eich llafur.

CRITSION. Pa ham Ddŷn ? Ai tybied yr wŷti na dderbynir monom ir Ddinas Nefol ?

Athŷſt. Eich derbŷn ! Nid oes mor fâth le ac yr ydŷch chwi'n breuddwŷdio amdano yn yr hôll fŷd ymma.

CRISTION. Ond mae ef yn y Bŷd a ddaw.

Athŷſt. Pan oeddwn i gartref yn fy ngwlâd fy hun, myfi a glywais rai yn ſiarad megis yr ydŷchi yrawron am y fâth Ddinas, ac wrth glywed hynnŷ, mi a ymadewais a'm Gwlâd, Ac a fum yn ymofŷn am y Ddinas hon er ys ugain mlynedd ; Ond ni bum i ddim cymhennhach (*Pregethwr* 10. 3.) Ac ni welais i fwŷ o honi na'r dŷdd cyntaf yr aethum allan.

CRISTION. Nyni a glywſom, ac yr ŷm ni yn credu fôd y fâth le iw gael.

Athŷſt. Oni baſai i minneu gredu hynnŷ pan oeddwn gartref ; Ni ddaethwn i cŷn belled a hŷn i ymofŷn amdani ; Ond gan na chefais i 'r fâth le (ac etto myfi a'i cawſwn pedfaſai iw chael ; Canŷs mi a aethŷm i ymofŷn am y Ddinas hon

ym-

ymhellach na chwi) yr wŷfi'n myned yn ôl drachefn; Ac mi a ymegniaf im cyſuro fy hun ar pethau a fwriais i ymaith y prŷd hwnnw, mewn Gobaith i fwŷnhau y pethau yr ydwŷt yn gweled yrawron nad ydŷnt iw cael

CRISTION. Yna ebŷr Criſtion wrth ei gyd-ymaith *Gobeithiol*, a'i gwir ŷw'r hŷn a ddywaid y Gŵr ymma.

Gobeithiol. Gwiliwch, un o'r gwenheithwŷr ydŷw ef; Cofiwch beth a goſtiodd i ni euſus am wrando ar y ſâth gyndeithion a rhain; Mai ef yn dywedŷd nad oes mor ſâth le a myn dd *Seion*? Oni welſom ni Bŷrth y Ddinas oddiar bennau y mynyddoedd hyfrŷd? Ac hefŷd onid ydym ni yrawron i fyw wrth ffŷdd, ac nid wrth olwg (2 *Corinthiaid* 5. 7.) Awn rhagom ebŷr *Gobeithiol*, rhag i'r Gŵr a'r chwip ein goddiwes ni drachefn.

Chwychwi a ddylaſech ddyſcu'r wers ymma i mi, yr hon a ddyſcafi yrawron i chwi; Fy mâb, paid â gwrando yr addŷſc a bair i ti gyſeilforni oddiwrth eiriau gwŷbodaeth (*Diharebion* 19. 27.) Fy mrawd (meddaſi) Paid a gwrando arno ef, a chredwn i gadwedigaeth yr enaid (*Hebreaid* 10. 39.)

CRISTION. Fy mrawd, ni ofynnais i mo'r cweſtiwn ymma i ti, o herwŷdd fy môd yn ammeu dim o'r gwirionedd, yr hŷn yr ŷm ni yn ei gredu, ond i'th brofi di; Ac i gael gweled ffrwŷth gonеſtrwŷdd dy galon: Ac am y Gŵr ymma, myfi a wn ei fôd ef gwedi ei ddallu gan Dduw'r bŷd hwn: Awn rhagom, gan wŷbod ein bôd yn credu'r Gwirionedd, yn yr hwn nid oes gelwŷdd (1 *Foan* 2. 21.)

Gobeithiol. Yr wŷf yn llawenychu yrawron, mewn gobaith i feddianu gogoniant Duw: Fellu hwŷ a droeſant eu ceſnau ar *Athŷſt*; Ac yntef a aeth i ffordd dan chwerthin.

Yna

Yna a gwelwn y Pererinod yn myned ymlaen, hŷdoni ddaethant i rŷw wlâd, lle yr oedd yr awel yn naturiol yn peri i ddynnion gyfcu (yn enwedig os Dieithraid fyddent) Ac ymma a dechreuodd *Gobeithiol* fôd yn farwedd iawn, ac yn drwmluog gan gyfcu ; Am hynnŷ ebŷr ef wrth Griftion, yr wŷfi yrawron mor gyfcedig, fel mai prin yr ydwŷf yn gallu cadw fy llygaid yn agored ; Gorweddwn ymma a chymmerwn gyntŷn.

CRISTION. Na wnawn (ebŷr ef) mewn môdd yn y Bŷd, rhag wedi cyfcu na ddeffrôm mwŷ.

Gobeithiol. Pa ham fy mrawd, melus ŷw hûn y gweithwr, fe allai yr hybir ni os cyfcŵn ychydig.

CRISTION. Onid ydŷch chwi'n cofio i un o'r *Bugeiliaid* beri i ni ochelŷd rhag y tîr a felltithwŷd ? Ei feddwl ef wrth ddywedŷd fellu oedd, am i ni ochelŷd cyfcu, am hynnŷ na chyfcwn fel rhai eraill, ond Gwiliwn a byddwn ſobor (1 *Theſſaloniaid* 5. 6.)

Gobeithiol. Yr wŷf yn cydnabod fy môd i ar fai ; A pha baſwn ymma yn unig, baſwn debŷg i gyfcu hŷd Angeu : Mi a welaf mai gwîr a ddywedodd y Gŵr doeth, Gwell ŷw dau nag un ; Trugaredd mawr a fu dy gymdeithas di i mi hŷd yn hŷn ; A thi a dderbynni wobr am dy lafur (*Pregethwr* 4. 9.)

CRISTION. Yna ebŷr Criftion, gadewch i ni ymddiddan ynghŷlch rhŷw beth buddiol, fel a bo i ni trwŷ hynnŷ ymgadw ein hunain yn effro.

Gobeithiol. O wŷllŷs fy nghalon ebŷr *Gobeithiol.*

CRISTION. Pa le a dechreuwn.

Gobethiol. Dechreuwn os gwelwch fôd yn ddâ ynghŷlch y môdd a dechreuodd Duw weithio Grâs ynom ni.

CRISTION. Ond ebŷr Criftion, mi a ganaf i chwi'n gyntaf y gân hon.

Pan

Pan fyddo 'r Duwiol werin,
A chwîc iw trwblo 'n dra-blin;
Gwrandawant yr ymddiddan clau,
Sŷdd rhwng y ddau Bererin.

A dyſcant gymrŷd cyffro,
A'u cadw eu hun yn effro;
Rhag cael arnŷnt ormod gwall,
A bôd i'r fall eu twŷllo.

Am hŷn, i'r ſawl ſŷ berffaeth,
Cwmpeini'r ſaint ſŷdd odiaeth,
I gadw eu llygaid rhag cau ynghŷd:
Er gwaetha'r yſprŷd diffaith.

CRISTION. Yna Criſtion a ddechreuodd, ac a ddywedodd, myfi a ofynnaf i chwi un cweſtiwn; Pa fôdd a daethoch chwi ar y cyntaf i feddwl am y pethau yr ydŷch chwi yrawron yn eu gwneuthur?

Gobeithiol. Ai meddwl yr ydŷch pa fôdd a daethŷm ar y cyntaf i ymofŷn am iechŷdwriaeth fy Enaid?

CRISTION. Ie, hynnŷ ŷw fy meddwl i.

Gobeithiol. Myfi a fum ennŷd o amſer yn cymmerŷd hyfrydwch yn y pethau a welid, ac a werthid yn ein ffair ni; Pethau 'rwŷf yn credu yrawron (pa baſwn yn eu canlŷn yn waſtadol) a faſent yn fy nwŷn i golledigaeth a diſtrŷw.

CRISTION. Pa bethau oeddent hwŷ?

Gobeithiol. Hôll dryſorau a chyfoeth y Bŷd; Ac hefŷd mi a gymmerais hyfrydwch mawr mwen Glothineb, Meddwdod, Tyngu, Rhegu (gan offrwm fy enaid ir Diawl) dywedŷd Celwŷdd, Aflendid, Torri'r Sabboth; A pha beth nis gwnawn i er go ſod o honof fy enaid mewn cyflwr o ddamnedigaeth

trwŷ

trwŷ hynnŷ? Ond deallais o'r diwedd wrth wrando ac yſtyried geiriau Duw, y rhai a glywais i allan o'ch genau chwi, ac hefŷd o enau *ffyddlon* ſendigedig (yr hwn a ddioddefodd farwolaeth yn *ffair Gwagedd* am ei ffŷdd a'i fuchedd Dduwiol) ſef, Mai diwedd y pethau hŷn ŷw marwolaeth (*Rhufeiniaid* 6. 21.) Ac mai oblegid y pethau hŷn, i mae digoſaint Duw yn dyfod ar blant yr anufuddod (*Epheſiaid* 5. 6.)

CRISTION. A ymroeſoch chwi yn ddioed i dderbŷn yr argyoeddiad hwnnw?

Gobeithiol. Na ddo, nid oeddwn yn ewŷllyſgar yn ddiatreg, i ddynabod y gwenwŷn a'r drŵg ſŷdd mewn pechod; Nar ddamnedigaeth ſŷdd yn ei ddilin ef; Ond pan ddechreuodd fy nghalon grynu dan y gair; Mi a ewŷllyſiwn gau fy llygaid yn erbŷn goleuni'r gair.

CRISTION. Ond pa beth oedd yr achos pa ham yr ymddygaſoch fel hŷn, tan weithredoedd cyntaf yr yſprŷd glân ynoch chwi?

Gobeithiol. Yr achoſion oeddŷnt, Yn gyntaf am nas gwŷddwn i mai gwaith yſprŷd Duw oedd yr argyhoeddiad ymma; Ac ni wŷbum i erioed o'r blaen mai trwŷ ddeffroad am bechod yr oedd Duw yn dechreu gweithio troiadigaeth pechadur; Yn ail yr oedd pechod yn ſelus etto i'm cnawd; Ac yr oedd yn anodd gennif ymadel ag ef; Yn drydŷdd Ni wŷddwn i pa fodd yr ymadawn a'm hên gymdeithion, gan mor ddymunol yr oedd eu cwmpeini, eu hymadroddion, a'u gweithredoedd gennif; Yn bedwaredd yr oedd yr oriau hynnŷ, yn y rhai yr argyhoeddid fi am fy mhechod, mor gyffrous, ac mor ddychrynllŷd i mi, fel na allwn gymaint a meddwl amdanŷnt heb arſwŷd yn fy nghalon.

CRISTION. Mae'n debygol wrth hynnŷ eich bôd weithieu yn cael eſmwŷthdra oddiwrth

y

y trwbwl yr oedd yr argyhoeddiadau ymma yn ei weithio ynoch.

Gobeithiol. Oeddwn yn ddiammeu, ond hwŷ a ddaent i'm côf drachefn; Ac yna a byddwn cynddrwg, ie yn waeth fy nghyflwr nag erioed o'r blaen.

CRISTION. Pa ham, beth oedd yn peri i chwi ailgofio'ch pechodau drachefn?

Gobeithiol. Llawer o bethau, Megis pan gyfarfyddwn a Gŵr Duwiol ar y ffordd, Y golwg arno ef (yr hwn oedd wedi troi oddiwrth ei bechodau) oedd yn fy argyhoeddi i, yr hwn ni throefwn etto oddiwrthŷnt; Ac yn nefaf pan glywn rŷwun yn darllain y Bibl, Neu pan glywn fôd rhai o'm cymmydogion yn gleifion; Neu fôd clôch yn canu Clul rhŷw un wedi marw: Ac hefŷd pan fyddwn clâf fy hunan, ac a meddyliwn a delai'r amfer, yn yr hwn a gorfyddai i mi farw megis eraill, Ac yn enwedig pan glown i am Angeu difyfed a ddigwŷddodd i rai o'm cymmydogion; Ond tiwnt i ddim pan feddyliwn a gorfyddai i mi fy hun ddyfod ir Farn ar fyrder.

CRISTION. Ond a allechi un amfer fwrw ymaith Euogrwŷdd pechod yn hawdd, pan gymerai atel arnoch trwŷ un o'r pethau hŷn?

Gobeithiol. Na allwn; Canŷs y prŷd hynnŷ, hwŷ a wafcent yn drymach ar fy nghydwŷbod; Ac yna os meddyliwn am droi yn ôl at fy mhechodau (er bôd gennif fwriad i ymadel a hwŷnt) fe fyddai hynnŷ boen dau ddyblig i mi.

CRISTION. A pha fôdd a gwnaech y prŷd hwnnw?

Gobeithiol. Mi a feddyliais fôd yn rhaid i mi wellhau fy muchedd; Onide ebŷr fi i mae'n ficcir gennif a byddaf damnedig.

CRISTION. A ddarfu i chwi ymegnio i wellhau

wellhau eich buchedd?

Gobeithiol. Do, gan droi nid yn unig oddiwrth fy mhechodau, Ond hefŷd oddiwrth bôb cwmpeini annuwiol a drygionus; Ac mi a ymroddais i gyflawni dyledſwŷddau crefyddol; megis Gweddio, Darllain, Galaru am fy mhechodau, dywedŷd y Gwîr wrth fy nghymydogion &c. Dymma'r pethau a wneuthum, a llawer eraill gormod iw hadrodd yn y man ymma.

CRISTION. A oeddŷch yn tybied eich bôd weithiau mewn cyflwr daionus?

Gobeithiol. Oeddwn dros ennŷd, Ond o'r diwedd daeth gofud ar fy ngwartha bendramwnwgl dracheſn; A hynnŷ wedi i mi wellhau fy muchedd.

CRISTION. Pa fôdd a digwŷddodd hynnŷ, gan eich bôd yrawron wedi adnewŷddu eich buchedd.

Gobeithiol. Yr oedd amrŷw o bethau yn peri ir gofud hwnnw ddyfod arnaf dracheſn; Yn enwedig y cyſrŷw ymadroddion a'r rhain, Ein hôll gyfiawnderau ydŷnt megis brattiau budron; Ni chyfiawnheir un cnawd trwŷ weithredoedd y ddeddf: Wedi i chwi wneuthur y cwbl ôll ag a orchymmynwŷd i chwi, dywedwch Gweiſion anfuddiol ydŷm (*Eſaŷ 64. 6. Rhufeiniaid 3. 20. Luc 17. 10.*) Ynghŷd a llawer mwŷ o'r fâth ymadroddion; Ac oddiwrth hynnŷ yr oeddwn yn ymreſymmu ynof fy hun fel hŷn: Os ydŷw fy hôll gyfiawnderau i fel brattiau budron, os ni chyfiawnheir un cnawd trwŷ weithredoedd y Ddeddf; Ac os nad ydŷm ond gweiſion anfuddiol wedi i ni wneuthur y cwbl ôll ag a orchymynnwŷd; Yna ffolineb mawr ŷw ceiſio'r Neſoedd trwŷ weithredoedd y Ddeddf: Mi a feddyliais hefŷd ymhellach fel hŷn; Os â gŵr mewn dyled i ſioppwr gant o bunau; A thalu am yr hŷn ôll a elo gantho o'r

ſiop

ſiop yn ôl hynnŷ. Etto er hynnŷ os bŷdd ei hên ddyled yn aros ar y Llyfr yn waſtadol heb ei groeſi, ſe eill y ſioppwr gwŷno arno am ei hên ddyled, a'i fwrw yngharchar hŷdoni thalo ef y ddyled honno.

CRISTION. Wele pa ddeunŷdd a wnaethoch o'r pethau hŷn?

Gobeithiol. Mi a feddyliais ynof fy hun fel hŷn; Myſi trwŷ fy mhechodau a redais ar yſcôr ymhell yn Llyfr Duw; Ac nad oedd fy ngwellhâd preſennol yn talu mo'r Dyled hwnnw; Ac am hynnŷ a dylwn i feddwl yn waſtadol (dan fy hôll gyfnewidiadau) pa fôdd a rhyddheid fi oddiwrth y ddamnedigaeth oedd ddyledus i mi am fy nhroſſeddiadau o'r blaen.

CRISTION. Deunŷdd dâ ydoedd hynnŷ, ertolwg ewch rhagoch.

Gobeithiol. Y peth arall am blinodd (er pan ddechreuais yn hwŷr wellhâu fy muchedd) ydoedd hŷn; Sef pan edrychwŷf yn fanwl ar y pethau goreu yr ydwŷf yn eu gwneuthur yrawron; yr wŷf yn canfod pechod yn waſtadol (ie pechodau newŷdd) ynghymŷſc a'm gweithredoedd goreu; Hŷd onid ydwŷf yn rhwŷm yrawron i farnu (er fy hôll feddyliau angall, a balch amdanaf fy hun, a'm Dyledſwŷddau o'r blaen) ddarfod i mi droſeddu digon wrth geiſio cyflawni un dyledſwŷdd, i beri fy nanſon i Uffern, ped faſai fy muchedd gŷnt yn ddifai.

CRISTION. A pha beth wedi hynnŷ a wnaethoch?

Gobeithiol. Nis gwŷddwn pa beth a wnawn, hŷdoni adroddais fy meddwl wrth *ffyddlon*; Canŷs yr oeddem ni yn gydnabyddus lawn a'u gilŷdd: Ac efe a ddywedodd wrthif, Oddigerth i mi gael Cyfiawnder un na phechaſai erioed; Nas gallai na'r elddof fy hun, na chyfiawnderau'r hôll Fŷd mo'm

mo'm hachub.

CRISTION. A oeddechi'n tybied ei fôd ef yn dywedŷd y wir?

Gobeithiol. Pedfaſai'n dywedŷd fellu wrthif pan oeddwn yn ymhyfrydu, ac yn ymfodloni yng. wellhâd fy muchedd: Mi a'i galwaſwn ef yn ynfŷd am ei boen; Ond yrawron, gan fy môd yn gweled fy ngwendid fy hun, a'r pechodau ſŷ'n glynu wrth fy nyledſwŷddau goreu, fe orfŷdd i mi fôd o'r un feddwl ac yntef.

CRISTION. Ond a oeddechi yn tybied (pan ddywedodd ef gyntaf hynnŷ wrthŷch) fôd y fâth ŵr iw gael; Am yr hwn a gellid dywedŷd yn hŷf na wnaeth ef bechod erioed?

Gobeithiol. I mae'n rhaid i mi gyfaddef fôd yn o ryfedd gennif glywed y geiriau hŷn ar y cyntaf; Ond yn ôl ymddiddan ag ef ymhellach, a chael o honof ychydig anghwaneg o'i gymdeithas, fe a rodd i mi gyflawn fodlonrhwŷdd am y peth.

CRISTION. A otŷnaſochi iddo ef pwŷ oedd y Gŵr hwn; A pha fôdd a caechi eich cyfiawnhau trwŷddo ef?

Gobeithiol. Do, ac efe a ddywedodd mai'r Arglwŷdd *Jeſu* oedd, yr hwn ſŷ'n eiſtedd ar ddeheulaw y Goruchaf (*Hebreaid* 10. *Rhufeiniaid* 4. *Coloſſiaid* 1. 2 *Peter* 1.) Ac fel hŷn (ebŷr ef) a cyfiawnheir chwi trwŷddo ef; Sef trwŷ ymddiried yn yr hŷn a wnaeth ef yn nyddiau ei gnawdoliaeth, a'r hŷn a ddioddefodd ef ynghrog ar bren: Mi ofynnais iddo ymhellach, pa fôdd a gallai cyfiawnder y gŵr hwn fôd yn effeithiawl i gyfiawnhau un arall ger bron Duw? Ac fe a ddywedodd mai y Daw Hôllalluog ydoedd ef; Ac iddo wneuthur yr hyn a wnaeth, a marw hefŷd, nid troſto ei hun, ond troſoſi; Ac a cyfrifid ei ufudd-dod ef, a'i haeddedigaethau i mi os credwn i-yntho.

CRE-

CRISTION. A pha beth a wnaethoch gwedi hynnŷ.

Gobeithiol. Myfi a wrth-ddywedais nas gallwn i gredu fôd Crîſt yn ewŷllyſgar i'm hachub.

CRISTION. Pa bêth a ddywedodd *ffyddlon* am hynnŷ?

Gobeithiol. Efe a archodd i mi fyned atto, a threlo pa un a wnai ef a'i f'achub i ai peidio; Yna minneu a'i hattebais, mai rhyfŷg oedd hynnŷ (*Matthew* 11. 28.) Yntef a ddywedodd nage; Canŷs fe'th wahoddwŷd i ddyfod atto: Yna fe a roddodd i mi lyfr o argraphiad *Feſu* ei hun, i'm hannog i ddyfod atto yn hyſach; Ac efe a ddywedodd am y Llyfr hwnnw, fôd pôb mymrŷn o hono ef yn fwŷ parhaus a ſaſadwŷ na'r Nefoedd a'r Ddaſar (*Matthew* 24. 35.) Yna mi a ofynnais iddo, pa beth a wnawn pan ddelwn atto? Yntef a ddywedodd wrthŷf, fôd yn rhaid i mi grefu (ar fy ngliniau a'm hôll galon, ac a'm hôll Enaid) ar y Tâd, am ei ddatcuddio ef i mi (*Pſalm* 95. 6. *Jeremi* 29. 13.) Wedi hynnŷ mi ofynnais iddo ymhellach, ymha le a gallwn i gael cyfarfod ag ef? Ac yntef a'm hattebodd; Dôs, a thi a gai ei gyfarfod ef ar orſeddfa Trugaredd (*Exodus* 25. 22.) Lle y mae'n eiſtedd trwŷ'r hôll fiwŷddŷn, i roddi gollyngdod a maddeuant i'r ſawl a ddelant atto; Minneu a ddywedais nas gwŷddwn i pa beth iw ddywedŷd wrtho, pan ddown atto: Yna ebŷr ef, dywed wrtho i'r pwrpas hwn; Duw bŷdd drugarog wrthif Bechadur; A phar i mi ddynabod *Feſu Grîſt*, a chredu yntho: Canŷs mi welaf, pedſaſai ei gyfiawnder ef heb fôd, ac oni bŷdd gennif inneu ffŷdd i gredu y cyfiawnheir fi, trwŷ ei gyfiawnder ef, ddarfod amdanaf yn dragywŷdd: Arglwŷdd mi a glywais dy fôd di yn Dduw trugarog, ac i ti ordeinio dy Fâb Ieſu Grîſt i fôd

yn lachawdwr y Bŷd: Ac ymhellach, dy fôd di yn ewŷllysgar iw roddi ef, i fôd yn Achubwr i'r fâth Bechadur truan ag ydwŷfi (ac yn wîr yr wŷfi yn Bechadur mawr) Cymmer gan hynnŷ Arglwŷdd yr odfa hon, a gogonedda dy râs ynghadwedigaeth fy Enaid i, trwŷ dy fâb Iesu Grîst. *Amen.*

CRISTION. A wnaethoch chwi fel a gorchs ymynwŷd i chwi?

Gobeithiol. Do dracheſen, a thrachefn.

CRISTION. A ddarfu i Dduw ddatcuddio ei Fâb i chwi?

Gobeithiol. Na ddo y tro cyntaf na'r all, na'r drydŷdd, na'r bedwaredd, na'r bummed, nac etto ar y chweched waith.

CRISTION. Pa beth a wnaethoch yn ôl hŷnnŷ?

Gobeithiol. Pa beth a wneuthŷm? Nis gwŷddwn i pa beth a wnawn.

CRISTION. Oni feddyliaſochi roddi heibio weddio?

Gobeithiol. Dô gantoedd o weithiau.

CRISTION. A phaham nas gwnaethoch fellu?

Gobeithiol. Am fy môd yn credu mai gwir oedd yr hŷn a ddywedwŷd wrthif; Sef heb gyfiawnder Crîſt nas gallai'r hôll Fŷd fy achub i: Ac am hynnŷ mi a feddyliais ynof fy hunan; Os rhoddaf heibio weddio, marw a fyddaf; Ac nis gallafi ond marw, os gweddiaf o flaen Gorſeddfaingc y Grâs: Ac ar hynnŷ fe ddaeth y geiriau hŷn im côf; **Os erys y weledigaeth, diſgwyl amdani; Canys gan ddyfod a daw, ac nid oeda** (*Habaccuc* 2 3.) Fellu mi ddyfal barhais yn gweddio, hŷd oni ddatcuddiodd Duw ei Fâb i mi.

CRISTION. A pha fôdd a datcuddiodd Duw ef, i chwi?

Gobeithiol. Ni welais i mono ef a'm llygaid corphorol, ond a golwg o ffŷdd, Gan fôd llygaid fy

fy meddwl wedi goleuo (*Epheſiaid* 1. 18.) Ac fel hŷn a bu: Yr oeddwn ar Ddiwrnod yn athriſt iawn (i'm tŷb i yn driſtach nag a bum i un amſer o'm heinioes) ar triſtwch hwn a ddaeth arnaf wrth weled o newŷdd ſawredd a ffieidd-dra ſy mhechodau: A phan nad oeddwn y prŷd hwnnw yn diſgwŷl am ddim ond am Uffern, a damnedigaeth Tragywŷddol i'm henaid; Mi a dybiais yn ddiſymmwth weled o honof yr Arglwŷdd yn edrŷch i lawr o'r Nefoedd arnaf, ac yn dywedŷd wrthif Crêd yn yr Arglwŷdd Ieſu, a chadwedig fyddi (*Actau* 16. 30, 31.)

Ond myfi a attebais, Arglwŷdd yr wŷf yn Bechadur, O yn Bechadur mawr dros ben: Yntef a attebodd, **Digon i ti fy 'ngras i**; Yna a dywedais inneu, Arglwŷdd pa beth ŷw Credu? Ac wedi hynnŷ a deallais i'oddiwrth yr ymadrodd ymma, Yr hwn ſŷ'n dyfod attafi ni newŷna; A'r hwn ſŷ'n credu ynofi ni ſycheda un amſer (*Foan* 6. 35.) Yr un peth ŷw credu Yng-Hriſt a dyfod atto: A bôd yr hwn ſŷdd yn dyfod atto, Sef ſŷ'n ſychedu yn ei galon yn ôl Iechŷdwriaeth trwŷ Griſt, mae hwnnw (meddafi) yn credu yntho mewn gwirionedd: Yna a'r dwfr yn ieſŷll yn fy llygaid, mi a ofynnais iddo ymhellach; Arglwŷdd, a ddichon y fâth Bechadur mawr ag wŷfi gael ei dderbŷn gennit, a bôd yn gadwedig trwŷddot? Ac yntef a attebodd, Yr hwn a ddel attaf nis bwriaf ef allan ddim (*Foan* 6. 37.) Yna mi a ddywedais, Pa fôdd Arglwŷdd a mae'n rhaid i mi dy yſtyried di wrth ddyfod attad; Fel a byddo fy ffŷdd wedi ei goſod yn union arnati? Yna fe a ddywedodd, Criſt Ieſu a ddaeth i'r Bŷd i gadw'r pechaduriaid (1 *Timotheus* 1. 15.) Criſt ŷw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bôb un ſŷ'n credu (*Rhufeiniaid* 10. 4.) Efe a draddodwŷd tros ein pechodau

odau ni, ac a gyfodwŷd i'n cyfiawnhau ni (*Rhufeiniaid* 4. 25.) Efe a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau a'i waed ei hun (*Datcuddiad* 1. 5.) Efe ŷw y cyfryngwr rhwng Duw a nyni (1 *Timotheus* 2. 5.) I mae ef yn fŷw bŏb amſer i weddio troſom ni (*Hebreaid* 7. 24, 25.) Oddiwrth yr hŷn ôll ceſglais a bŷddai rhaid i mi ddiſgwŷl am gyfiawnder yn unig yn ei Berſon ef, ac am lawn tros fy mhechodau trwŷ ei waed ef, ac nid trwŷ ddim arall: Ac mi a geſglais ymhellach, fŏd yr hŷn a wnaeth ef mewn ufudd-dod i gyfraith ei Dâd, a'i ddaroſtyngiad ef i ddioddef coſpedigaethau, am waith rhai yn troſeddu'r gyfraith honno (fŏd hŷn ôll meddafi) wedi ei wneuthur, nid troſto ei hun, Ond tros y ſawl a'i derbyniai ef yn iachawdwr iddŷnt, ac a fyddai diolchgar iddo; Ac yrawron yr oedd fy nghalon yn llawn o lawenŷdd, fy llygaid yn llawn o ddagrau, ac yr oedd gennif ſerch rhyfeddol tuagat Enw, a Phobl, a Ffŷrdd yr Arglwŷdd Ieſu Grîſt.

CRISTION. Dymma ddatcuddiad o Grîſt i'ch Enaid mewn gwirionedd; Ond dywedwch i mi yn fwŷ neilltuol, pa beth a weithiodd hŷn yn eich yſprŷd chwi.

Gobeithiol. Fe wnaeth hŷn i mi weled fod yr hôll Fŷd, (er eu hôll gyfiawnderau) mewn ſtâd o ddamnedigaeth: Fe wnaeth i mi weled er bŏd Duw 'r Tâd yn gyfiawn, a geill ef er hynnŷ ſgŷd gyfiawnhau y pechadur a ddêl atto; Fe wnaeth hŷn i mi gywilŷddio yn fawr am fryntni fy muchedd gŷnt; Ac fe a'm gwradwŷddwŷd i'n fawr, wrth feddwl faint oedd fy hên Anwŷbodaeth; Canŷs ni feddyliodd fy nghalon i erioed o'r blaen, fŏd Ieſu Grîſt mor brydferth, a'm hŏd i yn ſefŷll (fel a mae pawb eraill) mewn diffŷg o hono, I'm glanhau a'm cyfiawnhau, a'm cadw

rhag

rhag uffern, ac i roi i mi fywŷd tragywŷddol: Fe wnaeth hŷn i mi garu buchedd ſanctaidd, a hiraethu am wneuthur rhŷw-beth, er Anrhydedd a Gogoniant i Enw'r Arglwŷdd Ieſu; Ie yr wŷfi'n tyb, ied yrawron, pa bae boſſibl fôd gennifi Fil o Alwŷni o waed yn ty ngorph, a gallwn i golli pôb dafn o hono er mwŷn yr Arglwŷdd Ieſu.

Yna gwelwn (yn fy mreuddwŷd) *Obeithiol* yn edrŷch o'i ôl, ac efe a gantu y Gŵr a elwid *Anwŷbodaeth* (yr hwn a adawſent ar eu hôl) yn eu canlŷn hwŷnt; Gwelwch ebŷr ef wrth Griſtion, fel a mae y glâs-langc accw yn loetrio ar ein hôl.

CRISTION. Ie, mi a'i gwela ef, ond ni waeth gantho fawr am ein cwmpeini ni.

Gobeithiol. Ond yr ydwŷfi'n tybied na chawſei ef niweid yn y Bŷd o'n canlŷn ni hŷd yn hŷn.

CRISTION. Gwir iawn ŷw hynnŷ, ond mi a wrantaf i chwi ei fôd e'n meddwl yn amgen.

Gobeithiol. Fellu yr wŷf inneu yn tybied heſŷd; Ond er hynnŷ gadewch i ni aros amdano ef, Ac fellu a gwnaethant: Yna Criſtion a alwodd arno, gan ddywedŷd wrtho, Dowch ymlaen ŵr, paham yr ydŷch yn ſeſŷll o'r ôl yn y môdd yna?

Anwŷbodaeth. I mae'n fwŷ dewiſol gennifi rodio ar fy mhen fy hunan, na chyda cwmpeini, oni bae fy môd yn caru y cwmpeini hwnnw yn well na'ch cwmpeini chwi.

Yna ebŷr Criſtion yn ddiſtaw wrth *Obeithiol*; Oni ddywedais i wrthŷch chwi, nad oedd ſatter gantho ef am ein cymdeithas ni? Ond pa fôdd bynnag ebŷr ef, dowch a ſiaradwn a'i gilŷdd i ddifyrru'r amſer yn y lle anghyfannedd hwn. Yna gan ymroi i ymadrodd ag *Anwŷdodaeth*, fe a ddywedodd wrtho; Pa fôdd yr ydych? Pa fôdd a mae'r matter yn ſeſŷll rhwng Duw a'ch Enaid chwi yrawron?

Anwŷbodaeth. O'r goreu rwŷf yn gobeithio; Canŷs yr wŷf bòb amſer yn llawn o gynhyrfiadau Duwiol, y rhain a redant ar fy meddyliau I'm cyſuro yn fy nhaith. (*Diharebion* 28. 26.)

CRISTION. Attolwg dywedwch I mi pa gynhyrfiadau dâ ydŷw'r rheini?

Anwŷbodaeth. Yr ydwŷf yn meddwl am Dduw, ac am y Nefoedd.

CRISTION. I mae'r Diawlaid, ac eneldiau'r damnedig yn gwneuthur hynnŷ hefŷd.

Anwŷbodaeth. Ond yr ydwŷfi yn meddwl am danŷnt, ac yn dymuno cael eu mwŷnhau hwŷnt.

CRISTION. Fellu a mae llawer yn dymuno er nad ydŷnt debygol fyth I ddyfod ir Nefoedd: Enaid y Diog a ddeiſyf ac ni chaiff ddim (*Luc* 13. 24. *Diharebion* 13. 14.)

Anwŷbodaeth. Ond yr ydwŷfi yn meddwl am danŷnt, ac mi a ymadewais a'r cwbl er mwŷn cael eu mwŷnhau hwŷnt.

CRISTION. Yr wŷf yn ammeu hynnŷ; Canŷs matter caled ydŷw ymadel a'r cwbl; Ie i mae'n beth anhawſach iw wneuthur nag a mae llawer yn ei dybied: Ond pa beth ſŷdd yn dy berſwaedio di I goello dy fôd ti wedi ymadel a'r cwbl er mwŷn Duw a'r Nefoedd?

Anwŷbodaeth. I mae fy nghalon yn tyſtiolaethu i mi hynnŷ.

CRISTION. Y gŵr doeth a ddywed, y neb a ymddiriedo yn ei Galon ei hun ſŷdd ffôl (*Diharebion* 28. 26.)

Anwŷbodaeth. I mae fe'n ſôn (yn y mann hwnnw) am Galon ddrŵg; Ond I mae fy nghalon I yn galon ddâ.

CRISTION. Pa fôdd a gwŷddoſti hynnŷ?

Anwŷbodaeth. Am fôd fy nghalon yn fy nghyſuro i, mewn gobaith a caſi'r Nefoedd.

CRIS-

CRISTION. Fe eill hynnŷ fôd trwŷ dwŷll dy galon di; Canŷs ſe all calon Dŷn ei gyſuro ef mewn gobaith o rŷw beth, na bo gantho ddim Sail i obeithio am dano (*Jeremi 17. 9.*)

Anwŷbodaeth. Ond i mae fy nghalon i am buchedd yn gyfattebol iw gilŷdd, ac am hynnŷ i mae gan fy ngobaith i ſylfaen ddâ.

CRISTION. Pwŷ a ddywedodd wrthit ti fôd dy galon a'th Fuchedd yn cydtuno a'u gilŷdd?

Anwŷbodaeth. Fy nghalon ſŷ 'n dywedŷd fellu wrthif.

CRISTION. Os gofynnir i Fam pwŷ ſŷ Leidr? Hi a atteb, nid fy mâb i (er ei fôd ef yn lleidr) fellu os dywaid dy galon di, ei bôd hi a'th fuchedd yn cydtuno a'u gilŷdd; Oni bŷdd gair Duw yn dwŷn yr un tyſtiolaeth yn y matter ymma, ni thâl tyſtiolaeth dy galon di ddim.

Anwŷbodaeth. Onid ydŷw'r Galon honno yn ddâ, yn yr hon a mae meddyliau dâ? Ac onid Buchedd ddâ ydŷw 'r hon ſŷ wedi ei threfnu yn ôl Gorchymynnion Duw?

CRISTION. Gwîr ydŷw, mae calon ddâ ydŷw'r galon honno, ymha un a mae meddyliau dâ yn aros; A buchedd ddâ ydŷw 'r fuchedd honno, ſŷdd yn gyſattebol i orchymynion Duw; Ond un peth ŷw bôd y rhain mewn gwirionedd ynom, a pheth arall ŷw tybied eu bôd nhw gennŷm.

Anwŷbodaeth. Ertolwg pa feddyliau yr ydŷch chwi yn eu cyfrif yn feddyliau dâ? A pha fuchedd yr ydŷchi yn cyfrif ei fôd yn gyſattebol i orchymynion Duw?

CRISTION. I mae amrŷw fâth o feddyliau dâ, rhai yn perthŷn i ni ein hunain, rhai i Dduw, a rhai i Griſt, a rhai i bethau eraill.

Anwŷbodaeth. Pa rai ŷw'r meddyliau dâ, ſŷdd yn perthŷn i ni ein hunain?

CRISTION. Y rhai ſŷdd yn gytunol a gair Duw?

Anwŷbodaeth. Pa brŷd a mae'n meddyliau amdanom ein hunain yn gydtunol a gair Duw?

CRISTION. Pan fyddom yn rhoddi yr un farn arnom ein hunain ag i mae'r Gair yn ei roddi: Ond i wneuthur y peth yn eglurach, i mae gair Duw yn dywedŷd am ddynnion (yn eu cyflwr natuaiol) fel hŷn; Nid oes neb cyfiawn nag oes un: Nid oes un yn gwneuthur daioni (*Rhufeiniaid* 3. 10, 12. *Geneſis* 6. 5. & 8. 21.) Mae'r gair yn dywedŷd hefŷd fôd hôll feddylfrŷd calon dŷn yn unig yn ddrygionus bôb amſer; A thrachefn, fôd calon dŷn yn ddrygionus o'i ieuengctid; Yrawron pan fo gennŷm y fâth dŷb a hŷn amdanom ein hunain (gan fôd teimlad o hynnŷ yn ein calonnau) yna mae'n meddyliau yn ddâ, o herwŷdd eu bôd yn gydtunol a gair Duw.

Anwŷbodaeth. Ni choeliaf i bŷth fôd ſy nghalon i cynddrwg a hŷn.

CRISTION. Am hynnŷ ni bu gennîc erioed yn dy hôll fywŷd gymmaint ag un meddwl dâ am danat dy hun; Ond dyro gennad i mi i ddywedŷd hŷn wrthit ymhellach; Megis y mae Gair Duw yn rhoddi Barn ar ein calonnau; Fellu hefŷd i mae'r un gair yn rhoddi barn ar ein ffŷrdd; A phan fyddo ein barn ni ein hunain ynghŷlch ein calonnau a'n ffŷrdd, yn cydtuno a'r farn y mae gair Duw yn ei roddi arnŷnt, yna mae'r ddau yn ddâ, am eu bôd yn cydtuno a gair Duw.

Anwŷbodaeth. Eglurhewch eich meddwl yn well.

CRISTION. Y mae gair Duw yn mynegi fôd ffŷrdd dŷn yn geimion; Ac nid yn ddâ, ond yn llygredig; A bôd dynnion (trwŷ naturiaeth) allan o'r ffordd ddâ, heb'ei dynabod hi (*Diharebion* 2. 15. *Rhufeiniaid* 3. 12. 17.) Yrawron pan fo dŷn wedi

wedi cael prawf o hŷn ôll yntho ei hunan; A phan fo'n oſtyngedig yn barnu fel hŷn amdano ei hun a'i ffŷrdd; yna i mae'n meddwl yn ddâ am ei galon a'i ffŷrdd; oblegid fôd ei farn ef yrawron yn cyd. tuno a barn gair yr Arglwŷdd.

Anwŷbodaeth. Pa beth ŷw meddyliau dâ am Dduw?

CRISTION. Pan fyddom (megis a dywedais am danom ein hunain) yn meddwl am Dduw, yn ôl yr hŷn a mae ei air yn ei oſod allan; hynnŷ ŷw, pan fyddom yn meddwl ei fôd ef yn Bôd, a'i briodolaethau ef, megis a'n dyſgir gan ei air; Am yr hŷn nis gallaf yrawron draethu yn helaethach: Ond o ddywedŷd amdano mewn perthyniad i ni ein hunain, i mae gennŷm y prŷd hwnnw dŷb dâ, a chymmwŷs am Dduw, pan fyddom yn meddwl ei fôd ef yn ein dynabod ni yn well nag yr ŷm ni yn ein dynabod ein hunain; Ac a geill ef weled pechod ynom, y prŷd ar man na chanffyddom ni mono ynom ein hunain, a phan ydŷm yn cydnabod ei fôd ef yn gwŷbod ein meddyliau dirgelaf, a bôd ein calonnau, a'u hôll ddwfn fwriadau bôb amſer yn noeth, ac yn agored iw olygon ef: Ac heſŷd pan ydŷm yn tybied fôd ein hôll gyfiawnderau ein hunain yn drewi yn eu ffroenau ef; Ac am hynnŷ nas geill ef aros ein gweled ni yn ſefŷll yn ei wŷdd ef, pan fôm yn hyderu ar ein cyfiawnderau ein hunain, ie neu ar ein dyledſwŷddau goreu i gael iechŷdwriaeth trwŷddŷnt.

Anwŷbodaeth. Ydŷchi 'n tybied ſy môd i mor ynfŷd, a meddwl nad eilll Duw weled dim pellach nag a gallaſi weled? Neu a down i at Dduw drwŷ hyderu ar fy Nyledſwŷddau fy hun er cyſtal a ſont hwŷ?

CRISTION. Pa fôdd yr wŷt ti yn meddwl yn y pwngc ymma?

Anwŷb.

Anwŷbodaeth. Wele, o fôd yn fŷrr, yr wŷfi'n meddwl fôd yn rhaid i mi gredu yng-Hrîſt am gyfiawnhâd.

CRISTION. Pa fôdd! Tybied yr wŷt fôd yn rhaid i ti gredu yng-Hrîſt, cŷn gweled o honot ei elſieu ef? Nid wŷti yn gweled ynot na phechod gwrelddiol, na phechod gweithredol; Ond mae gennit y fâth dŷb dâ amdanat dy hunan a'th weithredoedd, a'r ſŷ'n dangos yn eglur dy fôd ti 'r fâth un na wŷbu erioed fôd yn rhaid i ti wrth y cyfiawnder a gyflawnodd Crîſt yn ei Berſon ei hun, i gyfiawnhau pechaduriaid edifeirlol trwŷddo ger bron Duw; Pa fôdd gan hynnŷ a llyſeſi di ddywedŷd dy fôd ti'n credu, neu fôd yn rhaid i ti gredu yng-Hrîſt.

Anwŷbodaeth. Yr wŷfi'n credu yntho yn ddâ ddigon er hynnŷ.

CRISTION. Pa fôdd yr wŷti'n credu?

Anwŷbodaeth. Yr wŷfi'n credu i Griſt farw dros Bechaduriaid; Ac a cyfiawnheir fi ger bron Duw oddiwrth y felltith, trwŷ ei raſol dderbyniad ef o'm hufudd-dod i iw gyfraith: Neu fel hŷn; I mae Crîſt yn gwneuthur fy nyledſwŷddau creſyddol i, yn gymmeradwŷ gyda ei Dâd, Trwŷ rinwedd ei haeddedigaethau ei hun, a dyna 'r môdd a câf fy nghyfiawnhau.

CRISTION. Yr wŷf yn atteb i'r gyffes ymma o'th ffŷdd di.

Yn gyntaf, Nid ŷw dy ffŷdd di ond ffŷdd dwŷllodrus; Ac nid ŷw hi'n gynnwŷſedig mewn un rhan o air Duw.

Yn ail, Ffŷdd ffals ŷw dy ffŷdd di am dy fôd ti yn ymwrthod a chyfiawnhâd, trwŷ 'r cyfiawnder a gyflawnodd Crîſt yn ei Berſon ei hun; Ac am dy fôd ti heſŷd yn diſgwŷl am gael dy gyfiawnhau, trwŷ dy weithredoedd dy hunan.

Yn

Yn drydŷdd, Nid ŷw dy ffŷdd di yn gwneuthur Crîſt yn gyfiawnwr o'th Berſon, ond o'th weithredoedd di, Ac yn gyfiawnwr o'th Berſon di er mwŷn dy weithredoedd, Yr hŷn ſŷdd ffals.

Yn bedwerŷdd, Am hy nŷ mae dy ffŷdd di yn dwŷllodrus; Ie i mae hi 'n y fâth un, ac a'th âd di dan ddigoſaint yn nŷdd y Duw Hôll alluog; Canŷs i mae y wîr ffŷdd (trwŷ ba un i'n cyfiawnheir) yn peri ir eneldiau (ſŷ'n deimladwŷ o'u cyflwr colledig trwŷ'r gyfraith) redeg am noddfa at gyfiawnder Crîſt, i gael eu cyfiawnhau trwŷ hynnŷ. A'r cyfiawnhâd ymma nid ŷw weithred o râs, trwŷ ba un a mae Crîſt yn gwneuthur dy ufudd-dod di yn gymmeradwŷ gyda Duw i'r diben hwn; Fel a bo i ti gael dy gyfiawnhau trwŷ dy ufudd-dod dy hun: Ond gweithred o râs ŷw 'r cyfiawnhâd hwnnw, Trwŷ ba un a mae'r enaid yn cael ei gyfiawnhau er mwŷn yr ufudd-dod a gyflawnodd Crîſt yn ei Berſon ei hun, gan wneuthur a dioddef troſom ni, yr hŷn ôll a mae'r gyfraith yn ei oſŷn ar ein dwŷlo ni) y cyfiawnder hwn (meddafi) o eiddo Crîſt, i mae gwîr ffŷdd yn ei dderbŷn; Tan aden pa un y mae'r enaid yn llechu; A chwedi ei gyflwŷno yn ddi frycheulŷd, yn y cyfiawnder ymma ger bron Duw, i mae'n cael ei dderbŷn yn gymmeradwŷ gydag ef; Ac yn cael ei waredu oddiwrth ddamnedigaeth tragywŷddol.

Anwŷbodaeth. Pa beth! A fynnwchi i ni ymddiried yn yr hŷn a wnaeth Criſt yn ei Berſon ei hun hebom ni? Y cyfrŷw dŷb a hon a ollyngai attaliadau ein hawŷdd yn rhŷddion; Ac a oddefai i bôb un fŷw fel a mynno: Canŷs ni waeth pa fôdd a byddom bŷw, ôs cawn ni ein cyfiawnhau trwŷ gyfiawnder perſonol Crîſt, oddiwrth ein hôll feiau, ond i ni gredu hynnŷ.

CRISTION. Anwŷbodaeth ŷw dy enw; Ac fel

fel a mae dy enw, fellu hefŷd i mae dy ddealltwriaeth; A'th attebion di a wiria yr hŷn yr wŷt yn ei ddywedŷd: Yr wŷt ti yn anghydnabyddus a chyfiawnder Criſt, trwŷ ba un i'n cyfiawnheir; Ac yr wŷt ti 'n Anghydnabyddus hefŷd ar môdd i gadw dy enaid trwŷ ffŷdd yntho ef, oddiwrth bwŷsfawr ddigoſaint Duw: Ie yr wŷt ti yn Anghydnabyddus a gwir ffrwŷthau bŷwiol ffŷdd ynghyfiawnder Criſt, ſef i blygu ac i ennill y galon at Dduw yng-Hriſt, i garu ei enw, ei air, ei ffŷrdd, a'i bobl ef; Ac nid fel yr wŷt ti yn dy Anwŷbodaeth yn tybied.

Gobeithiol. Goſynnwch a ddatcuddiwŷd Criſt erſoed iddo ef o'r Nefoedd.

Anwŷbodaeth. Pa beth? Gŵr ydŷchi am ddatcuddiadau! Yr wŷf yn coelio nad ŷw'r hŷn a ddywedaſoch chwi eich dau, a'r hŷn a mae pawb eraill o honoch yn ei ddywedŷd ynghŷlch y matter ymma, ond ffrwŷth eich ynfydrwŷdd, a gwendid eich pennau.

Gobeithiol. Paham ŵr! Y mae Criſt mor guddiedig yn Nuw, oddiwrth ddealltwriaeth naturiol yr hôll ddynnion cnawdol; Fel nas geill un dŷn ei ddynabod ef iw iechŷdwriaeth ei hun, oddigerth i Dduw 'r Tâd ei ddatcuddio ef iddo.

Anwŷbodoeth. Hynnŷ ŷw 'ch ffŷdd chwi, ac nid fy ffŷdd i; Ac etto nid wŷf yn ammeu nad ŷw fy ffŷdd i cyſtal a'ch ffŷdd chwithau;- Er nad oes yn fy nghoppa i gymmaint o opiniwnau gweigion ag ſŷdd yn eich pennau chwi.

CRISTION. Rhoddwch gennad i minneu i lefaru un gair; Ni ddylechi ſiarad mor yſgafn am y pwngc ymma: Canŷs hŷn a ddywedaf i yn hŷf (megis a dywedodd ſy nghydymaith anwŷbodaeth o'r blaen) nad eill un dŷn ddynabod Ieſu Criſt,

oddigerth

oddigerth i'r Tâd ei ddatcuddio ef iddo (*Matthew* 11. 25.) Ie, ffŷdd hefŷd (a'r hon y mae'r enaid yn dal gafael ar Grift os gwir ffŷdd ŷw hi) a weithir ynghalon dŷn, trwŷ ryfeddol, a mawr allu Duw (*Epheſiaid* 1. 18. 19. & 2. 8.) Ond rwi'n deall o Anghydnabyddus, na wŷddoſti (druan gŵr) ddim yn y Bŷd, ynghŷlch gweithrediad y ffŷdd ymma yn dy enaid dy hun: Deffro gan hynnŷ, a dwŷs yſtyria dy drueni dy hun; A dôs at yr Arglwŷdd Ieſu; A thrwŷ ei gyfiawnder ef, yr hwn ŷw cyfiawnder Duw (canŷs mae ef ei hun yn Dduw) fyth waredir di rhag damnedigaeth.

Anwŷbodaeth. Yr ydŷch chwi yn cerdded mor gyflŷm fel nad allafi gŷd-gerdded a chwi, Ewch rhagoch; I mae'n rhaid i mi aros ychydig o'r ôl; Yna y Pererinod a ganaſant fel hŷn.

Anwŷbodaeth, Ow! Pa hŷd?
A byddi ynfŷd ellwaith?
A wrthodi gyngor ffri,
A'l gynnig i ti ganwaith?

Os gwrthodi mewn môdd ſŷnn,
Cydnebŷdd hŷn yn fanwl,
Cŷn pen nemmawr, cel'n ddinam
Roi cyfrif am y cwbwl.

Mewn prŷd ac amſer coſia hŷn,
Daroſtwng ddŷn, nag ofna
Gyngor dâ; Os cymri fo
A'th achub; Gwrando arnaf.

Os byddi bŷw mewn cyflwr caeth,
Mewn Anwŷbodaeth rhyfedd:
Gwŷbŷdd hŷn, a byddi'n ſiwr
Golledwr yn y diwedd.

Yna

Yna Criſtion a lefarodd wrth ei Gydymaith fel hŷn.

CRISTION. Tyred fy nghydymaith *Gobeithiol*, mi a welaf fôd yn rhaid i ni ymdeithio ein hunain dracheſn.

Fellu mi a welwn Griſtion a *Gobeithiol* yn cerdded ymlaen yn ſuan; Ac *Anwŷbodaeth* a ddaeth dan gyrchneitio ar eu hôl: Yna ebŷr Criſtion wrth ei gydymaith, Mae'n ddrŵg iawn gennif dros y Gŵr truenus ymma; Mae'n ddiammeu gennif a bŷdd hi caled arno yn y diwedd.

Gobeithiol. Och! Och! Mae llaweroedd o'n Trêf ni yn ei gyflwr ef, ſef Teuluoedd, ie Yſtrydoedd cyfan, a rheini mewn proffes yn Bererinod hefŷd, ac od oes cymmaint yn ein parthau ni; Pa ſawl un dybygwch ſŷdd yn y mann lle ganwŷd hwn yntho?

CRISTION. Yn wir mae'r Gair yn dywedŷd, Efe a ddalloldd eu llygaid fel na welent; &c. Ond yrawron yr ydŷm ni ymma ein hunain; Pa beth a feddyliwn ni am y fâth ddynnion a hwn? A ydŷnt hwŷ ar rŷw amſeroedd dybygech chwi, dan Argyoeddiadau am bechod, a thrwŷ ganlyniaeth mewn oſn fod eu cyflwr yn beryglus.

Gobeithiol. Nage, attebwch y cweſtiwn hwnnw eich hunan; Canŷs yr ydŷchi'n hŷn na myfi.

CRISTION. Yr wŷf yn atteb gan hynnŷ, eu bôd nhwŷ weithieu (im tŷb i) dan argyoeddiadau, ac arſwŷd; Ond o herwŷdd eu bôd wrth naturiaeth yn anwŷbodus, nid ydŷnt yn deall fôd mo'r argyoeddiadau hynnŷ er daioni iddŷnt; Ac am hynnŷ i maent yn ddewr yn ymdrech iw mygu a'u llethu hwŷnt; Ac maent yn parhau yn rhyfygus, i rodio yn ffŷrdd eu calonnau Twŷllodrus, gan ddywedŷd heddwch wrth eu heneidiau eu hunain yn y cyflwr hwnnw.

Gobeith-

Gobeithiol. Yr ydwŷf yn credu fôd y peth megis yr ydŷch yn dywedŷd; Sef bôd ofn yn gwaſanaethu yn fawr, i weithio (trwŷ help yſprŷd Duw) ddaioni mewn dynnion, ac iw cymhwyſo nhw i fyned ar Bererindod pan ddechreuant eu Taith.

CRISTION Diammeu ŷw hynnŷ, os bŷdd ef fel a dyleu fôd; Canys fellu y mae 'r Gair yn dywedŷd, Dechreuad doethineb ŷw ofn yr Arglwŷdd (*Diharebion* 9. 10.)

Gobeithiol. Pa fôdd a deallwn ni beth ydŷw gwir ofn yr Arglwŷdd?

CRISTION. Gwir ofn Duw a adwaenir wrth y tri phethau ymma.

Yn Gyntaf, Wrth ei ddechreuad, yr ydŷw argyoeddiad iachuſol am bechod; Sef y fâth argyoeddiad ag ſŷ'n gwaſgu'n galed ar ddŷn, i ymofŷn am iechŷdwriaeth trwŷ Griſt, ac nid i gilio oddiwrth Griſt.

Yn Ail, I mae'n gyrru'r Enaid i ddal gafael yn dŷnn ar Griſt am iechŷdwriaeth.

Yn Drydŷdd, I mae'n gweithio, ac yn cynnal i fynu (yn yr enaid) barch mawr tuagat Dduw a'i Air, a'i Ffŷrdd, gan gadw yn yr Enaid dynerwch calon ynghŷd a gofal ac arſwŷd. rhag troi oddiwrthŷnt ar y llaw ddeheu, na'r aſſwŷ at ddim ar a eill Ddianrhydeddu Duw, neu a Dorro heddwch yr enaid, neu a driſthâo yr yſprŷd glân; neu a roddo fantais i Elynnion yr Arglwŷdd i gablu (*Rhufeiniaid* 2. 23. *Pſalm* 51. 8. *Ezeciel* 63. 10. 2 *Samuel* 12. 14.)

Gobeithiol. Chwi a ddywedaſoch yn ddâ, yr wŷfyn credu i chwi ddywedŷd y gwir; A ydŷm ni yrawron yn agos i fyned dros y Tir a fellteithwŷd?

CRISTION. Pam yr ydŷch yn gofŷn hynnŷ, a ydŷchi 'n blino ar yr ymddiddanion ymma?

Gobeith-

Gobeithiol. Nagydwŷf yn wir, ond dymunwn wŷbod ymha lê yr ydŷm ni.

CRISTION. Nid oes i ni yrawron oddiar ddwŷ Filltir o'r Tîr a felltithwŷd i fyned troſto: Ond dychwelwn at y matter oedd gennŷm mewn llaw; Nid ŷw'r dynnion anwŷbodol yn deall fôd yr argyoeddiadau ymma (ſŷ'n peri ofn a braw yn thŷnt) er daioni iddŷnt; Ac am hynnŷ i maent yn ceiſio eu mygu hwŷnt.

Gobeithiol. Pa fôdd a maent yn ceiſio eu mygu hwŷnt.

CRISTION. Yn gyntaf, maent yn tybied mai'r Cythrael ſŷ'n gweithio 'r dychrŷniadau hŷn ynthŷnt, (er yn ddiammeu oddiwrth Dduw a maent) ac o herwŷdd eu bôd nhw'n tybied fellu, i maent yn eu gwrthod, megis pethau a fae yn rhag-ddarparu eu diniſtr hwŷnt. Yn ail, Maent hwŷ o'r opiniwn ymma hefŷd, fôd y dychrŷniadau hŷn yn tueddu i anrheithio eu ffŷdd hwŷ (er nad oes ganthŷnt ffŷdd yn y Bŷd!) ac am hynnŷ, maent yn caledu eu calonnau yn eu herbŷn hwŷnt. Yn drydŷdd, Heblaw hŷn, i maent yn meddwl na ddylent ofni un amſer; Ac am hynnŷ gan ddirmygu, a thagu y fâth ddychrŷniadau, i maent yn digwŷdd i fôd yn bobl ryfygus a thra hyderus, er nad oes ganthŷnt reſwm yn y Bŷd am yr hyder hwnnw. Ac yn ddiweddaf, I maent yn gweled fôd y dychrŷniadau hŷn yn rhag-ddarparu dwŷn oddiarnŷnt eu gwael ſancteiddrwŷdd eu hunain; Ac am hynnŷ maent yn eu gwrthwŷnebu hwŷnt a'u hôll egni.

Gobeithiol. Yr wŷf yn gwŷbod peth o hŷn trwŷ broſiad; Canŷs cŷn i mi ſy nynabod fy hun, dymma fel yr oedd hi gyda mi.

CRISTION. Gadawn heibio yr ymchwedleua hwn ynghŷlch ein cymydog *Anwŷbodaeth*, a moſwch i ni ymddiddan am rŷw beth arall a ſo buddiol.

Gobeith.

Gobeithiol. O wîr ewŷllŷs fy nghalon; Ond mae'n rhaid i chwi ddechreu.

CRISTION. Oni adwaenechi er ys deng mhlynedd i yrawron, ŵr o'ch gwlâd chwi a elwid *Amſerol*, yr hwn oedd yn dangos (yngolwg dynnion) lawer o Zêl mewn crefŷdd y prŷd hwnnw (*Matthew* 13. 20, 21.)

Gobeithiol. El ddynabod ef! Oeddwn yn ddâ ddigon; Yr oedd ef yn bŷw yn nhréf *Dirâs*; Yr hon ſŷdd ynghŷlch dwŷ Filltir oddiwrth y Dréf a elwir *Goneſtrwŷdd*; Ac yr oedd ef yn bŷw y drŵs neſaf i un *Gwrthgiliwr*.

CRISTION. Gwîr a ddywedwch chwi; Yr oeddent hwŷ ill dau yn bŷw dan yr un Tô: Wele yr oedd y gŵr hwn (yr amſer hwnnw) wedi ei ddeffroi yn fawr iawn; Canŷs yr wŷf yn credu iddo gael peth golwg y prŷd hwnnw ar ei bechodau, ac ar y cyflog ſŷdd ddyledus iddo amdanŷnt.

Gobeithiol. Yr wŷf o'r un feddwl a chwitheu; Canŷs fe a ddae yn fynŷch attafi (o herwŷdd nid oedd fy Nhŷ i oddiar dair milltir oddiwrtho ef) a'r dagrau yn diferu i lawr rhŷd el ruddiau; Yn wîr yr oeddwn i yn toſturio droſto ef; Ac yr oedd gennif beth gobaith dâ amdano: Ond gan iddo droi el gefn ar Grefŷdd, mi allwn ddeall wrth hynnŷ mai nid pób un ar ſŷdd yn dywedŷd Arglwŷdd, Arglwŷdd, a ddaw i Deŷrnas Nefoedd.

CRISTION. Efe a ddywedodd wrthif unwaith, el fôd ef yn bwriadu myned ar Bererindod, megis yr ydŷm ninneu yrawron: Ond yn ddiſymmwth, efe a gafodd gydnabyddiaeth ag un *Hunan gadw*, Ac yna efe a aeth yn ddieithr i mi.

Gobeithiol. Yrawron, gan ein bôd ni yn ſiarad amdano ef, gadewch i ni yſtyried beth a allai fôd yr achoſion, o'i ymchweliad diſymmwth ef, a llawer eralll o'i fâth ef.

CRISTION. Fe eill hynny fôd yn fuddiol iawn, ond dechreuwch chwi.

Gobeithiol. I mae (yn fy marn i) bedwar o reſymmau am hynny.

Yn Gyntaf, Er bôd Cydwybod y fâth ddynnion wedi eu deffroi, etto er hynny nid oes dim cyfnewidiad yn eu calonnau nhw; Ac am hynny pan fo grym Euogrwydd eu pechodau wedi ei wiſco ymmaith oddiar eu cydwybod, fe ddarfu am yr hyn oedd yn eu cyffroi nhw i fôd yn grefyddol; Ac yna troant yn naturiol iw hên ffyrdd llygredig drachefn; Megis a gwelwn ni Gi pan fo yr hyn a fwydtaodd ef yn gwaſgu arno, Tra parhao ei gleſyd ef mae'n chwdu, ac yn bwrw 'r cwbl i fynu; Nid ei fôd ef yn gwneuthur hynny o'i fôdd, ond o herwydd bod y peth a fwydtaodd ef yn gorwedd yn drwm ar ei ddwyfron ef; Ond pan wellhâo ef, a phan glywo ei gylla yn yſgafn ac yn eſmwyth, nid yw ef ronyn llai ei awydd er hyn igyd at ei chwdiad; Ond i mae'n troi atto drachefn, ac yn llyfu'r cwbl i fynu: Ac am hynny gwir yw 'r hyn ſydd ſcrifenedig, y cî a ymchwelodd at ei chwdiad ei hun (1 *Peter* 2. 22.) Fellu mae 'r peth yn ſefyll gyda'r dynnion ymma; I maent hwy yn wreſſog am y Nefoedd, yn unic rhag ofn poenau Uffern; Ac megis a bytho eu hyſtyriaeth am Uffern ac ofn damnedigaeth yn oeri, ac yn lleihau; Fellu mae eu dymuniadau i'r Nefoedd ac i iechydwriaeth yn oeri hefyd.

Ac fel hyn, pan ddarfyddo eu harſwyd mae eu dymuniadau am y Nefoedd, a happuſrwydd Tragywyddol yn marw hefyd; Ac maent hwy yn dychwelyd at eu drwg arferion drachefn.

Yr Ail Rheſwm yw hyn, mae ofn ſlafaldd yn arglwyddiaethu arnynt; Yr wyf yn dywedyd yr awron am eu gwaith yn ofni dynnion; Canys ofn

dyn

dŷn ſŷdd yn dwŷn magl (*Diharebion* 29. 25.) Ac am hynnŷ er eu bod yn ymddangos yn ſywiog, ac yn wreſog am y Nefoedd, prŷd a byddo Tân Uffern o amgŷlch eu cluſtiau (ſef o herwŷdd eu bod yn llawn o ddychrŷniadau oblegîd eu pechodau) etto pan êl yr arſwŷd hwnnw ychydig heibio, hwŷ a fyddant o feddwl arall, ſef mai dâ ŷw bod yn ddoeth, ac nid rhedeg (am na wŷddant pa beth) i berŷgl o golli'r cwbl a'r a feddant er mwŷn crefŷdd; Neu or lleiaf iw hwrw eu hunain i ofudiau anocheladwŷ ac afreidiol; Ac fellu maent yn ſyrthio i ymgyfeillachu ar Bŷd dracheſn.

Yn Drydŷdd, I mae'r cywilŷdd ſŷdd ynglŷn wrth grefŷdd, yn gorwedd megis maen tramgwŷdd yn eu ffordd hwŷnt: I maent hwŷ yn uchel ac yn feilchion; Ac mae crefŷdd yn beth gwael a dirmygus yn eu golwg hwŷnt; Ac am hynnŷ pan anghofiant boenau Uffern, a'r llid a fŷdd; Hwŷ a ddychwelant at eu drŵg fucheddau dracheſn.

Yn Bedwerŷdd, Mae myfyrio am euogrwŷdd pechod, a'r coſpedigaethau dychrynllŷd, a orfŷdd ar yr annuwolion eu dioddef yn Uffern yn ſlinder: us iddŷnt; Nid ydŷnt hwŷ fodlon i ddwŷs yſtyried eu trueni cŷn a delo arnŷnt; Er a gallai y golwg arno oſgadffŷdd (pedfaent yn caru'r olwg honno) beri iddŷnt ffoi i'r lle a mae'r cyflawn yn ffoi iddo, ac yn cael diogelwch: Ond o herwŷdd eu bod nhw (fel a dywedais i o'rblaen) yn cafau myfyrdodau am Euogrwŷdd a dychrŷn; Am hynnŷ pan gaffont wared unwaith o'u myfyrdodau, a'r braw ſŷ'n canlŷn hynnŷ, ynghŷlch digofaint Duw; I maent yn ewŷllyſgar y'i caledu eu calonnau, ac yn dewis y fath ffyrdd a moddion ag a'u caledo nhw fwŷfwŷ.

CRISTION. Yr ydŷchi yn amcanu 'n agos at y marc; Canŷs ſylfaen y cwbl ŷw diffŷg cyf-

newidiad yn eu dealltwriaeth a'u hewyllys; Ac am hynny, nid ydynt ond megis y lleidr sy'n sefyll oflaen y Barnwr, yr hwn sy'n crynu, ac yn arswydo yn fawr, ac yn ymddangos fel pedfae ef yn edifeiriol o'i galon am ei ddrygioni: Ond nid yw'r cwbl ond rhag ofn y cebyst; Ac nid o herwydd ei fod yn casnau ei ddrwg weithredoedd, megis y mae'n eglur, oblegid os ceiff y gwr hwn ei rydd-did, efe a fydd yn lleidr, ac yn Rog drachefn; Ond pa bae cyfnewidiad grasol yn ei feddwl a'i ewyllys ef, fe a fyddai yn amgenach gwr.

Gobeithsol. Yrawron mysi a ddangosais i chwi yr achosion o'u hymadawiad a chrefydd; Dangoswch chwithau i minneu y modd o'u hymadawiad hwynt.

CRISTION. Hynny a wnaf yn ewyllysgar.

Yn Gyntaf, Maent yn gwyrdroi eu meddyliau, cyn belled ag a gallont oddiwrth feddwl am Dduw, am farwolaeth, ac am y Farn a fydd.

Yn Ail, Wedi hynny maent bob yn ychydig yn rhoddi heibio Ddyledswyddau neilltuol, megis Gweddi ddirgel, Ffrwyno eu Trachwantau, Gwillo, Galaru am bechod ar cyffelyb.

Yn Drydydd, Maent yn ymgadw rhag cwmpeini Cristionogion bywyog, a gwresog mewn crefydd, a Duwioldeb.

Yn Bedwaredd, Maent yn myned yn ddifraw ac yn oerllyd, ynghylch Dyledswyddau cyhoeddus, megis gwrando, Darllain, ymddiddanion Duwiol, a'r cyfryw.

Yn Bumed, Hwy a bigant dyllau (megis a dywedwn) ymheisiau rhai o'r gwyr Duwiolaf, fel a gallont gael esgus o herwydd rhyw wendid, yr oeddent yn ei weled mewn gwyr da, i daflu crefydd o'r tu ol iw cefnau.

Yn Chweched, Hwy a ddechreuant lynu wrth,

ac

ac ymgyfeillachu a Dynnion cnawdol, ofer, ac anllad.

Yn Seithfed Gwedi hynny, hwŷ a roddant lê yn ddirgel i ymddiddanion cnawdol, a hóff iawn a fŷdd ganthŷnt os gallant weled y fâth bethau mewn rhai a gyfrifir yn oneſt; Fel a gallont ſiarad yn hyfach am y fâth faſwedd trwŷ eu ſiampl hwŷ.

Yn Wŷthfed, Hwŷ a ddechreuant chwareu a phechodau bychain yn gyhoeddedig.

Ac yn ddiweddaf, Wedi eu caledu, hwŷ a ymddangoſant yn eu llun eu hun; Ac yn ôl llithro o honŷnt fel hŷn ir llyngclŷn o drueni (oddigerth i ryfeddol râs Duw eu hachub) ſe dderfŷdd am danŷnt yn dragywŷdd, yn eu twŷll a'u hudoliaethau eu hunain.

Yrawron mi welais yn fy mreuddwŷd, fod y Pererinod erbŷn hŷn wedi mŷned tros y Tîr a ſelltithwŷd, ac yn dechreu myned i wlâd *Beulah* (*Eſaŷ* 62. 4.) yr hon ſŷdd wlâd iachus a hyfrŷd; Ac yr oedd y ffordd yn myned yn uniawn trwŷddi; Ac ymma hwŷ a gymeraſant eu heſmwŷthdra tros rŷw ennŷd o amſer.

Yr oeddent ymma yn waſtadol yn clywed yr adar yn canu (*Caniadau* 2. 10, 11, 12.) Ac yn gweled y Blodau o ddŷdd i ddŷdd yn ymddangos ar y ddaiar; Ac yr oeddŷnt yn clywed llais y Durtur yn y Tîr ymma; Yn y wlâd hon heſŷd yr oedd yr haul yn tywŷnnu Nôs a Dŷdd; Ac erbŷn hŷn yr oeddent ymhell oddiwrth *Ddyffrŷn Cyſgod Angeu*; Ac heſŷd allan o gyrraedd y *Cawr Anobaith*; Ac ni allent ychwaith gymmaint a gweled *Caſtell Ambeus* o'r mann hwn: Yr oeddent hwŷ ymma wedi dyfod mewn golwg i'r Ddinas, yr oeddŷnt yn myned iddi; Hwŷ a gyfarfuant ymma heſŷd a rhai o drigolion y wlâd; Canŷs yr oedd y rhai diſclair yn rhodio yn gyffredinol yn y wlâd

hon, am ei bod hi ar duedd y Nefoedd; Yn y wlâd hon hefŷd yr adnewŷddwŷd cyfamod rhwng y Priod-fab ar Briod-ferch; Ie a Llawenŷdd y Priod-fab am y Briod-ferch, a llawenychodd eu Duw o'u plegid hwŷnt (*Eſaŷ* 62. 5.)

Nid oedd arnŷnt eiſiau na Gwîn, nac ŷd; Canŷs hwŷ a gawſant ymma ddigonolrhwŷdd o'r cwbl oll a fuaſent yn ymofŷn amdanŷnt yn eu holl Bererindod; Hwŷ a glywſant ymma uchel leferŷdd yn dyfod allan o'r Ddinas yn cyhoeddi (*Eſaŷ* 62. 11, 12.) Dywedwch wrth Ferch *Sion*, wele dy Iachawdwr yn dyfod, wele ei gyflog gydag ef: A holl drigolion y wlâd a'u galwaſant yn Bobl ſanct. aidd, gwaredigion yr Arglwŷdd.

Yrawron wrth ymdeithio yn y wlâd hon, hwŷ a gawſant fwŷ o ddiddanwch, nag a gawſant mewn mannau oedd bellach oddiwrth y Deŷrnas, yr oeddent yn myned iddi; Ac fel yr oeddŷnt yn neſu at y Ddinas, yr oedd hi'n ymddangos yn Eglurach iddŷnt nag o'r blaen; Yr oedd hi wedi ei hadeiladu a Pherlau, ac a Meini gwerthfawr: Yr oedd ei holl heolŷdd hi wedi eu Palmantu ag Aur; Criſtion wrth weled gogoniant naturiol y Ddinas, a thywŷniad Penŷd yr Haul arni, a glafychodd o wir ſerch iddi. *Gobeithiol* hefŷd a gafodd waſgfa neu ddwŷ o'r un clefŷd; Ac am hynnŷ buant ymma dros dro yn gorwedd, ac yn gwaeddi allan yn eu Lleſmeiriadau, Os gwelwch ſy anwŷlŷd mynegwch iddo fy môd yn glâf o gariad.

Ond gwedi iddŷnt wellhau a chryſhau ychydig, hwŷ a aethant iw ffordd; Ac a ddaethant yn neſnes i fann lle'r oedd Perllannau, a Gwinllanoedd, a Gerddi, a'u pŷrth yn agored tua'r Brif-ffordd; Yrawron wedi dyfod o honŷnt i fynu at y lleoedd ymma, gwelent y Garddwr yn ſefŷll ar y ffordd; A'r Pererinod a ofŷnnaſant iddo eiddo pwŷ ŷw'r

Gwîn.

Gwinllanoedd a'r Gerddi hyfryd hŷn? Yntef a attebodd eiddo'r Brenin ydŷnt; A hwy a blanwŷd ymma er mwŷn difyrrwch iddo ei hun, a diddanwch i Bererinod; Fellu'r Garddwr a'u dygodd hwŷnt i mewn i'r Gwinllanoedd; Ac a archodd iddŷnt eu hybu eu hunain a'r dainteithion oedd yno: Efe a ddangosodd iddŷnt hefŷd Rodfŷdd y Brenin, a'r Llwŷnau lle yr oedd ef yn hoffi rhodio ynthŷnt a thanŷnt; Ac ymma yr arosasant ac a cysgasant.

Yrawron, delials sulw yn sy mreuddwŷd, eu bôd nhw'n siarad mwŷ trwŷ eu cwsg y prŷd hwnnw, nag un amser arall yn eu holl Daith; Ac fel yr oeddwn yn rhyfeddu eu clowed; Dywedodd y Garddwr wrthif, paham yr wŷti yn rhyfeddu ynghŷlch y matter hwn? Mae grawn y gwinllaoedd ymma mor felus, fel a parant i wefusau y rhai sŷdd yn cysgu lefaru.

Fellu wedi iddŷnt ddeffrol mi a'u gwelwn yn ymdacclu i fyned tua'r Ddinas Nefol; Ond fel a dywedais I, yr oedd tywŷniad yr Haul ar y Ddinas (canŷs yr oedd hi o Aur pûr) yn ogoneddus dros ben (*Datcuddiad* 21. 18. 1 *Corinthiaid* 13. 12.) Fel nas gallent etto edrŷch arni a'u llygaid, ond trwŷ offerŷn a wnaethwŷd i'r pwrpas hwnnw: Fellu fel yr oeddent yn myned ymlaen, mi a welwn ddau ŵr yn cyfarfod a hwŷnt mewn gwiscoedd yn disgleirio fel Aur; A'u hwŷnebau yn llewyrchu fel yr haul.

Y Gwŷr hŷnnŷ a ofŷnnasant i'r Pererinod o ba lê yr oeddent yn dyfod? A hwŷ a synegasant iddŷnt y gwirionedd; Gofŷnnasant hefŷd, ymha lê a buasent yn lletteua? Pa anhawster a phervglon, pa gyfur a difyrrwch a gawsent hwŷ yn eu ffordd? Hwŷthau a adroddasant y cwbl ôll wrthŷnt: Yna ebŷr y Gwŷr a gyfarfu a hwŷnt, nid oes i chwi

mwŷ ond dau anhawſder i fyned trwŷddŷnt, ac ar ôl hynnŷ yr ydŷchi yn y Ddinas.

Yna Criſtion a'i Gydymaith a attolygaſant ar y Gwŷr ddyfod gyda hwŷnt; Hwŷthau a'u hatteb-aſant, a daent hwŷ gyda nhw; Ond ebŷr y Gwŷr mae'n rhaid chwi ennill hynnŷ trwŷ eich ffŷdd eich hun: Fellu mi a'u gwelwn hwŷ yn myned gyda'u gilŷdd hŷdoni ddaethant mewn golwg i'r porth.

Yrawron mi a welwn ymhellach, fôd Afon rhyngthŷnt a'r porth, heb un Bont i fyned troſti; A'r afon oedd yn ddwfn iawn: A'r Pererinod pan welſant yr afon ymma, a ſynnaſant yn fawr; A'r Gwŷr a ddaethai gyda hwŷnt a ddywedaſant, mae'n rhaid i chwi fyned trwŷ'r afon ymma, Onide ni ellwch chwi ddyfod at y porth.

Yna 'r Pererinod a ddechreuaſant ymofŷn, a oedd un ffordd arall i fyned at y porth; Hwŷthau a attebaſant, oes; Ond ni chafodd neb ond dau, ſef *Enoch* ac *Elias* droedio'r llwŷbŷr hwnnw, en pan ſeilwŷd y Bŷd (*Geneſis* 5. 24. 2 *Brenhinoedd* 2. 11. *Hebreaid* 11. 5. *Eccleſiaſticus* 44. 16.) Ac ni chaiff neb ei throedio hŷdoni ſynnio'r Udcorn diweddaf (1 *Corinthiaid* 15. 51, 52.) yna'r Pererinod (yn enwedig Criſtion) a ddechreuaſant ddigalonni yn fawr, gan edrŷch ymma a thraw, ond ni ſedrent gael ffordd yn y Bŷd i ochelŷd yr afon; Yna hwŷ a ofŷnnaſant i'r Gwŷr, oedd yr afon ymhôb mann o'r un ddyfnder? Nagydŷw ebŷr nhw; Etto ni allent moi cynnorthwyo hwŷnt yn y matter ymma; Canŷs ebŷr nhw, chwi a'i cewch hi yn ddyfnach neu yn faſach, fel a bo'ch yn credu ym Mrenin y lle.

Yna hwŷ a ymbarodtouſant i fyned ir Dwfr; A phan aethant i mewn iddo, Criſtion a ddechreuodd ſuddo; A chan waeddi ar ei gydymaith

Gobeith;

Gobeithiol, efe a ddywedodd wrtho, yr wŷf yn ſuddo mewn dyfroedd dyfnion; Y Tonnau a'r llifeiriant a aethant troſofi (*Pſalm* 42. 7. & 69. 1, 2, 3.)

Yna ebŷr y llall, bŷdd gefnog fy mrawd, myfi a glowaf y gwaelod, ac mae 'n galed ac yn ddâ; Yna ebŷr Criſtion, O fy ffrind! Gofudiau angeu am cylchaſant, Ni chafi weled y Tir lŷ'n llifeirio a llaeth a mêl; A chyda hynnŷ, Tywŷllwch mawr a dychryndod a ſyrthiodd ar Griſtion, fel nad allai weled yr hŷn oedd o'i flaen ef: Ymma hefŷd a pallodd eu ſynhwŷrau ef mewn meſſur mawr, fel na fedrai gofio, nac ymddiddan yn dref. nus, am ddim o'r hôll bethau a cawſei ef ei lawen. ychu trwŷddŷnt yn ei Bererindod: Ond cymaint ac a ddywedai ef ydoedd yn arwŷddo ei fôd ef mewn dychrŷn meddwl, ac arſwŷd calon, rhag iddo foddi yn yr Afon; Ac nas cai ef bŷth fyned i mewn i'r porth; Ymma hefŷd a deallodd y rhai oedd yn ſefŷll ger llaw iddo, ei fôd ef yn ddychrynllŷd yn ei feddwl, o herwŷdd y pechodau a wnaethai ef cŷn a chwedi iddo ddechreu ei Berer. indod; Fe ddalwŷd ſulw hefŷd, ei fôd yn cael ei ſlino wrth weled (fel a tebygai ef) Ellyllon ac Yſprydion drŵg, fel a gellŷd deall yn fynŷch wrth ei eirlau ef: *Gobeithiol* gan hynnŷ a gafodd ymma ei lawn waith, i gadw pen ei Frawd uwchlaw 'r dŵr; Ie welthiau efe a ſuddeu yn gwîr dan y dŵr, ac ymhen ennŷd efe a gyfodei i fynu dracheſn yn hanner marw; *Gobeithiol* hefŷd a geiſiei ei gy. ſuro ef, gan fynegu iddo, fy mrawd mi a welaf y Porth, a Gwŷr yn ſefŷll wrtho i'n derbŷn ni i mewn: Ond Criſtion a attebai, amdanochi, am. danochi y maent yn diſgwŷl; Canŷs yr oeddechi yn obeithiol er pan i'ch dynabum chwi; Fellu a huoch chwitheu ebŷr ef wrth Griſtion; O fy mrawd ebŷr yntef, diammeu ŷw pa bawn i wir

Griſtion

Griſtion, ſe a ddae Criſt yrawron i'm cynnorthwŷo i; Ond o herwŷdd ſy mhechodau eſe am dygodd i'r fagl, ac am gadawodd i ynthi: Yna ebŷr *Gobeithiol* ſy mrawd, ti a lwŷr anghofiaiſt y Teſtŷn, lle a dywedir am yr Annuwollon; Nid oes Rwŷmau yn eu marwolaeth, a'u cryfder ſŷdd heini; Nid ydŷnt mewn blinder fel dynnion eraill; Ac ni ddialeddir arnŷnt hwŷ gyda Dynnion eraill, (*Pſalm* 73. 4, 5.) Nid ŷw'r gofudiau a'r blinderau yr ydŷchi yn myned trwŷddŷnt yn y dyfroedd ymma, yn arwŷdd yn y Bŷd fôd Duw wedi 'ch gadel chwi; Ond hwŷ a ddanfonwŷd i'ch profi chwi, i edrŷch a gofiwchi y daioni a'r trugareddau a dderbŷnaſoch ar ei law ef euſus, a bŷw arno ef yn elch cyfyngderau.

Yna gwelwn Griſtion yn ſŷnn feddylgar dros ennŷd; A *Gobeithiol* a ddywedodd hŷn yn ychwaneg wrtho, Bŷdd gyſſurus, i mae'r Arglwŷdd Ieſu yn dy iachau di (*Eſaŷ* 40. 1, 2.) Ar hynnŷ gwaeddodd Criſtion a llêſ uchel; O myfi a'i gwelaf ef drachefn! Ac i mae'n dywedŷd wrthŷf, Pan elŷch trwŷ'r dyfroedd myfi a fyddaf gyda thi; A thrwŷ'r Afonŷŷdd fel na lifont troſot (*Eſaŷ* 43. 2.) Yna hwŷ a ymwrolaſant ill dau, a'r gelŷn gwedi hynnŷ a ſu mor llonŷdd ac mor ddlyſgog a'r garreg hŷdonid aethant troſodd; Yna Criſtion a gafodd Dîr caled i ſefŷll arno; Ac ſe ddigwŷddodd nad oedd y rhan arall o'r Afon ond bâs; Ac fel hŷn yr aethant troſodd: Yrawron ar lan yr Afon o'r tu arall, hwŷ a ganffuant y ddau ŵr mewn gwiſcoedd diſclair drachefn, yn diſgwŷl amdanŷnt hwŷ yno; Yn gynted ac a daethant allan o'r afon, hwŷ a gyfarchaſant well iddŷnt; Gan ddywedŷd Yſprydion gwaſanaethgar ydŷm ni, wedi ein danfon i waſanaethu er mwŷn y rhai a gânt etifeddu iechŷdwriaeth (*Hebreaid* 1. 14.) Fel hŷn yr aethant

ynghŷd

ynghŷd tua'r porth. Yrawron mae'n rhaid i chwi wŷbod fôd y Ddinas yn ſefŷll ar frŷn uchel; Ond y Pererinod a aethant i fynu i'r Brŷn hwnnw yn eſmwŷth, am fôd y ddau ŵr yn eu tywŷſo erbŷn eu dwŷlo; A hwŷ a adawſent hefŷd eu gwiſcoedd marwol o'u hôl yn yr Afon; Canŷs er eu bôd wedi eu gwiſco a'r dillad hynnŷ pan aethant ir afon; Etto hwŷ a ddaethant allan o honi hebddŷnt: Hwŷ a aethant i fynu gan hynnŷ yn chwimwth iawn, er bôd y ſylfaen ar yr hon yr oedd y Ddinas wedi ei hadeiladu yn uwch na'r Cymylau; Hwŷ a aethant gan hynnŷ trwŷ Ardaloedd yr awŷr, dan ymddiddan yn ddifŷr, ac yn gyſſurus; Oblegid iddŷnt ddyfod trwŷ'r afon yn ddiberygl, a bôd ganthŷnt y fâth gyfeillion gogoneddus i waſanaethu iddŷnt.

Yr ymddiddan rhyngthŷnt a'r rhai Diſclair oedd ynghŷlch gogoniant y lle; A'r gwŷr a ddywedaſant fôd ei Brydferthwch, a'i ogoniant yn anrhaethadwŷ; Yno ebŷr nhw a mae mynŷdd *Seion*, a *Chaerſelem* Nefol (*Hebreaid* 12. 22, 23, 24.) Yno a mae minteu Luoſog o Angylion, ac o yſpryd-ion y rhai Cyfiawn a berffeithwŷd; Yr ydŷchi yrawron (ebŷr nhwŷ) yn myned i Baradwŷs Duw (*Datcuddiad* 2. 7.) Lle a cewch weled pren y Bywŷd, a bwŷdta o'i ffrwŷth aniſlanedig ef: A phan ddelochi yno, ſe roddir i chwi wiſcoedd gwŷnion; A chwi a gewch gŷd rodio ac ymddiddan a'r Brenin beunŷdd; Ie a bynnŷ dros hôll Ddyddiau Tragwŷddoldeb. Ni chewch weled yno mwŷ y fâth bethau ac a welſoch pan oeddech yn y parthau iſaf, yn Ardal y Ddaiar, ſef Triſtwch, Clefŷd, Blinder a Marwolaeth (*Datcuddiad* 21. 4.) Canŷs y pethau cyntaf a aethant heibio; Yr ydŷchi yn myned yrawron at *Abraham*, *Iſaac*, a *Jacob*, ac at y Prophwŷdi (*Eſaiŷ* 57. 1, 2.) Y rhai a gym-

merodd

merodd Duw ymaith cŷn y drygfŷd oedd i ddyfod; y rhai ydŷnt yrawron yn gorphwŷs yn eu yſtafell. oedd, bôb un yn rhodio yn ei uniondeb; yna y Pererindod a oſŷnnaſant iddŷnt, Pa beth a allwn ni ddiſgwŷl amdano, a pha beth ſŷdd i ni iw wneuthur yn y lle Sanctaidd hwnnw? Hwŷthau a attebaſant, yno a' derbyniwch ffrwŷth eich hôll lafur; yno cewch Lawenŷdd yn lle Triſtwch (*Galatiaid 6. 7, 8.*) Yno a medwch yr hŷn a hauaſoch, ſef ffrwŷth eich hôll Weddiau, eich Eluſenau, eich Dagrau, a'ch Dioddefiadau tros y Brenin rhŷd y ffordd: Yno cewch wiſco Coronau o aur. a mwŷnhau tragywŷddol Breſennoldeb y ſanctaidd hwnnw (*1 Ioan 3. 2.*) Canŷs yno chwi a gewch ei weled ef megis ag a mae. Yno hefŷd a gwaſanaethwch ef yn waſtadol a Mawl, Llawenŷdd, a Diolchgarwch yr hwn yr oeddechi'n chwennychu i waſanaethu yn y Bŷd; Er bôd hynnŷ drwŷ lawer o anhawſder, o herwŷdd gwendid eich cnawd.

Yno bŷdd hôff gan eich llygaid weled, a'ch cluſtiau glywed hyfrŷd lais yr Holl-alluog: Yna cewch fwŷnhau eich ffrŷns drachefn; Y rhai a aethant ir Ddinas o'ch blaen chwi; Ac yno derbyniwch yn groeſawus gyda llawenŷdd mawr, bôb un ag a ddelo ar eich hôl ir lle ſanctaidd hwnnw; yno hefŷd a'ch gwiſgir a Gogoniant, ac Ardderchawgrwŷdd; A chwi a gewch y fâth wiſcoedd trwſſiadus ar a'ch gwna chwi'n gymmwŷs i farchogaeth gyda Brenin y Gogoniant: A phan ddel ef gyda ſŵn Udcorn yn y Cymylau, megis ar adenŷdd y gwŷnt (*1 Theſſaloniaid 4.*) Chwi a gewch ddyfod gydag ef; A phan eiſteddo ef ar orſeddfa Barn, chwi a gewch eiſtedd yn ei ymŷl ef (*Jud 14. Daniel 7. 9, 10.*) Ie a phan roddo ef Farn ar weithred. wŷr anwiredd, chwithau hefŷd a gewch roddi eich gair yn ei blaid ef yn y Farn honno (*1 Corinthiaid 6.*

6. 2. 3.) O herwŷdd eu bôd yn elynnion iddo ef, ac i chwithau hefŷd; A phan ddychwelo ir Ddinas, chwithau hefŷd a gewch fyned gydag ef, a ſŵn Udcorn, lle a cewch aros yn dragywŷdd yn ei wŷdd ef.

Yrawron tra yr oeddent fel hŷn yn neſu tua'r porth, wele minteu o'r llu Nefol a ddaeth allan iw cyfarfod hwŷnt; Wrth ba rai a dywedodd y ddau ŵr diſclair; Dymma'r gwŷr a garaſant ein Harglwŷdd ni pan oedddent yn y Bŷd; Ac a ymadawſant a'r cwbl er mwŷn ei enw ſanctaidd ef; Ac efe a'n danfonodd ni iw cyrchu hwŷnt; A nyni a'u dygaſom hwŷnt hŷd ymma yn eu Taith ddymunol, fel a gallent fyned i mewn, ac edrŷch yn wŷneb eu Prynwr mewn llawenŷdd; Yna y Llu Nefol a floeddiaſant yn uchel gan ddywedŷd, Bendigedig ŷw y rhai a elwir i Neithior Swpper yr Oen (*Dat. cuddiad 19. 9.*)

Daeth allan hefŷd ar yr amſer hwnnw amrŷw o Udcanwŷr y Brenin iw cyfarfod hwŷnt, wedi eu gwiſco mewn dillad gwŷnion diſclair, y rhain a'u peraidd-gerdd, a'u hyfrŷd lais uchel, a wnaethant i'r Nefoedd ddatſeinio: Yr Udcanwŷr hŷn a gyfarchaſant well i Griſtion a'i Gydymaith, ac a ddywedaſant, Croeſo wrthŷch filoedd o weithiau o'r Bŷd; A hŷn a wnaethant gyda Bloedd a ſŵn Udcŷrn.

Ar ôl hŷn, hwŷ a'u cylchaſant hwŷ o bôb tu; Rhai a aethant ymlaen, a rhai yn ôl, rhai ar y llaw ddeheu, a rhai ar y llaw aſſwŷ (megis iw gwaechad a'u cadw nhw trwŷ 'r parthau uchaf) dan ſeinio yn ddibaid, a phôb rhŷw feluſ-gerdd hyfrŷd; Hŷd oni thybleu'r ſawl a allai eu gweled hwŷnt, ddiſcŷn o'r Nefoedd ei hun iw cyfarfod hwŷnt: Ac fel hŷn hwŷ a aethant ymlaen ynghŷd; Ac fel yr oeddent yn rhodio, yr oedd yr Udcanwŷr yn canu yn

fyn-

ŷch

fynŷch a llais llawen a hyfrŷd, gan eu hymddwŷn eu hunain yn dirion, ac yn garedig tuagat Griſtion a'i Frawd, gan arwŷddo trwŷ eu hymddygiad hyfrŷd tuagttŷnt y croeſaw oedd iddŷnt iw cymdeithas, ac mor llawen a daethent iw cyfarfod hwŷnt: Ac yrawron yr oedd y ddau ŵr megis yn y Nefoedd, cŷn iddŷnt ddyfod atti; Ac yr oeddent yn ymfodloni yn fawr, wrth weled yr anneirif Lu o Angylion oddiamgylch; Ac wrth wrando ar eu melus-gerdd, a'u peraidd gân Soniarus; Erbŷn hŷn yr oeddent mewn golwg i'r Ddinas; A hwŷ a dybygent glowed o honŷnt yr hôll glŷch yn canu, iw croeſawu hwŷnt yno: Ond uwchlaw 'r cwbl, yr oedd eu calonnau nhw wedi eu llenwi a llawenŷdd, pan feddylient a caent aros yn y Ddinas hon yn Dargywŷddol, gyda'r fâth gymdeithion: O Pa bin a yſgrifenna, neu pa Dafod ſŷdd abl i ddatgan eu gogoneddus Lawenŷdd hwŷnt yn y matter ymma: Ac fel hŷn a daethant i fynu at y porth.

Yrawron pan ddaethant at y porth, yr oedd yn yſcrifennedig uwch ei ben ef mewn llythyrennau Aur, Gwŷn eu Bŷd y rhai ſŷ'n gwneuthur eu orchymynion ef, fel a byddo iddŷnt fraint ymhren y Bywŷd, ac a gallont fyned i mewn trwŷ'r pŷrth i'r Ddinas (*Datcuddiad* 22. 14.)

Yna clywais y Gwŷr diſclair yn erchi iddŷnt guro wrth y Porth; A phan wnaethant fellŷ, rhai o'r gwŷr oddiſewn a edrŷchaſant dros y Porth, ſef *Enoch*, *Moſes*, ac *Elias*, &c. Ac fe ddywedwŷd wrthŷnt, dymma Bererinod wedi dyfod o *Ddinas Diſtrŷw*, o herwŷdd y cariad oedd ganthŷnt at Frenin y lle ymma: Ac ar ôl hynny y Pererinod a roddaſant iddŷnt bôb un ei Dyſtiolaeth, y rhai a dderbynaſant yn nechreuad eu Taith; Hwŷthau a'u dygaſant i mewn, ac a'u dangoſaſant i'r Brenin; Ac wedi iddo eu darllain, efe a ofynnodd pa le y mae'r

Gwŷr?

Gwŷr? Nhwŷthau a attebaſant i maent yn ſeſŷll wrth y Porth; Yna'r Brenin a orchymynodd agor y Porth, fel a dêl (ebŷr ef) y genedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd (*Eſaŷ* 27. 2.)

Yrawron gwelwn yn ſy mreuddwŷd, y ddau ŵr yn myned i mewn trwŷ'r Porth; Ac wele cŷn gynted ag yr aethant i mewn, ſe a newidwŷd eu gwêdd, ac fe'u gwiſcwŷd hwŷnt a dillad yn diſcleirio fel Aur; Yno heſŷd a cyfarfu a hwŷnt rai a Thelynnau, a Choronau ganthŷnt; Y rhai a roddaſant iddŷnt (y Telynnau i ganu mawl, a'r Coronau yn arwŷdd o anrhydedd) Yna mi a glowais hôll Glŷch y Ddinas yn canu dracheſn o wîr Lawenŷdd; A dywedwŷd wrth y Pererinod, Ewch i mewn i Lawenŷdd eich Arglwŷdd; Mi a glowis heſŷd y gwŷr eu hunain yn canu a llyferŷdd uchel, gan ddywedŷd; I'r hwn ſŷdd yn eiſtedd ar yr Orſeddfaingc, ac i'r Oen a byddo y Fendith, a'r Anrhydedd, a'r Gogoniant, a'r Gallu yn oes oeſoedd (*Datcuddiad* 5. 13.)

Yrawron, cŷn gynted ag yr agorwŷd y Porth i ollwng y Pererinod i mewn, mi a edrychais ar eu hôl hwŷnt; Ac wele yr oedd y Ddinas yn diſcleirio fel yr Haul; Yr Heolŷdd heſŷd oeddŷnt wedi Palmantu ag Aur, a Rhiſedi mawr o wŷr yn rhodio ynthi, a Choronau ar eu pennau, a phalmwŷdd yn eu dwŷlo, a Thelynnau Aur i ganu mawl a hwŷnt.

Yr oedd yno rai heſŷd ag adenŷdd ganthŷnt; Ac yr oeddent yn atteb y naill y llall, heb orphwŷs ddŷdd na nôs, gan ddywedŷd, *Sanct, Sanct, Sanct* ŷw Arglwŷdd y lluoedd (*Eſaŷ* 6. 2, 3.) Ac o'r diwedd, hwŷ a gauaſant y pŷrth; A phan welais i hynnŷ, mi a ddymunais ſy môd yn eu mŷſg hwŷ.

Yrawron fel yr oeddwn yn meddwl ynoſſy bun, am yr hôll bethau a welſwn, mi a edrychais o'm hôl, ac a ganffŷm *Anwŷbodaeth* yn dyfod i lann yr aſon; Ond fe a ddaeth troſodd yn fŷan, oblegid nl

chaſodd

chafodd ef hanner y rhwŷſtŷn a gawſau y ddau ŵr eraill wrth ddyfod trwŷddi; Canŷs fe ddigwŷddodd y prŷd hwnnw fôd yno Fotiwr, yr hwn a elwid *Gwig-obaith*, yr hwn a'i dygodd ef troſodd yn ei gaſan; Fellu efe a eſcynnodd i'r Brŷn i ddyfod tua'r porth fel y lleill; Ond efe a ddaeth ar ei ben ei hunan; Canŷs ni ddaeth neb iw gyfarfod ef, gan roddi iddo'r cyſur lleiaf yn y Bŷd: A phan ddaeth i fynu at y porth, fe a edrychodd ar yr yſcrifen yr hon oedd uwch ben; A chwedi hynnŷ, fe a ddechreuodd guro, gan dybied a cawſei ei dderbŷn i fewn yn ddiaros: Ond y gwŷr a edrŷchaſant dros y porth, a ofŷnnaſant o ba le yr oedd ef yn dyfod? A pha beth a fynnei? Yntef a attebodd, mi a fwŷdteis ac a yfais gyda'r Brinin, ac efe a ddyſcodd yn eiu Heolŷdd ni (*Luc* 13. 26. 27.) Yna hwŷ a ofŷnnaſant iddo am ei Dyſtiolaeth, fel a gallent fyned i mewn, a'i ddangos i'r Brenin; Fellu fe a chwiliodd yn ei fynwes, ond ni chafodd ef yr un: Yna ebŷr nhwŷ a oes un gennŷch? Ond nid attebodd ef iddŷnt un gair; Fellu hwŷ a fynegaſant y cwbl i'r Brenin; Ond efe a naccaodd ddyfod i wared iw weled ef; Ond efe a orchymynnodd i'r ddau ŵr diſclair (y rhai a faſent yn cyfarwŷddo, ac yn cyn. northwŷo Criſtion a *Gobeithiol* i ddyfod i'r Ddinas) i fyned allan a chymmerŷd *Anwŷbodaeth*, a rhwŷmo eu Draed a'u ddwŷlo, a'i ddwŷn ymaith (*Matthew* 22. 13.) A hwŷ a'i cymeraſant, ac a'i dygaſant ef trwŷ'r Awŷr, ir Drŵs a welſwn ar ochor y Brŷn, ac a'i bwrlaſant ef i mewn yno; Yna mi a welais fôd ffordd i Uffern o Bŷrth y Nefoedd, yn gyſtal ac o Ddinas Diſtrŷw: Fellu mi a ddeffrois, ac wele Breuddwŷd oedd.

DIWEDD.